# Cynulliad Cenedlaethol Cymru
# The National Assembly for Wales

## Cofnod y Trafodion
## The Record of Proceedings

Dydd Mawrth, 21 Chwefror 2012
Tuesday, 21 February 2012

**Cynnwys**
**Contents**

3 Cwestiynau i'r Prif Weinidog
Questions to the First Minister

28 Datganiad a Chyhoeddiad Busnes Business
Statement and Announcement

36 Datganiad: Buddion Caffael Cyhoeddus i'r Economi a Chymunedau Lleol
Statement: the Benefits of Public Procurement for the Economy and Local Communities

55 Datganiad: Adroddiad Blynyddol Strategaeth Amgylcheddol 2010-11
Statement: Environment Strategy Annual Report 2010-11

70 Dulliau o Adfywio
Approaches to Regeneration

99 Setliad yr Heddlu
The Police Settlement

118 Cyfnod Pleidleisio
Voting Time

Yn y golofn chwith, cofnodwyd y trafodion yn yr iaith y llefarwyd hwy ynddi yn y Siambr. Yn y golofn dde, cynhwyswyd cyfieithiad.

In the left-hand column, the proceedings are recorded in the language in which they were spoken in the Chamber. In the right-hand column, a translation has been included.

*Cyfarfu'r Cynulliad am 1.30 p.m.gyda'r Llywydd (Rosemary Butler) yn y Gadair.*
*The Assembly met at 1.30 p.m.with the Presiding Officer (Rosemary Butler) in the Chair.*

**Y Llywydd:** Prynhawn da. Galwaf Gynulliad Cenedlaethol Cymru i drefn.

**The Presiding Officer:** Good afternoon. I call the National Assembly for Wales to order.

## Cwestiynau i'r Prif Weinidog
## Questions to the First Minister

### Amseroedd Ymateb Ambiwlansys Cymru

### Welsh Ambulance Response Times

***1. Lindsay Whittle:** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am ddigonolrwydd amseroedd ymateb ambiwlansys Cymru dros y 6 mis diwethaf. OAQ(4)0364(FM)*

***1. Lindsay Whittle:** Will the First Minister make a statement on the adequacy of Welsh ambulance response times over the past 6 months. OAQ(4)0364(FM)*

**The First Minister (Carwyn Jones):** It is testament to the hard work and commitment of the Welsh ambulance service staff that the national response time standard has been met during five of the last six months.

**Y Prif Weinidog (Carwyn Jones):** Mae'n deyrnged i waith caled ac ymroddiad staff gwasanaeth ambiwlans Cymru fod y safon genedlaethol o ran amseroedd ymateb wedi cael ei chyrraedd yn ystod pump o'r chwe mis diwethaf.

**Lindsay Whittle:** This is surely good news, First Minister, but do you not agree that it is now time to reorganise the service by making it more accountable to local health boards, who would have much greater control over response times and could respond more rapidly to local demands? Will you put political differences aside and give an assurance that this proposal will be seriously considered and a report presented to a future meeting of the Health and Social Care Committee?

**Lindsay Whittle:** Mae hynny'n sicr yn newyddion da, Brif Weinidog, ond onid ydych yn cytuno ei bod bellach yn amser ad-drefnu'r gwasanaeth drwy ei wneud yn fwy atebol i fyrddau iechyd lleol, y byddai ganddynt lawer mwy o reolaeth dros amseroedd ymateb ac a fyddai'n gallu ymateb yn fwy cyflym i ofynion lleol? A wnewch roi gwahaniaethau gwleidyddol o'r neilltu a rhoi sicrwydd y bydd y cynnig hwn yn cael ei ystyried o ddifrif ac y bydd adroddiad yn cael ei gyflwyno mewn cyfarfod o'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn y dyfodol?

**The First Minister:** There is no evidence to suggest that the service would improve if it was split among the local health boards. However, in addition to the national response time standard that I have already mentioned, I know that the target has been met during 19 of the last 23 months.

**Y Prif Weinidog:** Nid oes dim tystiolaeth i awgrymu y byddai'r gwasanaeth yn gwella pe byddai'n cael ei rannu ymhlith y byrddau iechyd lleol. Fodd bynnag, yn ogystal â'r safon amseroedd ymateb cenedlaethol yr wyf wedi ei chrybwyll eisoes, gwn fod y targed wedi'i gyrraedd yn ystod 19 o'r 23 mis diwethaf.

**Keith Davies:** Brif Weinidog, a wnewch chi sicrhau, yn wyneb unrhyw ad-drefnu ar y byrddau iechyd, y byddai unrhyw alwadau ychwanegol ar wasanaethau ambiwlans, yn nhermau cost ac anghenion amser, yn cael eu hystyried a'u cynnwys yn y broses?

**Keith Davies:** First Minister, in any reorganisation of the health boards, will you ensure that any additional demands on ambulance services, in terms of cost and time, will be taken into account and built into the process?

**Y Prif Weinidog:** Nid oes bwriad i ad-drefnu'r byrddau iechyd, ond mae'n bwysig dros ben bod yr ymddiriedolaeth ambiwlans yn rhan o'r ymgynghori sy'n digwydd ynglŷn â chynlluniau i newid gwasanaethau drwy Gymru.

**The First Minister:** There is no intention to reorganise the health boards, but it is exceptionally important that the ambulance trust is part of the consultation taking place regarding plans to change services across the whole of Wales.

**Darren Millar:** First Minister, it is regrettable that, in December, the 65% target for category A calls being met within eight minutes was not met in Wales. I know that there has obviously been a trend towards improving the service in recent years, but that fact is a disappointment. Given that the Welsh ambulance trust will face pressure on its budgets as a result of the increasing cost of fuel, particularly given the current situation in the middle east, what work are you doing to ensure that there are adequate resources for the Welsh ambulance service to ensure that it is able to meet the very demanding targets placed upon it?

**Darren Millar:** Brif Weinidog, mae'n siomedig na chafodd y targed o 65% ar gyfer galwadau categori A ei gyrraedd o fewn wyth munud yng Nghymru ym mis Rhagfyr. Gwn fod tuedd amlwg wedi bod tuag at wella'r gwasanaeth yn y blynyddoedd diwethaf, ond mae'r ffaith honno'n siomedig. O ystyried y bydd ymddiriedolaeth ambiwlans Cymru yn wynebu pwysau ar ei chyllidebau o ganlyniad i gost gynyddol tanwydd, yn enwedig o ystyried y sefyllfa bresennol yn y dwyrain canol, pa waith yr ydych yn ei wneud i sicrhau bod adnoddau digonol ar gael i wasanaeth ambiwlans Cymru i sicrhau ei fod yn gallu cyrraedd y targedau heriol iawn a bennir iddo?

**The First Minister:** We are confident that the Welsh Ambulance Services NHS Trust has the resources it needs. In December of last year, the ambulance service received over 14,000 life-threatening calls—the highest ever on record—and despite that, the target was missed by only 0.2%. That is tribute to the hard work put in by paramedics and all those involved with the ambulance service.

**Y Prif Weinidog:** Rydym yn hyderus bod gan Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru yr adnoddau sydd eu hangen arni. Fis Rhagfyr y llynedd, cafodd y gwasanaeth ambiwlans dros 14,000 o alwadau oherwydd bygythiad i fywyd—yr uchaf sydd wedi'i gofnodi erioed—ac er gwaethaf hynny, methwyd y targed o 0.2% yn unig. Mae hynny'n deyrnged i'r gwaith caled a wnaed gan barafeddygon a phawb sy'n gysylltiedig â'r gwasanaeth ambiwlans.

## Undebau Credyd

## Credit Unions

***2. Mick Antoniw:*** *A wnaiff y Prif Weinidog ddarparu datganiad yn egluro'r ffyrdd y mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi defnyddio Undebau Credyd yng Nghymru. OAQ(4)0368(FM)*

***2. Mick Antoniw:*** *Will the First Minister provide a statement clarifying the ways in which the Welsh Government supports the use of Credit Unions in Wales. OAQ(4)0368(FM)*

**The First Minister:** We are working to encourage credit union membership across the public sector in Wales, using methods such as payroll deduction. Our support for credit unions to enable them to offer an affordable alternative to high-cost lenders has helped more than 9,000 people since April 2009.

**Y Prif Weinidog:** Rydym yn gweithio i annog aelodaeth o undebau credyd ar draws y sector cyhoeddus yng Nghymru, gan ddefnyddio dulliau fel didyniad o'r gyflogres. Mae ein cefnogaeth i undebau credyd er mwyn eu galluogi i gynnig dewis arall fforddiadwy yn hytrach na benthycwyr cost uchel wedi helpu mwy na 9,000 o bobl ers mis Ebrill 2009.

**Mick Antoniw:** Thank you for that answer, First Minister, and I very much welcome the work being done by the Welsh Government. Of concern, with the new powers, is the development of the sort of services that credit unions provide and the ability to be paid through credit unions, which is a big issue, as you have identified. Will you, at a future stage, issue a statement on the progress being made with regard to those particular services?

**Mick Antoniw:** Diolch am yr ateb hwnnw, Brif Weinidog, ac rwy'n croesawu'n fawr y gwaith a wneir gan Lywodraeth Cymru. Yr hyn sy'n peri pryder, gyda'r pwerau newydd, yw datblygiad y math o wasanaethau y mae undebau credyd yn eu darparu a'r gallu i gael eich talu drwy undebau credyd, sy'n fater pwysig, fel y nodwyd gennych eisoes. A wnewch chi, yn y dyfodol, wneud datganiad am y cynnydd sy'n cael ei wneud o ran y gwasanaethau penodol hynny?

**The First Minister:** The Minister for Local Government and Communities is hosting the Wales credit union forum in Wrexham on Friday, 24 February, and the main purpose of the event is to explore how best we as a Government can support Welsh credit unions beyond the end of the current action plan and the funding arrangements that are in place, but which will end in September 2013. However, our objective remains to support credit unions to be financially viable and sustainable in the longer term.

**Y Prif Weinidog:** Bydd y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau yn cynnal cyfarfod fforwm undebau credyd Cymru yn Wrecsam ddydd Gwener 24 Chwefror, a prif bwrpas y digwyddiad hwnnw yw archwilio sut y gallwn ni fel Llywodraeth gefnogi undebau credyd Cymru yn y ffordd orau y tu hwnt i ddiwedd y cynllun gweithredu cyfredol a'r trefniadau cyllido sydd ar waith ond a fydd yn dod i ben ym mis Medi 2013. Fodd bynnag, ein hamcan yw parhau i gefnogi undebau credyd i fod yn hyfyw ac yn gynaliadwy yn ariannol yn y tymor hwy.

**Mark Isherwood:** How can the freedom delivered by the changes to the Credit Unions Act 1979 support the Welsh Government's proposals for increasing credit union representation in post offices, extending their financial services at that key interface with the public?

**Mark Isherwood:** Sut y gall y rhyddid a gyflwynir gan y newidiadau yn Neddf Undebau Credyd 1979 gefnogi cynigion Llywodraeth Cymru ar gyfer cynyddu cynrychiolaeth undebau credyd mewn swyddfeydd post, gan ymestyn eu gwasanaethau ariannol yn y rhyng-gysylltiad allweddol hwnnw â'r cyhoedd?

**The First Minister:** We welcome any legislation that makes it easier for credit unions to offer their services to savers and for members of the public to access those services. As I mentioned, there is an event at the end of this week to examine carefully how best to move forward with support for credit unions.

**Y Prif Weinidog:** Rydym yn croesawu unrhyw ddeddfwriaeth sy'n ei gwneud yn haws i undebau credyd gynnig eu gwasanaethau i gynilwyr ac i'r cyhoedd gael mynediad at y gwasanaethau hynny. Fel y soniais, mae digwyddiad ar ddiwedd yr wythnos hon i ystyried yn ofalus beth yw'r ffordd orau i symud ymlaen gyda chefnogaeth i undebau credyd.

**Vaughan Gething:** Thank you for your previous responses, First Minister. I too have raised the issue of linkage between credit unions and post offices on a number of occasions, and it is also in the Consumer Credit (Regulation and Advice) Bill proposed by Labour and Co-operative Member of Parliament Stella Creasy. I believe that it is of key importance to ensure that there is greater access, and I welcome the advert in

**Vaughan Gething:** Diolch am eich ymatebion blaenorol, Brif Weinidog. Rwyf innau hefyd wedi codi mater y cysylltiad rhwng undebau credyd a swyddfeydd post droeon, ac mae'r mater hwnnw hefyd wedi'i gynnwys yn y Bil Credyd Defnyddwyr (Rheoliad a Chyngor) a gynigiwyd gan Stella Creasy, yr Aelod Seneddol Llafur a Chydweithredol. Credaf ei bod yn allweddol bwysig sicrhau bod mwy o fynediad, a

that regard. Can you confirm whether the Welsh Government will commit to doing more work with the post office network and credit unions in Wales to drive a more co-ordinated approach to access to credit union services?

chroesawaf yr hysbyseb i'r perwyl hwnnw. A allwch gadarnhau y bydd Llywodraeth Cymru yn ymrwymo i wneud mwy o waith gyda'r rhwydwaith swyddfeydd post ac undebau credyd yng Nghymru i bwysleisio dull mwy cydlynol o gael mynediad at wasanaethau undebau credyd?

**The First Minister:** I am content to make that commitment. As I say, the Minister will be at the event on Friday, which will examine how that commitment can be taken forward and, more generally, how to make credit unions as accessible as possible.

**Y Prif Weinidog:** Rwy'n fodlon gwneud yr ymrwymiad hwnnw. Fel y dywedais, bydd y Gweinidog yn bresennol yn y digwyddiad ddydd Gwener, a fydd yn edrych ar sut y gall yr ymrwymiad hwnnw gael ei roi ar waith ac, yn fwy cyffredinol, sut y mae gwneud undebau credyd mor hygyrch â phosibl.

**Rhodri Glyn Thomas:** Hoffwn adeiladu ar y pwynt a wnaed gan Vaughan Gething, a'ch ymateb iddo, ynghylch mynediad at undebau credyd. Rydych wedi condemnio benthyciadau tymor byr a'r modd y mae'r benthyciadau hyn yn cosbi'r benthyciwr, ac rydych wedi cael cefnogaeth drawsbleidiol i'r safbwynt hwnnw. Wrth gwrs, mae llawer o'r cwmnïau hyn yn defnyddio'r dechnoleg ddiweddaraf er mwyn cael mynediad at gwsmeriaid. Beth allwch chi, fel Llywodraeth, ei wneud i sicrhau bod undebau credyd hefyd yn gallu manteisio ar y dechnoleg fodern er mwyn sicrhau bod eu gwasanaethau ar gael i bobl ledled Cymru?

**Rhodri Glyn Thomas:** I would like to take the point made by Vaughan Gething a little further, along with your respone, in terms of access to credit unions. You have condemned short-term loans and the way in which they penalise the borrower, and you have cross-party support for that standpoint. Of course, many of these companies use the latest technology in order to access new custom. What can you, as a Government, do to ensure that credit unions can also take advantage of the latest technology in order to ensure that their services are available to people throughout Wales?

**Y Prif Weinidog:** Mae cyllid ar gael i sicrhau bod mynediad at y dechnoleg fwyaf newydd ar gael i undebau credyd, a byddwn yn parhau i ystyried y mater hwn. Rwyf wedi gweld sawl undeb credyd yn defnyddio technoleg, yn enwedig y we, dros y misoedd a'r blynyddoedd diwethaf. Fodd bynnag, mae'n wir dweud bod rhai o'r cwmnïau benthyca yn soffistigedig iawn o ran y ffordd y maent yn targedu pobl. Yr hyn sydd ei angen, felly, yw deddfwriaeth yn San Steffan i sicrhau nad yw pobl yn cael eu tynnu i mewn gan y cwmnïau benthyca hyn.

**The First Minister:** Funding is available in order to ensure that credit unions can access and use the latest technology, and we will continue to consider this issue. I have seen a number of credit unions using technology, including the web, in recent months and years. However, it is true to say that some of these loan companies have exceptionally sophisticated means of targeting people. What we need, therefore, is legislation in Westminster that will ensure that people are not drawn in by these loan companies.

**Peter Black:** First Minister, you know that the issue of pay-day loans is of great concern to many Members. At the moment, credit unions do not have an equivalent product that could help people who are seeking those loans. Will the Government work with credit unions to try to develop a suitable product to tempt people away from those unscrupulous lenders who would charge huge amounts of

**Peter Black:** Brif Weinidog, gwyddoch fod benthyciadau diwrnod cyflog yn fater sy'n peri pryder i lawer o Aelodau. Ar hyn o bryd, nid oes gan undebau credyd gynnyrch cyfatebol a allai helpu pobl sy'n chwilio am y benthyciadau hynny. A fydd y Llywodraeth yn gweithio gydag undebau credyd i geisio datblygu cynnyrch addas i ddenu pobl i ffwrdd oddi wrth y benthycwyr diegwyddor

interest?

hynny a fyddai'n codi llog uchel iawn?

**The First Minister:** We know that credit unions offer an affordable alternative. If they cannot help with a loan, they will always endeavour to work with people to find an alternative solution that will help the individual in need, as opposed to a solution—if you can call it that—that traps them in a downward spiral of unmanageable debt. It is important that individuals are assisted as much as possible.

**Y Prif Weinidog:** Gwyddom fod undebau credyd yn cynnig dewis amgen fforddiadwy. Os na allant helpu gyda benthyciad, byddant bob amser yn ymdrechu i weithio gyda phobl i ddod o hyd i ateb arall a fydd yn helpu'r unigolyn sydd mewn angen, yn hytrach na chynnig ateb—os gallwch ei alw'n ateb—sy'n peri iddynt gael eu maglu gan ddyledion na ellir eu rheoli. Mae'n bwysig bod unigolion yn cael eu cynorthwyo gymaint â phosibl.

**Christine Chapman:** First Minister, people are struggling with debt at the moment, and I am pleased that credit unions are being promoted by citizens advice bureaux. Over the last year, Cynon Valley citizens advice bureau has seen a 19% increase in the number of people contacting it for debt advice. With the rising cost of living, people are struggling to manage their bills. As a result, debt counselling now accounts for 42% of enquiries to the office. Will you continue to provide support for these crucial services, especially at a time when support for the least well off is being cut by a Tory-led UK Government? Without those services and continued support from the Labour Welsh Government, people in need would be abandoned.

**Christine Chapman:** Brif Weinidog, mae pobl yn cael trafferth gyda dyledion ar hyn o bryd, ac rwy'n falch bod undebau credyd yn cael eu hyrwyddo gan ganolfannau cyngor ar bopeth. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae canolfan cyngor ar bopeth Cwm Cynon wedi gweld cynnydd o 19% yn nifer y bobl sy'n cysylltu â'r ganolfan i gael cyngor ar ddyledion. Gyda'r cynnydd mewn costau byw, mae pobl yn ei chael yn anodd rheoli eu biliau. O ganlyniad, cynghori ar ddyledion yw 42% o ymholiadau i'r swyddfa erbyn hyn. A fyddwch yn parhau i ddarparu cefnogaeth i'r gwasanaethau hanfodol hyn, yn enwedig ar adeg pan mae cefnogaeth i'r lleiaf cefnog yn cael ei thorri gan Lywodraeth y DU a arweinir gan y Torïaid? Heb y gwasanaethau hynny a chefnogaeth barhaus gan Lywodraeth Llafur Cymru, byddai pobl sydd mewn angen yn cael eu gadael heb gymorth.

**The First Minister:** We will always look to support people in their time of need, particularly when they find themselves in debt, to ensure that they are able to explore as many avenues as possible to help themselves with their finances, rather than being tempted into the clutches of the pay-day loan companies.

**Y Prif Weinidog:** Byddwn bob amser yn ceisio cefnogi pobl sydd mewn angen, yn enwedig pan fyddant mewn dyled, i sicrhau eu bod yn gallu ystyried cynifer o ffyrdd â phosibl i helpu eu hunain gyda'u harian, yn hytrach na chael eu denu i grafangau'r cwmnïau benthyciadau diwrnod cyflog.

## Cwestiynau Heb Rybudd gan Arweinwyr y Pleidiau

## Questions Without Notice from the Party Leaders

**The Leader of the Opposition (Andrew R.T. Davies):** First Minister, the Welsh Government's permanent secretary, when talking about the grants programme to the Public Accounts Committee of the Assembly, said that the Welsh Government had not been robust in ensuring that all organisations were made aware of all of the standards to which

**Arweinydd yr Wrthblaid (Andrew R.T. Davies):** Brif Weinidog, dywedodd ysgrifennydd parhaol Llywodraeth Cymru, wrth sôn am y rhaglen grantiau gerbron Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y Cynulliad, nad oedd Llywodraeth Cymru wedi bod yn gadarn o ran sicrhau bod pob sefydliad yn ymwybodol o'r holl safonau y disgwylir

they were expected to adhere. On the issue of guidance issued to the All Wales Ethnic Minority Association, can you confirm that we will not find that other organisations have fallen short of the expected standards due to a lack of guidance issued to them by the Welsh Government, particularly regarding the accounting role fulfilled by the Welsh Government?

iddynt eu cyrraedd. O ran y canllawiau a roddwyd i Gymdeithas Lleiafrifoedd Ethnig Cymru Gyfan, a allwch gadarnhau na fyddwn yn gweld bod sefydliadau eraill wedi methu â chyrraedd y safonau disgwyliedig oherwydd diffyg canllawiau gan Lywodraeth Cymru, yn enwedig mewn perthynas â rôl cyfrifyddu Llywodraeth Cymru?

**The First Minister:** Whenever a situation such as AWEMA's occurs we look at whether other organisations might have difficulties. The Charities Commission has a particular role in ensuring that charities operate properly, and with regard to AWEMA, there are two inquiries ongoing, and it would be wrong to comment until they have concluded.

**Y Prif Weinidog:** Pryd bynnag y bydd sefyllfa fel un AWEMA yn codi byddwn ystyried a allai sefydliadau eraill fod yn cael anawsterau. Mae gan y Comisiwn Elusennau rôl benodol o ran sicrhau bod elusennau yn gweithredu'n briodol, ac o ran AWEMA, mae dau ymchwiliad yn cael eu cynnal ar hyn o bryd, a byddai'n amhriodol gwneud sylwadau hyd nes eu bod wedi dod i ben.

**Andrew R.T. Davies:** Naz Malik, the former chief executive of AWEMA, gave evidence to the Communities and Culture Committee back in 2008. He said:

**Andrew R.T. Davies:** Rhoddodd Naz Malik, cyn-brif weithredwr AWEMA, dystiolaeth i'r Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant Pwyllgor yn 2008. Dywedodd:

'There is a danger of organisations that are in the charitable sector becoming so much a part of Government that they stop doing the work that they are there to do'.

Bod perygl y bydd sefydliadau yn y sector elusennol yn dod yn gymaint o ran o'r Llywodraeth nes eu bod yn rhoi'r gorau i wneud y gwaith y maent i fod i'w wneud.

Do you not think that those remarks are particularly relevant here in the AWEMA case, and that there has been too close a link between the Labour Party, the Government and these organisations? When recommendations are made by Assembly committees, they should be acted on—such as those made in the 2004 report.

Onid ydych yn meddwl bod y sylwadau hynny yn arbennig o berthnasol yn achos AWEMA, a bod perthynas ry agos wedi bod rhwng y Blaid Lafur, y Llywodraeth a'r sefydliadau hyn? Pan gaiff argymhellion eu gwneud gan bwyllgorau'r Cynulliad, dylid eu gweithredu—fel y rhai a wnaed yn adroddiad 2004.

**The First Minister:** I refer the Member to the answer I gave some moments ago.

**Y Prif Weinidog:** Rwy'n cyfeirio'r Aelod at yr ateb a roddais rai munudau'n ôl.

**Andrew R.T. Davies:** You are being defensive, First Minister. There is no reason not to comment on the report that was presented to the Assembly Government back in 2004, and the subsequent remarks in 2007. I appreciate that you might have difficulty commenting on the current revelations, which are subject to investigation and reports, as you have alluded to. However, there is a real perception that if you want a senior public appointment in Wales, you need to carry a Labour Party card. Look at local health board appointments: Maria Battle, a former Labour

**Andrew R.T. Davies:** Rydych yn amddiffynnol, Brif Weinidog. Nid oes dim rheswm dros beidio â gwneud sylwadau ar yr adroddiad a gyflwynwyd i Lywodraeth y Cynulliad yn 2004, a'r sylwadau wedi hynny yn 2007. Rwy'n sylweddoli y byddwch o bosibl yn ei chael yn anodd gwneud sylwadau ar y datguddiadau cyfredol, sy'n destun ymchwiliad ac adroddiadau, fel yr ydych wedi sôn. Fodd bynnag, ceir canfyddiad gwirioneddol os ydych am gael penodiad cyhoeddus uwch yng Nghymru, fod angen i chi gario cerdyn y Blaid Lafur.

candidate, was recently appointed as a chair; Wyn Griffiths is the chair of Abertawe Bro Morgannwg University Local Health Board; and the chair of Hywel Dda Local Health Board is a former Labour councillor. Can you assure the Chamber and the people of Wales that it is not necessary to carry a Labour Party membership card to secure a senior public appointment in Wales?

Edrychwch ar benodiadau i fyrddau iechyd lleol: cafodd Maria Battle, cyn ymgeisydd Llafur, ei phenodi'n gadeirydd yn ddiweddar; Wyn Griffiths yw cadeirydd Bwrdd Iechyd Lleol Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg; ac mae cadeirydd Bwrdd Iechyd Lleol Hywel Dda yn gyn-gynghorydd Llafur. A allwch roi sicrwydd i'r Siambr a phobl Cymru nad oes angen cario cerdyn aelodaeth y Blaid Lafur i sicrhau penodiad cyhoeddus uwch yng Nghymru?

**The First Minister:** The Member is unaware of the Nolan principles and the fact that many appointments are made openly—unlike the 1990s, when Tories who could not get elected ended up in quangos. There are plenty of examples. When they lost their seats in Parliament, or on councils, they became quangocrats in Wales, because the people of Wales did not want them as their representatives. In the 1990s, you needed to be an active Tory to sit on any board or organisation in Wales that took decisions. Now it is much more open, and unless he has evidence of this happening, and can produce that evidence, I would advise him not to make himself look so foolish in future.

**Y Prif Weinidog:** Nid yw'r Aelod yn ymwybodol o egwyddorion Nolan a'r ffaith bod llawer o benodiadau'n cael eu gwneud yn agored—yn wahanol i'r 1990au, pan oedd Torïaid nad oeddent yn gallu cael eu hethol yn mynd i'r cwangos. Mae digon o enghreifftiau. Pan fyddent yn colli eu seddi yn y Senedd, neu ar gynghorau, deuent yn gwangocratiaid yng Nghymru, oherwydd nad oedd pobl Cymru eisiau iddynt eu cynrychioli. Yn yr 1990au, roedd angen i chi fod yn Dori gweithredol i eistedd ar unrhyw fwrdd neu sefydliad yng Nghymru a oedd yn gwneud penderfyniadau. Yn awr, mae'n llawer mwy agored, ac oni bai fod ganddo dystiolaeth o hyn yn digwydd, a'i fod yn gallu dangos y dystiolaeth honno, byddwn yn ei gynghori i beidio â gwneud iddo'i hun edrych mor wirion yn y dyfodol.

**The Leader of Plaid Cymru (Ieuan Wyn Jones):** Hywel Dda Local Health Board has been allocated £80 million out of reserves over the next four years to 'support the transformation of services'. Can you tell the Chamber today what Hywel Dda LHB has agreed to deliver for that money?

**Arweinydd Plaid Cymru (Ieuan Wyn Jones):** Mae £80 miliwn wedi cael ei ddyrannu i Fwrdd Iechyd Lleol Hywel Dda o'r cronfeydd wrth gefn dros y pedair blynedd nesaf i gefnogi trawsnewid gwasanaethau. A allwch ddweud wrth y Siambr heddiw beth y mae Bwrdd Iechyd Lleol Hywel Dda wedi cytuno i'w ddarparu am yr arian hwnnw?

**The First Minister:** It is a matter of fact that, for many years, Hywel Dda LHB has required extra money, and it is no surprise that £80 million over three years was allocated to it last year. It has been made clear to all local health boards that they are expected to live within their budgets in the financial years to come.

**Y Prif Weinidog:** Ers blynyddoedd lawer, mae'n ffaith ei bod wedi bod yn ofynnol i Fwrdd Iechyd Lleol Hywel Dda gael arian ychwanegol, ac nid yw'n syndod bod £80 miliwn dros dair blynedd wedi cael ei ddyrannu iddo y llynedd. Gwnaethpwyd yn glir i bob bwrdd iechyd lleol fod disgwyl iddynt fyw o fewn eu cyllidebau yn y blynyddoedd ariannol nesaf.

**Ieuan Wyn Jones:** Is it not surprising that you have agreed to give Hywel Dda LHB £80 million but you cannot tell us what the money

**Ieuan Wyn Jones:** Onid yw'n peri syndod eich bod wedi cytuno i roi £80 miliwn i Fwrdd Iechyd Lleol Hywel Dda ond ni

is for? I am sure that the people of Wales will have listened carefully to the answer that you have given, and you are quite right—Hywel Dda LHB has been bailed out to the tune of £67 million, more than any other local health board in Wales, over the past three years, and it keeps coming back for more. This year, it has had an extra allocation of £33 million, and the board is forecasting another deficit of £4 million. Is it any wonder that clinicians in Bronglais and the people of Llanelli have lost all confidence in Hywel Dda Local Health Board? Does it have your confidence, First Minister?

allwch ddweud wrthym beth yw diben yr arian hwnnw? Rwy’n siŵr y bydd pobl Cymru wedi gwrando’n ofalus ar yr ateb yr ydych wedi’i roi, ac rydych yn llygad eich lle—mae Bwrdd Iechyd Lleol Hywel Dda wedi cael cymorth o £67 miliwn, mwy nag unrhyw fwrdd iechyd lleol arall yng Nghymru, dros y tair blynedd diwethaf, ac mae’n parhau i ddod yn ôl i gael rhagor. Eleni, mae wedi cael dyraniad ychwanegol o £33 miliwn, ac mae’r bwrdd yn rhagweld diffyg ariannol arall o £4 miliwn. A yw’n syndod, felly, fod clinigwyr ym Mronglais a phobl Llanelli wedi colli hyder ym Mwrdd Iechyd Lleol Hywel Dda? A oes hyder gennych chi hyder yn y bwrdd, Brif Weinidog?

**The First Minister:** I am not sure where the Member is coming from and whether he objects to this money being made available to Hywel Dda LHB. It would certainly help my understanding of his position if he would declare whether he thinks the money should have been paid or not.

**Y Prif Weinidog:** Nid wyf yn siŵr beth sydd gan yr Aelod dan sylw ar y mater hwn ac a yw’n gwrthwynebu bod yr arian hwn yn cael ei roi i Fwrdd Iechyd Lleol Hywel Dda. Byddai’n sicr yn fy helpu i ddeall ei safbwynt pe byddai’n datgan a yw’n credu y dylai’r arian fod wedi cael ei dalu ai peidio.

**Ieuan Wyn Jones:** What I want to know is what the LHB is doing for the money. This is £80 million of public funds, and you cannot tell us why it has been given to the LHB, or what the LHB will deliver with it. That is a perfectly proper question, and we are entitled to a response. Your silence on that will not go down well with the people of Wales. The truth is that Hywel Dda Local Health Board has not kept within its budget in any year since it was formed.

**Ieuan Wyn Jones:** Yr hyn yr wyf am ei wybod yw beth y mae’r bwrdd iechyd lleol yn ei wneud am yr arian hwn. Mae’r arian hwn yn £80 miliwn o arian cyhoeddus, ac ni allwch ddweud wrthym pam y cafodd ei roi i’r bwrdd iechyd lleol, neu beth fydd y bwrdd iechyd lleol yn ei gyflawni ag ef. Mae hwnnw’n gwestiwn cwbl briodol, ac mae gennym hawl i gael ymateb. Ni fydd pobl Cymru yn ymateb yn dda i’ch distawrwydd ar y mater hwn. Y gwir yw nad yw Bwrdd Iechyd Lleol Hywel Dda wedi cadw o fewn ei gyllideb yn yr un flwyddyn ers ei ffurfio.

1.45 p.m.

Is it not clear, therefore, that spending is out of control there? There is no guarantee that you can give today that it will keep within its budget in the future. The Minister for Health and Social Services has said that the ultimate sanction if a health board cannot keep within its finances is for it to be replaced. Are you prepared to do that in the case of Hywel Dda Local Health Board?

Onid yw’n glir, felly, fod gwariant allan o reolaeth yno? Nid oes dim sicrwydd y gallwch ei roi heddiw y bydd yn cadw o fewn ei gyllideb yn y dyfodol. Mae’r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol wedi dweud mai’r gosb eithaf os na all bwrdd iechyd gadw o fewn ei gyllid yw cael ei ddisodli. A ydych yn barod i wneud hynny yn achos Bwrdd Iechyd Lleol Hywel Dda?

**The First Minister:** The situation will be examined at the right time. I am still confused as to the Member’s position. Is he

**Y Prif Weinidog:** Bydd y sefyllfa yn cael ei harchwilio ar yr adeg iawn. Rwyf yn dal yn ddryslyd ynghylch safbwynt yr Aelod. A

saying that he thinks that the money should not have been spent and that, on that basis, services should have been cut in the Hywel Dda area? The reality is that Hywel Dda health board finds itself in the situation of having to run four district general hospitals in a very rural area. May I add that no-one is suggesting that there should be fewer than four DGHs? A substantial investment of £38 million is taking place at Bronglais General Hospital, which is an important hospital. It is well-known that Prince Philip, Glangwili and Withybush hospitals provide important services for people in their areas. It is right to say that Hywel Dda health board has struggled financially year after year, but, if that is the case, why is it that so many of his party's Members have resisted tooth-and-nail any changes that would assist the board in dealing with the situation?

yw'n dweud ei fod yn credu na ddylai'r arian fod wedi cael ei wario ac, ar sail hynny, y dylai gwasanaethau fod wedi cael eu cwtogi yn ardal Hywel Dda? Y realiti yw bod bwrdd iechyd Hywel Dda mewn sefyllfa lle y mae'n gorfod rhedeg pedwar ysbyty cyffredinol dosbarth mewn ardal wledig iawn. A gaf ychwanegu nad oes neb yn awgrymu y dylid cael llai na phedwar o ysbytai cyffredinol dosbarth? Mae buddsoddiad sylweddol o £38 miliwn yn cael ei wneud yn Ysbyty Cyffredinol Bronglais, sydd yn ysbyty pwysig. Mae'n hysbys bod ysbytai Tywysog Philip, Glangwili a Llwynhelyg yn darparu gwasanaethau pwysig i bobl yn eu hardaloedd. Mae'n iawn dweud bod bwrdd iechyd Hywel Dda wedi'i chael yn anodd yn ariannol flwyddyn ar ôl blwyddyn, ond, os yw hynny'n wir, pam mae cynifer o aelodau ei blaid wedi gwrthsefyll yn llwyr unrhyw newidiadau a fyddai'n cynorthwyo'r bwrdd i ymdrin â'r sefyllfa?

**The Leader of the Welsh Liberal Democrats (Kirsty Williams):** Your Government is banning NHS patients from receiving free NHS in vitro fertilisation treatment at the popular and successful clinic at Singleton Hospital in Swansea. Could you provide us with the evidence that you have received that proves that the new fertility clinic that you are setting up in Neath Port Talbot will provide better results for patients who require IVF? While you are at it, could you also provide us with the business case that proves that this new service will provide better value for taxpayers' money?

**Arweinydd Democratiaid Rhyddfrydol Cymru (Kirsty Williams):** Mae eich Llywodraeth yn gwahardd cleifion y GIG rhag derbyn triniaeth ffrwythloni *in vitro* y GIG am ddim yn y clinig poblogaidd a llwyddiannus yn Ysbyty Singleton yn Abertawe. A allwch roi i ni'r dystiolaeth yr ydych wedi ei chael sy'n profi y bydd y clinig ffrwythlondeb newydd yr ydych yn ei sefydlu yng Nghastell-nedd Port Talbot yn rhoi gwell canlyniadau i gleifion sydd angen triniaeth ffrwythloni *in vitro*? Tra byddwch wrthi, a allwch hefyd roi i ni'r achos busnes sy'n profi y bydd y gwasanaeth newydd hwn yn cynnig gwell gwerth am arian y trethdalwyr?

**The First Minister:** Expert independent advice commissioned by the Welsh Health Specialised Services Committee has clearly recommended having a two-centre NHS model, with one management structure. That much is important. That evidence makes clear that that is the best model for patients.

**Y Prif Weinidog:** Mae cyngor arbenigol annibynnol a gomisiynwyd gan Bwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru wedi argymell yn glir gael model GIG yn seiliedig ar ddwy ganolfan, gydag un strwythur rheoli. Mae hynny'n bwysig. Mae'r dystiolaeth honno yn ei gwneud yn glir mai dyna yw'r model gorau i gleifion.

**Kirsty Williams:** You are stopping the funding of IVF treatment in Swansea and the fertility centre in Cardiff, as you well know, has been forced to cut the number of people it can treat every week as a result of incidents at that centre, which is putting a huge strain

**Kirsty Williams:** Yr ydych yn atal ariannu triniaeth IVF yn Abertawe, ac mae'r ganolfan ffrwythlondeb yng Nghaerdydd, fel y gwyddoch, wedi cael ei gorfodi i ostwng nifer y bobl y mae'n gallu eu trin bob wythnos o ganlyniad i ddigwyddiadau yn y

on IVF services in Wales. In your conference speech on Saturday, you said that the NHS was made in Wales and was safe in Wales under Labour. Could you confirm or deny this afternoon that, as a direct result of your policy, women in west Wales must now not only drive past the clinic in Swansea, but also the clinic in Cardiff, and receive their IVF treatment in Bristol?

ganolfan honno, sy'n rhoi pwysau aruthrol ar wasanaethau IVF yng Nghymru. Yn eich araith yn y gynhadledd ddydd Sadwrn, dywedasoch fod y GIG wedi'i wneud yng Nghymru ac yn ddiogel yng Nghymru o dan y Blaid Lafur. A allwch gadarnhau neu wadu y prynhawn yma, o ganlyniad uniongyrchol i'ch polisi, fod yn rhaid i fenywod yng ngorllewin Cymru bellach nid yn unig yrru heibio i'r clinig yn Abertawe, ond hefyd y clinig yng Nghaerdydd, a chael eu triniaeth IVF ym Mryste?

**The First Minister:** No; we are looking to provide IVF treatment in Wales. However, you must bear in mind that the clinic in Swansea is a private clinic. I do not accept that it is necessarily a good clinic. Indeed, I have had plenty of casework surrounding what was the Cromwell IVF and Fertility Centre in Swansea. There are a number of issues that affect IVF treatment. First, the Human Fertilisation and Embryology Authority, when in existence, changed the rules many times over the years, particularly with regard to egg donation, cycles and the number of embryos that could be implanted. All of these things create uncertainty for couples who, understandably, want to have a child. We want to ensure that people can access these services in order to have a fighting chance of having a child of their own.

**Y Prif Weinidog:** Na; rydym yn chwilio am gyfleoedd i ddarparu triniaeth IVF yng Nghymru. Fodd bynnag, rhaid i chi gadw mewn cof mai clinig preifat yw'r clinig yn Abertawe. Nid wyf yn derbyn ei fod o reidrwydd yn glinig da. Yn wir, yr wyf wedi cael digon o waith achos yn ymwneud â Chanolfan IVF a Ffrwythlondeb Cromwell gynt yn Abertawe. Mae nifer o faterion sy'n effeithio ar driniaeth IVF. Yn gyntaf, pan oedd yr Awdurdod Ffrwythloni Dynol ac Embryoleg yn bodoli, newidiodd y rheolau droeon dros y blynyddoedd, yn enwedig o ran y broses o roi wyau, cylchredau a nifer yr embryonau y gellid eu mewnblannu. Mae'r holl bethau hyn yn creu ansicrwydd i gyplau sydd, fel y gellir deall, yn awyddus i gael plentyn. Rydym am sicrhau y gall pobl gael mynediad at y gwasanaethau hyn er mwyn cael y siawns orau o gael plentyn eu hunain.

**Kirsty Williams:** It is funny that the First Minister seems to believe that, just because the clinic in Swansea is a private clinic, it must be a bad clinic. After all, the NHS in Wales has had successful contracts with this clinic for many years. It is interesting that only yesterday Ed Miliband said,

**Kirsty Williams:** Mae'n rhyfedd bod y Prif Weinidog, i bob golwg, yn credu, oherwydd bod y clinig yn Abertawe yn glinig preifat, ei fod yn glinig gwael, mae'n rhaid. Wedi'r cyfan, mae'r GIG yng Nghymru wedi cael contractau llwyddiannus gyda'r clinig hwn ers blynyddoedd lawer. Mae'n ddiddorol bod Ed Miliband, ddoe ddiwethaf, wedi dweud,

'In Government, Labour used the private sector to support the NHS in getting waiting times down. That was the right thing to do. We want to see the private sector, where it is needed, working alongside the NHS, delivering for NHS patients.'

Mewn Llywodraeth, roedd Llafur yn defnyddio'r sector preifat i gefnogi'r GIG i leihau amseroedd aros. Dyna oedd y peth iawn i'w wneud. Rydym am weld y sector preifat, lle y bo'i angen, yn gweithio ochr yn ochr â'r GIG, yn cyflawni ar gyfer cleifion y GIG.

You will be aware that fertility clinicians have said that the move to set up a new NHS clinic will cost over £1 million and that success rates will not be as high as they are in

Byddwch yn ymwybodol bod meddygon sy'n arbenigo ar ffrwythlondeb wedi dweud y bydd y cam i sefydlu clinig GIG newydd yn costio dros £1 miliwn ac na fydd cyfraddau

the Swansea clinic. You cannot prove that this will lead to better results for those people and that it will provide better value for taxpayers' money. There are women who now have to travel further into England to get IVF services. Will you explain to those women and those families why it is that they must travel further because of your political dogma and ideology, rather than your commitment to outcomes?

llwyddo mor uchel ag y maent yng nghlinig Abertawe. Ni allwch brofi y bydd hyn yn arwain at well canlyniadau ar gyfer y bobl hynny nac yn rhoi gwell gwerth am arian y trethdalwyr. Mae gennym fenywod yn awr sy'n gorfod teithio ymhellach i Loegr i gael gwasanaethau IVF. A wnewch egluro wrth y menywod hynny a'r teuluoedd hynny pam mae'n rhaid iddynt deithio ymhellach oherwydd eich dogma a'ch ideoleg wleidyddol, yn hytrach na'ch ymrwymiad i ganlyniadau?

**The First Minister:** They will get a better service. Experience teaches us that that is the case. It certainly is far from the case that the clinic in Swansea was delivering the kind of service that you describe.

**Y Prif Weinidog:** Byddant yn cael gwell gwasanaeth. Mae profiad wedi dangos inni mai felly y mae. Mae'n sicr yn bell o fod yn wir bod y clinig yn Abertawe yn darparu'r math o wasanaeth yr ydych yn ei ddisgrifio.

### Cefnogi Pobl Anabl

### Support for Disabled People

***3. Julie James:*** *A wnaiff y Prif Weinidog amlinellu cynlluniau Llywodraeth Cymru i gefnogi pobl anabl yng Nghymru. OAQ(4)0358(FM)*

***3. Julie James:*** *Will the First Minister outline the Welsh Government's plans to support disabled people in Wales. OAQ(4)0358(FM)*

**The First Minister:** We support the right of disabled people to participate fully in society and to exercise the same choices as everyone else.

**Y Prif Weinidog:** Yr ydym yn cefnogi hawl pobl anabl i gymryd rhan lawn mewn cymdeithas ac i arfer yr un dewisiadau â phawb arall.

**Julie James:** First Minister, will you join me in rejecting the emerging narrative at the other end of the M4 that people with disabilities are scroungers? The National Autistic Society has said that the Department for Work and Pensions is guilty of helping to drive the media narrative around benefits, portraying those who receive benefits as work-shy scroungers or people who are abusing a system that is easy to cheat. This worrying rhetoric is a result of the disastrous Welfare Reform Bill that the Conservatives and Liberal Democrats are trying to force through the House of Commons. I am not alone in being concerned about this. Charities such as Scope, Mencap, the National Autistic Society, and Disability Alliance say that that narrative is making disabled people increasingly fearful that they will be the target of resentment, harassment and violence leading to hate crimes. First Minister, I am sure that you will agree with me that here, in Wales, we value and stand on the side of citizens who have disabilities and long-term

**Julie James:** Brif Weinidog, a wnewch ymuno â mi i wrthod y naratif sy'n dod i'r amlwg ar ben arall yr M4 mai rhai sy'n byw ar draul y wlad yw pobl ag anableddau? Mae'r Gymdeithas Awtistiaeth Genedlaethol wedi dweud bod yr Adran Gwaith a Phensiynau yn euog o helpu i wthio naratif y cyfryngau ynghylch budd-daliadau, gan bortreadu'r rhai sy'n cael budd-daliadau fel rhai sy'n byw ar draul y wlad, ac arnynt ofn gwaith, neu bobl sy'n cam-drin system sy'n hawdd ei thwyllo. Mae'r rhethreg bryderus hon yn deillio o'r Mesur Diwygio Lles trychinebus y mae'r Ceidwadwyr a'r Democratiaid Rhyddfrydol yn ceisio ei orfodi drwy Dŷ'r Cyffredin. Nid fi yn unig sy'n pryderu am hyn. Mae elusennau fel Scope, Mencap, y Gymdeithas Awtistiaeth Genedlaethol, a'r Cynghrair Anabledd yn dweud bod y naratif hwnnw'n golygu bod ar bobl anabl ofn cynyddol y byddant yn dargedau dicter, aflonyddu a thrais gan arwain at droseddau casineb. Brif Weinidog, rwyf yn siŵr y byddwch yn cytuno â mi ein

illnesses—

bod yma, yng Nghymru, yn gwerthfawrogi ac yn cefnogi dinasyddion sydd ag anableddau a salwch tymor hir—

**The Presiding Officer:** Order. Are you coming to the question?

**Y Llywydd:** Trefn. A ydych yn dod at y cwestiwn?

**Julie James:** This is the question, Presiding Officer. I will say it again. First Minister, will you agree with me that here, in Wales, we value and stand on the side of citizens who have disabilities and long-term illnesses and that the Government and Welsh Labour will uphold their duty to protect the most vulnerable in society and to ensure that disabled people are able to live their lives without this fear?

**Julie James:** Dyma’r cwestiwn, Lywydd. Fe’i dywedaf eto. Brif Weinidog, a gytunwch â mi ein bod yma, yng Nghymru, yn gwerthfawrogi ac yn cefnogi dinasyddion sydd ag anableddau a salwch tymor hir ac y bydd y Llywodraeth a Llafur Cymru yn cadw at eu dyletswydd i amddiffyn y rhai mwyaf agored i niwed mewn cymdeithas ac i sicrhau bod pobl anabl yn gallu byw eu bywydau heb yr ofn hwn?

**The First Minister:** Frankly, I find it appalling that it now appears to be Government policy that people with disabilities should work for less than the minimum wage. That is something that the UK Government must explain because I know that the vast majority of people in this country will find that prospect utterly appalling.

**Y Prif Weinidog:** A dweud y gwir, yr wyf yn credu ei bod yn warthus ei bod yn ymddangos bellach mai polisi’r Llywodraeth yw y dylai pobl ag anableddau weithio am lai na’r isafswm cyflog. Mae hynny’n rhywbeth y mae’n rhaid i Lywodraeth y DU ei egluro oherwydd fy mod yn gwybod y bydd y mwyafrif llethol o bobl yn y wlad hon yn teimlo bod y posibilrwydd hwnnw’n hollol warthus.

**Mohammad Asghar:** First Minister, accessing public transport can be a hugely daunting experience for disabled people. Less than half of the railway stations in Wales are fully accessible to disabled people and travel information is often difficult to find in an accessible format in bus and rail stations. What is the Welsh Government doing to ensure that disabled people find it as easy as possible to use public transport in Wales?

**Mohammad Asghar:** Brif Weinidog, gall defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus fod yn brofiad hynod ddigalon i bobl anabl. Mae llai na hanner y gorsafoedd rheilffordd yng Nghymru yn gwbl hygyrch i bobl anabl ac mae gwybodaeth am deithio yn aml yn anodd ei darganfod mewn fformat hygyrch mewn gorsafoedd bysiau a threnau. Beth mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i sicrhau bod pobl anabl yn ei chael mor hawdd â phosibl defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus yng Nghymru?

**The First Minister:** We have always committed ourselves to ensuring that buses are accessible and that trains are as accessible as possible. Unfortunately, the UK Government has taken the view that it does not wish to assist disabled people in the way that it should.

**Y Prif Weinidog:** Yr ydym wedi ymrwymo bob amser i sicrhau bod bysiau’n hygyrch a bod trenau mor hygyrch ag y bo modd. Yn anffodus, mae Llywodraeth y DU o’r farn nad yw’n dymuno cynorthwyo pobl anabl yn y ffordd y dylai.

**Jocelyn Davies:** First Minister, apart from facing increased stigma, many disabled people are being declared fit for work and are facing a significant drop in their income at a time when they are least likely to secure a

**Jocelyn Davies:** Brif Weinidog, ar wahân i wynebu stigma cynyddol, mae llawer o bobl anabl yn cael eu datgan yn addas i weithio ac yn wynebu gostyngiad sylweddol yn eu hincwm ar adeg pan fônt yn lleiaf tebygol o

job. That loss of income will have a corresponding effect on their local economy, because that is where they spend their money. Are you able to quantify the loss to the Welsh economy as a result of the UK Government's welfare reform?

**The First Minister:** It is a substantial loss. Many people in Wales rely substantially on the welfare system as it is at the moment. Any cuts to that system that make it difficult for them to access the money that they need will inevitably affect not only them, but the Welsh economy as a whole.

### Cynhyrchu Ynni Adnewyddadwy

***4. Russell George:*** *A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am bolisi Llywodraeth Cymru ar gyfer cynhyrchu ynni adnewyddadwy yng Nghymru. OAQ(4)0369(FM)*

**The First Minister:** I will be issuing a statement on energy policy early in the spring.

**Russell George:** In light of your meeting with the joint ministerial committee yesterday, I agree with you that there are tremendous prospects for low-carbon energy investment in Wales. The push for devolving consent for all energy projects up to 100 MW is one that I fully agree with. However, the recent uncertainty regarding current and potential investments is not all about with whom they are dealing, but what the policy intention is. You mentioned that you will be making that statement before the spring, First Minister, could you be more specific and agree to bring that statement forward?

**The First Minister:** I have been talking to the energy supply companies and with all those who are involved in energy supply and generation in Wales on a regular basis. Information from those meetings that I have held will be fed into the comprehensive statement that will be made.

**Vaughan Gething:** First Minister, will you consider providing in the energy statement a clear route map to achieving renewable

gael swydd. Bydd y gostyngiad hwnnw yn eu hincwm yn cael effaith gyfatebol ar eu heconomi leol, oherwydd dyna lle y maent yn gwario eu harian. A ydych yn gallu mesur y golled i economi Cymru o ganlyniad i ddiwygio lles Llywodraeth y DU?

**Y Prif Weinidog:** Mae'n golled sylweddol. Mae llawer o bobl yng Nghymru yn dibynnu'n helaeth ar y system les fel ag y mae ar hyn o bryd. Bydd unrhyw doriadau yn y system honno sy'n ei gwneud yn anodd iddynt gael mynediad at yr arian sydd ei angen arnynt yn cael effaith anochel nid yn unig arnynt hwy, ond ar economi Cymru yn ei chyfanrwydd.

### Renewable Energy Generation

***4. Russell George:*** *Will the First Minister make a statement about the Welsh Government's policy for renewable energy generation in Wales. OAQ(4)0369(FM)*

**Y Prif Weinidog:** Byddaf yn cyhoeddi datganiad ar bolisi ynni yn gynnar yn y gwanwyn.

**Russell George:** Yng ngoleuni eich cyfarfod â'r cyd-bwyllgor Gweinidogion ddoe, rwyf yn cytuno â chi fod rhagolygon gwych ar gyfer buddsoddi mewn ynni carbon isel yng Nghymru. Mae'r ymgyrch i ddatganoli caniatâd ar gyfer yr holl brosiectau ynni hyd at 100 MW yn un yr wyf yn cytuno'n llwyr â hi. Fodd bynnag, nid yw'r ansicrwydd diweddar ynghylch buddsoddiadau presennol a phosibl yn ymwneud yn llwyr â phwy y maent yn trafod â hwy, ond beth yw'r bwriad o ran polisi. Soniasoch y byddwch yn gwneud y datganiad hwnnw cyn y gwanwyn, Brif Weinidog, a allwch fod yn fwy penodol a chytuno i ddod â'r datganiad ymlaen?

**Y Prif Weinidog:** Rwyf wedi bod yn siarad â'r cwmnïau cyflenwi ynni ac â phawb sy'n ymwneud â chyflenwi a chynhyrchu ynni yng Nghymru yn rheolaidd. Bydd gwybodaeth yn sgîl y cyfarfodydd hynny yr wyf wedi'u cynnal yn cael eu bwydo i'r datganiad cynhwysfawr a fydd yn cael ei wneud.

**Vaughan Gething**: Brif Weinidog, a wnewch ystyried darparu yn y datganiad ynni drywydd clir ar gyfer cyflawni targedau ynni

energy targets in Wales that builds on the Government's current targets? In particular, will the Government consider providing an annual report on how much progress has been made across Wales in delivering an increase in renewable energy generation and reinforcing the level and speed of change required to secure a low-carbon energy future?

adnewyddadwy yng Nghymru sy'n adeiladu ar dargedau presennol y Llywodraeth? Yn benodol, a wnaiff y Llywodraeth ystyried darparu adroddiad blynyddol ar faint o gynnydd sydd wedi'i wneud ar draws Cymru o ran sicrhau cynnydd mewn cynhyrchu ynni adnewyddadwy ac atgyfnerthu lefel a chyflymder y newid sydd ei angen i sicrhau dyfodol ynni carbon isel?

**The First Minister:** In terms of an annual report, that is something best contained in the annual report on the programme for government that is due in May.

**Y Prif Weinidog:** O ran adroddiad blynyddol, mae hynny'n rhywbeth y mae'n well ei gynnwys yn yr adroddiad blynyddol ar y rhaglen lywodraethu y mae disgwyl ei gyhoeddi ym mis Mai.

**Yr Arglwydd Elis-Thomas:** Brif Weinidog, un o'r anawsterau rydym ni wedi'i brofi yn y pwyllgor hyd yma yn ein hastudiaeth ar bolisi ynni a chynllunio yw gwybod beth yw gwir resymeg Llywodraeth y Deyrnas Unedig—os oes ganddi resymeg—yn gwrthod y cais hwn yr ydych wedi'i wneud sawl gwaith, ac un a gafodd ei wneud gan eich rhagflaenwyr, os rwy'n cofio'n iawn. Beth yn eich barn chi yw'r gwir reswm pam fod Llywodraeth y Deyrnas Unedig mor gyndyn i wneud peth sydd mor amlwg o safbwynt gweithredu effeithlon ym maes polisi ynni?

**Lord Elis-Thomas:** First Minister, one of the difficulties that we have experienced so far in committee in our inquiry into energy and planning policy is to know the UK Government's exact rationale—if it has one—in rejecting this bid that you have made on a number of occasions, a bid that was also made by your predecessors, if I remember rightly. What, in your opinion, is the real reason why the UK Government is so reluctant to do something that is so obviously beneficial in terms of efficient work in the field of energy policy?

**Y Prif Weinidog:** Mae hwnnw'n gwestiwn iddynt hwy. Yr ateb sy'n cael ei roi yw mai mater i gomisiwn Silk yw hwn. Yn y cyfamser, rydym yn mynd i golli cyfleoedd i greu swyddi yng Nghymru, i greu sgiliau, ac i ddenu buddsoddiad o achos y ffaith ein bod yn ffaelu â sicrhau'r un lefel o sybsidi o ran, er enghraifft, ynni morol â'r Alban. Tra bo hynny'n parhau dros y flwyddyn a hanner neu ddwy flynedd nesaf, oherwydd comisiwn Silk, bydd Cymru yn colli allan ar swyddi.

**The First Minister:** That is a question for them. The answer that is given is that this is a matter for the Silk commission. In the meantime, we are going to lose out on opportunities to create jobs and skills in Wales, and to attract investment because we cannot ensure the same level of subsidy for marine energy, for example, as Scotland. While that remains the case for the next year and a half or two years, because of the Silk commission, Wales will lose out on jobs.

**Aled Roberts:** Brif Weinidog, ddydd Gwener diwethaf, cyhoeddwyd strategaeth gan Lywodraeth yr Alban ynglŷn â chynhyrchu trydan wrth ddefnyddio dŵr. O ystyried eich ateb i Russell George, a fydd eich datganiad chi yn y gwanwyn yn dangos sut mae eich Llywodraeth chi yn mynd i ddatblygu polisi yn y maes hwn?

**Aled Roberts:** First Minister, last Friday, the Scottish Government published a strategy on hydroelectricity. Given your answer to Russell George, will your statement in the spring demonstrate how your Government will develop policy in this area?

**Y Prif Weinidog:** Bydd y datganiad ei hun yn un cynhwysfawr, a bydd yn ystyried pob maes ynni a'r cyfleoedd sydd ar gael yng Nghymru.

**The First Minister:** The statement will be a comprehensive one that will consider all energy areas and the opportunities that are available to Wales.

*Ni ofynnwyd cwestiwn 5, OAQ(4)0359(FM).*
*Question 5, OAQ(4)0359(FM), not asked.*

**Amddiffynfeydd rhag Llifogydd**

**Flood Defences**

***6. Ann Jones:*** *Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i wella amddiffynfeydd rhag llifogydd yn Nyffryn Clwyd. OAQ(4)0367(FM)*

***6. Ann Jones:*** *What action is the Welsh Government taking to enhance flood defences in the Vale of Clwyd. OAQ(4)0367(FM)*

**The First Minister:** We have committed nearly £6.4 million towards flood alleviation schemes in Rhyl and Denbigh, which helped to reduce the number of properties at significant risk of flooding from just under 7,500 to less than 600.

**Y Prif Weinidog:** Yr ydym wedi neilltuo bron £6.4 miliwn tuag at gynlluniau lliniaru llifogydd yn y Rhyl a Dinbych, a helpodd i leihau nifer yr eiddo a oedd mewn perygl sylweddol yn sgîl llifogydd o ychydig llai na 7,500 i lai na 600.

**Ann Jones:** The Association of British Insurers has recently published out-of-date figures on flood risks across the UK, causing great upset to many home owners within my constituency, and to many more, I should imagine. Major projects, as you have mentioned, have been funded by the Welsh Government, including the £5 million for action in Denbigh and also the west Rhyl coastal defence scheme. Prestatyn home owners have been downgraded from significant risk to low risk by the Environment Agency. In short, homes in the Vale of Clwyd are now safer, thanks to the Welsh Government. Do you agree that the Association of British Insurers should listen to the Environment Agency’s up-to-date evidence, which reflects risk reduction, rather than use out-of-date figures to support its own vested interest?

**Ann Jones:** Mae Cymdeithas Yswirwyr Prydain wedi cyhoeddi yn ddiweddar hen ffigurau ar berygl llifogydd ar draws y DU, gan achosi gofid mawr i lawer o berchnogion tai yn fy etholaeth i, ac i lawer mwy, byddwn yn dyfalu. Mae prosiectau mawr, fel yr ydych wedi sôn, wedi cael eu hariannu gan Lywodraeth Cymru, gan gynnwys y £5 miliwn ar gyfer gweithredu yn Ninbych a hefyd cynllun amddiffyn yr arfordir yng ngorllewin y Rhyl. Mae perchnogion tai ym Mhrestatyn wedi cael eu hisraddio o berygl sylweddol i risg isel gan Asiantaeth yr Amgylchedd. Yn fyr, mae cartrefi yn Nyffryn Clwyd yn awr yn fwy diogel, diolch i Lywodraeth Cymru. A ydych yn cytuno y dylai Cymdeithas Yswirwyr Prydain wrando ar dystiolaeth ddiweddaraf Asiantaeth yr Amgylchedd, sy’n adlewyrchu lleihau’r perygl, yn hytrach na defnyddio hen ffigurau i gefnogi ei diddordeb hi ei hun?

**The First Minister:** Absolutely. The ABI seems to be using figures that are out of date. Certainly, they are figures that were rebutted not only by us, but the Environment Agency as well. Surely, insurance is a business based on up-to-date information, but if this is the information that is being used by the ABI, it is not in the interest of consumers or the insurance industry.

**Y Prif Weinidog:** Yn hollol. Ymddengys bod yr ABI yn defnyddio hen ffigurau. Yn sicr, maent yn ffigurau a wrthbrofwyd nid yn unig gennym ni, ond gan Asiantaeth yr Amgylchedd yn ogystal. Yn sicr, mae yswiriant yn fusnes sy’n seiliedig ar yr wybodaeth ddiweddaraf, ond os mai dyma’r wybodaeth a ddefnyddir gan yr ABI, nid yw er lles defnyddwyr na’r diwydiant yswiriant.

**Antoinette Sandbach:** First Minister, I am grateful that you were so aware of this issue, that although over 7,000 homes were indicated to be at risk, in reality, the latest modelling by the Environment Agency

**Antoinette Sandbach:** Brif Weinidog, yr wyf yn ddiolchgar eich bod mor ymwybodol o’r mater hwn, sef er bod awgrym wedi’i wneud fod mwy na 7,000 o gartrefi mewn perygl, mewn gwirionedd, mae’r gwaith

indicates a figure of around 600. Could you tell the Assembly what representations you have made to the Association of British Insurers to deal with this matter?

modelu diweddaraf gan Asiantaeth yr Amgylchedd yn dangos ffigur o tua 600. A allech ddweud wrth y Cynulliad pa sylwadau yr ydych wedi'u gwneud i Gymdeithas Yswirwyr Prydain i ymdrin â'r mater hwn?

**The First Minister:** There are four agreements in place with each of the administrations in the UK, which are all due to end in 2013. It is clear that the ABI must consider the new situation, especially in relation to flood risk. If measures are put in place that alleviate or remove flood risk, surely it is incumbent on the insurance industry to update its figures in order to provide a better appreciation of the risk involved. That is not happening, but we are working closely with the Association of British Insurers to ensure that this situation is resolved next year.

**Y Prif Weinidog:** Mae pedwar cytundeb ar waith gyda phob un o'r gweinyddiaethau yn y DU, sydd i gyd i fod i ddod i ben yn 2013. Mae'n amlwg bod yn rhaid i'r ABI ystyried y sefyllfa newydd, yn enwedig o ran perygl llifogydd. Os oes mesurau yn cael eu rhoi ar waith sy'n lleddfu neu ddileu perygl llifogydd, mae'n sicr bod dyletswydd ar y diwydiant yswiriant i ddiweddaru ei ffigurau er mwyn darparu gwell ymwybyddiaeth o'r perygl sy'n gysylltiedig. Nid yw hynny'n digwydd, ond rydym yn gweithio'n agos â Chymdeithas Yswirwyr Prydain er mwyn sicrhau y bydd y sefyllfa hon yn cael ei datrys y flwyddyn nesaf.

**The Presiding Officer:** Question 7, OAQ(4)0361(FM), has been withdrawn.

**Y Llywydd:** Tynnwyd cwestiwn 7, OAQ(4)0361(FM), yn ôl.

**Dyheadau i Lywodraeth Cymru**

**Ambitions for the Welsh Government**

***8. Janet Finch-Saunders:*** *A hithau bron yn flwyddyn ers y refferendwm ar bwerau deddfu i'r Cynulliad, a wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am ei ddyheadau i Lywodraeth Cymru wrth symud i ail flwyddyn y Pedwerydd Cynulliad. OAQ(4)0372(FM)*

***8. Janet Finch-Saunders:*** *As we approach the first anniversary of the referendum on law-making powers for the Assembly, will the First Minister make a statement on his ambitions for the Welsh Government going into the second year of the Fourth Assembly. OAQ(4)0372(FM)*

**The First Minister:** We will deliver our programme for government and our legislative programme.

**Y Prif Weinidog:** Byddwn yn cyflawni ein rhaglen lywodraethu a'n rhaglen ddeddfwriaethol.

2.00 p.m.

**Janet Finch-Saunders:** During the debate on your Welsh Government's legislative programme on 12 July 2011,you stated that the local government democracy and elections Bill would be brought forward during the second year of the legislative programme, in 2012-13. Local government elections are now closing in on us, and I believe that it would be useful for candidates to have more of an idea of the content of this Bill as they prepare to stand for these elections. What progress has been made so far and when will a full timeline for this Bill be published?

**Janet Finch-Saunders:** Yn ystod y ddadl ar raglen ddeddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar 12 Gorffennaf 2011, gwnaethoch ddweud y byddai'r Bil democratiaeth ac etholiadau llywodraeth leol yn cael ei gyflwyno yn ystod ail flwyddyn y rhaglen ddeddfwriaethol, yn 2012-13. Nid oes fawr o amser tan yr etholiadau llywodraeth leol, ac rwyf yn credu y byddai'n ddefnyddiol i ymgeiswyr gael mwy o syniad ynghylch cynnwys y Bil hwn wrth iddynt baratoi i sefyll ar gyfer yr etholiadau hyn. Pa gynnydd a wnaed hyd yn hyn a phryd y bydd amserlen lawn ar gyfer y Bil hwn yn cael ei chyhoeddi?

**The First Minister:** We expect the White Paper to be published in May.

**Y Prif Weinidog:** Rydym yn disgwyl i'r Papur Gwyn gael ei gyhoeddi ym mis Mai.

**Alun Ffred Jones:** Brif Weinidog, rydych wedi tanlinellu yn ddiweddar eich cefnogaeth i adfywio'r Gymraeg, ac rydym yn edrych ymlaen at weld y strategaeth iaith Gymraeg yn cael ei chyhoeddi ar 1 Mawrth. Gan gofio bod mentrau iaith yn ganolog i'r strategaeth honno, a ydych yn cytuno bod penderfyniad Cyngor Sir Caerfyrddin i haneru ei gefnogaeth i fentrau iaith y sir yn rhywbeth i resynu ato? A wnewch ymuno â mi i gondemnio'r fath fwriad a galw ar y cyngor i ailystyried y penderfyniad hwnnw?

**Alun Ffred Jones:** First Minister, you have recently underlined your support for revitalising the Welsh language, and we look forward to the publication of the Welsh language strategy on 1 March. Given that *mentrau iaith* are central to that strategy, do you agree that Carmarthenshire County Council's decision to halve its support for the county's *mentrau iaith* is regrettable? Will you join me in condemning this step, and call on the council to reconsider that decision?

**Y Prif Weinidog:** Nid wyf yn gwybod beth yw amgylchiadau'r penderfyniad hwnnw. Fodd bynnag, o ran y strategaeth, mae'n bwysig ein bod yn canolbwyntio ar y defnydd a wneir o'r iaith. Mewn ffordd, mae'r frwydr wedi'i hennill o ran addysg a statws swyddogol yr iaith; mae'n rhaid i ni ymladd yn awr i sicrhau bod pobl sy'n siarad Cymraeg yn defnyddio'r Gymraeg. Nid yw'r frwydr honno yn cael ei hennill mewn sawl rhan o dde Cymru, yn arbennig.

**The First Minister:** I do not know the circumstances surrounding that decision. However, in terms of the strategy, it is important that we focus on the use of the language. In a way, the battle has been won regarding official status for the language and education; we must now fight to ensure that those who speak Welsh use it. That battle is not being won in many parts of south Wales, in particular.

### Darpariaeth Tai

### Housing Provision

***9. Mohammad Asghar:*** *A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am ddarpariaeth tai yng Nghymru. OAQ(4)0363(FM)*

***9. Mohammad Asghar:*** *Will the First Minister make a statement on housing provision in Wales. OAQ(4)0363(FM)*

**The First Minister:** The housing market is complex, but to be effective we need to look at its overall health, which includes affordability, supply, quality and support services.

**Y Prif Weinidog:** Mae'r farchnad dai yn gymhleth, ond i fod yn effeithiol mae angen inni edrych ar ei hiechyd cyffredinol, sy'n cynnwys gwasanaethau cymorth, fforddiadwyedd, cyflenwad ac ansawdd.

**Mohammad Asghar:** Thank you for that answer, First Minister. South Wales East has the highest provision of social housing in Wales. Your Government set a target to improve all social housing in Wales to meet the Welsh housing quality standard by the end of this year. The Auditor General for Wales has said that, even by 2017, five years from now, only 79% of homes will be up to standard. He blames weaknesses in the Welsh Government's leadership and monitoring for this situation. How do you explain this total failure to improve the quality of social housing in Wales?

**Mohammad Asghar:** Diolch ichi am yr ateb hwnnw, Brif Weinidog. Dwyrain De Cymru sydd â'r ddarpariaeth uchaf o dai cymdeithasol yng Nghymru. Gosododd eich Llywodraeth darged i wella'r holl dai cymdeithasol yng Nghymru i gyrraedd safon ansawdd tai Cymru erbyn diwedd y flwyddyn. Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru wedi dweud, hyd yn oed erbyn 2017, ymhen pum mlynedd, mai dim ond 79% o gartrefi fydd wedi cyrraedd y safon. Mae'n beio gwendidau yn arweinyddiaeth a gwaith monitro Llywodraeth Cymru am y sefyllfa hon. Sut yr ydych yn esbonio'r methiant

llwyr hwn i wella ansawdd tai cymdeithasol yng Nghymru?

**The First Minister:** We have allocated over £570 million in social housing grants to support affordable housing schemes in Wales since 2007 and an additional £18 million will be spent in this financial year to build more homes, based on local needs identified by local authorities. I find the question slightly unbelievable from the party opposite, given that it wanted to slash the housing budget.

**Y Prif Weinidog:** Rydym wedi dyrannu dros £570 miliwn mewn grantiau tai cymdeithasol i gefnogi cynlluniau tai fforddiadwy yng Nghymru ers 2007, a bydd swm ychwanegol o £18 miliwn yn cael ei wario yn y flwyddyn ariannol hon i adeiladu rhagor o gartrefi, yn seiliedig ar anghenion lleol a nodwyd gan awdurdodau lleol. Mae'n anhygoel imi fod y blaid gyferbyn wedi gofyn y cwestiwn hwn, o gofio ei bod am dorri'r gyllideb dai.

**Seiberfwlio**

**Cyberbullying**

***10. Gwyn R. Price:*** *Beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i fynd i'r afael â seiberfwlio. OAQ(4)0366(FM)*

***10. Gwyn R. Price:*** *What is the Welsh Government doing to combat cyber bullying. OAQ(4)0366(FM)*

**The First Minister:** In addition to the comprehensive guidance on cyberbullying that we published last autumn, we have made £300,000 available to local authorities this academic year for well-evaluated behaviour management training for teachers, including specific anti-bullying interventions.

**Y Prif Weinidog:** Yn ogystal â'r canllawiau cynhwysfawr ar seiberfwlio a gyhoeddwyd gennym yn nhymor yr hydref y llynedd, rydym wedi darparu £300,000 i awdurdodau lleol yn y flwyddyn academaidd hon ar gyfer hyfforddiant rheoli ymddygiad a werthusir yn dda i athrawon, gan gynnwys ymyriadau gwrth-fwlio penodol.

**Gwyn R. Price:** Thank you for that answer, First Minister. The recent explosion in social networking among children of school age has brought with it a dramatic increase in the incidence of cyberbullying. The effects on individuals can be numerous and long-lasting. Recent surveys have shown that over a third of victims will miss some schooling because of taunts. I know how seriously your Government takes this matter, but will you commit to working with the social networking sites to bring an end to this unacceptable bullying?

**Gwyn R. Price:** Diolch am yr ateb hwnnw, Brif Weinidog. Yn sgîl y cynnydd aruthrol yn ddiweddar mewn rhwydweithio cymdeithasol ymhlith plant oedran ysgol, cafwyd cynnydd dramatig yn nifer yr achosion o seiberfwlio. Gall yr effeithiau ar unigolion fod yn niferus ac yn hirbarhaol. Mae arolygon diweddar wedi dangos y bydd dros draean y dioddefwyr yn colli rhywfaint o'u haddysg oherwydd eu bod yn cael eu gwatwar. Rwy'n gwybod bod eich Llywodraeth yn cymryd y mater hwn o ddifrif, ond a wnewch ymrwymo i weithio gyda'r safleoedd rhwydweithio cymdeithasol i roi terfyn ar fwlio annerbyniol ar y gwefannau hyn?

**The First Minister:** Yes, absolutely. We are represented on the executive board of the UK Council for Child Internet Safety, which looks to improve safety on the internet for children. I know that that body is encouraging organisations to take a greater lead in making services safer for children through industry self-regulation.

**Y Prif Weinidog:** Gwnaf, yn bendant. Fe'n cynrychiolir ar fwrdd gweithredol Cyngor y DU ar Ddiogelwch Plant ar y Rhyngrwyd, sy'n ceisio gwella diogelwch ar y rhyngrwyd i blant. Gwn fod y corff yn annog sefydliadau i wneud mwy o ymdrech i gymryd yr awenau er mwyn gwneud gwasanaethau yn fwy diogel i blant drwy hunan-reoleiddio yn y diwydiant.

**William Graham:** First Minister, will you join me in acknowledging the work of Solo Telecom, which is launching a system to detect and tackle bullying via text message next month? Will you also outline how your Government intends to co-ordinate such innovations in order to tackle this very serious problem?

**William Graham:** Weinidog, a wnewch ymuno â mi i gydnabod gwaith Solo Telecom, sy'n lansio system i ddod o hyd i achosion o fwlio a mynd i'r afael â hwy drwy neges destun fis nesaf? A wnewch hefyd amlinellu sut y mae eich Llywodraeth yn bwriadu cydlynu datblygiadau o'r fath er mwyn mynd i'r afael â'r broblem ddifrifol hon?

**The First Minister:** I welcome any initiative that helps to reduce cyberbullying, of course. I have mentioned the guidance that has already been issued and the behaviour management handbook for teachers in secondary schools. We should bear in mind that schools-based counselling in now available in all secondary schools and it has been shown to have a positive impact on children and young people. We hope, of course, that in the course of receiving counselling, children are able to identify examples of cyberbullying that can then be dealt with.

**Y Prif Weinidog:** Rwy'n croesawu unrhyw fenter sy'n helpu i leihau seiberfwlio, wrth gwrs. Rwyf wedi sôn am y canllawiau sydd eisoes wedi'u cyhoeddi a'r llawlyfr rheoli ymddygiad ar gyfer athrawon mewn ysgolion uwchradd. Dylem gofio bod cwnsela bellach ar gael ym mhob ysgol uwchradd ac mae wedi cael effaith gadarnhaol ar blant a phobl ifanc. Rydym yn gobeithio, wrth gwrs, wrth gael eu cwnsela, fod plant yn gallu nodi enghreifftiau o seiberfwlio y gellir mynd i'r afael â hwy wedi hynny.

**Simon Thomas:** Further to that point, what steps can the First Minister outline regarding the provision of schools counselling services, particularly the ability to use social networks within the school environment to alert school authorities to cyberbullying? This Government may not be able to tell Facebook to put a red button on its website, but it can at least encourage schools to take this issue a little more seriously than some are doing at the moment.

**Simon Thomas:** Yn sgîl y pwynt hwnnw, pa gamau y gall y Prif Weinidog eu hamlinellu ynglŷn â darparu gwasanaethau cwnsela mewn ysgolion, yn enwedig y gallu i ddefnyddio rhwydweithiau cymdeithasol o fewn amgylchedd yr ysgol i roi gwybod i awdurdodau'r ysgol am achosion o seiberfwlio? Efallai na fydd y Llywodraeth hon yn gallu dweud wrth Facebook am roi botwm coch ar ei wefan, ond gall o leiaf annog ysgolion i roi ystyriaeth ychydig yn fwy difrifol i'r mater hwn nag y mae rhai ysgolion yn ei wneud ar hyn o bryd.

**The First Minister:** Funding for schools-based counselling is rising from £4.5 million this year to £5 million in 2013-14. Headteachers must, by law, determine measures directed at preventing all forms of bullying, including cyberbullying, and they must have in place an anti-bullying strategy, which are central to a school's behaviour policy. All headteachers should be taking cyberbullying seriously.

**Y Prif Weinidog:** Mae cyllid ar gyfer cwnsela mewn ysgolion yn codi o £4.5 miliwn eleni i £5 miliwn yn 2013-14. Rhaid i benaethiaid, yn ôl y gyfraith, benderfynu ar fesurau a anelir at atal pob math o fwlio, gan gynnwys seiberfwlio, a rhaid iddynt fabwysiadu strategaeth gwrth-fwlio, sy'n ganolog i bolisi ymddygiad ysgol. Dylai pob pennaeth gymryd seiberfwlio o ddifrif.

## Rhaglen Ddeddfwriaethol

## Legislative Programme

***11. Lynne Neagle:*** *A wnaiff y Prif Weinidog amlinellu ei gynlluniau ar gyfer cyflawni rhaglen ddeddfwriaethol Llywodraeth*

***11. Lynne Neagle:*** *Will the First Minister outline his plans for delivering the Welsh Government's legislative programme.*

*Cymru. OAQ(4)0356(FM)*

**The First Minister:** We will continue to take a transparent and consistent approach in delivering each Bill announced as part of the five-year legislative programme.

**Lynne Neagle:** Anti-social behaviour can blight the life of people in communities up and down Wales, undermining the fundamental right to peace in your own home, which should be one of the hallmarks of any decent society. Having dealt with some particularly frustrating cases in Torfaen recently, I supported the Welsh Government's recent consultation on introducing a mandatory power of possession for social landlords involved in the delivery of housing. Do you agree that, provided that the appropriate safeguards are in place—for example, where children are involved—we have to do more through moves such as this to speed-up the eviction process, so that those who persistently disturb others through crime and anti-social behaviour cannot be allowed to hold communities to ransom for extended periods of time?

**The First Minister:** This is why we issued a consultation document last November asking people's views on introducing a mandatory power of possession. We would be introducing this with the UK Government through new legislation. The consultation closed on 10 February, and we are analysing the responses in order to provide a lasting solution to what is a difficult problem for so many.

**Andrew R.T. Davies:** In respect of your legislative programme, First Minister, you outlined that you hope to bring forward a planning Bill in the latter part of this Assembly. Many employer organisations, as well as the inward investment report published today by the House of Commons Welsh Affairs Committee, identify planning as one of the big concerns of businesses. Will your Government give urgent consideration to bringing that Bill forward, so that the Assembly is able to progress it, thereby encouraging greater inward investment and

*OAQ(4)0356(FM)*

**Y Prif Weinidog:** Byddwn yn parhau i ddefnyddio dull tryloyw a chyson wrth gyflwyno pob Bil a gyhoeddwyd fel rhan o'r rhaglen ddeddfwriaethol bum mlynedd.

**Lynne Neagle:** Gall ymddygiad gwrthgymdeithasol ddifetha bywyd pobl mewn cymunedau ar hyd a lled Cymru, gan danseilio'r hawl sylfaenol i heddwch yn eich cartref eich hun, a ddylai fod yn un o nodweddion unrhyw gymdeithas deilwng. Ar ôl ymdrin â rhai achosion arbennig o rwystredig yn Nhor-faen yn ddiweddar, cefnogais ymgynghoriad diweddar Llywodraeth Cymru ynghylch cyflwyno pŵer gorfodol i gymryd meddiant ar gyfer landlordiaid cymdeithasol sy'n ymwneud â darparu tai. A ydych yn cytuno, ar yr amod bod y mesurau diogelwch priodol ar waith—er enghraifft, pan fo'n effeithio ar blant—fod yn rhaid inni wneud mwy drwy gymryd camau fel hyn i gyflymu'r broses troi allan, er mwyn sicrhau na all y rhai sy'n cyson aflonyddu ar eraill drwy droseddu ac ymddygiad gwrthgymdeithasol yn cael dal cymunedau yn wystlon am gyfnodau estynedig o amser?

**Y Prif Weinidog:** Dyma pam y gwnaethom gyhoeddi dogfen ymgynghori fis Tachwedd diwethaf yn gofyn barn pobl am gyflwyno pŵer gorfodol i gymryd meddiant. Byddem yn cyflwyno hyn ar y cyd â Llywodraeth y DU drwy ddeddfwriaeth newydd. Daeth yr ymgynghoriad i ben ar 10 Chwefror, ac rydym yn dadansoddi'r ymatebion er mwyn darparu ateb parhaol i'r hyn sy'n broblem anodd i gynifer o bobl.

**Andrew RT Davies:** O ran eich rhaglen ddeddfwriaethol, Brif Weinidog, dywedasoch eich bod yn gobeithio cyflwyno Bil cynllunio tuag at ddiwedd y Cynulliad hwn. Mae llawer o sefydliadau cyflogwyr, yn ogystal â'r adroddiad ar fewnfuddsoddi a gyhoeddwyd heddiw gan Bwyllgor Materion Cymreig Tŷ'r Cyffredin, yn nodi cynllunio fel un o'r pryderon mawr sydd gan fusnesau. A fydd eich Llywodraeth yn rhoi ystyriaeth frys i gyflwyno'r Bil hwnnw, fel bod y Cynulliad yn gallu bwrw ymlaen ag ef, a thrwy hynny annog mwy o fewnfuddsoddi a chyfleoedd

business opportunities?

busnes?

**The First Minister:** We plan to produce the White Paper before the end of this year.

**Y Prif Weinidog:** Rydym yn bwriadu cyhoeddi'r Papur Gwyn cyn diwedd y flwyddyn hon.

**Rhodri Glyn Thomas:** Brif Weinidog, rydym yn sylweddoli erbyn hyn nad oes fawr ddim wedi digwydd o ran eich rhaglen ddeddfwriaethol, er ichi gyhoeddi y byddai'r uned ddarparu wrth galon eich Llywodraeth. A allwch ddweud wrthym beth yn union mae'r uned honno wedi ei ddarparu ers ei sefydlu bedwar mis yn ôl?

**Rhodri Glyn Thomas:** First Minister, we now realise that not much has happened with regard to your legislative programme, despite your announcement that the delivery unit would be central to your Government. Can you tell us what exactly that unit has delivered since it was set up four months ago?

**Y Prif Weinidog:** Rydym yn cyfarfod â'r uned bob wythnos. Gwaith yr uned yw sicrhau bod adrannau yn gweithio gyda'i gilydd a sicrhau bod addewidion maniffesto'r Llywodraeth yn cael eu cyflawni yn ystod tymor pum mlynedd y Llywodraeth hon. Wrth gwrs, mae gennym ni raglen lywodraethu; nid oes dim gan eich plaid chi.

**The First Minister:** We meet with the unit every week. The unit's work is to ensure that departments work together and that the Government's manifesto pledges are delivered during the Government's five-year term. We, of course, have a programme for government; your party has nothing.

## Benthycwyr Stepen Drws

## Doorstep Lenders

***12. David Rees****: Beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i annog pobl ifanc yn Aberafan i droi eu cefnau ar fenthycwyr stepen drws. OAQ(4)0357(FM)*

***12. David Rees:*** *What is the Welsh Government doing to encourage young people in Aberavon to steer away from doorstep lenders. OAQ(4)0357(FM)*

**The First Minister:** Wales's first financial inclusion strategy was published in July 2009, and that sets out our objective to provide a lead in tackling financial exclusion and in increasing financial capability among young people.

**Y Prif Weinidog:** Cyhoeddwyd strategaeth cynhwysiant ariannol gyntaf Cymru ym mis Gorffennaf 2009. Roedd yn amlinellu ein nod i gynnig arweiniad wrth fynd i'r afael ag allgáau ariannol a chynyddu gallu ariannol ymysg pobl ifanc.

**David Rees:** We have heard many questions highlighting the benefits of credit unions in this field. In my constituency, the credit union is looking at tackling this issue in the longer term by changing the mindset of the next generation of adults. In fact, Neath Port Talbot Credit Union currently runs 19 school credit union centres. Do you agree that this is an exemplary mechanism that should be encouraged across Wales?

**David Rees:** Rydym wedi clywed llawer o gwestiynau yn tynnu sylw at fanteision undebau credyd yn y maes hwn. Yn fy etholaeth i, mae'r undeb credyd yn edrych ar fynd i'r afael â'r mater hwn yn y tymor hwy drwy newid meddylfryd y genhedlaeth nesaf o oedolion. Yn wir, mae undeb credyd Castell-nedd Port Talbot yn cynnal 19 o ganolfannau undeb credyd mewn ysgolion ar hyn o bryd. A ydych yn cytuno bod hwn yn ddull rhagorol y dylid ei annog ledled Cymru?

**The First Minister:** I congratulate Neath Port Talbot Credit Union's success in growing its membership and its success with school savings clubs. Exemplars, such as

**Y Prif Weinidog:** Rwy'n llongyfarch undeb credyd Castell-nedd Port Talbot am ei lwyddiant o ran cynyddu ei aelodaeth a'i lwyddiant gyda chlybiau cynilo mewn

those that we see in Neath Port Talbot, can usefully be examined by other credit unions across Wales.

ysgolion. Gall fod yn ddefnyddiol i enghreifftiau o arferion da, megis y rhai a welwn yng Nghastell-nedd Port Talbot, gael eu hastudio gan undebau credyd eraill ledled Cymru.

**Nick Ramsay:** First Minister, do you agree that education is key to dealing with the problem of money lenders and people's susceptibility, particularly young people's susceptibility? Financial education has not always played the important role that it should have played in schools; as a result, when young people leave school, they are not well equipped to deal with problems such as debt, credit cards and money lenders. Do you agree that education can be used to alleviate this problem?

**Nick Ramsay:** Brif Weinidog, a ydych yn cytuno bod addysg yn allweddol i ymdrin â phroblem benthycwyr arian a pha mor agored i ddylanwad eraill y gall pobl fod, yn enwedig pobl ifanc? Nid yw addysg ariannol bob amser wedi chwarae'r rhan bwysig y dylai fod wedi ei chwarae mewn ysgolion; o ganlyniad, pan fydd pobl ifanc yn gadael yr ysgol, nid ydynt yn gymwys iawn i ddelio â phroblemau megis dyled, cardiau credyd a benthycwyr arian. A ydych yn cytuno y gall addysg gael ei defnyddio i liniaru'r broblem hon?

**The First Minister:** Yes.

**Y Prif Weinidog:** Ydw.

**Gwirfoddolwyr**

**Volunteers**

***13. Paul Davies:*** *Beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i gefnogi gwirfoddolwyr. OAQ(4)0360(FM)*

***13. Paul Davies:*** *What is the Welsh Government doing to support volunteers. OAQ(4)0360(FM)*

**Y Prif Weinidog:** Mae Llywodraeth Cymru yn parhau i weithio mewn partneriaeth â'r trydydd sector i gefnogi gwirfoddolwyr, trwy ganolfannau gwirfoddolwyr a thrwy roi cymorth uniongyrchol i brosiectau gwirfoddoli.

**The First Minister:** The Welsh Government continues to work in partnership with the third sector to support volunteering, through volunteer centres and direct support for volunteering projects.

**Paul Davies:** Rwy'n ddiolchgar i'r Prif Weinidog am yr ateb hwnnw. Mae etholwraig sy'n gyrru ambiwlans yn wirfoddol i fynd â chleifion i apwyntiadau ysbyty wedi cysylltu â mi. Mae'n poeni nad yw'r costau teithio yn adlewyrchu'r gost o redeg ei char, ac o ganlyniad, gan fod gyrwyr ar eu colled yn ariannol, mae mwy a mwy o bobl yn methu â pharhau i wirfoddoli. Rwy'n deall bod gyrwyr sy'n gwirfoddoli ym Mhowys yn cael lwfans o ryw 40c y filltir, a bod gwirfoddolwyr mewn ardaloedd eraill yn cael 2c yn llai, tra bo'r lwfans yn Lloegr yn 45c. A yw'r Prif Weinidog yn fodlon edrych ar y mater i sicrhau ein bod yn gwneud cymaint ag y gallwn i gefnogi'r gwirfoddolwyr hyn, sy'n gwneud gwaith arbennig o dda yn ein cymunedau?

**Paul Davies:** I am grateful to the First Minister for that answer. A constituent who volunteers with the ambulance service to take patients to hospital appointments has contacted me. She is worried that the payment that she receives does not reflect the wear and tear on her car, and as a result, because the drivers are losing out financially, more and more people are unable to go on volunteering. I understand that volunteer drivers in Powys are paid an allowance of some 40p per mile, and that volunteers in other areas receive 2p per mile less, while the allowance in England is 45p. Is the First Minister prepared to look into this, to ensure that we do all that we can to support these volunteers, who do some excellent work in our communities?

**Y Prif Weinidog:** Ydw, wrth gwrs. Os

**The First Minister:** Yes, of course. If you

ysgrifennwch ataf â'r manylion, yr wyf yn hapus i edrych ar y sefyllfa yn fanwl.

write to me with the details, I am happy to consider the issue in detail.

**Keith Davies:** Mae dros 20,000 o bobl ifanc Cymru yn cymryd rhan yng Ngwobr Dug Caeredin, ac mae dros 14% ohonynt yn siaradwyr Cymraeg. Maent i gyd yn ddiolchgar i'r holl wirfoddolwyr am eu gwaith. Roeddwn yn hapus i glywed mai sir Gâr ddaeth yn ail o ran dechreuwyr newydd ac yn drydydd o ran gwobrau a enillwyd yn 2010-11. A ydych yn cytuno bod gwirfoddoli fel hyn yn cyd-fynd â bagloriaeth Cymru mewn ffordd arbennig, o ran hunan ddatblygiad ac o ran dysgu sgiliau da i bobl ifanc?

**Keith Davies:** More than 20,000 young people in Wales take part in the Duke of Edinburgh's Award, and more than 14% of those are Welsh speakers. They are all grateful to the volunteers for their work. I was pleased to hear that Carmarthenshire came second in terms of new starters and third in terms of the awards won in 2010-11. Do you agree that such volunteering goes hand in hand with the Welsh baccalaureate, in terms of self-development and in teaching valuable skills to young people?

**Y Prif Weinidog:** Rwy'n cytuno â hynny. Mae'n bwysig bod y cynlluniau hyn yn rhoi cyfle i bobl ifanc ddysgu sgiliau ychwanegol, a fydd o gymorth iddynt yn y blynyddoedd o'u blaenau yn y coleg neu ym myd gwaith. Rwy'n siŵr eu bod yn gwerthfawrogi'r ffaith eu bod yn cael y cyfleoedd hyn.

**The First Minister:** I agree with that. It is important that these schemes give young people the opportunity to learn additional skills, which will stand them in good stead in years to come, in college or in work. I am sure that they appreciate the fact that these opportunities are available.

### Blaenoriaethau Economaidd

### Economic Priorities

***14. Andrew R.T. Davies:*** *A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am flaenoriaethau economaidd Llywodraeth Cymru ar gyfer rhanbarth Canol De Cymru. OAQ(4)0371(FM)*

***14. Andrew R.T. Davies:*** *Will the First Minister make a statement on the Welsh Government's economic priorities for the South Wales Central region. OAQ(4)0371(FM)*

**The First Minister:** The priorities are set out in the programme for government.

**Y Prif Weinidog:** Mae'r blaenoriaethau wedi'u nodi yn y rhaglen lywodraethu.

**Andrew R.T. Davies:** Thank you, First Minister, for that answer. The green investment bank decision is pending. I appreciate that it is a decision to be taken by the Westminster Government, but there has been an extensive opportunity for the Welsh Government to lobby to attract such an opportunity to Cardiff, to the central business district in particular. Do you not agree that it would be an ideal flagship project for that district? Can you outline what measures your Government has taken to actively promote the candidature of Cardiff as host for this investment bank?

**Andrew R.T. Davies:** Diolch, Brif Weinidog, am yr ateb hwnnw. Mae'r penderfyniad ynghylch y banc buddsoddi gwyrdd yn yr arfaeth. Rwy'n sylweddoli ei fod yn benderfyniad i'w gymryd gan Lywodraeth San Steffan, ond cafodd Llywodraeth Cymru gyfle helaeth i lobïo i ddenu cyfle o'r fath i Gaerdydd, i'r ardal fusnes ganolog yn arbennig. Onid ydych yn cytuno y byddai'n brosiect blaenllaw delfrydol ar gyfer yr ardal honno? A allwch amlinellu pa gamau a gymerwyd gan eich Llywodraeth i fynd ati i hyrwyddo ymgeisyddiaeth Caerdydd i fod yn lleoliad ar gyfer y banc buddsoddi?

**The First Minister:** We were banned from lobbying, so we were not able to do that. We submitted our bid for Cardiff to host the

**Y Prif Weinidog:** Cawsom ein gwahardd rhag lobïo, felly nid oeddem yn gallu gwneud hynny. Gwnaethom gyflwyno ein cais yn

green investment bank on 30 January. It is a robust bid, and it highlighted the opportunities and benefits of locating in Cardiff, taking into account the new Cardiff central business district, which we know was instrumental in securing 600 jobs, announced yesterday; we believe that more jobs are to come in the near future. It shows that Cardiff would be an excellent home for the green investment bank, and we hope that the UK Government takes the same view.

cynnig Caerdydd fel lleoliad ar gyfer y banc buddsoddi gwyrdd ar 30 Ionawr. Mae'n gynnig cadarn, ac mae'n tynnu sylw at y cyfleoedd a'r manteision o'i leoli yng Nghaerdydd, gan gymryd i ystyriaeth ardal fusnes ganolog newydd Caerdydd, y gwyddom ei bod yn allweddol o ran sicrhau'r 600 o swyddi a gyhoeddwyd ddoe; rydym yn credu bod mwy o swyddi i ddod yn y dyfodol agos. Mae'n dangos y byddai Caerdydd yn gartref ardderchog ar gyfer y banc buddsoddi gwyrdd, a gobeithiwn y bydd Llywodraeth y DU yn barnu yn yr un modd.

**Eluned Parrott:** Supporting the regeneration of depressed industrial areas must be a priority in South Wales Central. I am sure that you are aware that Rhondda Cynon Taf County Borough Council has recently produced an economic regeneration strategy, which unfortunately contains no mention of Pontypridd, Valley lines electrification, enterprise zones, parking, bus services, the A470 or, indeed, the University of Glamorgan. What support is your Government offering to local authorities to help them to develop effective and realistic regeneration plans?

**Eluned Parrott:** Rhaid i gefnogi adfywio ardaloedd diwydiannol dirwasgedig fod yn flaenoriaeth yng Nghanol De Cymru. Rwy'n siŵr eich bod yn ymwybodol bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf wedi paratoi strategaeth adfywio economaidd yn ddiweddar. Yn anffodus, nid yw'n sôn o gwbl am Bontypridd, trydaneiddio rheilffyrdd y Cymoedd, ardaloedd menter, parcio, gwasanaethau bysiau, yr A470 nac, yn wir, Prifysgol Morgannwg. Pa gymorth y mae'ch Llywodraeth yn ei gynnig i awdurdodau lleol i'w helpu i ddatblygu cynlluniau adfywio effeithiol a realistig?

**The First Minister:** Very little of the list that the Member produced has anything to do with the council; they are to do with the UK Government or the Welsh Government. However, we know that RCT council is hugely supportive of regeneration within the county boundaries. We want to assist by ensuring that electrification comes to the Valley lines. The UK Government could do its part in that regard. The A470 is another example—we know that it is an important artery in and out of Cardiff, which is why we have invested so heavily in it over the past months and years. The latest example is the improvement to the Coryton interchange.

**Y Prif Weinidog:** Nid oes a wnelo'r rhan fwyaf o'r rhestr honno â'r cyngor; maent yn faterion i Lywodraeth y DU neu Lywodraeth Cymru. Fodd bynnag, rydym yn gwybod bod cyngor Rhondda Cynon Taf yn gefnogol dros ben i adfywio o fewn y ffiniau sirol. Rydym yn awyddus i gynorthwyo drwy sicrhau bod rheilffyrdd y Cymoedd yn cael eu trydaneiddio. Gallai Llywodraeth y DU chwarae ei rhan yn hynny o beth. Mae'r A470 yn enghraifft arall—rydym yn gwybod ei bod yn brif wythïen bwysig i mewn ac allan o Gaerdydd, a dyna pam yr ydym wedi buddsoddi cymaint ynddi dros y misoedd a'r blynyddoedd diwethaf. Yr enghraifft ddiweddaraf yw'r gwelliannau i gyfnewidfa Coryton.

2.15 p.m.

### Henebion a Beicwyr

### Monuments and Cyclists

***15. William Graham:*** *A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am yr effaith ar henebion fel Twyn Barlwm a'r Amffitheatr Rhufeinig yng Nghaerllion ar ôl i feicwyr*

***15. William Graham:*** *Will the First Minister make a statement on the impact upon monuments such as Twmbarlwm and the Roman Amphitheatre in Caerleon of their*

*modur a seiclwyr eu camddefnyddio. OAQ(4)0362(FM)*

*misuse by motor and pedal cyclists. OAQ(4)0362(FM)*

**The First Minister:** Yes, we are aware of the ongoing anti-social behaviour problems. I know that officials in Cadw have been talking to local community and enforcement bodies in both areas in order to impose restrictive measures preventing further misuse of the sites.

**Y Prif Weinidog:** Rydym yn ymwybodol o’r problemau parhaus o ran ymddygiad gwrthgymdeithasol. Gwn fod swyddogion Cadw wedi bod yn siarad â chyrff yn y gymuned leol a chyrff gorfodi yn y ddwy ardal er mwyn gosod mesurau caeth i atal camddefnyddio pellach ar y safleoedd hyn.

**William Graham:** Thank you very much for your answer, First Minister. You will be fully aware of the significance of the site, particularly with regard to the Roman finds more recently in Caerleon and the campaign for Caerleon to be given world heritage site status. Can you give a timescale for when your recommendations will take effect?

**William Graham:** Diolch yn fawr iawn am eich ateb, Brif Weinidog. Byddwch yn gwbl ymwybodol o bwysigrwydd y safle, yn enwedig o ran y darganfyddiadau Rhufeinig yn ddiweddar yng Nghaerllion a’r ymgyrch i roi statws safle treftadaeth y byd i Gaerllion. A allwch roi amserlen o ran pryd y bydd eich argymhellion yn cael eu gweithredu?

**The First Minister:** Thus far, Cadw has been proactive in dealing with the issue at Twmbarlwm. A protective barrier fence has been replaced there and other access improvement works have been taking place. As far as Caerleon amphitheatre is concerned, it is now secured every evening to prevent access by pedal cycles and ad hoc patrols are being undertaken by a professional stewarding company to monitor out-of-hours behaviour and activity in and around the site. In addition, a working group has been set up in Cadw to continue to ensure that the issue is dealt with.

**Y Prif Weinidog:** Hyd yma, mae Cadw wedi bod yn rhagweithiol wrth ymdrin â’r mater yn Nhwyn Barlwm. Mae ffens amddiffynnol wedi cael ei hailosod yno ac mae gwaith arall i wella mynediad hefyd wedi cael ei wneud. Caiff amffitheatr Caerllion bellach ei diogelu bob nos er mwyn atal mynediad gan feiciau pedal ac mae patrolau ad hoc yn cael eu gwneud gan gwmni stiwardio proffesiynol i fonitro ymddygiad a gweithgarwch ar y safle ac o’i gwmpas y tu hwnt i oriau arferol. Hefyd, sefydlwyd gweithgor gan Cadw i sicrhau ei fod yn parhau i fynd i’r afael â’r mater hwn.

**Jocelyn Davies:** First Minister, on a number of occasions, I have written to Ministers to urge them to do what they can to put an end to the destruction of Twmbarlwm tump by mindless illegal motorcyclists. Will you agree to come to the monument via the wonderful Cwmcarn forest drive to see it for yourself and meet representatives of the Twmbarlwm Society, which is dedicated to the protection of the monument?

**Jocelyn Davies:** Brif Weinidog, rwyf wedi ysgrifennu at Weinidogion droeon i bwyso arnynt i wneud yr hyn a allant i roi terfyn ar ddinistrio Twyn Barlwm gan feicwyr modur anghyfreithlon difeddwl. A gytunwch i ymweld â’r heneb, gan ddod drwy goedwig hyfryd Cwm-carn i’w gweld drosoch eich hun a chyfarfod â chynrychiolwyr o Gymdeithas Twyn Barlwm, a sefydlwyd er mwyn gwarchod yr heneb?

**The First Minister:** I have been there before, but I am certainly happy to visit again in the fullness of time.

**Y Prif Weinidog:** Rwyf wedi bod yno o’r blaen, ond rwy’n sicr yn fodlon ymweld â’r safle unwaith eto yng nghyflawnder yr amser.

## Datganiad a Chyhoeddiad Busnes
## Business Statement and Announcement

**The Minister for Finance and Leader of the House (Jane Hutt):** I have one change to report to this week's planned business, which is to clarify the title of this afternoon's statement, which is on the benefits of public procurement for the economy and local communities. Business in the next three weeks is as shown on the business statement and announcement, which can be found among the agenda papers that are available to Members electronically.

**Y Gweinidog Cyllid ac Arweinydd y Tŷ (Jane Hutt):** Mae un newid i'w nodi ymusnes arfaethedig yr wythnos hon, sef egluro teitl datganiad y prynhawn yma sydd ynghylch manteision caffael cyhoeddus i'r economi a chymunedau lleol. Mae'r busnes ar gyfer y tair wythnos nesaf fel y'i gwelir yn y datganiad a chyhoeddiad busnes, sydd i'w weld ymhlith papurau'r agenda sydd ar gael i'r Aelodau ar ffurf electronig.

**Mark Isherwood:** I call for two statements, the first in response to the statement by the Community Housing Cymru group welcoming your announcement that the Welsh Government is committed to funding capital projects in Wales but repeating its call to you to allocate to social housing £122.5 million from the capital spending part of the £216 million outlined in the UK Chancellor's autumn statement. It calls on the Welsh Government to lever this capital into the social housing sector to reinvigorate the Welsh economy, it being the amount of funding that was cut from the social housing grant—yes, the Welsh Conservatives do believe in increasing the social housing budget.

**Mark Isherwood:** Galwaf am ddau ddatganiad, y cyntaf mewn ymateb i'r datganiad gan grŵp Cartrefi Cymunedol Cymru yn croesawu eich cyhoeddiad bod Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i ariannu prosiectau cyfalaf yng Nghymru ond yn ailadrodd ei alwad eich bod yn dyrannu i dai cymdeithasol £122.5 miliwn o gyfran gwariant cyfalaf y £216 miliwn a amlinellwyd yn natganiad yr hydref Canghellor y DU. Mae'n galw ar Lywodraeth Cymru i roi'r cyfalaf hwn i'r sector tai cymdeithasol i adfywio economi Cymru, oherwydd dyma faint o arian a gafodd ei dorri o'r grant tai cymdeithasol—sylwer bod y Ceidwadwyr Cymreig yn credu mewn cynyddu'r gyllideb tai cymdeithasol.

Secondly, and finally, in relation to the community transport concessionary fares initiative, roughly a month ago in this Assembly, I called on you for a statement on the plans to end the concessionary fares initiative on 31 March, as the Welsh Government plans to do, recognising the impact that this would have on the very elderly and severely disabled who are eligible for a bus pass but who find it difficult to use ordinary bus services. Your response was:

Yn ail, ac yn olaf, mewn perthynas â'r tocynnau rhatach ar gyfer trafnidiaeth gymunedol, tua mis yn ôl yn y Cynulliad, galwais am ddatganiad am y cynlluniau i ddod â'r fenter tocynnau teithio rhatach i ben ar 31 Mawrth, fel y mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu gwneud, gan gydnabod yr effaith y byddai hyn yn ei chael ar yr henoed a phobl sydd ag anableddau difrifol sy'n gymwys i gael tocyn bws ond sy'n ei chael yn anodd defnyddio gwasanaethau bws arferol. Eich ymateb oedd:

'The Welsh Government is proud of the continuing investment that we have put into the concessionary fares scheme'

'Mae Llywodraeth Cymru yn falch o'i buddsoddiad parhaus yn y cynllun teithio rhatach'

and you did not comment on the community transport concessionary fares initiative. This has been raised subsequently by me and other Members in the Chamber, calling for a

ac ni wnaethpwyd sylwadau gennych ar y fenter tocynnau teithio rhatach ar gyfer teithio cymunedol. Cafodd y mater hwn ei godi ar ôl hynny gennyf i a chan Aelodau

statement to the Assembly. However, on the Thursday before recess, in a cross-party group meeting, with the chair and me the only AMs present, a letter was read out from the Minister stating that there would now be an evaluation of the scheme and funding continued to the end of that evaluation. There was no detail, no timescale, and it provided no ability for the member organisations to plan human resources or their budgets and business plans. This Assembly should have received that statement. It should not have been made to a cross-party group, and I urge you to rectify that now.

eraill yn y Siambr yn galw am ddatganiad i'r Cynulliad. Fodd bynnag, ar y dydd Iau cyn y toriad, mewn cyfarfod o'r grŵp trawsbleidiol, pan nad oedd neb o Aelodau'r Cynulliad ond myfi a'r cadeirydd yn bresennol, darllenwyd llythyr gan y Gweinidog yn datgan y byddai gwerthusiad o'r cynllun yn cael ei gynnal, a byddai'r cyllid yn parhau hyd ddiwedd y gwerthusiad hwnnw. Ni roddwyd dim manylion nac amserlen, ac nid oedd y llythyr yn cynnig dim cyfle i'r sefydliadau sy'n aelodau gynllunio adnoddau dynol neu eu cyllidebau a'u cynlluniau busnes. Dylai'r Cynulliad fod wedi cael y datganiad hwnnw. Ni ddylai fod wedi cael ei wneud i grŵp trawsbleidiol, ac rwy'n eich annog i unioni hynny yn awr.

**Jane Hutt:** I thank Mark Isherwood for those two requests for statements. The first relates to the increased grant aid that I am giving to social housing as a result of the supplementary budget. I am very pleased, as I said yesterday, that we have been able to increase the allocation to social housing by more than £18 million, as the First Minister said earlier. It reduces the reduction in social housing from 30% to 8% as a result of our interventions. Your party here in Wales, let alone the UK Government, was clearly keen to cut the social housing grant. We are not only replacing it, but expanding it in terms of opportunity.

**Jane Hutt:** Diolch i Mark Isherwood am y ddau gais hynny am ddatganiadau. Mae'r cyntaf yn ymwneud â'r cynnydd yn y cymorth grant yr wyf yn ei roi i dai cymdeithasol o ganlyniad i'r gyllideb atodol. Rwy'n falch iawn, fel y dywedais ddoe, ein bod wedi gallu cynyddu'r dyraniad tai cymdeithasol o fwy na £18 miliwn, fel y dywedodd y Prif Weinidog yn gynharach. Mae'n hymyriadau'n lleihau'r gostyngiad mewn grantiau tai cymdeithasol o 30% i 8%. Roedd eich plaid chi yma yng Nghymru, heb sôn am Lywodraeth y DU, yn amlwg yn awyddus i dorri'r grant tai cymdeithasol. Nid yn unig yr ydym yn rhoi rhywbeth yn ei le, ond rydym yn ehangu'r cyfleoedd a ddaw yn ei sgîl.

With regard to your second point, those who are concerned and engaged with concessionary fares would, quite clearly, welcome the fact that the Minister wrote to say that he was evaluating the scheme. The constituent stakeholders with whom the Minister had consulted also welcome the statement that he made before recess.

O ran eich ail bwynt, byddai'r rhai sy'n pryderu ac yn ymwneud â theithio rhatach yn amlwg yn croesawu'r ffaith bod y Gweinidog wedi ysgrifennu i ddweud ei fod yn gwerthuso'r cynllun. Mae'r rhanddeiliaid y mae'r Gweinidog wedi ymgynghori â nhw hefyd yn croesawu'r datganiad a wnaeth cyn y toriad.

**Lynne Neagle:** Minister, the Health and Social Care Bill, which is being driven through Parliament like a steamroller by Andrew Lansley and David Cameron, represents no less than the biggest threat to the integrity of the national health service in its 64-year history. Although, thankfully, here in Wales we are afforded some protection from a fundamentally altered and undermined health service that puts profit before patient

**Lynne Neagle:** Weinidog, y Bil Iechyd a Gofal Cymdeithasol, sy'n cael ei wthio drwy'r Senedd gan Andrew Lansley a David Cameron, yw'r bygythiad mwyaf i ddilysrwydd y gwasanaeth iechyd gwladol yn ei 64 blynedd o fodolaeth. Er ein bod ni yng Nghymru, diolch byth, wedi'n hamddiffyn i ryw raddau rhag gwasanaeth iechyd sydd wedi'i newid yn sylfaenol ac wedi'i danseilio, gwasanaeth sy'n rhoi elw o flaen

care, there are still some incredibly worrying repercussions for us, with regard to cross-border issues and in relation to long-term funding and Barnett consequentials. It is vital—indeed, I believe that it is incumbent upon us—that we have a full debate on this issue on the floor of the Chamber as soon as Government time allows. That is both so that we can have a comprehensive discussion on this serious matter and also so that the Welsh Conservatives in this Chamber can stand up and be counted, come out of hiding on this issue, and be honest with the people of Wales and let them know whether they support this disastrous Bill.

gofal i gleifion, mae rhai ôl-effeithiau yn peri pryder mawr inni, o ran materion trawsffiniol ac mewn perthynas â chyllid yn y tymor hir a symiau canlyniadol Barnett. Mae'n hanfodol—yn wir, credaf ei bod yn ddyletswydd—inni gynnal dadl lawn ar y mater hwn ar lawr y Siambr cyn gynted ag y bydd amserlen y Llywodraeth yn caniatáu. Mae angen gwneud hynny er mwyn i ni gael trafodaeth gynhwysfawr ar y mater difrifol hwn a hefyd fel y gall y Ceidwadwyr Cymreig yn y Siambr hon sefyll i fyny, rhoi'r gorau i guddio ar y mater hwn a bod yn onest gyda phobl Cymru, gan roi gwybod iddynt a ydynt yn cefnogi'r Bil trychinebus hwn.

**Jane Hutt:** The Member for Torfaen raises an important point. Health officials are tracking the developments in England with regard to this disastrous so-called Health and Social Care Bill. They are looking carefully at how these changes, if they come to fruition—we hope that they will not—would affect services for Welsh NHS patients. At the same time, we have a cross-border protocol. In terms of renegotiation, that expires at the end of March of this year. However, clearly, we would still hope that the UK Government would follow our lead in safeguarding a national health service that is free at the point of use and delivery without destructive marketisation that puts profit before patient care. Unfortunately, the prospects in England are dire.

**Jane Hutt:** Mae'r Aelod dros Dor-faen yn codi pwynt pwysig. Mae swyddogion iechyd yn dilyn y datblygiadau yn Lloegr mewn perthynas â'r hyn a elwir yn Fil Iechyd a Gofal Cymdeithasol. Maent yn edrych yn ofalus ar sut y bydd y newidiadau hyn, os cânt eu cyflawni—rydym yn gobeithio na fyddant—yn effeithio ar wasanaethau i gleifion GIG Cymru. Ar yr un pryd, mae gennym brotocol trawsffiniol. O ran ail-negodi, mae hynny'n dod i ben ar ddiwedd mis Mawrth eleni. Fodd bynnag, yn amlwg, byddem yn parhau i obeithio y byddai Llywodraeth y DU yn dilyn ein hesiampl ni o ran diogelu gwasanaeth iechyd gwladol sydd am ddim pan ddefnyddir ef heb y marchnadeiddio dinistriol sy'n rhoi elw o flaen gofal i gleifion. Yn anffodus, mae'r rhagolygon yn Lloegr yn enbyd.

**Rhodri Glyn Thomas:** Weinidog, rydych wedi bod yn barod iawn i gyhoeddi datganiadau ysgrifenedig ar sefyllfa'r Gymdeithas Lleiafrifoedd Ethnig Cymru Gyfan, AWEMA. Byddwn yn cwestiynu amseriad rhai o'r datganiadau ysgrifenedig hynny. Serch hynny, rydym yn ddiolchgar amdanynt. Yn y datganiadau hynny, rydych yn sôn am y newidiadau o ran gweinyddiaeth fewnol AWEMA ac yn llongyfarch y gymdeithas ar wneud y newidiadau hynny. Fodd bynnag, nid ydym wedi cael datganiad ynglŷn â'r berthynas rhwng Llywodraeth Cymru, Gweinidogion Cymru ac AWEMA ac ar bwy yn union a oedd yn gyfrifol am ariannu AWEMA rhwng 2003, pan ofynnwyd am adroddiad cychwynnol ynglŷn â gweinyddiaeth AWEMA, a hyd at yr amser y daethpwyd ag ariannu AWEMA i ben. A

**Rhodri Glyn Thomas:** Minister, you have been very willing to publish written statements on the situation of the All-Wales Ethnic Minority Association. I would question the timing of some of those written statements. However, we are grateful for them. In those statements, you mention the changes in terms of the internal administration of AWEMA and congratulate the association on making those changes. However, we have not had a statement on the relationship between the Welsh Government, Welsh Ministers and AWEMA and on who exactly was responsible for funding AWEMA between 2003, when the initial report on the administration of AWEMA was requested, and up until the point when the funding of AWEMA was brought to an end. May we have an oral statement and a debate

gawn ddatganiad llafar a dadl yma ynglŷn â'r hyn sydd wedi digwydd o ran Llywodraeth Cymru? Nid wyf am wneud cyhuddiadau ar hyn o bryd yn erbyn Gweinidogon—credaf fod hynny'n gynamserol ac ei bod yn anghyfrifol bod rhai gwleidyddion yn dewis gwneud hynny, ond mae angen inni fod yn glir ynglŷn â chyfrifoldebau'r Llywodraeth yn y maes hwn. A wnewch chi hefyd ryddhau'r holl ohebiaeth rhwng Llywodraeth Cymru ac AWEMA, ynghyd â chofnodion unrhyw gyfarfodydd a gynhaliwyd rhwng Llywodraeth Cymru, Gweinidogion Cymru ac AWEMA fel ein bod yn gwbl glir ynglŷn â'r trafodaethau a ddigwyddodd rhwng 2003 a'r presennol?

here on what has happened in terms of the Welsh Government? I do not want to make any accusations at present against Ministers—I think that that would be premature and that it is irresponsible that some politicians choose to do that, but we need to be clear about the responsibilities of the Government in this regard. Will you also release all the correspondence between the Welsh Government and AWEMA, along with the minutes of any meetings held between the Welsh Government, Welsh Ministers and AWEMA so that we are quite clear about the discussions that happened between 2003 and the present?

**Jane Hutt:** Thank you, Rhodri Glyn Thomas, for acknowledging the two written statements that I have issued. I have also sought to keep opposition spokespersons updated on action being taken. As I have stated, not only in those statements, but in the Chamber, we are now pursuing two main objectives in relation to AWEMA. We are working to safeguard as much of the public funding that remains in AWEMA as possible and the accounts being paid to AWEMA, and we are seeking to protect people participating in AWEMA's ESF convergence projects. We are working with the Welsh European Funding Office and joint sponsors to put arrangements in place to secure the ongoing delivery of current and future project activity. That has been stated not only in my written statement yesterday but on 9 February. It is important that the Welsh Government has asked the Wales Audit Office to undertake a review, and its report will be delivered to the Public Accounts Committee.

**Jane Hutt:** Diolch, Rhodri Glyn Thomas, am gydnabod y ddau ddatganiad ysgrifenedig a gyhoeddwyd gennyf. Rwyf hefyd wedi ceisio rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y camau sy'n cael eu cymryd i lefarwyr y gwrthbleidiau. Fel y dywedais, nid yn unig yn y datganiadau hynny ond yn y Siambr, mae gennym bellach ddau brif amcan mewn perthynas ag AWEMA. Rydym yn gweithio i ddiogelu cymaint â phosibl o'r arian cyhoeddus sydd ar ôl yn AWEMA ac yn y cyfrifon sy'n cael eu talu i AWEMA, ac rydym yn ceisio amddiffyn pobl sy'n cymryd rhan mewn prosiectau cydgyfeirio Cronfa Gymdeithasol Ewrop AWEMA. Rydym yn gweithio gyda Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru a chyd-noddwyr i roi trefniadau ar waith i sicrhau bod gweithgarwch o ran prosiectau cyfredol ac yn y dyfodol yn parhau. Cafodd hynny ei nodi nid yn unig yn fy natganiad ysgrifenedig ddoe ond ar 9 Chwefror. Mae'n bwysig bod Llywodraeth Cymru wedi gofyn i Swyddfa Archwilio Cymru gynnal adolygiad, a bydd yr adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus.

**Angela Burns:** If we are to do our true job of scrutinising the Government, we need to be able to debate the issues of the day in an open and transparent way. We have had a Labour backbencher calling for us to debate the NHS in England, which is not devolved to Wales, as far as I am concerned. We cannot debate AWEMA in public. Only yesterday, the Minister for education slid out a statement reversing completely a prime Labour manifesto commitment to banding in primary

**Angela Burns:** Os ydym am wneud ein gwaith gwirioneddol, sef craffu ar y Llywodraeth, mae angen inni allu trafod materion y dydd mewn modd agored a thryloyw. Mae un o Aelodau meinciau cefn Llafur yn galw arnom i drafod y GIG yn Lloegr, mater sydd heb ei ddatganoli i Gymru, hyd y gwn i. Ni allwn drafod AWEMA yn gyhoeddus. Ddoe ddiwethaf, cafwyd datganiad gan y Gweinidog addysg a oedd yn gwrthdroi'n gyfan gwbl un o brif

schools. While I completely agree that the whole issue has been an absolute horlicks, we need to come here and talk about why he has now taken that decision.

ymrwymiadau maniffesto Llafur i fandio mewn ysgolion cynradd. Er fy mod yn cytuno bod y mater hwn wedi bod yn smonach lwyr, mae angen inni drafod pam mae'r Gweinidog wedi gwneud y penderfyniad hwnnw.

It is very important, because on 11 January, in response to questions, he said that he had found all the difficulties that existed, he wanted to press ahead and only 5% of primary school children would not be in the banding system. In the Plaid Cymru debate of the same day, he said 'we will implement our manifesto'. He also said:

Mae hynny'n bwysig iawn, oherwydd ar 11 Ionawr, mewn ymateb i gwestiynau, dywedodd ei fod wedi dod o hyd i'r holl anawsterau a oedd yn bodoli, ei fod am fwrw ymlaen ac mai dim ond 5% o blant mewn ysgolion cynradd na fyddent yn cael eu cynnwys yn y system fandio. Yn nadl Plaid Cymru ar yr un diwrnod, dywedodd 'byddwn yn rhoi ein maniffesto ar waith'. Dywedodd hefyd:

'Primary schools will be provided with a provisional band before Easter.'

'Bydd ysgolion cynradd yn cael band dros dro cyn y Pasg.'

He added that they would get a proper band by the summer. On 1 February, in answer to a written question from me, he said pretty much the same thing, but yesterday he slid out a statement rolling back on one of the most important topics that we have to discuss in relation to primary schools. Minister, will you allow us to do our job of scrutiny and ask the Minister for education to bring forward a debate or statement here so that we may debate this issue properly?

Ychwanegodd y byddent yn cael band go iawn erbyn yr haf. Ar 1 Chwefror, mewn ateb i gwestiwn ysgrifenedig gennyf, dywedodd yr un peth fwy neu lai, ond ddoe cafwyd datganiad ganddo sy'n gwrthdroi ei safbwynt ar un o'r pynciau pwysicaf y mae'n rhaid inni ei drafod mewn perthynas ag ysgolion cynradd. Weinidog, a wnewch ganiatáu inni wneud ein gwaith craffu a gofyn i'r Gweinidog addysg gyflwyno dadl neu ddatganiad yma er mwyn inni drafod y mater hwn?

**Jane Hutt:** Angela Burns, as the opposition spokesperson for education and skills, clearly welcomes the fact that the Minister has made it clear at the earliest opportunity what his intentions are in terms of this important policy, which is, of course, about ensuring that we get the best opportunities and standards for our children and young people. The opposition spokesperson has plenty of opportunities to scrutinise the Minister on the statement that he made yesterday on banding in primary schools.

**Jane Hutt:** Mae Angela Burns, fel llefarydd yr wrthblaid dros addysg a sgiliau, yn amlwg yn croesawu'r ffaith bod y Gweinidog wedi bachu ar y cyfle cyntaf i wneud yn glir beth yw ei fwriadau o ran y polisi pwysig hwn, ac mae hynny, wrth gwrs, yn ymwneud â sicrhau ein bod yn cael y cyfleoedd a'r safonau gorau ar gyfer ein plant a'n pobl ifanc. Mae llefarydd yr wrthblaid yn cael digon o gyfleoedd i graffu ar y Gweinidog o ran y datganiad a wnaeth ddoe am fandio mewn ysgolion cynradd.

**Eluned Parrott:** We have heard the First Minister discuss options for an air link with Chongqing in the press, and the Minister for transport has confirmed the continuation of the north-south air link recently. However, we have not yet had a broader sense of the strategic context in which those projects operate and the aims that it is hoped that our air links will address more broadly. Minister,

**Eluned Parrott:** Rydym wedi clywed y Prif Weinidog yn trafod opsiynau ar gyfer cyswllt awyr â Chongqing yn y wasg, ac yn ddiweddar mae'r Gweinidog trafnidiaeth wedi cadarnhau parhad y cyswllt awyr rhwng y de a'r gogledd. Fodd bynnag, nid ydym eto wedi cael gwybodaeth ehangach am gyd-destun strategol gweithredu'r prosiectau hynny a'r amcanion y gobeithir y bydd ein

will you bring forward a statement on an international aviation strategy for Wales and allocate Government time to a debate in the Chamber for us to discuss those issues in more detail?

cysylltiadau awyr yn ymdrin â nhw yn fwy cyffredinol. Weinidog, a wnewch gyflwyno datganiad am strategaeth hedfan rhyngwladol i Gymru a neilltuo amser y Llywodraeth i gynnal dadl yn y Siambr er mwyn trafod y materion hynny yn fwy manwl?

**Jane Hutt:** Those are important issues, Eluned Parrott. The crossover in terms of ministerial responsibilities between transport and economic development opportunities would clearly be reflected in an opportunity for a statement or response, but I will discuss that with the Ministers.

**Jane Hutt:** Mae’r rhain yn faterion pwysig, Eluned Parrott. Byddai’r gorgyffwrdd o ran cyfrifoldebau gweinidogol rhwng trafnidiaeth a chyfleoedd datblygu economaidd yn cael ei adlewyrchu’n glir yn y cyfle ar gyfer datganiad neu ymateb, ond trafodaf hynny â’r Gweinidogion.

**Antoinette Sandbach:** I want to ask you for two statements, please, Minister. Time and again in the Chamber, I have asked for the Minister for the environment to make a statement on bovine TB. When he made a statement to the Assembly on 21 June 2011, he indicated that over £12 million had been paid in compensation last year and that 10% of cattle farms were under movement restrictions in Wales as a consequence of bovine TB. His words were:

**Antoinette Sandbach:** Rwyf am ofyn i chi am ddau ddatganiad, os gwelwch yn dda, Weinidog. Dro ar ôl tro yn y Siambr, rwyf wedi gofyn i Weinidog yr amgylchedd wneud datganiad am TB mewn gwartheg. Pan wnaeth ddatganiad i’r Cynulliad ar 21 Mehefin 2011, nododd fod dros £12 miliwn wedi cael ei dalu mewn iawndal y llynedd a bod 10% o ffermydd gwartheg o dan gyfyngiadau symud yng Nghymru o ganlyniad i TB mewn gwartheg. Ei eiriau oedd:

‘This impact should not and cannot be sustained and we, as a Government, are committed to the eradication of bovine TB in Wales.’

Ni ddylid, ac ni ellir, cynnal yr effaith hon ac rydym ni, fel Llywodraeth, wedi ymrwymo i ddileu TB mewn gwartheg yng Nghymru.

When I suggested that he was perhaps kicking the matter into the long grass, the Minister replied that he was not and that the report would be available in the autumn. It is now the other side of the mid-term recess in the spring term of this Assembly year. If the Minister is reluctant to come to a decision, and I note that he made a decision on the single environment body within a day of getting the relevant report, can he at least commit to that scientific report on bovine TB being put in the public domain? That is the first matter on which I request an oral statement to the Assembly.

Pan awgrymais ei fod o bosibl yn ceisio rhoi’r mater hwn o’r neilltu, atebodd y Gweinidog nad oedd yn gwneud hynny ac y byddai’r adroddiad ar gael yn yr hydref. Mae bellach ar ôl toriad hanner tymor y gwanwyn. Os yw’r Gweinidog yn amharod i ddod i benderfyniad, a sylwaf ei fod wedi gwneud penderfyniad ar yr un corff amgylcheddol o fewn diwrnod wedi iddo gael yr adroddiad perthnasol, a all o leiaf wneud ymrwymiad bod yr adroddiad gwyddonol hwnnw ar TB mewn gwartheg ar gael yn gyhoeddus? Dyna’r mater cyntaf yr wyf yn gofyn am ddatganiad llafar i’r Cynulliad yn ei gylch.

2.30 p.m.

The second matter is in relation to the Penmon fish farm in Anglesey. Selonda pleaded guilty in November to pollution of the environment. That fish farm is close to a special area of conservation and there are

Mae’r ail fater yn ymwneud â fferm bysgod Penmon ar Ynys Môn. Fis Tachwedd, plediodd Selonda’n euog i lygru’r amgylchedd. Mae’r fferm bysgod honno’n agos at ardal gadwraeth arbennig ac mae

ongoing issues in relation to the WEFO grant conditions and whether or not those grant conditions have been complied with. There should also be concern from the public that a company into which more than £4 million of public funding was poured has been sold for less than £1.2 million. I would ask for a statement on this matter.

problemau parhaus mewn perthynas ag amodau grant WEFO ac a yw'r amodau grant hynny wedi cael eu bodloni. Hefyd, dylai'r cyhoedd bryderu bod cwmni a gafodd dros £4 miliwn o arian cyhoeddus wedi cael ei werthu am lai na £1.2 miliwn. Byddwn yn gofyn am ddatganiad ar y mater hwn.

**Jane Hutt:** Thank you for your requests for two statements. In terms of the bovine TB eradication programme, clearly this is a complex matter, which requires careful and detailed consideration. The Minister meets weekly with his officials to discuss progress and anticipates being able to make a full announcement early in March.

**Jane Hutt:** Diolch ichi am eich ceisiadau am ddau ddatganiad. O ran y rhaglen i ddileu TB gwartheg, yn amlwg mae hwn yn fater cymhleth, sy'n gofyn am ystyriaeth ofalus a manwl. Mae'r Gweinidog yn cyfarfod yn wythnosol gyda'i swyddogion i drafod cynnydd ac mae'n disgwyl gallu gwneud cyhoeddiad llawn ar ddechrau mis Mawrth.

On your second point, the Minister is clearly aware of this in terms of due diligence in relation to Penmon fish farm in Anglesey and would be happy to update the Member on this matter.

O ran eich ail bwynt, mae'r Gweinidog yn amlwg yn ymwybodol o hyn o ran diwydrwydd dyladwy mewn perthynas â fferm bysgod Penmon ar Ynys Môn a byddai'n fodlon rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y mater hwn i'r Aelod.

**Simon Thomas:** Dechreuaf drwy ategu galwad Angela Burns am ddatganiad llawn am fandio a'r tro pedol gan y Llywodraeth ar un o'i phrif bolisïau addysg.

**Simon Thomas:** I start by endorsing the call made by Angela Burns for a full statement on banding and the u-turn performed by the Government on one of its flagship education policies.

Byddwn yn cael cyfle'r prynhawn yma i drafod cyllido gwasanaethau heddlu yng Nghymru, ond nid ydym wedi cael cyfle llawn eto i drafod un o'r newidiadau mwyaf fydd yn digwydd yn ystod y flwyddyn hon, sef ethol a chyflwyno comisiynwyr heddlu. Mae comisiynwyr heddlu wedi cael eu gwrthod gan y rhan fwyaf o'r pleidiau sydd wedi'u hethol i'r Cynulliad hwn, ac er ei bod hi'n dipyn o hwyl i wylio cwympo mas rhwng unigolion ynglŷn â pha un ai i sefyll ai peidio i'w hethol yn gomisiynwyr, rydym yn colli'r ffocws ar y prif gwestiynau y bydd nifer o gymunedau yng Nghymru yn eu hwynebu yn ystod y misoedd nesaf: beth fydd agenda rhai o'r comisiynwyr hyn, a sut bydd y comisiynwyr, y prif gwnstabliaid a'r paneli diogelwch cymunedol arfaethedig yn cydweithio i sicrhau parhad o ran taclo'r troseddu a welwn yng Nghymru ar hyn o bryd? Sut hefyd fydd sicrhau nad oes gwyro sylweddol drwy'r broses o ethol comisiynwyr yn uniongyrchol, yn hytrach na chael awdurdodau heddlu?

We will have the opportunity this afternoon to discuss the funding of police services in Wales, but we have not yet had a full opportunity to discuss one of the most far-reaching changes that will take place this year, which is the election and introduction of police commissioners. Police commissioners were rejected by the majority of parties elected to this Assembly, and though it is good fun to watch the falling out between those individuals trying to decide whether to stand for election as commissioners, we are losing focus on the main questions that many communities in Wales will face in the coming months: what will be the agenda of some of these commissioners, and how will the commissioners, the chief constables and the proposed community safety panels collaborate in order to ensure the continuation of services to tackle crime in Wales? How will it be ensured that there is no serious deviation through this process of directly electing commissioners, rather than having police authorities?

A oes modd gwneud amser ar gyfer dadl yn amser y Llywodraeth er mwyn i bob plaid a phob Aelod o’r Cynulliad gael trafod beth fydd gwaith y comisiynwyr hyn, beth fydd eu rôl wrth fynd i’r afael â throseddu yng Nghymru, a sut y gallwn ni sicrhau bod digon o gytundebau yn eu lle erbyn mis Tachwedd fel bod y gwaith o drosglwyddo cyfrifoldeb o’r awdurdodau heddlu i’r comisiynwyr newydd yn digwydd yn ddisymwth?

Would it be possible to schedule a debate in Government time so that all parties and all Assembly Members can discuss what the work of the commissioners will be and what their role will be in getting to grips with crime in Wales, and how we can ensure that a sufficient number of contracts are in place by November so that the transfer of responsibility from the police authorities to the new commissioners happens seamlessly?

**Jane Hutt:** I am sure the Minister, when it is appropriate, will welcome the opportunity to discuss this important issue. Clearly, the Assembly sought to reject the police commissioners’ proposals in terms of that legislative consent motion and we remain very concerned about the impact of this UK Government policy. However, we must now ensure that we deliver on the objectives for the policing of our communities, particularly our most vulnerable communities. The fact that the Welsh Government is investing in 500 new community support officers will be critical in terms of the policy agenda for any elected police commissioners that come forward.

**Jane Hutt:** Rwyf yn siwr bydd y Gweinidog, pan y bydd yn briodol, yn croesawu’r cyfle i drafod y mater pwysig hwn. Yn amlwg, ceisiodd y Cynulliad wrthod y cynigion ynghylch comisiynwyr yr heddlu o ran y cynnig cydsyniad deddfwriaethol hwnnw ac rydym yn parhau’n bryderus iawn am effaith y polisi hwn gan Lywodraeth y DU. Fodd bynnag, rhaid inni yn awr sicrhau ein bod yn cyflawni’r amcanion s’yn ymwneud â phlismona ein cymunedau, yn enwedig ein cymunedau mwyaf agored i niwed. Bydd y ffaith bod Llywodraeth Cymru yn buddsoddi mewn 500 o swyddogion cymorth cymunedol newydd yn hanfodol o ran yr agenda bolisi ar gyfer unrhyw gomisiynwyr etholedig yr heddlu sy’n cyflwyno’u hun.

**Russell George:** Will the Minister petition her colleague, the Minister for environment, and ask him to bring forward a statement on the natural environment framework consultation? As you will be aware, the Government published a consultation on its new approach to the environment and natural resources management a few weeks ago. The Green Paper proposes a completely new approach to environmental management. In respect of the environment, it is one of the most significant announcements from Government in recent years. It is important that Members have an opportunity to start the scrutiny process as early as possible, and I would welcome any interventions that you could make to bring this forward on the agenda as soon as possible.

**Russell George:** A wnaiff y Gweinidog erfyn ar ei chydweithiwr, y Gweinidog amgylchedd, a gofyn iddo gyflwyno datganiad ar yr ymgynghoriad fframwaith amgylchedd naturiol yn fuan? Fel y gwyddoch, cyhoeddodd y Llywodraeth ymgynghoriad ar ei ymagwedd newydd tuag at yr amgylchedd a rheoli adnoddau naturiol ychydig wythnosau yn ôl. Mae’r Papur Gwyrdd yn cynnig ymagwedd gwbl newydd i reolaeth amgylcheddol. O ran yr amgylchedd, mae’n un o’r cyhoeddiadau mwyaf arwyddocaol gan y Llywodraeth yn y blynyddoedd diwethaf. Mae’n bwysig bod Aelodau yn cael cyfle i ddechrau ar y broses graffu cyn gynted ag y bo modd, a byddwn yn croesawu unrhyw ymyriadau gennych er mwyn ychwanegu hyn ar yr agenda cyn gynted â phosibl.

**Jane Hutt:** I remind Russell George that the Green Paper, ‘Sustaining a Living Wales’, was launched for consultation on Monday 30 January, outlining proposed changes to the governance and delivery of the management

**Jane Hutt:** Rwyf yn atgoffa Russell George fod y Papur Gwyrdd, ‘Cynnal Cymru Fyw’, wedi cael ei lansio ar gyfer ymgynghori arno ddydd Llun 30 Ionawr, gan amlinellu newidiadau arfaethedig i’r modd o

and regulation of the environment in Wales, based on the ecosystem approach. The consultation commenced on 30 January and will run to Thursday 31 May this year.

llywodraethu a chyflawni'r broses o reoli a rheoleiddio'r amgylchedd yng Nghymru, yn seiliedig ar y dull ecosystem. Dechreuodd yr ymgynghoriad ar 30 Ionawr a bydd yn parhau tan ddydd Iau 31 Mai eleni.

**Andrew R.T. Davies:** Leader of the House, I lend my support to the comments from my education spokesperson and from other sections of the Chamber in relation to the statement released by the Minister for Education and Skills yesterday, as well as the written statement on the All Wales Ethnic Minority Association. While I am grateful for these written statements, these two issues are of such magnitude that I suggest that they should be brought to the floor of the Chamber so that Members who are elected to represent communities here can ask questions of Ministers and do the job that they are paid to do, which is scrutinise decisions made by Ministers. When tabling Government business, I implore you, Leader of the House, to weigh the arguments and bring forward real, meaty statements that we can get our teeth into. These issues—AWEMA and school banding—relate to key Government commitments that should, with a change of direction, be debated and scrutinised on the floor of the Chamber.

**Andrew RT Davies**: Arweinydd y Tŷ, rwy'n cefnogi sylwadau fy llefarydd addysg a'r sylwadau gan eraill o rannau eraill y Siambr mewn perthynas â'r datganiad a ryddhawyd gan y Gweinidog Addysg a Sgiliau ddoe, yn ogystal â'r datganiad ysgrifenedig ar Gymdeithas Lleiafrifoedd Ethnig Cymru Gyfan. Er fy mod yn ddiolchgar am y datganiadau ysgrifenedig hyn, mae'r ddau fater hyn yn gymaint o faint fel yr awgrymaf y dylid eu trafod ar lawr y Siambr er mwyn i Aelodau sydd wedi'u hethol i gynrychioli cymunedau yma ofyn cwestiynau i Weinidogion a gwneud y gwaith y maent yn cael eu talu i wneud, sef craffu ar benderfyniadau a wnaed gan Weinidogion. Wrth gyflwyno busnes y Llywodraeth, rwyf yn erfyn arnoch, Arweinydd y Tŷ, i bwyso a mesur y dadleuon a chyflwyno datganiadau o sylwedd y gallwn gael ein dannedd i mewn iddynt. Mae'r materion hyn—AWEMA a bandio ysgolion—yn ymwneud ag ymrwymiadau allweddol y Llywodraeth y dylid, gyda newid cyfeiriad, eu trafod a chraffu arnynt ar lawr y Siambr.

**Jane Hutt:** I am sure that the leader of the opposition will recognise that we have many opportunities for Assembly Members to scrutinise Ministers, or get their teeth into them, as he described it. It is important that, following written statements, there are opportunities to raise issues with me during the business statement, and to raise them during questions to the First Minister and all other Ministers in Plenary. Opportunities for scrutiny also arise during committee meetings. I believe that the openness and transparency of this Assembly, and the availability of Ministers, deliver the kind of scrutiny that is required.

**Jane Hutt:** Rwyf yn siwr y bydd arweinydd yr wrthblaid yn cydnabod bod gennym lawer o gyfleoedd i Aelodau'r Cynulliad graffu ar waith Gweinidogion, neu gael eu dannedd i mewn iddynt, fel y disgrifiodd ef y sefyllfa. Mae'n bwysig, yn dilyn datganiadau ysgrifenedig, fod cyfleoedd i godi materion gyda mi yn ystod y datganiad busnes, a'u codi yn ystod cwestiynau i'r Prif Weinidog a phob Gweinidog arall yn y Cyfarfod Llawn. Mae cyfleoedd i graffu yn codi hefyd yn ystod cyfarfodydd pwyllgor. Credaf fod natur agored a thryloyw'r Cynulliad hwn, ac argaeledd Gweinidogion, yn darparu'r math o graffu sy'n ofynnol.

## Datganiad: Buddion Caffael Cyhoeddus i'r Economi a Chymunedau Lleol
## Statement: the Benefits of Public Procurement for the Economy and Local Communities

**The Minister for Finance and Leader of the House (Jane Hutt):** In the current

**Y Gweinidog Cyllid ac Arweinydd y Tŷ (Jane Hutt):** Yn yr hinsawdd ariannol

financial climate, protecting and growing our economy is a major challenge. As reflected in my budget for growth and jobs, employment and economic growth remain top Welsh Government priorities, and public procurement is a key tool to lever opportunities for Welsh business. How we use our annual £4.3 billion public procurement expenditure has a profound impact on Welsh jobs and business. The efficiency savings that we make protect public sector jobs and front-line services. Strengthening the contract opportunities that we give Welsh business leads to growth in private sector jobs. Welsh jobs help to grow our economy, which is essential for wellbeing in Wales. In my statement today, I am outlining how public procurement has delivered for Wales, and what further steps we are taking as part of the programme for Government. Last February, my written statement on public procurement showed that just over 50% of expenditure went to Wales-based businesses, compared with 35% in 2003. Today, I can announce the result of analysis of the 2010-11 data that are available: 52% of expenditure went to Wales-based suppliers, with over 1,660 Welsh small and medium-sized enterprises receiving orders worth between £150,000 and £5 million.

bresennol, mae diogelu a datblygu ein heconomi yn her fawr. Fel yr adlewyrchwyd yn fy nghyllideb ar gyfer twf a swyddi, mae cyflogaeth a thwf economaidd yn parhau'n brif flaenoriaethau i Lywodraeth Cymru, ac mae caffael cyhoeddus yn offeryn allweddol i ysgogi cyfleoedd i fusnesau Cymru. Mae'r modd rydym yn defnyddio ein gwariant caffael cyhoeddus o £4.3 miliwn yn cael effaith fawr ar swyddi a busnesau yng Nghymru. Mae'r arbedion effeithlonrwydd yr ydym yn eu gwneud yn diogelu swyddi yn y sector cyhoeddus a gwasanaethau rheng flaen. Mae cryfhau'r cyfleoedd contract a roddwn i fusnesau Cymru'n arwain at dwf mewn swyddi yn y sector preifat. Mae swyddi yng Nghymru yn helpu i ddatblygu ein heconomi, sy'n hanfodol er lles Cymru. Yn fy natganiad heddiw, rwyf yn amlinellu sut y mae caffael cyhoeddus wedi darparu ar gyfer Cymru, a pha gamau pellach yr ydym yn eu cymryd fel rhan o'r rhaglen lwydoraethu. Fis Chwefror diwethaf, dangosodd fy natganiad ysgrifenedig ar gaffael cyhoeddus fod ychydig dros 50% o wariant wedi'i wario ar fusnesau yng Nghymru, o'i gymharu â 35% yn 2003. Heddiw, gallaf gyhoeddi canlyniad dadansoddi data 2010-11 sydd ar gael: aeth 52% o wariant i gyflenwyr o Gymru, gyda dros 1,660 o fentrau bach a chanolig yn cael archebion gwerth rhwng £150,000 a £5miliwn.

Three significant policies have underpinned this positive outcome. The first of these is wider advertisement of lower value opportunities, suitable for SMEs, using Sell2Wales. Last year, these advertisements had increased by 24%. The increase is now 30%, and almost 2,000 smaller opportunities have been advertised since April 2011. The second is the simplification of the pre-qualification process through use of the supplier qualification information database common question set and risk-based approach. We have completed extensive trials with excellent business feedback. Today, I am announcing the final release of the SQuID, and a SQuID specifically tailored to the construction sector. Crucially, we have already trained over 500 public sector buyers. The NHS and all 22 local authorities have responded positively to its adoption. The third is our community benefits policy. This

Mae tri pholisi arwyddocaol wedi bod yn sail i'r canlyniad cadarnhaol hwn. Y cyntaf o'r rhain yw hysbysebu cyfleoedd gwerth is yn ehangach, sy'n addas ar gyfer busnesau bach a chanolig, gan ddefnyddio GwerthwchiGymru. Y llynedd, roedd yr hysbysebion hyn wedi cynyddu 24%. Y cynnydd erbyn hyn yn 30%, ac mae bron i 2,000 o gyfleoedd llai wedi cael eu hysbysebu ers mis Ebrill 2011. Yr ail yw symleiddio'r broses cyn-gymhwyso drwy ddefnyddio set cwestiwn cyffredin a'c ymagwedd sy'n seilied ar risg y gronfa ddata cyffredin am gymwysterau cyflenwyr. Rydym wedi cwblhau profion helaeth gydag adborth busnes ardderchog. Heddiw, rwyf yn cyhoeddi rhan olaf y Gronfa Ddata Gwybodaeth am Gymwysterau Cyflenwyr neu SQuID, ac un sydd wedi'i theilwra'n benodol ar gyfer y sector adeiladu. Yn hanfodol, rydym eisoes wedi hyfforddi dros

approach makes it a condition of contract that businesses provide a method statement setting out how they will deliver social outcomes: the training and employment of disadvantaged people and the use of local supply chains. It has been used with great effect in housing through the Can Do toolkit. Together, we have demonstrated that, where applied, this policy results in a 30% greater local multiplier effect from the expenditure. Over the past two years, it has been applied to £3.4 billion-worth of contracts, ranging from £5 million to £300 million, most of which, though not all, were in construction.

500 o brynwyr y sector cyhoeddus. Mae'r GIG a phob un o'r 22 awdurdod lleol wedi ymateb yn gadarnhaol i'w fabwysiadu. Y trydydd yw ein polisi budd cymunedol. Mae'r dull hwn yn ei gwneud yn un o amodau'r contract bod busnesau'n darparu datganiad dull sy'n nodi sut y byddant yn sicrhau canlyniadau cymdeithasol: hyfforddi a chyflogi pobl dan anfantais a defnyddio cadwyni cyflenwi lleol. Fe'i defnyddiwyd yn effeithiol iawn yn y sector tai drwy'r pecyn cymorth Can Do. Gyda'n gilydd, rydym wedi dangos bod y polisi hwn, lle caiff ei gymhwyso, yn arwain at 30% mwy o effaith lluosydd lleol o'r gwariant. Dros y ddwy flynedd ddiwethaf, mae wedi cael ei ddefnyddio mewn contractau gwerth £3.4 biliwn, yn amrywio o £5 miliwn i £300 miliwn, gyda'r rhan fwyaf ohonynt, ond nid pob un, yn y sector adeiladu.

We tracked six early projects through to delivery, and today, I can announce outcomes that demonstrate a real impact. The six contracts tracked were worth £146 million, including road schemes and housing frameworks. From this expenditure of £146 million, almost 85% was spent in Wales. Some £56 million went directly on salaries to Welsh citizens, and £68 million, or 47%, was spent with Wales-based businesses, 82% of which were Welsh SMEs. Some 140 disadvantaged people received 8,500 weeks' worth of work experience, and 44 apprentices received 7,000 weeks of training. Overall, an estimated 2,200 jobs for Wales were protected or created through this policy. These are only the first six projects: we have another 50 projects that have already used this approach. As they are delivered, we will see similar benefits coming through for Wales.

Gwnaethom ddilyn chwe phrosiect cynnar drwy'r broses gyfan, a heddiw, gallaf gyhoeddi canlyniadau sy'n dangos effaith wirioneddol. Roedd y chwe chontract a ddilynwyd yn werth £146 miliwn, gan gynnwys cynlluniau ffyrdd a fframweithiau tai. O'r gwariant hwn o £146 miliwn, cafodd bron i 85% ei wario yng Nghymru. Aeth tua £56 miliwn yn uniongyrchol ar gyflogau i ddinasyddion Cymru, a gwariwyd £68 miliwn, neu 47%, gyda busnesau yng Nghymru, 82% ohonynt yn fusnesau bach a chanolig yng Nghymru. Cafodd tua 140 o bobl dan anfantais werth 8,500 wythnos o brofiad gwaith, a chafodd 44 o brentisiaid 7,000 wythnos o hyfforddiant. At ei gilydd, cafodd 2,200 o swyddi i Gymru eu diogelu neu eu creu oherwydd y polisi hwn. Dyma'r chwe phrosiect cyntaf yn unig: mae gennym 50 prosiect arall sydd eisoes wedi defnyddio'r dull hwn. Wrth iddynt gael eu cyflawni, byddwn yn gweld manteision tebyg yn dod i Gymru.

The data gives a strong message—it is one that I am also hearing on the ground. I recently visited a Welsh Government-funded primary school redevelopment project in Abercynon. The contractor was able to tell me in his own words how he was recycling the investment locally. Yesterday, I visited the Neath Port Talbot peripheral distributor road and heard the same story. Even though the UK Government has cut our capital

Mae'r data yn cyfleu neges gref—mae'n un yr wyf yn ei chlywed hefyd ar lawr gwlad. Yn ddiweddar, bûm ar ymweliad â phrosiect ailddatblygu ysgol gynradd wedi'i hariannu gan Lywodraeth Cymru yn Abercynon. Roedd y contractwr yn gallu dweud wrthyf, yn ei eiriau'i hun, sut roedd yn ailgylchu'r buddsoddiad yn lleol. Ddoe, bûm yn ymweld â ffordd ddosbarthu'r cyrion yng Nghastell-nedd Port Talbot a chlywais yr un stori. Er

budget by 42%, the Welsh Government is committed to maximising investment in infrastructure in Wales. On 22 May, I shall be publishing the initial draft of the Wales infrastructure investment plan. This will help to identify and prioritise future investment, providing a rolling two to three-year pipeline of improved investment and identifying innovative financing approaches to lever in more funds to increase our investment. A key priority will be to ensure that future investment supports and sustains Welsh businesses and that it adopts the proven community benefits approach.

bod Llywodraeth y DU wedi torri ein cyllideb gyfalaf 42%, mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i wneud y buddsoddiad mwyaf posibl mewn seilwaith yng Nghymru. Ar 22 Mai, byddaf yn cyhoeddi drafft cychwynnol y cynllun buddsoddi mewn seilwaith i Gymru. Bydd hyn yn helpu i nodi a blaenoriaethu buddsoddi yn y dyfodol, gan ddarparu cyfnod o ddwy neu dair blynedd o fuddsoddi gwell a nodi dulliau ariannu arloesol i ddenu mwy o arian i gynyddu ein buddsoddiad. Blaenoriaeth allweddol fydd sicrhau bod buddsoddiad yn y dyfodol yn cefnogi ac yn cynnal busnesau Cymru a'i fod yn mabwysiadu'r dull manteision cymunedol a brofwyd.

We are also seeing smarter and more efficient procurement helping to protect public service jobs. The adoption of Xchangewales e-procurement tools is delivering over £50 million of process efficiencies. Through collaborative procurement, we have used our leverage with bigger suppliers to deliver savings of £0.5 million in the past six months alone.

Rydym hefyd yn gweld dulliau caffael mwy craff ac effeithlon sy'n helpu i ddiogelu swyddi yn y gwasanaeth cyhoeddus. Mae mabwysiadu offer gwe eGaffael cyfnewidcymru yn sicrhau dros £50 miliwn o fesurau effeithlonrwydd o ran prosesau. Drwy gaffael cydweithredol, rydym wedi defnyddio ein dylanwad gyda chyflenwyr mwy i sicrhau arbedion o £0.5 miliwn yn ystod y chwe mis diwethaf yn unig.

In February, I announced a pilot scheme, set up by Value Wales, for Remploy to carry out invoice scanning, which will reduce process costs. I am particularly pleased, as the Minister for equalities, to see efficiencies and social issues being addressed together for mutual benefit. Through the public service leadership group, the work is under way to deliver a business case for a national procurement service as a vehicle to do more. This does not mean large contracts that exclude SMEs; it means taking a sensible approach that understands which opportunities can be won by smaller or local suppliers and which require us to deal with larger, global businesses. In some contracts, we want to combine our spend to attract inward investment. In others, we want to see smaller microbusinesses collaborating. It is not a one-size-fits-all solution; it is all about having well-thought-out, intelligent strategies for Wales.

Ym mis Chwefror, cyhoeddais gynllun peilot a sefydlwyd gan Gwerth Cymru, er mwyn i Remploy sganio anfonebau, a fydd yn lleihau costau prosesu. Rwyf yn arbennig o falch, fel y Gweinidog dros gydraddoldeb, i sicrhau bod mesurau effeithlonrwydd a materion cymdeithasol yn cael sylw gyda'i gilydd er budd y naill a'r llall. Drwy'r grŵp arweinyddiaeth gwasanaethau cyhoeddus, mae gwaith ar y gweill i gyflwyno achos busnes ar gyfer gwasanaeth caffael cenedlaethol fel cyfrwng i wneud mwy. Nid yw hyn yn golygu contractau mawr sy'n eithrio busnesau bach a chanolig; mae'n golygu cymryd ymagwedd synhwyrol sy'n deall pa gyfleoedd y gall cyflenwyr llai neu gyflwneyr lleol fanteisio arnynt a pha rai sy'n ei gwneud yn ofynnol i ni ymdrin â busnesau mwy, byd-eang. Gyda rhai contractau, rydym am gyfuno ein gwariant i ddenu buddsoddiad o'r tu allan. Gyda rhai eraill, rydym am weld meicrofusnesau llai yn cydweithio. Nid yw'n ddatrysiad sy'n addas i bawb; mae'n ymwneud â chael strategaethau deallus, sydd wedi'u cynllunio ar gyfer Cymru.

Last year, concerns were raised about the framework contract set up to facilitate the twenty-first century schools investment. I responded by commissioning a lessons learned review, and in my written statement of 9 February, I detailed the results. The report underlined the importance of adopting the SQuID and community benefits approaches. The supplier qualification information database—SQuID—has increasingly been used in construction, resulting in the past 10 months in Wales-based businesses winning 45 of the 67 contracts or framework places awarded, with a potential value of £755 million. Contrast that with last year, when Welsh businesses secured only 18 awards. It means that Welsh businesses are now winning two thirds of awards, with two thirds of the value, compared with only one third in 2010. That represents a major boost to the economy.

Y llynedd, mynegwyd pryderon am y contract fframwaith a sefydlwyd i hwyluso buddsoddiad mewn ysgolion yr unfed ganrif ar hugain. Ymatebais drwy gomisiynu adolygiad o wersi a ddysgwyd, ac yn fy natganiad ysgrifenedig ar 9 Chwefror, nodais y canlyniadau. Roedd yr adroddiad yn pwysleisio pwysigrwydd mabwysiadu'r dulliau cronfa ddata gwybodaeth am gymwysterau cyflenwyr a budd cymunedol. Mae'r gronfa ddata gwybodaeth am gymwysterau cyflenwyr wedi cael ei defnyddio fwyfwy yn y diwydiant adeiladu, gan arwain yn y 10 mis diwethaf at fusnesau yng Nghymru'n ennill 45 o'r 67 o gontractau neu leoedd fframwaith a ddyfarnwyd, gyda gwerth posibl o £755 miliwn. Cyferbynnwch hynny â llynedd pan ddyfarnwyd ond 18 i fusnesau Cymru.  Mae'n golygu bod busnesau Cymru nawr yn ennill dwy ran o dair o ddyfarniadau, gyda dwy ran o dair o'r gwerth, o'i gymharu â dim ond traean yn 2010. Mae hynny'n cynrychioli hwb mawr i'r economi.

Clearly, our policies are having a positive effect. We must ensure the widespread adoption of best practice. That is why the adoption of these policies is a specific commitment in the local government compact, and it is why uptake is being closely monitored through the public service leadership group's measurement framework.

Yn amlwg, mae ein polisïau yn cael effaith gadarnhaol. Rhaid inni sicrhau bod arfer gorau yn cael ei fabwysiadu'n eang. Dyna pam bod mabwysiadu'r polisïau hyn yn ymrwymiad penodol yn y compact llywodraeth leol, a dyna pam bod y nifer sy'n cymryd y camau hyn yn cael ei monitro'n fanwl drwy fframwaith mesur grŵp arweinyddiaeth y gwasanaethau cyhoeddus.

We are working with the trade unions, the third sector and housing and regeneration partners to see how we can further strengthen our community benefits policy. In addition, we have commissioned Constructing Excellence in Wales to engage with the construction sector, so that industry views help to influence the development of this policy. It is clear that there is more to do, and I am announcing today a review of all procurement policy and practice to ensure that we maximise the impact of our policies.

Rydym yn gweithio gyda'r undebau llafur, y trydydd sector a phartneriaid tai ac adfywio i weld sut y gallwn gryfhau ymhellach ein polisi budd cymunedol. Yn ogystal, rydym wedi comisiynu Adeiladu Arbenigrwydd yng Nghymru i ymgysylltu â'r sector adeiladu, fel y gall barn y diwydiant helpu i ddylanwadu ar ddatblygiad y polisi hwn. Mae'n amlwg bod mwy i'w wneud, ac rwyf yn cyhoeddi heddiw adolygiad o'r holl bolisïau ac arferion caffael i sicrhau ein bod yn sicrhau bod ein polisïau yn cael yr effaith fwyaf posibl.

2.45 p.m.

We will consider the essential Value Wales resource, how it is best deployed, whether the wider public sector resource is adequate for the challenges ahead, and whether we can improve on the necessary links across the

Byddwn yn ystyried adnodd hanfodol Gwerth Cymru, beth yw'r ffordd orau o'i ddefnyddio, a yw adnoddau ehangach y sector cyhoeddus yn ddigonol ar gyfer yr heriau sydd o'n blaenau, ac a allwn wella ar y cysylltiadau

Welsh Government. I am encouraged by the progress to date, but it is timely that we plan for the future. We will also be taking account of the draft proposals for the new European procurement directives likely to come into effect in 2013. Although these are early days, the directives provide some interesting options, including the ability to reserve contracts for businesses with a 30% disabled or disadvantaged workforce. I will be examining this further, taking on board the outcome of the task and finish group inquiry, chaired by Julie James AM, into modernising European procurement policy.

sydd eu hangen ar draws Llywodraeth Cymru. Mae'r cynnydd wedi bod yn galonogol hyd yma, ond mae'n amserol ein bod yn cynllunio ar gyfer y dyfodol. Byddwn hefyd yn ystyried y cynigion drafft ar gyfer y cyfarwyddebau caffael Ewropeaidd newydd sy'n debygol o ddod i rym yn 2013. Er mai dyddiau cynnar yw'r rhain, mae'r cyfarwyddebau'n cynnig rhai opsiynau diddorol, gan gynnwys y gallu i neilltuo contractau ar gyfer busnesau sydd â 30% o'r gweithlu yn anabl neu dan anfantais. Byddaf yn edrych ymhellach ar hyn, gan ystyried canlyniad ymchwiliad y grŵp gorchwyl a gorffen, a gadeirir gan Julie James AC, i foderneiddio polisi caffael Ewropeaidd.

When you combine the right procurement approach with a strong and ambitious business sector, the results make a real difference for Wales. As I said last year in my statement in February, doing things as they have always been done will no longer be enough. Today I have demonstrated that this has been put into action, and that public procurement in Wales is making a difference. We will continue to deliver the changes needed with the added impact of an independent review of our own goals, gains and practices.

Pan fyddwch yn cyfuno'r dull caffael cywir â sector busnes cryf ac uchelgeisiol, bydd y canlyniadau yn arwain at wahaniaeth gwirioneddol i Gymru. Fel y dywedais yn fy natganiad ym mis Chwefror llynedd, ni fydd gwneud pethau fel y maent wedi cael eu gwneud yn y gorffennol yn ddigon da. Heddiw, rwyf wedi dangos bod hyn wedi cael ei roi ar waith, a bod caffael cyhoeddus yng Nghymru yn gwneud gwahaniaeth. Byddwn yn parhau i gyflawni'r newidiadau sydd eu hangen, gyda'r effaith ychwanegol o adolygiad annibynnol o'n nodau, ein henillion a'n harferion.

**Paul Davies:** I thank the Minister for her statement this afternoon. Two weeks ago, she released a statement on procurement and the lessons learned review, which I believe backed up the messages from the microbusiness strategy that there needs to be guidance to help encourage public bodies to make contracts accessible to smaller businesses in order to protect jobs, and that effective planning is critical to ensuring that smaller firms can bid for contracts. I fully believe that the first step to improving Wales's procurement practices is to simplify our public sector procurement processes and regulations, and I am pleased that this has been acknowledged by the Welsh Government. There is a perception that the regulations and processes surrounding procurement are mostly beneficial to larger businesses, and that needs to be changed. We need a system that rewards the most appropriate bid, the bid that will best deliver the right results, not the bid that successfully

**Paul Davies:** Diolchaf i'r Gweinidog am ei datganiad y prynhawn yma. Bythefnos yn ôl, rhyddhaodd ddatganiad ar gaffael a'r adolygiad o wersi a ddysgwyd, yr wyf yn credu oedd yn ategu negeseuon o'r strategaeth microfusnes, sef bod angen canllawiau i helpu i annog cyrff cyhoeddus i wneud cytundebau yn hygyrch i fusnesau llai er mwyn diogelu swyddi, a bod cynllunio effeithiol yn hanfodol i sicrhau y gall cwmnïau llai gynnig am gontractau. Rwy'n credu mai'r cam cyntaf tuag at wella arferion caffael Cymru yw symleiddio ein prosesau a'n rheoliadau ar gaffael sector cyhoeddus, ac rwy'n falch bod Llywodraeth Cymru wedi cydnabod hyn. Mae canfyddiad bod y rheoliadau a'r prosesau ynghylch caffael o fudd yn bennaf i fusnesau mwy, ac mae angen newid hynny. Mae angen system sy'n gwobrwyo'r cynnig mwyaf priodol, y cynnig a fydd orau o ran cyflenwi'r canlyniadau cywir, nid y cynnig sy'n ticio'r blychau mwyaf diangen yn llwyddiannus, gan y

ticks the most unnecessary boxes, from the firm that can afford the administrative procurement process. Small and medium-sized enterprises generally have lower administrative overheads and management costs than larger firms, and depending on the nature of the procurement, this can result in lower prices. In light of the lessons learned review, what specific action are you taking to support contractors to obtain relevant quality accreditations that will help to secure business, which you referred to in your statement two weeks ago?

cwmni sy'n gallu fforddio'r broses gaffael weinyddol. Yn gyffredinol, mae gan fusnesau bach a chanolig eu maint orbenion gweinyddol a chostau rheoli is na chwmnïau mwy ac, yn dibynnu ar natur y broses gaffael, gall hyn arwain at brisiau is. Yn sgîl yr adolygiad o wersi a ddysgwyd, pa gamau penodol yr ydych yn eu cymryd i gefnogi contractwyr i gael achrediadau ansawdd perthnasol a fydd yn helpu i sicrhau busnes, fel y gwnaethoch gyfeirio atynt yn eich datganiad bythefnos yn ôl?

We have heard about how the Welsh Government needs to break down the barriers that prevent small businesses from getting involved in the procurement process. I understand that there are difficulties with scale and bureaucracy, and these need to be eliminated. Last year, you said that you wanted to see a faster pace of change and yet, sadly, we continue to hear about how the system of bidding for work in Wales is overly bureaucratic. We were told today in the cross-party group on construction that, in my area of Pembrokeshire, for example, 23 construction companies used to do work for the county council, but now there are only four. We were also told that those businesses that attended the meeting did not oppose framework contracts, but wanted flexibility so that smaller businesses were able to tender for those contracts. Can the Minister tell us what the Welsh Government is doing to ensure that there is flexibility in the system so that smaller businesses can take part in procurement?

Rydym wedi clywed sut mae angen i Lywodraeth Cymru ddymchwel y rhwystrau sy'n atal busnesau bach rhag cymryd rhan yn y broses gaffael. Rwy'n deall bod anawsterau o ran graddfa a biwrocratiaeth, ac mae angen eu dileu. Y llynedd, gwnaethoch ddweud eich bod am weld newid cyflymach ac eto, yn anffodus, rydym yn parhau i glywed am y system or-fiwrocrataidd o ymgeisio am waith yng Nghymru. Dywedwyd wrthym heddiw yn y grŵp trawsbleidiol ar adeiladu, yn fy ardal i o Sir Benfro, er enghraifft, bod 23 o gwmnïau adeiladu yn arfer cael eu defnyddio i wneud gwaith i'r cyngor sir, ond bellach dim ond pedwar sy'n gwneud hynny. Dywedwyd wrthym hefyd nad oedd y busnesau hynny a oedd yn bresennol yn y cyfarfod yn gwrthwynebu contractau fframwaith, ond eu bod am hyblygrwydd i alluogi busnesau llai i dendro am y contractau hynny. A all y Gweinidog ddweud wrthym beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i sicrhau bod hyblygrwydd yn y system fel y gall busnesau llai gymryd rhan yn y broses gaffael?

It is also essential that all procurement processes are completely transparent to ensure better value for money. Transparency will only increase public awareness and understanding of the Welsh Government's procurement practice, and further ensure stability and confidence in the procurement system. I am sure that the Minister will agree that transparency is crucial, so I would be grateful if she could tell us what monitoring procedures the Welsh Government is looking at to ensure that the procurement system in Wales is as open as possible. I believe that the Welsh Government must look at innovative approaches to procurement

Mae hefyd yn hanfodol bod yr holl brosesau caffael yn gwbl dryloyw i sicrhau gwell gwerth am arian. Bydd tryloywder yn cynyddu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth y cyhoedd o arferion caffael Llywodraeth Cymru, ac ymhellach yn sicrhau sefydlogrwydd a hyder yn y system gaffael. Rwy'n siŵr y bydd y Gweinidog yn cytuno bod tryloywder yn hanfodol, felly byddwn yn ddiolchgar pe gallech ddweud wrthym pa weithdrefnau monitro y mae Llywodraeth Cymru yn edrych arnynt i sicrhau bod y system gaffael yng Nghymru mor agored ag y bo modd. Rwy'n credu bod yn rhaid i Lywodraeth Cymru edrych ar ddulliau

through all available avenues, including technology, and I am pleased that some progress has been made with regard to e-procurement tools. I am sure that we will all agree that there is a need to eradicate unnecessary manual processes and make the best use of technology. I am pleased that the Welsh Government has been exploring this particular area. I would also concur with what the Minister said last year, that the adoption of e-procurement is growing, but can and should increase. She also said that, over the next two years, all tenders and the majority of orders and payments should be electronic. In addition to the £50 million that she has announced today that has delivered process efficiencies, which I welcome, could the Minister tell us in her response what further measures the Welsh Government will be taking to encourage the use of e-procurement tools?

arloesol o fynd i'r afael â phrosesau caffael drwy'r holl lwybrau sydd ar gael, gan gynnwys technoleg, ac rwy'n falch bod rhywfaint o gynnydd wedi'i wneud o ran offer e-gaffael. Rwy'n siŵr y byddwn i gyd yn cytuno bod angen dileu prosesau llaw diangen a gwneud y defnydd gorau o dechnoleg. Rwy'n falch bod Llywodraeth Cymru wedi bod yn edrych ar y maes benodol hwn. Byddwn hefyd yn cytuno â'r hyn a ddywedodd y Gweinidog y llynedd, sef fod y niferoedd sy'n mabwysiadu e-gaffael yn tyfu, ond y gall ac y dylai gynyddu ymhellach. Dywedodd hefyd, dros y ddwy flynedd nesaf, y dylai pob tendr a'r rhan fwyaf o archebion a thaliadau fod yn electronig. Yn ogystal â'r £50 miliwn a gyhoeddwyd heddiw, sydd wedi sicrhau effeithlonrwydd prosesau, a chroesawaf hynny, a wnaiff y Gweinidog ddweud wrthym yn ei hymateb pa fesurau pellach y bydd Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i annog y defnydd o offer e-gaffael?

I will briefly touch upon procurement skills and training. I appreciate that Value Wales is looking to develop the skills and capability of existing public service staff and to deliver a trainee procurement executive programme to identify new talent for the procurement profession in Wales. I also welcome today's announcement that the Minister will review all procurement policy and practice and that she will consider how the central Value Wales resource is best deployed. Investing in procurement skills will only strengthen our future position and it is crucial that a collaborative agenda with the Deputy Minister for Skills and the Minister for Business, Enterprise, Technology and Science is put in place to ensure that the right people are being trained in the right way. Ultimately, what we all want is to see smaller local businesses being able to compete and win contracts.

Soniaf yn fyr am hyfforddiant a sgiliau caffael. Rwy'n sylweddoli bod Gwerth Cymru yn awyddus i ddatblygu sgiliau a gallu staff presennol yn y gwasanaethau cyhoeddus ac i ddarparu rhaglen gaffael ar lefel weithredol i hyfforddeion er mwyn canfod talent newydd ar gyfer y proffesiwn caffael yng Nghymru. Rwyf hefyd yn croesawu'r cyhoeddiad heddiw y bydd y Gweinidog yn adolygu pob polisi ac arfer caffael ac y bydd yn ystyried beth yw'r ffordd orau o ddefnyddio adnodd canolog Gwerth Cymru. Bydd buddsoddi mewn sgiliau caffael yn cryfhau ein sefyllfa at y dyfodol ac mae'n hanfodol bod agenda cydweithio'r Dirprwy Weinidog Sgiliau a'r Gweinidog Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth yn cael ei rhoi ar waith i sicrhau bod y bobl iawn yn cael eu hyfforddi yn y ffordd iawn. Yn y pen draw, yr hyn yr ydym i gyd am ei weld yw busnesau lleol llai yn gallu cystadlu ac ennill contractau.

I know from speaking to businesses, particularly small businesses, that procurement criteria have been changed in the past without any advance notice and that that has made it difficult for those businesses to tender for contracts. Given the circumstances, will the Minister outline what measures are in place to protect small

Rwy'n gwybod o siarad â busnesau, yn enwedig busnesau bach, fod y meini prawf caffael wedi cael eu newid yn y gorffennol heb unrhyw rybudd ymlaen llaw a bod hynny wedi ei gwneud yn anodd i'r busnesau hynny dendro am gontractau. O ystyried yr amgylchiadau, a wnaiff y Gweinidog amlinellu pa fesurau sydd ar waith i ddiogelu

businesses when procurement criteria are changed?

busnesau bach pan fydd meini prawf caffael yn cael eu newid?

**The Presiding Officer:** Order. Are you coming to the end of your contribution?

**Y Llywydd:** Trefn. A ydych yn dod at ddiwedd eich cyfraniad?

**Paul Davies:** Yes, I am, Presiding Officer. The Welsh Government must also be responsive to the needs of SMEs in Wales and look at ways to break down the barriers that prevent smaller businesses from winning contracts. As we all know, the Welsh public sector spends more than a third of its budget on external goods and services. It is therefore vital that we have a robust strategy that is implemented effectively, if we want to see our procurement system thrive in Wales.

**Paul Davies:** Ydw, Lywydd. Rhaid i Lywodraeth Cymru hefyd ymateb i anghenion busnesau bach a chanolig yng Nghymru ac edrych ar ffyrdd o chwalu'r rhwystrau sy'n atal busnesau llai rhag ennill contractau. Fel y gwyddom, mae sector cyhoeddus Cymru yn gwario mwy na thraean o'i gyllideb ar nwyddau a gwasanaethau allanol. Felly, mae'n hanfodol bod gennym strategaeth gadarn sy'n cael ei gweithredu'n effeithiol, os ydym am weld ein system gaffael yn ffynnu yng Nghymru.

**Jane Hutt:** I thank the opposition spokesperson for his constructive scrutiny of my statement today. The programme for government lays out clearly how the Welsh Government is seeking to deliver improvements in public service delivery and public procurement. It has a key role in delivering joint procurement systems and effective collaborative procurement to realise efficiencies, and to ensure that procurement processes are straightforward and that contract opportunities are open to all. We have made significant progress on these points. Over the past five years, Value Wales contracts have achieved £125 million-worth of efficiencies, and the savings from Xchangewales, an e-procurement programme, now exceed £50 million. If you go around schools—and many of you will have an account of this—you will see that the transformation in terms of that e-trading is quite clear and is welcomed.

**Jane Hutt:** Diolch yn fawr i lefarydd yr wrthblaid am ei waith craffu adeiladol ar fy natganiad heddiw. Mae'r rhaglen lywodraethu yn gosod allan yn glir sut y mae Llywodraeth Cymru'n ceisio sicrhau gwelliannau o ran darparu gwasanaethau cyhoeddus a chaffael cyhoeddus. Mae ganddi rôl allweddol o ran cyflwyno systemau caffael ar y cyd a chaffael effeithiol ar y cyd i sicrhau effeithlonrwydd, i sicrhau bod prosesau caffael yn syml a bod cyfleoedd contract yn agored i bawb. Rydym wedi gwneud cynnydd sylweddol ar y pwyntiau hynny. Dros y pum mlynedd diwethaf, mae contractau Gwerth Cymru wedi cyflawni £125 miliwn o arbedion effeithlonrwydd, ac mae'r arbedion o cyfnewidcymru, rhaglen e-gaffael, yn awr yn fwy na £50 miliwn. Os byddwch yn mynd o amgylch ysgolion—a bydd gan lawer ohonoch brofiad o hyn—bydddwch yn gweld bod y trawsnewid sy'n deillio o e-fasnachu yn eithaf clir ac yn cael ei groesawu.

The SQuID—the supplier qualification information database—approach that resulted from the report on breaking down barriers has been trialled and piloted, and the private sector and construction sector, along with SMEs, were particularly engaged with that. It is groundbreaking—we have already received requests for details from the Scottish Government, the police and the NHS in England with regard to using this approach. We have evidence that demonstrates that it allows smaller suppliers to break through the

Mae'r dull SQuID—y gronfa ddata gwybodaeth am gymwysterau cyflenwyr—a ddeilliodd o'r adroddiad ar chwalu'r rhwystrau wedi cael ei dreialu, ac roedd y sector preifat a'r sector adeiladu, ynghyd â busnesau bach a chanolig, yn ymwneud yn arbennig â hynny. Mae'n arloesol—rydym eisoes wedi cael ceisiadau am fanylion oddi wrth Lywodraeth yr Alban, yr heddlu a'r GIG yn Lloegr o ran defnyddio'r dull hwn. Mae gennym dystiolaeth sy'n dangos ei fod yn caniatáu i gyflenwyr llai dorri drwy'r

barriers to tender and that it also serves to reduce the cost of pre-qualification, which is currently estimated at £20 million a year. The entire NHS, the local government sector and many universities have already agreed to adopt this approach. So, it is a fast-moving development.

rhwystrau i dendro a'i fod hefyd yn lleihau cost y cyn-gymhwyso, a amcangyfrifir ar hyn o bryd i fod yn £20 miliwn y flwyddyn. Mae'r GIG cyfan, y sector llywodraeth leol a llawer o brifysgolion eisoes wedi cytuno i fabwysiadu'r dull hwn. Felly, mae'n ddatblygiad sy'n symud yn gyflym.

The opportunities for organisations to use Sell2Wales to advertise are clear. Contracts worth more than £18 billion have been advertised to over 30,000 Wales-based suppliers. It is critical that we work together. Officials in the Department for Business, Enterprise, Technology and Science and Value Wales are working closely with my officials to create a positive procurement environment to address both buyer and supplier development needs. There is a developing culture of collaboration, strengthening opportunities for microbusinesses to, for example, form consortia to bid for contracts. I recognise the procurement priorities identified in the microbusiness task and finish group's report. Many of these are already being progressed, such as the wider advertisement of lower value opportunities. As you know, there is a specific implementation plan being developed. We will look at ways of supporting that. Innovative procurement is crucial and we also need to train more people. We are developing more people with professional procurement skills in Wales and we are running a home-grown talent project, funded by the European social fund. We already have an innovative scheme with young trainees completing placements across Wales. The first group started last year and we are just about to appoint a further 12 trainees. You raised many points and asked useful questions about my statement and I hope that I have answered the majority of them.

Mae'r cyfleoedd i sefydliadau ddefnyddio GwerthwchiGymru er mwyn hysbysebu yn glir. Hysbysebwyd contractau gwerth mwy na £18 biliwn i dros 30,000 o gyflenwyr a leolir yng Nghymru. Mae'n hanfodol ein bod yn gweithio gyda'n gilydd. Mae swyddogion yn yr Adran Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth a swyddogion Gwerth Cymru yn gweithio'n agos gyda fy swyddogion i er mwyn creu amgylchedd caffael cadarnhaol i fynd i'r afael ag anghenion datblygu prynwyr a chyflenwyr. Mae diwylliant o gydweithio'n datblygu, gan gryfhau cyfleoedd ar gyfer microfusnesau i, er enghraifft, ffurfio consortia i wneud cais am gontractau. Rwy'n cydnabod y blaenoriaethau caffael a nodwyd yn adroddiad y grŵp gorchwyl a gorffen. Mae llawer o'r rhain eisoes yn cael eu gweithredu, fel hysbysebu cyfleoedd gwerth is yn ehangach. Fel y gwyddoch, mae cynllun gweithredu penodol yn cael ei ddatblygu. Byddwn yn edrych ar ffyrdd o'i gefnogi. Mae caffael arloesol yn hanfodol ac mae hefyd angen inni hyfforddi mwy o bobl. Rydym yn helpu mwy o bobl i ddatblygu sgiliau caffael proffesiynol yng Nghymru ac rydym yn cynnal prosiect i ddefnyddio doniau Cymru, a ariennir gan gronfa gymdeithasol Ewrop. Mae gennym eisoes gynllun arloesol gyda hyfforddeion ifanc, sy'n cwblhau lleoliadau hyfforddi ar draws Cymru. Dechreuwyd y grŵp cyntaf y llynedd ac rydym ar fin penodi 12 o hyfforddeion. Gwnaethoch godi llawer o bwyntiau a gofyn cwestiynau defnyddiol am fy natganiad ac rwy'n gobeithio fy mod wedi ateb y rhan fwyaf ohonynt.

**Julie James:** Minister, I too welcome your statement. I have a few questions about it. I particularly liked the emphasis on the importance of procurement, particularly the success of small Welsh businesses and firms. I also take on board the opposition spokesperson's points on that. However, we need to ensure that we do not take away from the success of large Welsh firms in Europe. It is not just about SMEs in Wales; it is also

**Julie James:** Weinidog, rwyf i hefyd yn croesawu eich datganiad. Mae gen i rai cwestiynau arno. Roeddwn yn arbennig o hoff o'r pwyslais ar bwysigrwydd caffael, yn enwedig o ran llwyddiant busnesau a chwmnïau bach Cymru. Rwyf hefyd yn derbyn pwyntiau llefarydd yr wrthblaid ar y pwynt hwnnw. Fodd bynnag, mae angen inni sicrhau nad ydym yn tanseilio llwyddiant cwmnïau mawr o Gymru yn Ewrop. Nid

about the success of Welsh exporting firms. We need to keep that in mind when we talk about procurement. Some of the witnesses who have spoken to my task and finish group have said that there is a real need to move procurement from being perceived as a rather dull and arcane practice undertaken by grey people in back rooms to something that the boardroom needs to take account of.

mater o fusnesau bach a chanolig yng Nghymru yn unig ydyw; mae hefyd yn ymwneud â llwyddiant cwmnïau allforio Cymru. Mae angen inni gadw hynny mewn cof pan fyddwn yn siarad am gaffael. Mae rhai o'r tystion sydd wedi siarad â fy ngrŵp gorchwyl a gorffen wedi dweud bod gwir angen rhoi'r gorau i ystyried caffael fel rhywbeth diflas a dirgel a wneir gan bobl ddi-liw mewn ystafelloedd cefn, a sicrhau ei fod yn cael ei weld fel rhywbeth y mae angen i'r ystafell fwrdd ei ystyried.

The power of the spend of most organisations, never mind public sector bodies, is enormous and drives real change in the communities where that spend is focused. We can drive regeneration in our cities, consolidate small business growth, develop new microbusinesses in consortia, and buy innovative solutions for research and so on—all driven off the back of public procurement. Minister, your statement touches on some of those things and I know that there is some very good work happening on that. I would like reassurance that it also has full ministerial oversight.

Mae pŵer gwariant y rhan fwyaf o sefydliadau, heb sôn am gyrff y sector cyhoeddus, yn enfawr ac yn sbarduno newid gwirioneddol yn y cymunedau lle caiff y gwariant ei ganolbwyntio. Gallwn hybu adfywio yn ein dinasoedd, atgyfnerthu twf busnesau bach, datblygu microfusnesau newydd mewn consortia, a phrynu datrysiadau arloesol ar gyfer ymchwil ac yn y blaen—i gyd ar gefn caffael cyhoeddus. Weinidog, mae'ch datganiad yn cyffwrdd ar rai o'r pethau hynny a gwn fod rhywfaint o waith da iawn yn digwydd ar hynny. Hoffwn sicrwydd fod ganddo hefyd drosolwg gweinidogol llawn.

I highlight the community benefit programme you mentioned in your response and the enquiries from elsewhere on it. It is turning into a real flagship in the procurement world and it is driving real change on the back of Government spend. That is something that we need to extend and evaluate to ensure that all areas of public life take account of it. As we know, there is a skills shortage in procurement across the piece, not just in Wales, but across Europe. There is real confusion about what the regulations actually say, what people really need to do, and what they can do instead of being risk averse, and so on. I will not go into that here, but I know that you, Minister, already have some oversight of that and I am pleased to hear that you are going to take account of my task and finish group's report when it reports on those important matters.

Tynnaf sylw at y rhaglen mantais gymunedol y gwnaethoch grybwyll yn eich ymateb a'r ymholiadau arno. Mae'n troi yn rhaglen flaenllaw yn y byd caffael ac mae'n annog newid gwirioneddol ar gefn gwariant y Llywodraeth. Mae hynny'n rhywbeth y mae angen ei ymestyn a'i werthuso i sicrhau bod pob agwedd ar fywyd cyhoeddus yn ei ystyried. Fel y gwyddom, mae prinder sgiliau cyffredinol ym maes caffael, nid yn unig yng Nghymru, ond ledled Ewrop. Mae dryswch go iawn am yr hyn y mae'r rheoliadau yn ei ddweud mewn gwirionedd, beth mae angen i bobl ei wneud, a'r hyn y gallant ei wneud yn hytrach na bod yn amharod i fentro, ac yn y blaen. Nid wyf am sôn am hynny yn awr, ond rwy'n gwybod eich bod chi, Weinidog, eisoes yn edrych ar hynny ac rwy'n falch o glywed eich bod yn mynd i ystyried adroddiad fy ngrŵp gorchwyl a gorffen pan fydd yn cyflwyno ei adroddiad ar y materion pwysig hynny.

I welcome the development of the procurement toolkits—SQuID, the Can Do Toolkit and Sell2Wales and so on—but I

Rwy'n croesawu datblygiad y pecynnau cymorth caffael—SquID, y Pecyn Cymorth Gallu Gwneud a GwerthwchiGymru ac yn y

would like some reassurance that we are looking to ensure that contracts that are not over the European thresholds will not be subject to the full set of procurement rules, and that a lighter bureaucratic approach will be taken to some of those, and that we are continuing to ensure that good practice is employed in the major public sector procurements that we have going on.

blaen—ond hoffwn rywfaint o sicrwydd ein bod yn edrych i sicrhau na fydd contractau nad ydynt dros y trothwyon Ewropeaidd yn amodol ar y gyfres lawn o reolau caffael, ac y bydd dull biwrocrataidd ysgafnach yn cael ei ddefnyddio mewn perthynas â rhai o'r rhain, ac ein bod yn parhau i sicrhau bod arfer da yn cael ei ddefnyddio ym mhrosiectau caffael mawr y sector cyhoeddus sydd gennym ar waith.

**Jane Hutt:** I thank Julie James for her contribution and for the work that she is undertaking in leading the task and finish group, which will make a huge contribution to and benefit our public procurement policies. You say that the power of spend is enormous. I assure you that there is full ministerial oversight of global opportunities for procurement for our companies. The widespread adoption of community benefits is now bearing fruit. You mentioned the Can Do Toolkit. You can visit social housing sites and meet people who are doing apprenticeships and schoolchildren that have been involved in work experience with construction. You can also see the community benefits that are developed as a result of contractors directly recognising that this needs to be embedded in the contract arrangements. I also reassure you that the opportunities that we have and the opportunities that we will have are considerable. The review of EU public procurement regulations showed that they have been a dampener and have also restricted access to procurement. We have a chance to contribute to the modernisation of the EU public procurement regulations, and we will play our part fully in responding to your report and in terms of our influence on the UK Government.

**Jane Hutt:** Diolch i Julie James am ei chyfraniad ac am y gwaith y mae'n ei wneud yn arwain y grŵp gorchwyl a gorffen, a fydd yn gwneud cyfraniad enfawr a buddiol i'n polisïau caffael cyhoeddus. Rydych yn dweud bod eich grym gwariant yn enfawr. Gallaf eich sicrhau bod yna oruchwyliaeth weinidogol lawn o'r cyfleoedd caffael cyffredinol i'n cwmnïau. Mae mabwysiadu mantais gymunedol ar raddfa eang bellach yn dwyn ffrwyth. Soniasoch am y pecyn cymorth Gallu Gwneud. Gallwch ymweld â safleoedd tai cymdeithasol a chyfarfod â phobl sy'n gwneud prentisiaethau a phlant ysgol sydd wedi cymryd rhan mewn profiad gwaith yn y sector adeiladu. Gallwch hefyd weld y manteision cymunedol sy'n cael eu datblygu o ganlyniad i gontractwyr yn cydnabod yn uniongyrchol fod angen i hyn gael ei ymgorffori yn y trefniadau contract. Rwyf hefyd yn eich sicrhau bod y cyfleoedd sydd gennym a'r cyfleoedd y bydd gennym yn rhai sylweddol. Mae'r adolygiad o reoliadau caffael cyhoeddus yr UE yn dangos eu bod wedi bod llesteirio pethau ac wedi cyfyngu mynediad at gaffael. Mae gennym gyfle i gyfrannu at y broses o foderneiddio rheoliadau caffael cyhoeddus yr UE, a byddwn yn chwarae ein rhan yn llawn wrth ymateb i'ch adroddiad ac o ran ein dylanwad ar Lywodraeth y DU.

3.00 p.m.

**Alun Ffred Jones:** Diolch am y datganiad, er fy mod yn credu bod busnesau Cymru yn disgwyl gweithredu yn hytrach na rhagor o siarad ar y pwnc hwn. Mae'r ffigur o 50% yr ydych wedi'i nodi yn eich datganiad i'w groesawu—rwy'n nodi'r cynnydd, gyda llaw—ond rydym ni ym Mhlaid Cymru yn credu y dylai'r Llywodraeth osod targed o 75% iddi ei hun dros y blynyddoedd nesaf. A yw'r Llywodraeth yn barod i ystyried gosod

**Alun Ffred Jones:** Thank you for the statement, although I believe that businesses in Wales are expecting action rather than more talk on this issue. The figure of 50% that you note in your statement is to be welcomed—I note the increase, by the way—but we in Plaid Cymru believe that the Government should set a target of 75% for itself over the coming years. Is the Government willing to consider such a target

targed o’r fath ar gyfer caffael yn y sector cyhoeddus?

for public sector procurement?

Rwy’n nodi eich bod yn cyfeirio yn eich datganiad at rywbeth a ddywedwyd gennych fis Chwefror diwethaf, sef na allem barhau i wneud pethau yn yr un ffordd. Dyma ni, flwyddyn yn ddiweddarach, yn cyhoeddi adolygiad arall ar gaffael. Pryd y gallwn ddisgwyl penderfyniadau a gweithredu yn y maes hwn? Dyna sydd ei angen ar ein cwmnïau yn y sefyllfa argyfyngus y maent ynddi ar hyn o bryd.

I note that you refer in your statement to something that you said last February, which was that we cannot continue to do things in the same way. Here we are, a year later, announcing another review of procurement. When can we expect decisions and action in this area? That is what our companies need in the critical situation that they currently face.

I was with Paul Davies at the meeting of the cross-party group on construction, and I can assure you that building companies—from west Wales specifically, but there was also a report from north Wales—do not believe that they are competing on a level playing field; I am being polite. SQuID or no SQuID, they cannot wait another four years for action. It would be useful if we could have more details about this review, including when it will start and whether you have a completion date, so that companies can present their evidence and expect some specific action.

Roeddwn gyda Paul Davies yng nghyfarfod y grŵp trawsbleidiol ar adeiladu, a gallaf eich sicrhau nad yw cwmnïau adeiladu—o orllewin Cymru yn benodol, ond roedd hefyd adroddiad o ogledd Cymru—yn credu eu bod yn cael yr un chwarae teg; rwy’n bod yn gwrtais wrth ddweud hynny. SQuID neu ddim, ni allant aros bedair blynedd arall i weld gweithredu. Byddai’n ddefnyddiol cael rhagor o fanylion am yr adolygiad hwn, gan gynnwys pryd y bydd yn dechrau ac a oes gennych ddyddiad cwblhau, fel y gall cwmnïau gyflwyno eu tystiolaeth a disgwyl rhywfaint o ymateb penodol.

Lastly, I have a question about a body that is under the control of the Government, namely the proposed environment body. A framework agreement for the new centralised cleaning contract has been put in place already. Five companies are on the framework: three based in England and another which has an office in Wales but a head office over the border. Smaller, local companies have been told that they are losing their work this spring. How does that fit with the Government’s policy and your statement today and with your avowed intent to support local companies? This is a Government body, and this framework agreement already seems to be working against local companies. I would be grateful if you could indicate how you intend to address these specific issues within that situation.

Yn olaf, mae gennyf gwestiwn am gorff sydd o dan reolaeth y Llywodraeth, sef y corff amgylcheddol arfaethedig. Mae cytundeb fframwaith ar gyfer y contract glanhau canolog newydd eisoes yn ei le. Mae pum cwmni yn rhan o’r fframwaith: tri wedi’u lleoli yn Lloegr ac un arall sydd â swyddfa yng Nghymru ond sydd â’i brif swyddfa dros y ffin. Mae cwmnïau lleol llai wedi cael gwybod y byddant yn colli eu gwaith yn ystod y gwanwyn. Sut mae hynny’n cyd-fynd â pholisi’r Llywodraeth a’ch datganiad heddiw, a gyda’ch bwriad penodol i gefnogi cwmnïau lleol? Mae hwn yn un o gyrff y Llywodraeth, ac mae’n ymddangos bod y cytundeb fframwaith yn barod yn gweithio yn erbyn cwmnïau lleol. Byddwn yn ddiolchgar pe gallech nodi sut rydych yn bwriadu mynd i’r afael â’r materion penodol mewn perthynas â’r sefyllfa honno.

**Jane Hutt:** I am sure that Alun Ffred Jones would welcome the fact that we are seeking to maximise the impact of our public procurement policy by having a review. It is timely that we review whether we have the

**Jane Hutt:** Rwy’n siŵr y byddai Alun Ffred Jones yn croesawu’r ffaith ein bod yn ceisio sicrhau bod ein polisi caffael cyhoeddus yn cael gymaint o effaith â phosibl drwy gynnal adolygiad. Mae’n amserol ein bod yn

right operating model and resources in place, whether our central resource is being effectively deployed, and whether the wider public sector resource is adequate, building on the work that I have been highlighting today in my statement. The review will take place over the coming weeks and I will report back to you on it in the summer. It will be an independent review from someone who is experienced in procurement policy and frameworks.

adolygu a oes gennym y model gweithredu a'r adnoddau cywir yn eu lle, a yw ein hadnodd canolog yn cael ei ddefnyddio'n effeithiol, ac a yw adnodd cyhoeddus ehangach y sector yn ddigonol, gan adeiladu ar y gwaith rwyf wedi bod yn canolbwyntio arno yn fy natganiad heddiw. Bydd yr adolygiad yn digwydd yn ystod yr wythnosau nesaf a byddaf yn cyflwyno adroddiad arno yn yr haf. Bydd yn adolygiad annibynnol gan rywun sydd â phrofiad o bolisi a fframweithiau caffael.

The points that you make about framework agreements are important. In fact, the lessons learned from framework agreements have been valuable in terms of the flexibilities that we need to secure in delivering those frameworks. If you look at that review, it talks about embedding the SQuID pre-qualification approach and the application of the community benefits policy. The construction framework for 10 local authorities in south-east Wales is a good example of an intelligent approach to developing frameworks. That was done through a sensible lotting strategy and proportionate qualification requirements. We saw Welsh contractors succeed in that construction framework, established by four local authorities in south Wales. I will seek advice on the framework agreement in terms of the single environmental body and respond to Alun Ffred on that point.

Mae'r pwyntiau rydych yn eu gwneud am gytundebau fframwaith yn bwysig. Mewn gwirionedd, mae'r gwersi a ddysgwyd o gytundebau fframwaith wedi bod yn werthfawr o ran yr hyblygrwydd y mae angen i ni ei sicrhau o ran rhoi'r fframweithiau hynny ar waith. Os edrychwch ar yr adolygiad hwnnw, mae'n sôn am sefydlu dull cyn-gymhwyso SQuID ac am weithredu'r polisi manteision cymunedol. Mae'r fframwaith adeiladu ar gyfer 10 awdurdod lleol yn ne-ddwyrain Cymru yn enghraifft dda o ymagwedd ddeallus i ddatblygu fframweithiau. Gwnaethpwyd hynny trwy strategaeth synhwyrol o rannu a gofynion cymesur ynghylch cymhwyso. Gwelsom gontractwyr o Gymru yn llwyddo drwy'r fframwaith adeiladu hwnnw a sefydlwyd gan bedwar awdurdod lleol yn ne Cymru. Byddaf yn gofyn am gyngor ar y cytundeb fframwaith o ran yr un corff amgylcheddol ac yn ymateb i Alun Ffred ar y pwynt hwnnw.

**Eluned Parrott:** I, too, would like to thank the Minister for bringing forward this statement today. I am pleased to see the improvement in the percentage of contracts that are being awarded to Welsh businesses. I am also glad to see the more detailed analysis that you have been able to provide today regarding some of the projects funded—for around six out of the 50 or so projects that you are looking at in that particular area. Could you confirm how that sample of projects was selected? Was it a randomised sample or were those projects selected to act as flagship examples for future projects to follow? Is there a plan to do similarly detailed research with some of the later projects? That would help us to see whether that good practice continues to translate into results, but, more importantly, it will also

**Eluned Parrott:** Rwyf innau hefyd am ddiolch i'r Gweinidog am gyflwyno'r datganiad hwn heddiw. Rwy'n falch o weld y gwelliant yng nghanran y contractau sy'n cael ei roi i fusnesau Cymreig. Rwyf hefyd yn falch o weld y dadansoddiad mwy manwl rydych ei ddarparu heddiw mewn perthynas â rhai o'r prosiectau a ariannwyd—ar gyfer tua chwech o'r 50 o brosiectau rydych yn edrych arnynt yn y maes penodol hwnnw. A allwch gadarnhau sut cafodd y sampl honno o brosiectau ei dewis? A oedd yn sampl ar hap neu a gafodd y prosiectau hynny eu dewis fel enghreifftiau blaenllaw er mwyn i brosiectau'r dyfodol eu hefelychu? A oes trefniadau i wneud gwaith ymchwil manwl yn yr un modd ar rai o'r prosiectau diweddarach? Byddai hynny'n ein helpu i weld a yw arfer da yn parhau i arwain at

help us to keep that focus alive and well and keep people on the ball.

ganlyniadau, ond, yn bwysicach fyth, bydd hefyd yn ein helpu i barhau i ganolbwyntio ar y mater hwn a sicrhau bod eraill yn gwneud yr un peth.

I would like to stay on the subject of research methods and query the definition that you use of ‘Welsh businesses’. I understand that these data have historically been based on the invoice address of the company in question. As I am sure that you will be aware, many larger companies establish regional outreach offices to provide a foothold in new markets. While they provide a base for small numbers of administrative staff—and, of course, we welcome such investment—it provides them with a Welsh invoice address. The high-value secondary services that big companies employ, such as accountants, lawyers, and so on, are based in headquarters located elsewhere. I am concerned that, if this is the measurement that we are using, we are not distinguishing effectively between truly indigenous Welsh companies and those with a small satellite office in Wales. This issue has been raised today by the cross-party group on construction and I am concerned that this might give us a skewed idea of the value provided to the Welsh economy as a result of those contracts. Therefore, I ask you to confirm whether this is the measurement tool that you are currently using. If so, would you be amenable to the idea of changing that to something that is slightly more sophisticated?

Hoffwn aros ar y pwnc o ddulliau ymchwil a gofyn am y diffiniad o ‘fusnesau Cymreig’ rydych yn ei ddefnyddio. Deallaf fod y data wedi’u seilio’n hanesyddol ar gyfeiriad anfonebu y cwmni dan sylw. Fel rwy’n siŵr y byddwch yn ymwybodol, mae llawer o gwmnïau mwy yn sefydlu swyddfeydd allgymorth rhanbarthol fel troedle mewn marchnadoedd newydd. Er eu bod yn cynnig swyddi i nifer fach o staff gweinyddol—ac, wrth gwrs, rydym yn croesawu buddsoddiad o’r fath—mae’r swyddfeydd hyn hefyd golygu bod gan y cwmnïau hyn gyfeiriad anfonebu yng Nghymru. Mae’r gwasanaethau gwerth uchel eilaidd y mae cwmnïau mawr yn eu cyflogi, fel cyfrifwyr, cyfreithwyr ac yn y blaen, yn cael eu lleoli mewn pencadlysoedd sydd wedi’u lleoli mewn mannau eraill. Os mai hwn yw’r mesur rydym yn ei ddefnyddio, rwy’n pryderu nad ydym yn gwahaniaethu’n effeithiol rhwng cwmnïau o Gymru sy’n wirioneddol gynhenid a rhai sydd â swyddfa loeren fach yng Nghymru. Mae’r mater hwn wedi cael ei godi heddiw gan y grŵp trawsbleidiol ar adeiladu ac rwy’n pryderu y gallai hyn roi syniad camarweiniol o’r gwerth a ddarperir i economi Cymru o ganlyniad i’r contractau hynny. Felly, gofynnaf i chi gadarnhau a ydych yn defnyddio’r mesur hwn ar hyn o bryd. Os felly, a fyddech yn agored i’r syniad o newid hynny i rywbeth sydd ychydig yn fwy soffistigedig?

To finish, we have heard from Julie James, who is chairing the Enterprise and Business Committee’s task and finish group on procurement. We recognise that EU procurement rules rule out the explicit favouring of local businesses, but we have heard some really exciting and creative evidence that has shown that it is possible to work within the rules fairly and creatively to give local organisations the best possible chance through the procurement processes. Therefore, I am delighted that you have mentioned in your statement that you will consider that report. I believe that it will be of great assistance to you. I ask you to agree to take a look not only at the report, but at the

I orffen, clywsom gan Julie James, sy’n cadeirio grŵp gorchwyl a gorffen y Pwyllgor Menter a Busnes ar gaffael. Rydym yn cydnabod bod rheolau caffael yr UE yn gwahardd ffafrio busnesau lleol yn benodol, ond rydym wedi clywed tystiolaeth gyffrous a chreadigol sydd wedi dangos ei bod yn bosibl gweithio o fewn y rheolau yn deg ac yn greadigol i roi’r cyfle gorau posibl i sefydliadau lleol trwy’r broses gaffael. Felly, rwy’n falch iawn eich bod wedi sôn yn eich datganiad y byddwch yn ystyried yr adroddiad hwnnw. Credaf y bydd o gymorth mawr i chi. Gofynnaf i chi gytuno i edrych nid yn unig ar yr adroddiad, ond ar fanylion y dystiolaeth rydym wedi ei chael, a chredaf y

detail of some of the evidence that we have received, which I think will give you some creative and exciting ideas to potentially take forward.

bydd gwneud hynny'n rhoi rhai syniadau creadigol a chyffrous i chi y byddwch o bosibl am eu dwyn ymlaen.

While the goalposts are likely to be moving on procurement over the next couple of years, we need to act to improve practices as quickly as we can in the here and now. I ask the Minister to consider giving guidance to procurement authorities to help them to adopt fairer and more creative practices. I am sure that you will respond to the report when it is published, but perhaps you could undertake to give an update in the Chamber in three months or so, when you have had an opportunity to reflect on that, to give us an idea of how you would like to see procurement authorities taking things forward in a more creative way.

Er bod pyst y gôl mewn perthynas â chaffael yn debygol o symud yn ystod y blynyddoedd nesaf, mae angen i ni weithredu i wella arferion cyn gynted â phosibl yn awr. Gofynnaf i'r Gweinidog ystyried rhoi canllawiau i awdurdodau caffael i'w helpu i fabwysiadu arferion tecach a mwy creadigol. Rwy'n siŵr y byddwch yn ymateb i'r adroddiad pan gaiff ei gyhoeddi, ond efallai y gallech roi'r wybodaeth ddiweddaraf yn y Siambr ymhen tri mis, pan fyddwch wedi cael cyfle i fyfyrio ar hynny, er mwyn rhoi syniad o sut y byddech yn dymuno gweld awdurdodau caffael yn symud ymlaen mewn ffordd fwy creadigol.

**Jane Hutt:** I thank the Liberal Democrat spokesperson for her scrutiny and questions this afternoon. As I announced in my statement, there has been an improvement in Wales-based suppliers receiving orders. Not only were those orders of considerable value—from £150,000 to £5 million—we have also looked at the value of those invoices in relation to Welsh postcodes. It is useful as a general indication to see how much of the spend in certain categories is going outside Wales and what the regional differences are, and why they exist. In fact, the Department for Business, Enterprise, Technology and Science commissioned a 2010-11 exercise to update local government purchase ledgers. It is important that we look at that analysis.

**Jane Hutt:** Diolchaf i lefarydd y Democratiaid Rhyddfrydol am ei gwaith craffu a'i chwestiynau'r prynhawn yma. Fel y cyhoeddwyd yn fy natganiad, bu gwelliant yng Nghymru o ran cyflenwyr yn cael archebion. Nid yn unig oedd yr archebion hynny yn werthfawr iawn—rhwng £150,000 a £5 miliwn— rydym hefyd wedi edrych ar werth yr anfonebau hynny mewn perthynas â chodau post Cymru. Mae'n ddefnyddiol i roi syniad cyffredinol o faint o'r gwariant mewn categorïau penodol sy'n mynd y tu allan i Gymru a beth yw'r gwahaniaethau rhanbarthol, a pham y maent yn bodoli. Yn wir, comisiynodd yr Adran Busnes, Menter, Technoleg a Gwyddoniaeth ymarfer yn 2010-11 i ddiweddaru cyfriflyfrau pwrcasu llywodraeth leol. Mae'n bwysig ein bod yn edrych ar y dadansoddiad hwnnw.

In terms of supply chains, we visited Costain construction company in Neath Port Talbot yesterday, which is working across Wales. It is embedding itself in Wales in terms of the contracts that it is undertaking, and it is inviting local employers to ensure that they have an opportunity at an early stage to bid for supply-chain contracts. It demonstrated that there were positive outcomes as a result. It is important that the messages coming through are reflected in the review that we are undertaking, as well as in the work of the task and finish group and in European regulations.

O ran cadwyni cyflenwi, buom yn ymweld â chwmni adeiladu Costain yng Nghastell-nedd Port Talbot ddoe, sy'n gweithio ledled Cymru. Mae'n sefydlu ei hun yng Nghymru o ran ei gontractau, ac mae'n gwahodd cyflogwyr lleol i sicrhau eu bod yn cael cyfle cynnar i wneud cais am gontractau'r gadwyn gyflenwi. Mae'n dangos bod canlyniadau cadarnhaol o ganlyniad i hynny. Mae'n bwysig bod y negeseuon hyn yn cael eu hadlewyrchu yn yr adolygiad rydym yn ei gynnal, yn ogystal ag yng ngwaith y grŵp gorchwyl a gorffen ac mewn rheoliadau Ewropeaidd.

**The Presiding Officer:** We have had detailed contributions from party spokespeople. I remind Members that this is not an opportunity to make speeches, but to ask questions to the Minister. If I am to get through the rest of my list of speakers, you need to be concise.

**Y Llywydd:** Rydym wedi cael cyfraniadau manwl gan lefarwyr y pleidiau. Hoffwn atgoffa'r Aelodau nad cyfle i wneud areithiau yw hwn, ond cyfle i ofyn cwestiynau i'r Gweinidog. Os wyf am gyrraedd diwedd y rhestr o siaradwyr, mae angen i chi fod yn gryno.

**David Rees:** I will be concise, as all of my questions were raised by the opposition spokesperson in any case. Minister, you came to my constituency yesterday, and you identified the community benefits that such projects can bring if they are undertaken with the help and co-operation of a progressive local authority—in my case, a progressive Labour-led local authority. Do you agree that an authority that looks at providing a one-stop shop for those contractors can help to bring benefits to communities? It was identified that 91% of the workforce was Welsh and that over 70% of the money was spent in Wales. That approach is important, and the creative thinking that has already been identified is critical to developing those projects and to ensuring that communities generate those benefits in economic terms and otherwise.

**David Rees:** Byddaf yn gryno, oherwydd cafodd pob un o'm cwestiynau eu gofyn gan lefarydd yr wrthblaid. Weinidog, daethoch i'm hetholaeth ddoe, gan nodi'r manteision cymunedol a all ddeillio o brosiectau o'r fath os ydynt yn cael cymorth a chydweithrediad awdurdod lleol blaengar—yn fy achos i, awdurdod lleol blaengar o dan arweinyddiaeth y Blaid Lafur. A ydych yn cytuno y gall awdurdod sy'n edrych ar ddarparu siop un stop i'r contractwyr hynny helpu i ddod â manteision i gymunedau? Nodwyd bod 91% o'r gweithlu yn Gymry a bod dros 70% o'r arian yn cael ei wario yng Nghymru. Mae'r modd hwnnw o weithredu yn bwysig, ac mae'r gallu i feddwl yn greadigol sydd eisoes wedi ei nodi yn hanfodol i ddatblygu'r prosiectau hynny a sicrhau bod cymunedau'n cynhyrchu'r buddion hynny yn economaidd ac fel arall.

**Jane Hutt:** I certainly concur with David Rees on those points. Yesterday's presentations started with the director of planning and economic development for Neath Port Talbot County Borough Council demonstrating the council's commitment to embedding community benefits in the contract arrangements for the peripheral distributor road, which will have a major beneficial impact on regeneration. It also means that it can work with the local organisations that are bringing disadvantaged people back into training, learning and employment on the site of that contract.

**Jane Hutt:** Rwy'n sicr yn cyd-fynd â David Rees ar y pwyntiau hynny. Dechreuodd cyflwyniadau ddoe gyda chyfarwyddwr cynllunio a datblygu economaidd Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot yn dangos ymrwymiad y cyngor i ymgorffori manteision cymunedol yn nhrefniadau'r contract ar gyfer y ffordd ddosbarthu ymylol, a fydd yn cael effaith fuddiol iawn ar adfywio. Mae hefyd yn golygu y gall y cyngor weithio gyda'r sefydliadau lleol sy'n dod â phobl ddifreintiedig yn ôl i hyfforddiant, dysgu a chyflogaeth ar safle'r contract hwnnw.

**Antoinette Sandbach:** Minister, the experience of construction busineses in north Wales is SQuID—they see a pile of ink and the contract disappears. Will you consider meeting with north Wales construction businesses to hear of their experiences in relation to procurement, particularly the temporary setting up of a Welsh base by companies in order to qualify under procurement rules? Once a contract ends, the

**Antoinette Sandbach:** Weinidog, profiad busnesau adeiladu yng ngogledd Cymru yw SQuID—maent yn gweld pentwr o inc ac mae'r contract yn diflannu. A wnewch ystyried cyfarfod â busnesau adeiladu yng ngogledd Cymru i glywed am eu profiadau mewn perthynas â chaffael, yn enwedig y ffordd y mae rhai cwmnïau yn sefydlu canolfannau dros dro yng Nghymru er mwyn bod yn gymwys o dan y rheolau caffael?

businesses do not continue to operate in Wales.

Unwaith y bydd cytundeb yn dod i ben, nid yw'r busnesau hynny'n parhau i weithredu yng Nghymru.

To pick up on Julie James's point on local councils being risk averse in respect of European legislation, I know that Bangor University is doing some research into this area, particularly on procurement. Will you consider looking at that research and ask your officials to incorporate some of the findings in your exercise?

Gan gyfeirio at bwynt Julie James ar gynghorau lleol yn bod yn gyndyn i gymryd risgiau mewn perthynas â deddfwriaeth Ewropeaidd, gwn fod Prifysgol Bangor yn gwneud rhywfaint o waith ymchwil yn y maes hwn, yn enwedig ar gaffael. A wnewch ystyried edrych ar y gwaith ymchwil hwn a gofyn i'ch swyddogion gynnwys rhai o'r canfyddiadau yn eich ymarfer?

Finally, the monitoring exercise will be crucial in deciding whether or not real benefit is being delivered on the ground, in terms of businesses that operate permanently in Wales, rather than businesses that set up a temporary base.

Yn olaf, bydd yr ymarfer monitro yn allweddol wrth benderfynu a yw budd gwirioneddol yn cael ei ddarparu ar lawr gwlad, o ran busnesau sy'n gweithredu yn barhaol yng Nghymru, yn hytrach na busnesau sy'n sefydlu canolfan dros dro.

3.15 p.m.

**Jane Hutt:** I thank the Member for North Wales. I regularly meet with contractors in the construction sector; in fact, I am speaking at a conference on Friday, as I did a couple of weeks ago for the Royal Institution of Chartered Surveyors. We have an opportunity to move away from the concerns that local authorities are risk-averse as a result of the competency, training and support that we are giving to them. Through the collaborative opportunities, you will see the lessons learned from the framework agreements and contracts in terms of the contrast between north and south Wales in the outcome of those framework agreements. I will use this opportunity to take forward the lessons learned about getting flexibility, ensuring that we can build the company base in Wales—I have given the figures—and, if we have companies winning contracts from outside of Wales, that they are embedded in terms of a commitment to community benefits, with, of course, the lead of the public sector procurers.

**Jane Hutt:** Diolchaf i'r Aelod dros Ogledd Cymru. Rwy'n cyfarfod yn rheolaidd â chontractwyr yn y sector adeiladu; yn wir, rwy'n siarad mewn cynhadledd ddydd Gwener, fel y gwneuthum ychydig o wythnosau yn ôl i Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig. Mae gennym gyfle i symud i ffwrdd oddi wrth y pryderon bod awdurdodau lleol yn gyndyn i gymryd risg o ganlyniad i'r cymhwysedd, hyfforddiant a chefnogaeth rydym yn eu rhoi iddynt. Drwy'r cyfleoedd cydweithredol, byddwch yn gweld y gwersi a ddysgwyd o'r cytundebau a chontractau fframwaith o ran y cyferbyniad rhwng gogledd a de Cymru yng nghanlyniadau'r cytundebau fframwaith hynny. Byddaf yn defnyddio'r cyfle hwn i fwrw ymlaen â'r gwersi a ddysgwyd ynghylch cael hyblygrwydd, gan sicrhau ein bod yn gallu adeiladu'r sylfaen cwmnïau yng Nghymru—rwyf wedi rhoi'r ffigurau—ac, os bydd cwmnïau o'r tu allan i Gymru yn ennill contractau, eu bod yn gadarn o ran eu hymrwymiad i fudd cymunedol, gydag, wrth gwrs, arweiniad caffaelwyr y sector cyhoeddus.

**Mick Antoniw:** I very much welcome the comments that you made in your statement with regard to Remploy. However, there appears to be a significant gap developing with Remploy in terms of universities, health

**Mick Antoniw**: Rwyf yn croesawu'n fawr y sylwadau a wnaethoch yn eich datganiad mewn perthynas â Remploy. Fodd bynnag, mae'n ymddangos bod bwlch sylweddol yn datblygu gyda Remploy o ran prifysgolion,

authorities, local authorities, the ambulance trust and so on not using the Remploy facilities and services that are available, particularly in terms of furniture, data cleansing and so on. It seems to me that this is an area where there is great potential for leadership in co-ordinating greater procurement from and support for this vital industry in Wales. Will you consider making a statement on how we might develop support for Remploy in procurement?

awdurdodau iechyd, awdurdodau lleol, yr ymddiriedolaeth ambiwlans ac yn y blaen nad ydynt yn defnyddio cyfleusterau Remploy a'r gwasanaethau sydd ar gael, yn enwedig o ran dodrefn, glanhau data ac yn y blaen. Mae'n ymddangos i mi fod hwn yn faes lle mae potensial mawr i arwain wrth gydlynu rhagor o gaffael gan y diwydiant hanfodol hwn yng Nghymru a chefnogaeth iddo. A wnewch ystyried gwneud datganiad ynghylch sut y gallem ddatblygu cefnogaeth i Remploy yn y broses gaffael?

**Jane Hutt:** I recently met Remploy to look at how we can open up opportunities. It is a statutory requirement for equalities to be considered in public procurement activity, and we have provided the tools to enable that to happen, with a sustainable risk assessment to help buyers to consider this issue, and actively sought outcomes that directly benefit disadvantaged people. However, working with Remploy closely during recent years, we were the first to award a reserved contract using the article 19 provision. That is being extended to March 2013, and I will be making a statement about that shortly. The pilot project that I mentioned with Remploy for invoice scanning came about because of the Xchangewales programme. Therefore, again, it is about making sure that Remploy is at the forefront, but also that other organisations like Remploy can benefit**.**

**Jane Hutt:** Yn ddiweddar, cyfarfûm â Remploy i edrych ar sut y gallwn ehangu cyfleoedd. Mae'n ofyniad statudol bod cydraddoldeb yn cael ei ystyried mewn gweithgarwch caffael cyhoeddus, ac rydym wedi darparu'r offer i alluogi hynny i ddigwydd, gydag asesiad risg cynaliadwy i helpu prynwyr i ystyried y mater hwn, ac wedi ceisio sicrhau canlyniadau sydd o fydd uniongyrchol i bobl o dan anfantais. Fodd bynnag, gan weithio'n agos gyda Remploy yn ystod y blynyddoedd diwethaf, ni oedd y cyntaf i ddyfarnu contract a ddiogelwyd gan ddefnyddio darpariaeth erthygl 19. Mae hynny'n cael ei ymestyn i fis Mawrth 2013, a byddaf yn gwneud datganiad am hynny cyn bo hir. Daeth y prosiect peilot ar gyfer sganio anfonebau gyda Remploy a grybwyllais i fodolaeth oherwydd y rhaglen cyfnewidcymru. Felly, eto, mae'n ymwneud â sicrhau bod Remploy ar flaen y gad, ond hefyd bod sefydliadau eraill fel Remploy yn gallu elwa.

**Joyce Watson:** I welcome this statement today, particularly as chair of the all-party group on construction. I welcome particularly the spirit of it with regard to construction and the increase in business for the Welsh construction industry in the way that is described. I do not want to go through everything that has been said already—I would not be allowed to do so anyway—but I will ask a question arising from this morning's meeting. When you are looking at the review of procurement, can we have a time frame to deliver change, because it was made clear this morning that time is of the essence for those small and medium-sized enterprises that are currently having huge difficulty going through the bidding process? They asked specifically that we look at the

**Joyce Watson:** Rwyf yn croesawu'r datganiad hwn heddiw, yn enwedig fel cadeirydd y grŵp hollbleidiol ar adeiladu. Croesawaf yn arbennig ei ysbryd o ran adeiladu a'r cynnydd mewn busnes ar gyfer diwydiant adeiladu Cymru yn y modd a ddisgrifir. Nid wyf am fynd drwy bopeth a ddywedwyd eisoes—ni fyddwn yn cael gwneud hynny beth bynnag—ond gofynnaf gwestiwn sy'n codi o'r cyfarfod y bore yma. Pan fyddwch yn ystyried yr arolwg o gaffael, a allwn gael amserlen i gyflawni newid, gan iddo gael ei wneud yn glir y bore yma fod amser yn hanfodol ar gyfer y mentrau bach a chanolig hynny sydd ar hyn o bryd yn cael anhawster mawr mynd drwy'r broses ymgeisio? Gwnaethant ofyn yn benodol inni edrych ar y cydbwysedd rhwng twf, y

balance between growth, which you have mentioned and we welcome and which Julie James talked about, and competition. They feel that there is an imbalance between those two at the moment, in that bigger firms are allowed to compete at any level, whereas the small firms are impeded somewhat. Concerns were raised about the fact that there are only three contractors bidding now in Gwynedd, Powys and Ceredigion local authorities, and, as already been mentioned, only four in Pembrokeshire. Will you have a look at what has created that situation?

gwnaethoch sôn amdano ac yr ydym yn ei groesawu ac a grybwyllwyd gan Julie James, a chystadleuaeth. Maent yn teimlo bod anghydbwysedd rhwng y ddau beth hwnnw ar hyn o bryd, o ran bod cwmnïau mwy yn cael cystadlu ar unrhyw lefel, tra bod y cwmnïau bach yn cael eu rhwystro i raddau. Mynegwyd pryderon ynghylch y ffaith mai dim ond tri o gontractwyr sy'n gwneud ceisiadau yn awdurdodau lleol Gwynedd, Powys a Cheredigion yn awr ac, fel y crybwyllwyd eisoes, dim ond pedwar sydd yn Sir Benfro. A wnewch chi gael golwg ar yr hyn sydd wedi creu'r sefyllfa honno?

**Jane Hutt:** I would certainly want to look at that. I thank Joyce Watson for the role that she has played in her construction skills excellence group. I want to assure the Member that there is good news on encouraging and enabling small to medium-sized enterprises to benefit, for example, from the IT agreement. I will just quickly mention that a number of Welsh public sector organisations are working together through agreement and collaborative mini-competitions. That will not only realise further savings, but will enable SMEs to benefit. Moving to north Wales, Anglesey, Flintshire, Gwynedd and Wrexham councils are running a collaborative competition through the north Wales standardised desktop hardware project with regard to IT and e-procurement. That is already getting a good level of engagement from SMEs across north Wales.

**Jane Hutt:** Byddwn yn sicr eisiau edrych ar hynny. Hoffwn ddiolch i Joyce Watson am y rhan y mae wedi'i chwarae yn ei grŵp rhagoriaeth sgiliau adeiladu. Rwyf am sicrhau'r Aelod bod newyddion da ynghylch annog a galluogi mentrau bach i ganolig eu maint i elwa, er enghraifft, ar y cytundeb TG. Rwyf am sôn yn gyflym bod nifer o sefydliadau yn y sector cyhoeddus yng Nghymru yn cydweithio drwy gytundebau a chystadlaethau bach ar y cyd. Bydd hyn nid yn unig yn creu arbedion pellach, ond yn galluogi busnesau bach a chanolig i elwa. I droi at ogledd Cymru, mae cynghorau Ynys Môn, Sir y Fflint, Gwynedd a Wrecsam yn cynnal cystadleuaeth ar y cyd drwy brosiect bwrdd gwaith caledwedd mewn perthynas â TG ac e-gaffael. Mae hynny eisoes yn sicrhau lefel dda o ymgysylltiad gan fentrau bach a chanolig ledled gogledd Cymru.

## Datganiad: Adroddiad Blynyddol Strategaeth Amgylcheddol 2010-11
## Statement: Environment Strategy Annual Report 2010-11

**The Minister for Environment and Sustainable Development (John Griffiths):** I am grateful for the opportunity to speak to Members about this environment strategy annual report. This is the third time that we have provided an update on our environment strategy action plan. Since 2008, our action plan has given momentum to the vital work of our partners on the ground, who help to deliver our vision of a distinctive Welsh environment thriving and contributing to the economic and social wellbeing and health of all the people of Wales.

**Gweinidog yr Amgylchedd a Datblygu Cynaliadwy (John Griffiths):** Rwyf yn diolch am y cyfle i siarad ag Aelodau am yr adroddiad blynyddol hwn ar y strategaeth amgylcheddol. Dyma'r trydydd tro i ni roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynllun gweithredu ein strategaeth amgylcheddol. Ers 2008, mae ein cynllun gweithredu wedi rhoi momentwm i waith hanfodol ein partneriaid ar lawr gwlad, sy'n helpu i gyflawni ein gweledigaeth o gael amgylchedd unigryw i Gymru sy'n ffynnu ac yn cyfrannu at les economaidd a chymdeithasol ac iechyd holl bobl Cymru.

The environment strategy action plan has focused strongly on local quality-of-life issues that are so important to our communities up and down Wales. The action plan has driven forward action on the ground to deliver a better environment. It has been developed and delivered through partnership. Twenty-two different organisations have been involved, from across the third sector, voluntary groups, local government, and Welsh Government sponsored bodies. I thank each of them for their commitment and hard work, which have made this action plan a success.

Mae cynllun gweithredu'r strategaeth amgylcheddol wedi canolbwyntio'n gryf ar faterion ansawdd bywyd lleol sydd mor bwysig i'n cymunedau ledled Cymru. Mae'r cynllun gweithredu wedi rhoi hwb i weithredu ar lawr gwlad i sicrhau gwell amgylchedd. Cafodd ei ddatblygu a'i gyflwyno drwy bartneriaeth. Mae 22 o wahanol fudiadau wedi cymryd rhan ar draws y trydydd sector, grwpiau gwirfoddol, llywodraeth leol, a chyrff a noddir gan Lywodraeth Cymru. Diolch i bob un ohonynt am eu hymrwymiad a'u gwaith caled, sydd wedi gwneud y cynllun gweithredu hwn yn llwyddiant.

Of the 41 actions included in the action plan, I am pleased that the 26 actions that had a clear time limit have all been completed and that the 15 remaining actions, which reflect ongoing work, have been successful; work on these carries on. Good examples of the work undertaken include the improvements to environmental quality at local level, through schemes such as Tidy Towns. By the end of March 2011, Keep Wales Tidy had assisted more than 1,200 groups to undertake more than 15,000 clean-ups, a clear indication of the enthusiasm and dedication of local people who care so much about their local environment.

O'r 41 o gamau gweithredu a geir yn y cynllun gweithredu, rwyf yn falch bod y 26 o gamau gweithredu a oedd â therfyn amser clir i gyd wedi eu cwblhau a bod y 15 o gamau sy'n weddill, sy'n adlewyrchu gwaith parhaus, wedi bod yn llwyddiannus; mae gwaith ar y rhain yn parhau. Mae enghreifftiau da o'r gwaith a wnaed yn cynnwys y gwelliannau i ansawdd yr amgylchedd ar lefel leol, drwy gynlluniau fel Trefi Taclus. Erbyn diwedd mis Mawrth 2011, roedd Cadwch Gymru'n Daclus wedi helpu mwy na 1,200 o grwpiau i ymgymryd â mwy na 15,000 o fentrau glanhau, sy'n arwydd clir o frwdfrydedd ac ymroddiad pobl leol sy'n pryderu gymaint am eu hamgylchedd lleol.

Another example is the Countryside Council for Wales's community-led Come Outside! initiative. It works with socially disadvantaged groups, including those in Communities First areas. This project has successfully shown the importance of involving all communities in the care and enjoyment of the natural environment. The Countryside Council for Wales is working with partners to mainstream this approach. I am also pleased that the national park authorities are doing valuable work on social inclusion, which we also report on. The voice trails developed by Snowdonia National Park Authority, which offer guided walks for the visually impaired, are a good example of that.

Enghraifft arall yw Dewch Allan!—menter gymunedol Cyngor Cefn Gwlad Cymru. Mae'n gweithio gyda grwpiau sydd o dan anfantais gymdeithasol, gan gynnwys y rheini yn ardaloedd Cymunedau'n Gyntaf. Mae'r prosiect hwn wedi llwyddo i ddangos pwysigrwydd cynnwys pob cymuned yn y broses o ofalu a mwynhau'r amgylchedd naturiol. Mae Cyngor Cefn Gwlad Cymru yn gweithio gyda phartneriaid i brif ffrydio'r dull hwn. Rwyf hefyd yn falch bod awdurdodau'r parciau cenedlaethol yn gwneud gwaith gwerthfawr ar gynhwysiant cymdeithasol, yr ydym hefyd yn adrodd yn ei gylch. Mae'r teithiau llafar a ddatblygwyd gan Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri, sy'n cynnig teithiau tywys ar gyfer pobl sydd â nam ar eu golwg, yn enghraifft dda o hynny.

A third example of the valuable work that we

Trydedd enghraifft o'r gwaith gwerthfawr

report is the action included in the Green Flag awards and the year-on-year increase in the number of schools achieving those awards. The number of schools with Green Flag awards increased during 2010-11 to 1,103. This success will help our children to understand and care for their natural environment and encourage them to live their lives more sustainably. That is vital if we are to achieve our environmental goals for the future.

rydym yn adrodd amdano yw'r camau a gynhwysir yng ngwobrau'r Faner Werdd a'r cynnydd flwyddyn ar ôl blwyddyn yn nifer yr ysgolion sy'n ennill y gwobrau hynny. Cododd nifer yr ysgolion sydd â gwobrau Baner Werdd i 1,103 yn ystod 2010-11. Bydd y llwyddiant hwn yn helpu ein plant i ddeall a gofalu am eu hamgylchedd naturiol ac yn eu hannog i fyw eu bywydau mewn ffordd fwy cynaliadwy. Mae hynny'n hanfodol os ydym i gyflawni ein nodau amgylcheddol ar gyfer y dyfodol.

Therefore, it is clear that the environment strategy action plan has allowed our key stakeholders to promote and focus their work. The action plan has brought together this work within a single framework that makes it very clear what outcomes have been achieved. This joint way of working has been enormously helpful to all and has allowed all our partners to understand and learn from each other.

Felly, mae'n amlwg bod cynllun gweithredu'r strategaeth amgylcheddol wedi galluogi ein rhanddeiliaid allweddol i hyrwyddo a ffocysu eu gwaith. Mae'r cynllun gweithredu wedi dwyn ynghyd y gwaith hwn o fewn fframwaith sengl sy'n ei gwneud yn glir iawn pa ganlyniadau a gyflawnwyd. Bu'r ffordd hon o gydweithio o gymorth mawr i bawb ac mae wedi galluogi ein holl bartneriaid i ddeall a dysgu oddi wrth ei gilydd.

The action plan has encouraged active engagement and working with people on the ground, particularly in hard-to-reach communities, so that everyone can understand, benefit from, and enjoy our natural environment. The action plan has allowed us to improve the health and vitality of our natural environment, by working in partnership and promoting social justice and equality for all, fully reflecting our commitment to sustainable development as our central organising principle. The environment strategy action plan is now completed, and we move on to our new approach to the management of the natural environment. We will use the experiences learned from this action plan and the valuable partnerships that it has generated to inform and underpin our work in the future.

Mae'r cynllun gweithredu wedi annog ymgysylltiad gweithredol a gweithio gyda phobl ar lawr gwlad, yn enwedig mewn cymunedau anodd eu cyrraedd, er mwyn i bawb ddeall a mwynhau ein hamgylchedd naturiol ac elwa arno. Mae'r cynllun gweithredu wedi ein galluogi i wella iechyd a bywiogrwydd ein hamgylchedd naturiol, drwy weithio mewn partneriaeth a hyrwyddo cyfiawnder cymdeithasol a chydraddoldeb i bawb, gan adlewyrchu'n llawn ein hymrwymiad i ddatblygu cynaliadwy fel ein hegwyddor drefnu ganolog. Mae cynllun gweithredu'r strategaeth amgylcheddol wedi'i gwblhau erbyn hyn, ac rydym yn symud ymlaen at ein dull newydd o reoli'r amgylchedd naturiol. Byddwn yn defnyddio'r profiadau a ddysgwyd o'r cynllun gweithredu hwn a'r partneriaethau gwerthfawr y mae wedi eu creu i lywio ac ategu ein gwaith yn y dyfodol.

I was pleased, at the end of January, to launch our Green Paper, 'Sustaining a Living Wales'. Our new approach hinges on us considering and managing the Welsh environment as a whole. It puts the resilience and diversity of our ecosystems and the sustainable use of our resources right at the heart of decision making. This approach will

Roeddwn yn falch o lansio ein Papur Gwyrdd, 'Cynnal Cymru Fyw', ddiwedd mis Ionawr. Mae ein dull newydd yn dibynnu ar ein bod yn ystyried a rheoli amgylchedd Cymru yn ei gyfanrwydd. Mae'n rhoi gwydnwch ac amrywiaeth ein hecosystemau a'r defnydd cynaliadwy o'n hadnoddau wrth galon y broses o wneud penderfyniadau.

make the regulation of the environment simpler and more cost effective. It will benefit local communities, because there will be an increased focus on meeting local needs and opportunities for local people.

Bydd y dull hwn yn gwneud rheoleiddio'r amgylchedd yn symlach a mwy costeffeithiol. Bydd o fudd i gymunedau lleol, oherwydd bydd mwy o ffocws ar gwrdd ag anghenion lleol a chyfleoedd i bobl leol.

To deliver this new approach, we have taken a fresh look at our current delivery systems and processes for the management of the environment and our natural resources. In December, I announced that I intend to create a new single body to replace the Countryside Council for Wales, the Environment Agency Wales and the Forestry Commission for Wales. I published a consultation paper on 9 February, which outlines the role and functions of the new body. I hope that it will help to inform the ongoing programme to develop 'Sustaining a Living Wales'. I am convinced that the establishment of a single body will ensure the most sustainable management of Wales's natural resources. It will not only result in a more streamlined way of working, but ensure more effective delivery, improved value for money, and better outcomes for Welsh people, Welsh businesses and the environment.

Er mwyn cyflwyno'r ymagwedd newydd hon, rydym wedi ailedrych ar ein systemau darparu a phrosesau presennol ar gyfer rheoli'r amgylchedd a'n hadnoddau naturiol. Fis Rhagfyr, cyhoeddais fy mod yn bwriadu creu un corff newydd i ddisodli Cyngor Cefn Gwlad Cymru, Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru a Chomisiwn Coedwigaeth Cymru. Cyhoeddais bapur ymgynghori ar 9 Chwefror, sy'n amlinellu rôl a swyddogaethau'r corff newydd. Rwyf yn gobeithio y bydd yn helpu i lywio'r rhaglen barhaus i ddatblygu 'Cynnal Cymru Fyw'. Rwyf yn argyhoeddedig y bydd sefydlu un corff yn sicrhau'r rheolaeth fwyaf cynaliadwy o adnoddau naturiol Cymru. Nid yn unig y bydd yn arwain at ffordd symlach o weithio, ond bydd hefyd yn sicrhau darpariaeth fwy effeithiol, gwell gwerth am arian, a chanlyniadau gwell ar gyfer pobl a busnesau Cymru a'r amgylchedd.

We are making steady progress towards the achievement of our environment strategy outcomes. The work undertaken by all our partners in support of our environment strategy action plan has made an important contribution to this. It has provided a solid basis for us to take forward our approach outlined in 'Sustaining a Living Wales'. Most importantly, the environment strategy action plan has improved the local environment and quality of life for people and communities in Wales.

Rydym yn gwneud cynnydd cyson tuag at gyflawni canlyniadau ein strategaeth amgylchedd. Mae'r gwaith a wnaed gan ein holl bartneriaid i gefnogi cynllun gweithredu ein strategaeth amgylchedd wedi gwneud cyfraniad pwysig i hyn. Mae wedi rhoi sail gadarn i ni allu datblygu ein dull a amlinellwyd yn 'Cynnal Cymru Fyw'. Yn bwysicaf oll, mae cynllun gweithredu'r strategaeth amgylcheddol wedi gwella'r amgylchedd lleol ac ansawdd bywyd pobl a chymunedau yng Nghymru.

**The Presiding Officer:** Before I call the spokespersons, I want to remind Members that this is an opportunity to scrutinise the Minister and ask him questions, not for long speeches. I call on the opposition spokesperson, Russell George.

**Y Llywydd:** Cyn i mi alw ar y llefarwyr, rwyf am atgoffa'r Aelodau mai cyfle i graffu ar y Gweinidog a gofyn cwestiynau iddo yw hwn ac nid i draddodi areithiau hir. Galwaf ar lefarydd yr wrthblaid, Russell George.

**Russell George:** Thank you, Presiding Officer, and I will do that. I noted your 'keep it short' look at me earlier.

**Russell George:** Diolch, Lywydd, a byddaf yn gwneud hynny. Sylwais ar eich edrychiad 'cadwch e'n fyr' yn gynharach.

I thank the Minister for this statement today. It is encouraging to see the progress made against the environment strategy indicators.

Diolch i'r Gweinidog am y datganiad hwn heddiw. Mae'n galonogol gweld y cynnydd a wnaed yn erbyn dangosyddion y strategaeth

There are now 33 indicators that show a clear measurable improvement, which is good news. However, the increase in those indicators showing deterioration is not so encouraging. The key indicators here are the ones that look at Wales's ecological footprint. Although I appreciate that the short-term picture may show some improvement when compared with the longer-term trend, specifically when compared to the 1992 baseline figures, there is deterioration, and the Government still has a lot of work to do to meet the 'One Wales: One Planet' challenge. Therefore, I would be interested to hear the Minister's comments about this and what mitigating steps he is building into future policy.

amgylchedd. Erbyn hyn, mae 33 o ddangosyddion sy'n dangos gwelliant mesuradwy clir, sy'n newyddion da. Fodd bynnag, nid yw'r cynnydd yn y dangosyddion hynny sy'n dangos dirywiad mor galonogol. Y dangosyddion allweddol yn y fan hon yw'r rhai sy'n edrych ar ôl-troed ecolegol Cymru. Er fy mod yn gwerthfawrogi y gall y darlun tymor byr ddangos rhywfaint o welliant o'i gymharu â'r duedd tymor hwy, yn benodol o'i gymharu â ffigurau sylfaenol 1992, mae dirywiad, ac mae gan y Llywodraeth lawer o waith i'w wneud o hyd i ateb her 'Cymru'n Un: Cenedl Un Blaned'. Felly, byddai gennyf ddiddordeb mewn clywed sylwadau'r Gweinidog am hyn a pha gamau lliniarol y mae'n eu cynnwys ym mholisi'r dyfodol.

The 27a and 29c indicators are quality-of-life indicators and are no less important. These affect people daily, and contribute to a greater sense of wellbeing. What is the Minister doing in collaboration with local authorities to address these concerns? The deterioration in indicator 33c is not wholly clear from the report. There are historic air-quality hot spots in many Welsh towns and cities, for example, New Road in Newtown in my constituency. The EU limits will have an effect on local authorities, so how confident are you that the specific action plans that authorities have put in place are sufficiently robust to tackle the problems of air quality management?

Mae dangosyddion 27a a 29c yn rhai ansawdd bywyd ac nid ydynt yn llai pwysig. Mae'r rhain yn effeithio ar bobl bob dydd, ac yn cyfrannu at ymdeimlad mwy o les. Beth mae'r Gweinidog yn ei wneud mewn cydweithrediad ag awdurdodau lleol i fynd i'r afael â'r pryderon hyn? Nid yw'r dirywiad yn nangosydd 33c yn gwbl glir o'r adroddiad. Mae ardaloedd sydd â phroblemau ansawdd aer hanesyddol yn nifer o drefi a dinasoedd Cymru, er enghraifft, Ffordd Newydd yn Y Drenewydd yn fy etholaeth. Bydd terfynau'r UE yn cael effaith ar awdurdodau lleol, felly pa mor hyderus ydych chi fod y cynlluniau gweithredu penodol y mae awdurdodau wedi'u rhoi ar waith yn ddigon cadarn i fynd i'r afael â phroblemau rheoli ansawdd aer?

3.30 p.m.

Although recycling rates in many authorities are improving, which is good, there are big barriers to the implementation of long-term waste management strategies, like variations of service provision and the need for significant behavioural change in some areas of Wales. The other factor, which is probably more critical, going back to the issue of our ecological footprint, is how we deal with growth in personal consumption and how we will prevent the amount of waste that enters the waste stream. Has the Minister had an opportunity yet to fully digest the Wales Audit Office 'Public Participation in Waste Recycling' report, as the recommendations made will have an important bearing on the

Er bod cyfraddau ailgylchu mewn llawer o awdurdodau yn gwella, sy'n beth da, mae rhwystrau mawr i weithredu strategaethau rheoli gwastraff hirdymor, fel amrywiadau o ran y gwasanaethau a ddarperir a'r angen am newid sylweddol mewn ymddygiad mewn rhai ardaloedd yng Nghymru. Y ffactor arall, sydd yn ôl pob tebyg yn fwy allweddol, gan fynd yn ôl at fater ein hôl troed ecolegol, yw sut yr ydym yn ymdrin â thwf mewn defnydd personol a sut y byddwn yn atal faint o wastraff sy'n mynd i mewn i'r llif gwastraff. A yw'r Gweinidog wedi cael cyfle eto i roi ystyriaeth lawn i adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru, 'Cyfranogiad y Cyhoedd o ran Ailgylchu Gwastraff', gan y bydd yr

environment strategy going forward?

argymhellion ynddo yn cael effaith bwysig ar strategaeth yr amgylchedd wrth symud ymlaen?

In relation to marine policy, we are still waiting on a statement and the start of a consultation process on marine conservation zones. Can the Minister tell me when that will be forthcoming? Finally, on water policy, in light of the drought summit in England yesterday, the idea of a national water grid has been floated again. The issue of the Government's global responsibility is touched upon in a position statement made last year, and I would be interested to hear from the Minister what discussions he has been involved in with regard to the movement of water from Wales to other parts of the UK; what initial planning has been done; and what potential implications there could be for consumers in Wales, balanced, of course, with the potential benefits in revenue that could be obtained in selling this precious resource. I was personally surprised to hear yesterday an officer of the Environment Agency say that not one of the water companies in the UK has investigated in their long-term strategies—that is over 25 years—the movement of water across the UK through the use of our canal network. I am sure that my colleague, Nick Ramsay, will take up that point in his short debate tomorrow, and I hope that that plug tempts you all to stay to listen.

O ran y polisi morol, rydym yn dal i aros am ddatganiad a dechrau'r broses ymgynghori ar barthau cadwraeth morol. A all y Gweinidog ddweud wrthyf pryd y bydd hynny'n digwydd? Yn olaf, o ran polisi dŵr, yn wyneb yr uwchgynhadledd ar sychder yn Lloegr ddoe, mae'r syniad o grid dŵr cenedlaethol wedi'i godi eto. Soniwyd am gyfrifoldeb byd-eang y Llywodraeth mewn datganiad sefyllfa a wnaed y llynedd, a byddai gen i ddiddordeb mewn clywed gan y Gweinidog pa drafodaethau y mae wedi bod yn rhan ohonynt ar symud dŵr o Gymru i rannau eraill o'r DU; pa gynllunio cychwynnol sydd wedi cael ei wneud; a beth yw'r goblygiadau posibl i ddefnyddwyr yng Nghymru, wedi'i gydbwyso, wrth gwrs, â'r manteision posibl mewn refeniw y gellid eu cael drwy werthu'r adnodd gwerthfawr hwn. Roeddwn yn synnu o glywed ddoe un o swyddogion Asiantaeth yr Amgylchedd yn dweud nad oes dim un o'r cwmnïau dŵr yn y DU wedi ymchwilio yn eu strategaethau hirdymor—hynny yw dros 25 mlynedd—i symud dŵr ar draws y DU drwy ddefnyddio ein rhwydwaith camlesi. Rwy'n siŵr y bydd fy nghyd-Aelod, Nick Ramsay, yn ystyried y pwynt hwnnw yn ei ddadl fer yfory, a gobeithio y bydd yr hysbyseb honno yn eich denu chi i gyd i aros i wrando.

**John Griffiths:** I thank Russell George for his general acknowledgement of the improvement in our environmental indicators, and I welcome the questions he asked, which go to the heart of the report, the progress that has been made and where further progress is necessary. When it comes to the ecological footprint, Russell George was absolutely right to say that, in recent years, it has been an improving position, and that is very encouraging for us. We now need to ensure that our natural environment framework and the new single environment body take forward those improvements and build upon them for the future, and both those developments are very much designed to achieve that further improvement.

**John Griffiths:** Diolch yn fawr i George Russell am ei gydnabyddiaeth gyffredinol o'r gwelliant yn ein dangosyddion amgylcheddol, a chroesawaf y cwestiynau a ofynnodd, sy'n mynd at wraidd yr adroddiad, y cynnydd sydd wedi'i wneud a lle y mae cynnydd pellach yn angenrheidiol. O ran ôl troed ecolegol, roedd George Russell yn llygad ei le wrth ddweud bod y sefyllfa, yn y blynyddoedd diwethaf, wedi bod yn gwella, ac mae hynny'n galonogol iawn i ni. Bellach mae angen inni sicrhau bod ein fframwaith amgylchedd naturiol a'r un corff amgylcheddol newydd yn bwrw ymlaen â'r gwelliannau hynny ac yn adeiladu arnynt ar gyfer y dyfodol, ac mae'r ddau ddatblygiad hynny wedi'u cynllunio i gyflawni'r gwelliant pellach hwnnw.

On air quality, there has been an increased

Mewn perthynas ag ansawdd aer, cafwyd

effort in terms of making further improvements, and, to some extent perhaps, that has impacted on the indicator. We need to look at how we measure progress to ensure that we are capturing the true situation as far as air quality is concerned. Sometimes, when you take forward policy to address issues, more people are contained within specific areas identified, which then has an impact on the statistics. What we have seen in terms of air quality is an across-the-board improvement over several years, which is very welcome. Indeed, some aspects of air pollution have been driven down by more than 90%. Obviously, we have to do some further work on those that are yet to improve to that extent, but, generally, it has been a positive picture.

ymdrech cynyddol o ran gwneud gwelliannau pellach, ac, i ryw raddau efallai, mae hynny wedi effeithio ar y dangosydd. Mae angen inni edrych ar sut y byddwn yn mesur cynnydd i sicrhau ein bod yn adlewyrchu'r sefyllfa wirioneddol cyn belled ag y mae ansawdd aer yn y cwestiwn. Weithiau, pan fyddwch yn gweithredu polisi i fynd i'r afael â materion, bydd mwy o bobl yn cael eu cynnwys o fewn meysydd penodol a nodwyd, a hynny wedyn yn cael effaith ar yr ystadegau. Yr hyn a welsom o ran ansawdd aer yw gwelliant cyffredinol dros nifer o flynyddoedd, sydd i'w groesawu'n fawr. Yn wir, mae gostyngiad o fwy na 90% wedi bod mewn rhai agweddau ar lygredd aer. Yn amlwg, mae'n rhaid inni wneud rhywfaint o waith pellach ar y rhai nad ydynt wedi gwella i'r graddau hynny, ond, yn gyffredinol, mae wedi bod yn ddarlun cadarnhaol.

Similarly, with recycling rates, over several years, since the beginning of the Assembly, we have moved from a position of having a single-figure recycling rate of household waste to one approaching the mid 40%, and driving on beyond 50% in some instances. We are very much on target in terms of the statutory requirements we have set. There are issues around variation between local authorities, as the Member mentioned, and there are issues around behavioural change. However, all of that is very much part and parcel of 'Towards Zero Waste', our overarching waste strategy.

Yn yr un modd, gyda chyfraddau ailgylchu, dros nifer o flynyddoedd, ers dechrau'r Cynulliad, rydym wedi symud o sefyllfa lle yr oedd cyfradd ailgylchu un ffigur mewn perthynas â gwastraff y cartref i un sy'n agosáu at ganol 40%, ac yn mynd y tu hwnt i 50% mewn rhai achosion. Rydym yn llwyddo i gyrraedd ein targedau o ran y gofynion statudol a osodwyd gennym. Ceir rhai problemau sy'n ymwneud ag amrywio rhwng awdurdodau lleol, fel y dywedodd yr Aelod, a cheir problemau'n ymwneud â newid mewn ymddygiad. Fodd bynnag, mae hynny i gyd yn sicr yn rhan annatod o 'Tuag at Ddyfodol Diwastraff', ein strategaeth wastraff gyffredinol.

I will be making a statement on water policy in due course, which will address issues in the round, including the matters the Member mentioned.

Byddaf yn gwneud datganiad am bolisi dŵr maes o law, a fydd yn mynd i'r afael â materion yn eu cyfanrwydd, gan gynnwys y materion a grybwyllwyd gan yr Aelod.

**Julie Morgan:** Does the Minister agree that, for those living in urban areas such as my constituency of Cardiff North, one of the great benefits is access to green spaces, such as the Glamorganshire canal and the Nant Fawr corridor, which includes the Llanishen reservoir, which I know the Minister cannot comment on? However, does he agree that access to such green spaces is an essential component of the high quality of life we experience in Wales? Can he comment on the figures in the report that indicate that 4% of

**Julie Morgan:** A yw'r Gweinidog yn cytuno, ar gyfer y rhai sy'n byw mewn ardaloedd trefol fel fy etholaeth i, sef Gogledd Caerdydd, mai un o'r manteision mawr yw mynediad i fannau gwyrdd, fel camlas Morgannwg a choridor Nant Fawr, sy'n cynnwys cronfa Llanisien, y gwn na all y Gweinidog gynnig sylwadau arnynt? Fodd bynnag, a yw'n cytuno bod mynediad i fannau gwyrdd o'r fath yn rhan hanfodol o'r ansawdd bywyd uchel yr ydym yn ei brofi yng Nghymru? A all gynnig sylwadau ar y

people said that they had less access to green spaces than in the previous year?

ffigurau yn yr adroddiad sy’n nodi bod 4% o bobl yn dweud bod ganddynt lai o fynediad i fannau gwyrdd nag yn y flwyddyn flaenorol?

**John Griffiths:** I thank Julie Morgan for those points and questions. We have achieved a lot in terms of connecting people in Wales better with our wonderful outdoors. We have seen open access as an important part of that. We have the Wales coast path, which is due to be completed in May this year. Voluntary groups and local authorities, in combination with the Welsh Government, have achieved a lot in terms of providing greater opportunities for the people of Wales to enjoy the fantastic outdoors that we are so lucky to have. However, I am conscious of the urban issues, as Julie Morgan mentioned. In fact, I enjoy running by the local canal where I live and am keen to get a better sense, in general, of how we can improve the inner urban environment in Wales, including green spaces, and provide opportunities to get outside and enjoy the outdoors in the inner urban environment. We have some important schemes in place. For example, the Splash grants have been very good and, in fact, they have enhanced access to canals in Wales, and Environment Wales provides small grants for community gardens. It is important that ‘Planning Policy Wales’ supports our general policies, but I believe that it does, and there are issues there for local planning authorities. Finally, once again, the natural environment framework is extremely important as far as this agenda is concerned, and I hope that we get a good response to the consultation that is ongoing at the current time.

**John Griffiths:** Diolch i Julie Morgan am y pwyntiau a’r cwestiynau hynny. Rydym wedi cyflawni llawer o ran cysylltu pobl yng Nghymru â’n mannau agored rhyfeddol. Rydym wedi gweld mynediad agored fel rhan bwysig o hynny. Mae gennym lwybr arfordir Cymru, sydd i fod i gael ei gwblhau ym mis Mai eleni. Mae grwpiau gwirfoddol ac awdurdodau lleol, ar y cyd â Llywodraeth Cymru, wedi cyflawni llawer o ran darparu mwy o gyfleoedd i bobl Cymru fwynhau’r mannau agored rhyfeddol yr ydym mor ffodus i’w cael. Fodd bynnag, rwy’n ymwybodol o’r materion trefol, fel y soniodd Julie Morgan. A dweud y gwir, rwy’n mwynhau rhedeg ar hyd y gamlas leol lle rwy’n byw ac rwy’n awyddus i gael gwell syniad, yn gyffredinol, o sut y gallwn wella’r amgylchedd trefol mewnol yng Nghymru, gan gynnwys mannau gwyrdd, a darparu cyfleoedd i fod y tu allan a mwynhau’r awyr agored yn yr amgylchedd trefol mewnol. Mae gennym rai cynlluniau pwysig ar waith. Er enghraifft, mae’r grantiau Sblash wedi bod yn dda iawn ac, yn wir, maent wedi gwella mynediad i gamlesi yng Nghymru, ac mae Amgylchedd Cymru yn rhoi grantiau bach ar gyfer gerddi cymunedol. Mae’n bwysig bod ‘Polisi Cynllunio Cymru’ yn cefnogi ein polisïau cyffredinol, ond credaf ei fod yn gwneud hynny, a cheir rhai materion i awdurdodau cynllunio lleol roi sylw iddynt yn hynny o beth. Yn olaf, unwaith eto, mae fframwaith yr amgylchedd naturiol yn eithriadol o bwysig cyn belled ag y mae’r agenda hon yn y cwestiwn, a gobeithio y cawn ymateb da i’r ymgynghoriad sy’n mynd rhagddo ar hyn o bryd

**Yr Arglwydd Elis-Thomas:** Hoffwn ddiolch i’r Gweinidog am ei ddatganiad ac am yr adroddiad olaf yn ei ffurf bresennol ar y strategaeth amgylchedd. Yn sicr, rwy’n falch o glywed ei fod yn ymlacio a chadw’n heini drwy redeg ar hyd y gamlas; ardderchog, yn wir. Yr hyn rwyf eisiau ei wneud yw holi’r Gweinidog sut ydym yn mynd i sicrhau yn y cyfnod o drosglwyddo o’r strategaeth hon—sydd yn mynd yn ôl i’r cynllun gweithredu a lansiwyd yn nyddiau hapus Llywodraeth Cymru’n Un yn 2008—y bydd y

**Lord Elis-Thomas:** I thank the Minister for his statement and for the final report in its current form on the environment strategy. I am certainly pleased to hear that he relaxes and keeps fit by jogging along the canal; that is truly excellent. I would like to ask the Minister how we are going to ensure, in the transition period from this strategy—which goes back to the action plan that was launched in the good old days of the One Wales Government in 2008—that this activity will continue during the inception of

gweithgaredd hwn yn parhau yn ystod cyfnod sefydlu'r polisi fframwaith newydd drwy 'Cynnal Cymru Fyw', ac yn arbennig fel rhan o swyddogaeth y corff amgylcheddol sengl. Mae'r Gweinidog yn gwybod am ein hymchwiliad a pha mor awyddus yr ydym i gefnogi'r corff hwnnw, ond rwy'n pryderu, fel un a dreuliodd flynyddoedd hapus fel cadeirydd gwirfoddol Cadwch Gymru'n Daclus, sut y bydd cynlluniau megis Trefi Taclus yn gallu parhau i hyrwyddo a rhoi gwybodaeth am fioamrywiaeth a chydweithio ag awdurdodau lleol drwy'r cyfnod o drosglwyddo.

a new policy framework through 'Sustaining a Living Wales', and particularly in the functions of the single environmental body? The Minister is aware of our inquiry and how eager we are to support that body, but, as one who spent many happy years as the voluntary chair of Keep Wales Tidy, I am concerned about how schemes such as Tidy Towns will be able to continue to promote and provide information on biodiversity and collaborate with local authorities during the transition period.

Hefyd, i gymryd enghraifft arall, ond nid o fudiad gwirfoddol, sut bydd cynllun rhagorol megis ymwybyddiaeth llifogydd Cymru, sydd wedi cael ei arwain gan Asiantaeth yr Amgylchedd ac awdurdodau lleol, yn parhau i allu cyflwyno gwybodaeth yn effeithiol yn y cyfnod o drosglwyddo? Yn amlwg, rwy'n gyfarwydd iawn â'r gwaith sydd wedi digwydd ar afonydd Clwyd a Chonwy ac mewn mannau eraill. Carwn gael sicrwydd gan y Gweinidog y bydd yn gofalu, wrth i ni symud i ddulliau newydd drwy'r corff sengl ac i fframwaith newydd 'Cynnal Cymru Fyw', y bydd y gweithgarwch bendigedig hwn gan y mudiadau gwahanol i gyd yn cael ei gynnal.

Also, to take another example, but not from a voluntary organisation, how will an excellent scheme such as flood awareness Wales, led by the Environment Agency and local authorities, continue to be able to provide information effectively during the transition period? Obviously, I am very familiar with the work that has taken place on the Clwyd and Conwy rivers and in other places. I want an assurance from the Minister that he will ensure that, as we move to these new ways of working through the single body and the new 'Sustaining a Living Wales' framework, this wonderful activity by all the different organisations will be maintained.

**John Griffiths:** I very much thank Dafydd Elis-Thomas for those comments and questions, for his great interest in these matters, and for the work of the committee. It is absolutely vital, in this period of very considerable change—with the single environmental body and the natural environment framework—that we ensure that there is no diminution in the vital services provided by the three bodies, as they currently exist, or in the progress made through our environment strategy and the environment action plan. We have to ensure that the transition is as smooth as possible. I have certainly made this very clear to my officials. It is necessary, working with the three bodies, to identify the services whose continuation is absolutely vital, with no diminution or deterioration at all. In terms of the shadow body, as it comes about in the summer, easing the transition to the new body will very much be part and parcel of that process. We will have those priorities

**John Griffiths:** Diolch yn fawr i Dafydd Elis-Thomas am y sylwadau a'r cwestiynau hynny, am ei ddiddordeb mawr yn y materion hyn, ac am waith y pwyllgor. Mae'n gwbl hanfodol, yn y cyfnod hwn o newid sylweddol iawn—gyda'r un corff amgylcheddol a fframwaith yr amgylchedd naturiol—inni sicrhau nad oes dim lleihad yn y gwasanaethau hanfodol a ddarperir gan y tri chorff, fel y maent ar hyn o bryd, nac yn y cynnydd a wnaed drwy ein strategaeth amgylcheddol a'r cynllun gweithredu amgylcheddol. Mae'n rhaid inni sicrhau bod y broses o newid mor llyfn â phosibl. Yn sicr, rwyf wedi gwneud hynny'n glir iawn i fy swyddogion. Gan weithio gyda'r tri chorff, mae angen nodi'r gwasanaethau y mae eu parhad yn gwbl hanfodol, heb ddim gostyngiad neu ddirywiad o gwbl. O ran y corff cysgodol, gan y bydd yn cael ei sefydlu yn yr haf, bydd hwyluso'r broses o newid i'r corff newydd yn rhan annatod o'r broses honno. Byddwn yn blaenoriaethu'r elfennau

uppermost in mind. My officials, the three bodies and I are very clear about the issues that we have to ensure are effectively addressed. That applies to all of the matters that Dafydd Elis-Thomas has mentioned, including some of the flood risk activity that I think has been very effective indeed.

hynny. Mae fy swyddogion, y tri chorff a minnau'n glir iawn ynghylch y materion y mae'n rhaid inni sicrhau eu bod yn cael eu trin mewn modd effeithiol. Mae hynny'n berthnasol i bob un o'r materion y mae Dafydd Elis-Thomas wedi'u crybwyll, gan gynnwys rhai gweithgareddau i leihau perygl llifogydd yr wyf yn meddwl eu bod wedi bod yn effeithiol iawn.

**William Powell:** I thank the Minister for bringing this important report before the Chamber today, and I welcome much of the progress that it reflects. We should celebrate the widespread good practice that has arisen across the whole of Wales. The Minister and Dafydd Elis-Thomas have celebrated the work of Keep Wales Tidy and the Tidy Towns initiative. We should also recognise the vital contribution of organisations such as Coed Cadw, in relation to its work in promoting tree planting across Wales among community groups in the last few years, with 25,000 trees planted. Work has also been done this year to take forward the initiative of celebrating the diamond jubilee. We also see the work done by RSPB Cymru, with its annual report on the state of birds in Wales. There is also the all-important Volunteer and Farmer Alliance scheme, which sounds a bit like a central European political party but is a very important way of harnessing farmers and country folk in understanding where we are in terms of the state of birds and wildlife across Wales. This really is very important stuff.

**William Powell:** Diolch i'r Gweinidog am ddod â'r adroddiad pwysig hwn gerbron y Siambr heddiw, a chroesawaf lawer o'r cynnydd y mae'n ei adlewyrchu. Dylem ddathlu'r arferion da cyffredinol y gwelwyd enghreifftiau ohonynt ledled Cymru. Mae'r Gweinidog a Dafydd Elis-Thomas wedi dathlu gwaith Cadwch Gymru'n Daclus a'r fenter Trefi Taclus. Dylem hefyd gydnabod cyfraniad hanfodol sefydliadau fel Coed Cadw, mewn perthynas â'i waith yn hyrwyddo plannu coed ledled Cymru ymhlith grwpiau cymunedol dros y blynyddoedd diwethaf, gyda 25,000 o goed yn cael eu plannu. Mae gwaith hefyd wedi cael ei wneud eleni er mwyn bwrw ymlaen â menter dathlu jiwbilî diemwnt y Frenhines. Rydym hefyd yn gweld y gwaith a wnaed gan RSPB Cymru, gyda'i adroddiad blynyddol ar gyflwr adar yng Nghymru. Ceir hefyd gynllun cynghrair gwirfoddolwyr a ffermwyr yr RSPB, sy'n swnio'n debyg i blaid wleidyddol yng nghanol Ewrop ond mae'n ffordd bwysig iawn o ddefnyddio ffermwyr a gwerin gwlad i ddeall lle yr ydym arni o ran cyflwr adar a bywyd gwyllt ledled Cymru. Mae'r rhain yn bethau pwysig iawn.

However, there are a couple of points that I would like to raise, and I will now turn to my first question. The report highlights a large number of indicators that are either stable or show no clear trend. These are up 400% from the figures seen back in September 2007. Could we learn from this trend, in terms of refining the way in which we monitor things, in respect of the natural environment framework? Maybe the Minister could comment on how we could improve our monitoring in that particular respect. In terms of greenhouse gas emissions, the report highlights a slight drop, which is attributed elsewhere to the overall state of the economy in the western world. However, given the relationship that this has with our wider

Fodd bynnag, mae un neu ddau o bwyntiau yr hoffwn eu codi, a throf yn awr at fy nghwestiwn cyntaf. Mae'r adroddiad yn amlygu nifer fawr o ddangosyddion sydd naill ai'n sefydlog neu nad ydynt yn dangos tueddiad clir. Mae'r rhain wedi cynyddu 400% o'u cymharu â'r ffigurau a welwyd ym mis Medi 2007. A allem ddysgu oddi wrth y duedd hon, o ran mireinio'r ffordd yr ydym yn monitro pethau, mewn perthynas â'r fframwaith amgylchedd naturiol? Efallai y gallai'r Gweinidog gynnig sylwadau ar sut y gallem wella ein gwaith monitro yn hynny o beth. O ran allyriadau nwyon tŷ gwydr, mae'r adroddiad yn tynnu sylw at ostyngiad bach, sy'n cael ei briodoli mewn man arall i gyflwr cyffredinol yr economi yn y byd gorllewinol.

carbon footprint, what steps can we take to ensure that progress is genuine and is not merely a product of the international transfer of environmental damage, as a result of imports?

Fodd bynnag, o ystyried y berthynas sydd rhwng hyn a'n hôl troed carbon ehangach, pa gamau y gallwn eu cymryd i sicrhau bod y cynnydd yn un go iawn ac nid dim ond yn deillio o drosglwyddo difrod amgylcheddol ar lefel ryngwladol, o ganlyniad i fewnforion?

Finally, I will move on to Glastir, which is a subject that has not really reared its head so far today. We read that the proportion of land within agri-environmental schemes has shown no change over the last few years. To account for this, the report claims that the lack of improvement could be down—at least in part—to the fact that we find ourselves in a period of transition. We have heard far-reaching concerns rehearsed in this Chamber on previous occasions by those who represent the farming industry and by Members from all parts of Wales. In light of this, what action is the Minister undertaking, and what specific work is he doing with the Deputy Minister for Agriculture, Food, Fisheries and European Programmes to ensure that some of the issues with Glastir are being addressed in the course of improvement?

Yn olaf, symudaf ymlaen at Glastir, sydd yn bwnc nad yw wedi codi'i ben hyd yn hyn heddiw. Rydym yn darllen nad yw'r gyfran o dir o fewn cynlluniau amaeth-amgylcheddol wedi dangos dim newid dros y blynyddoedd diwethaf. Er mwyn egluro hyn, mae'r adroddiad yn honni y gallai'r diffyg gwelliant fod o ganlyniad—o leiaf yn rhannol—i'r ffaith ein bod mewn cyfnod o drawsnewid. Rydym wedi clywed pryderon pellgyrhaeddol yn cael eu mynegi yn y Siambr hon yn y gorffennol gan gynrychiolwyr y diwydiant ffermio a chan Aelodau o bob rhan o Gymru. Yng ngoleuni hyn, pa gamau y mae'r Gweinidog yn eu cymryd, a pha waith penodol y mae'n ei wneud gyda'r Dirprwy Weinidog Amaethyddiaeth, Bwyd, Pysgodfeydd a Rhaglenni Ewropeaidd i sicrhau bod rhai o'r materion mewn perthynas â Glastir yn cael sylw wrth i'r gwelliannau gael eu gwneud?

3.45 p.m.

**John Griffiths:** I thank William Powell for that contribution and for those questions.

**John Griffiths:** Diolch i William Powell am y cyfraniad hwnnw ac am ei gwestiynau.

When it comes to the indicators that are stable or do not show any clear trend at the current time, I very much agree that we always have to re-evaluate the indicators and measurements that we use. It is an iterative process, as they say, in terms of engaging with stakeholders and in ensuring that they are constantly re-examined and improved. That is very much the approach that I would like to see built into our natural environment framework. As I said earlier, with the consultation ongoing at the moment, there are ample opportunities to feed views in about how we can be most effective in terms of monitoring and evaluation.

O ran y dangosyddion sy'n sefydlog neu nad ydynt yn dangos tuedd glir ar hyn o bryd, cytunaf fod rhaid inni'n wastad ailwerthuso'r dangosyddion a'r mesuriadau yr ydym yn eu defnyddio. Mae'n broses ailadroddol, fel y maent yn dweud, o ran ymgysylltu â rhanddeiliaid a sicrhau eu bod yn cael eu hailarchwilio a'u gwella'n gyson. Dyna'r dull y byddwn yn hoffi ei weld yn cael ei gynnwys yn ein fframwaith amgylchedd naturiol. Fel y dywedais yn gynharach, gyda'r ymgynghoriad sy'n mynd rhagddo ar hyn o bryd, mae digon o gyfleoedd i fynegi barn am sut y gallwn fod fwyaf effeithiol o ran monitro a gwerthuso.

Emissions are addressed in our climate change strategy and our overall commitment to sustainable development as our central organising principle. We have seen important

Ymdrinnir ag allyriadau yn ein strategaeth newid hinsawdd a'n hymrwymiad cyffredinol i ddatblygu cynaliadwy fel ein prif egwyddor drefniadol. Rydym wedi gweld cynnydd

progress in tackling those issues, but that has to be set in the context of the economic situation, and we have to ensure that we are ever more effective in making the climate change strategy successful, which is clearly our intention.

pwysig o ran mynd i'r afael â'r materion hynny, ond mae'n rhaid rhoi'r cynnydd hwnnw yng nghyd-destun y sefyllfa economaidd, ac mae'n rhaid inni sicrhau ein bod yn fwyfwy effeithiol wrth wneud y strategaeth ar newid yn yr hinsawdd yn llwyddiant, sef ein bwriad amlwg.

When it comes to Glastir and agri-environment schemes, I do work very closely with my colleague Alun Davies, the Deputy Minister for rural affairs. I know that he is very keen to encourage greater participation in Glastir. We very much expect to see that as we move forward.

O ran cynllun Glastir a chynlluniau amaeth-amgylcheddol, rwy'n gweithio'n agos iawn â fy nghyd-Aelod Alun Davies, y Dirprwy Weinidog materion gwledig. Gwn ei fod yn awyddus iawn i annog mwy o gyfranogiad yn Glastir. Disgwyliwn weld hynny'n digwydd wrth inni symud ymlaen.

**Jenny Rathbone:** There is much to celebrate in your latest report, but there is no room for complacency. Certainly, my experience of the Tidy Towns initiative is that Keep Wales Tidy is doing an excellent job in enabling schoolchildren to understand, appreciate and enhance their local environment, as it is in encouraging unemployed people, young and old, to get involved and make a contribution to the local environment. They have said that that helps to give some structure to their day and it makes them feel that they are part of society. Those are both positives.

**Jenny Rathbone:** Mae llawer i'w ddathlu yn eich adroddiad diweddaraf, ond nid oes lle i fod yn hunanfodlon. Yn sicr, fy mhrofiad i o fenter Trefi Taclus yw bod Cadw Cymru'n Daclus yn gwneud gwaith rhagorol o ran galluogi plant ysgol i ddeall, gwerthfawrogi a gwella eu hamgylchedd lleol, ac mae'n annog pobl ddi-waith hen ac ifanc i gymryd rhan a gwneud cyfraniad i'r amgylchedd lleol yn yr un modd. Maent wedi dweud bod hynny'n helpu i roi rhywfaint o strwythur i'w diwrnodau ac mae'n gwneud iddynt deimlo eu bod yn rhan o gymdeithas. Mae'r ddau beth hynny'n gadarnhaol.

On the 'Appetite for Life' initiative, I strongly endorse the words of the 'Appetite for Life' action research report, which says that the school canteen, rather than being expected to behave as an extension of the high street, needs to be understood as an extension of the classroom. In that context, I am concerned that some schools continue to allow the sale of junk food in school vending machines. Those machines are being used by local authorities to subsidise the meals service. I would therefore be interested to know what the Minister has to say on how we can tackle that.

O ran menter 'Blas am Oes', rwy'n cytuno'n gryf â geiriau adroddiad ymchwil gweithredu 'Blas am Oes', a oedd yn dweud bod angen i'r ffreutur ysgol gael ei hystyried yn estyniad o'r ystafell ddosbarth yn hytrach na disgwyl iddi fod yn estyniad o'r stryd fawr. Yn y cyd-destun hwnnw, rwy'n pryderu bod rhai ysgolion yn parhau i ganiatáu gwerthu bwyd sothach drwy beiriannau gwerthu. Mae'r peiriannau hynny'n cael eu defnyddio gan awdurdodau lleol i sybsideiddio'r gwasanaeth prydau bwyd. Byddai'n ddiddorol, felly, cael gwybod beth sydd gan y Gweinidog i'w ddweud am sut y gallwn fynd i'r afael â hynny.

Lastly, could you just tell us how the food strategy for Wales is promoting local fruit and vegetable production? You talked about the dairy and the red meat road maps, but not about these other very important environmental aspects.

Yn olaf, a allech ddweud wrthym yn union sut y mae'r strategaeth bwyd i Gymru yn hyrwyddo cynhyrchu ffrwythau a llysiau lleol? Soniasoch am y trywyddau llaeth a chig coch, ond nid am yr elfennau amgylcheddol pwysig eraill hyn.

**John Griffiths:** I thank Jenny Rathbone for

**John Griffiths:** Diolch i Jenny Rathbone am

those questions and for the general welcome. It is important that we understand the advantages that good environmental policy brings in the round. There are many good examples in relation to education and engaging young people that easily and quickly come to mind. Jenny Rathbone mentioned some of the issues involved.

y cwestiynau hynny ac am y croeso cyffredinol. Mae'n bwysig inni ddeall y manteision sy'n gallu dod yn gyffredinol yn sgîl polisi amgylcheddol da. Ceir llawer o enghreifftiau da sy'n dod i'r cof yn rhwydd ac yn gyflym mewn perthynas ag addysg ac ymgysylltu â phobl ifanc. Soniodd Jenny Rathbone am rai o'r materion sy'n gysylltiedig â hyn.

The eco-schools system has been very effective in ensuring that schoolchildren think about environmental and sustainable development issues in the round in daily school life. That is very important indeed, because it is very much about making connections with regard to local food, supply and what quality food is, including the very basic aspects such as where food comes from. It is important that those connections are made and that that understanding exists. If we get that education right—and there is a lot that is helping the eco-schools, such as personal and social education, the outdoor education that takes place now, the foundation phase and forest schools—there is a lot of activity that adds up to quite an impressive critical mass, which is very much about getting these messages across. If we can educate effectively, the hope is that children will not want junk food; they will eat more healthily. Obviously, there are issues about what is available in schools, and I know that my colleague Leighton Andrews as Minister for Education and Skills is very much aware of those matters.

Mae'r system eco-ysgolion wedi bod yn effeithiol iawn wrth sicrhau bod plant ysgol yn meddwl am faterion amgylcheddol a datblygu cynaliadwy yn eu cyfanrwydd ym mywyd ysgol bob dydd. Mae hynny'n bwysig iawn, oherwydd y bwriad yw gwneud cysylltiadau o ran bwyd lleol, cyflenwi a beth yw ansawdd bwyd, gan gynnwys yr agweddau sylfaenol iawn fel o ble y daw bwyd. Mae'n bwysig bod y cysylltiadau hynny'n cael eu gwneud a bod y ddealltwriaeth honno'n bodoli. Os byddwn yn sicrhau bod yr addysg honno'n gywir—ac mae llawer sy'n helpu eco-ysgolion, fel addysg bersonol a chymdeithasol, yr addysg awyr agored sydd bellach yn digwydd, y cyfnod sylfaen ac ysgolion coedwig—mae llawer o weithgarwch sydd, o'i ystyried gyda'i gilydd, yn fàs critigol eithaf nodedig, sydd â'r nod o gyfleu'r negeseuon hyn. Os gallwn addysgu'n effeithiol, y gobaith yw na fydd plant eisiau bwyd sothach; byddant yn bwyta'n fwy iach. Yn amlwg, mae materion yn codi ynghylch yr hyn sydd ar gael mewn ysgolion, a gwn fod fy nghyd-Weinidog, Leighton Andrews, y Gweinidog Addysg a Sgiliau, yn ymwybodol iawn o'r materion hynny.

**Antoinette Sandbach:** I thank you, Minister, for your statement. I know that the Tidy Towns initiative has been regarded as a success, but £8.25 million has been allocated to that project since 2008, which is a substantial slice of public funding.

**Antoinette Sandbach:** Diolch am eich datganiad, Weinidog. Gwn fod y fenter Trefi Taclus wedi cael ei hystyried yn llwyddiant, ond mae £8.25 miliwn wedi'i ddyrannu i'r prosiect hwnnw ers 2008, sy'n gyfran sylweddol o arian cyhoeddus.

I would like to pick up in particular on William Powell's contribution in relation to the Glastir agri-environment scheme, which supports 10 outcomes in your environment strategy. There are still considerable shortcomings in Glastir, which has failed for a second year to attract the participation that it needs from the agriculture industry. Can you confirm what factors you are looking at

Hoffwn ganolbwyntio'n benodol ar gyfraniad William Powell mewn perthynas â chynllun amaeth-amgylcheddol Glastir, sy'n cefnogi 10 canlyniad yn eich strategaeth amgylcheddol. Mae diffygion sylweddol o hyd yng nghynllun Glastir, sydd wedi methu am yr ail flwyddyn â denu'r cyfranogiad sydd ei angen gan y diwydiant amaethyddiaeth. A allwch gadarnhau pa ffactorau yr ydych yn

in terms of the second review of Glastir, so that the necessary changes can be made to make that scheme fit for purpose? It was perhaps unfortunate that the report misspelt the name of the scheme when it was released; hopefully, that was not an indication of how the scheme has been approached by others. What assessment have you and your officials made of the extent to which Glastir's failures have, or could, undermine the environment strategy's outcomes—particularly for biodiversity, soil carbon management and water quality, as well as improving river quality, which is one of the key priority areas within the strategy? Could you also outline why a proposal in your latest consultation on the nitrate-vulnerable zones includes an option to designate the whole of Wales as a nitrate-vulnerable zone? As well as changes to slurry, silage and agricultural fuel oil regulations, that would impose multimillion pound costs on farms and other businesses in Wales, particularly given that the stated aim of your single environment body is to have a risk-based approach and to make regulation easier and lighter touch. Why has that all-embracing designation been laid down?

edrych arnynt yn yr ail adolygiad o gynllun Glastir, fel y gellir gwneud y newidiadau angenrheidiol i sicrhau bod y cynllun yn addas i'r diben? Roedd o bosibl yn anffodus bod yr adroddiad wedi camsillafu enw'r cynllun pan gafodd ei ryddhau; gobeithio nad oedd hynny'n arwydd o sut y mae eraill wedi mynd i'r afael â'r cynllun. Pa asesiad yr ydych chi a'ch swyddogion wedi'i wneud o'r graddau y mae methiannau Glastir wedi tanseilio canlyniadau'r strategaeth amgylcheddol, neu'r graddau y gallai fod wedi gwneud hynny—yn enwedig y canlyniadau ar gyfer bioamrywiaeth, rheoli carbon mewn pridd ac ansawdd dŵr, yn ogystal â gwella ansawdd afonydd, sy'n un o brif flaenoriaethau'r strategaeth? A allech hefyd amlinellu pam mae cynnig yn eich ymgynghoriad diweddaraf ynghylch y parthau perygl nitradau yn cynnwys opsiwn i ddynodi Cymru gyfan yn barth perygl nitradau? Yn ogystal â newidiadau mewn rheoliadau ynghylch slyri, silwair a thanwydd olew amaethyddol, byddai hynny'n golygu costau gwerth miliynau o bunnau i ffermydd a busnesau eraill yng Nghymru, yn enwedig o ystyried mai nod penodol eich un corff amgylcheddol yw bod ag ymagwedd sy'n seiliedig ar risg ac gwneud rheoleiddio'n haws ac yn ysgafnach. Pam y cafodd y dynodiad hollgynhwysol hwnnw ei gyflwyno?

Finally, in relation to the single environment body, you will be aware that there is considerable concern from a number of businesses, particularly timber businesses and commercial forestry growers, that the Glastir forestry scheme does not address commercial timber production, but looks only at recreational timber production. What steps are you taking to look at that issue? Can the people responding to the consultation be clear that if there is an overwhelming response opposing the inclusion of the Forestry Commission in that single environment body that you will listen to those consultation responses?

Yn olaf, mewn perthynas â'r un corff amgylcheddol, byddwch yn ymwybodol bod pryder sylweddol wedi'i fynegi gan nifer o fusnesau, yn enwedig busnesau pren a thyfwyr coedwigaeth fasnachol, fod cynllun coedwigaeth Glastir yn edrych ar gynhyrchu pren hamdden yn unig yn hytrach nag ymdrin â chynhyrchu pren masnachol hefyd. Pa gamau yr ydych yn eu cymryd i edrych ar y mater hwn? A all y bobl sy'n ymateb i'r ymgynghoriad fod yn glir, os bydd ymateb aruthrol yn gwrthwynebu cynnwys y Comisiwn Coedwigaeth yn yr un corff amaethyddol hwnnw, y byddwch yn gwrando ar yr ymatebion hynny i'r ymgynghoriad?

**John Griffiths:** I thank Antoinette Sandbach for her questions. Tidy Towns is a very effective and important part of our efforts to improve local environment quality in Wales. I am very pleased that we have been able to provide substantial funding for that

**John Griffiths:** Diolch i Antoinette Sandbach am ei chwestiwn. Mae Trefi Taclus yn rhan effeithiol a phwysig iawn o'n hymdrechion i wella ansawdd yr amgylchedd lleol yng Nghymru. Rwy'n falch iawn ein bod wedi llwyddo i ddarparu cyllid

programme, and it is something that I remain committed to. The urban environment in Wales is hugely important because so many people live in urban Wales. It really matters that we get their local environment right. It is about some basic environmental issues, such as litter, graffiti, fly-tipping, adequate green space, allotments, and much else. In my view, it is very important that we ensure that the local urban environmental picture in Wales is as good as is possible for us to achieve. I very much intend to give a lot of thought, time and energy to making necessary improvements, in partnership with organisations such as Keep Wales Tidy.

sylweddol i'r rhaglen honno, ac mae fy ymrwymiad i'r rhaglen yn parhau. Mae'r amgylchedd trefol yng Nghymru yn hynod o bwysig oherwydd bod cynifer o bobl yn byw yn y Gymru drefol. Mae'n bwysig dros ben i'n hamgylchedd lleol fod yn iawn. Mae hynny'n cynnwys rhai materion amgylcheddol sylfaenol, fel sbwriel, graffiti, tipio anghyfreithlon, mannau gwyrdd digonol, rhandiroedd a llawer mwy. Yn fy marn i, mae'n bwysig iawn inni sicrhau bod sefyllfa'r amgylchedd trefol lleol yng Nghymru cystal â phosibl. Rwy'n bwriadu meddwl yn ddwys a rhoi llawer o amser ac egni i wneud gwelliannau angenrheidiol, mewn partneriaeth â sefydliadau megis Cadw Cymru'n Daclus.

I said earlier that my colleague Alun Davies, the Deputy Minister for rural affairs, is looking at achieving greater participation in Glastir. I very much support him in those efforts, and those are matters that we discuss when we meet.

Dywedais yn gynharach fod fy nghyd-Aelod Alun Davies, y Dirprwy Weinidog materion gwledig, yn edrych ar sicrhau mwy o gyfranogiad yn Glastir. Rwy'n gefnogol iawn i'w ymdrechion, ac rydym yn trafod y materion hynny pan ydym yn cyfarfod.

Water quality is an important aspect of the overall quality of the environment in Wales. We make no apologies for being ambitious with regard to taking forward further improvements to achieve that water quality. Therefore, when it comes to nitrate-vulnerable zones, it is important that we look at a range of options. We are, of course, open to receiving views on the best way forward.

Mae ansawdd dŵr yn agwedd bwysig ar ansawdd cyffredinol yr amgylchedd yng Nghymru. Nid ydym yn ymddiheuro am fod yn uchelgeisiol o ran symud ymlaen â gwelliannau pellach i sicrhau'r ansawdd dŵr hwnnw. Felly, o ran y parthau perygl nitradau, mae'n bwysig inni edrych ar ystod o opsiynau. Wrth gwrs, rydym yn croesawu barn pobl am y ffordd orau ymlaen.

The single environmental body is currently open for consultation and it is important that we get a wide range of views fed into that process. We are very much aware of the issues around commercial timber production in Wales and mindful of the good work carried out by Forestry Commission Wales in that regard. We are very keen to ensure that the progress that has been made and the good relationships that exist are built into the new body and that none of those advantages are lost or diminished.

Ar hyn o bryd, mae'r un corff amgylcheddol yn agored i ymgynghoriad ac mae'n bwysig inni glywed amrywiaeth eang o safbwyntiau er mwyn eu cynnwys yn y broses honno. Rydym yn ymwybodol iawn o'r materion sy'n gysylltiedig â chynhyrchu pren masnachol yng Nghymru ac yn cofio'r gwaith da a wnaethpwyd gan Gomisiwn Coedwigaeth Cymru yn hynny o beth. Rydym yn awyddus iawn i sicrhau bod y cynnydd sydd wedi'i wneud a'r berthynas dda sy'n bodoli yn cael eu cynnwys yn y corff newydd ac nad oes dim un o'r manteision hynny'n cael eu colli neu eu lleihau.

*Daeth y Dirprwy Lywydd (David Melding) i'r Gadair am 3.56 p.m.*
*The Deputy Presiding Officer (David Melding) took the Chair at 3.56 p.m.*

## Dulliau o Adfywio
## Approaches to Regeneration

**The Deputy Presiding Officer:** I have selected amendments 1, 2 and 3 in the name of Peter Black and amendment 4 in the name of William Graham.

**Y Dirprwy Lywydd:** Rwyf wedi dethol gwelliannau 1, 2 a 3 yn enw Peter Black a gwelliant 4 yn enw William Graham.

*Cynnig NDM4915 Jane Hutt*

*Motion NDM4915 Jane Hutt*

*Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:*

*To propose that the National Assembly for Wales:*

*Yn nodi bod y Llywodraeth yn bwriadu adolygu ei dulliau o ymdrin ag adfywio yn unol ag agenda'r Llywodraeth gyfan o fynd i'r afael â thlodi a chefnogi twf economaidd.*

*Notes the Government's intention to review its approaches to regeneration in line with the whole Government agenda of tackling poverty and supporting economic growth.*

**The Minister for Housing, Regeneration and Heritage (Huw Lewis):** I move the motion.

**Y Gweinidog Tai, Adfywio a Threftadaeth (Huw Lewis):** Cynigiaf y cynnig.

I welcome the opportunity today to outline my latest thinking on regeneration and to hear Members' views in return. I have called this debate 'Approaches to Regeneration', given that there have been, and, of course, there still are, lots of ways to help communities to regenerate to take back control of their futures. I am sure that we can all cite examples of regeneration that is primarily economic, social or environmental in nature. We know that regeneration can be heritage-led or housing-led, and that it can be driven by the public or private sectors, or by communities themselves.

Croesawaf y cyfle heddiw i amlinellu fy syniadau diweddaraf ynghylch adfywio ac i glywed barn yr Aelodau yn eu tro. Rwyf wedi rhoi'r teitl 'Dulliau o Adfywio' i'r ddadl hon, o ystyried bod llawer o ffyrdd wedi bod i helpu cymunedau i adfywio er mwyn adennill rheolaeth dros eu dyfodol, ac mae hynny'n parhau'n wir. Rwy'n siŵr y gallwn oll gynnig enghreifftiau o adfywio sy'n bennaf yn economaidd, yn gymdeithasol neu'n amgylcheddol ei natur. Gwyddom y gall adfywio fod yn seiliedig ar dreftadaeth neu ar dai, ac y gall gael ei symbylu gan y sector cyhoeddus neu'r sector preifat, neu gan y cymunedau eu hunain.

In Cabinet, we have reflected on this collectively, and I am not the only investor in regeneration around that Cabinet table. Carl Sargeant is implementing the next phase of Communities First, for example, which is why we support the amendment 1 tabled by the Welsh Liberal Democrats. Communities First must indeed be able to clearly demonstrate its contribution to addressing education, economic and health outcomes for disadvantaged people and communities. Edwina Hart and Alun Davies lead on job creation throughout Wales, levering in structural funds for physical regeneration and other economic activities. Other capital programmes and public services have huge

Yn y Cabinet, rydym wedi ystyried y mater hwn ar y cyd, ac nid myfi yw'r unig fuddsoddwr mewn adfywio o gwmpas bwrdd y Cabinet. Mae Carl Sargeant wrthi'n rhoi cymal nesaf rhaglen Cymunedau yn Gyntaf ar waith, er enghraifft, a dyna pam yr ydym yn cefnogi gwelliant 1 a gyflwynwyd gan Ddemocratiaid Rhyddfrydol Cymru. Rhaid i raglen Cymunedau yn Gyntaf allu dangos yn glir ei chyfraniad at fynd i'r afael â chanlyniadau ym maes addysg, yr economaidd ac iechyd ar gyfer pobl a chymunedau sydd o dan anfantais. Mae Edwina Hart ac Alun Davies yn arwain ar greu swyddi ledled Cymru, gan ddenu cronfeydd strwythurol ar gyfer adfywio

potential to support the regeneration agenda. We are all committed to ensuring that regeneration activity is co-ordinated across all portfolios. Deeper and broader integration will help us deliver better value and outcomes.

ffisegol a gweithgareddau economaidd eraill. Mae gan raglenni cyfalaf eraill a gwasanaethau cyhoeddus botensial enfawr i gefnogi'r agenda adfywio. Rydym oll wedi ymrwymo i sicrhau bod gweithgarwch adfywio yn cael ei gydlynu ar draws pob portffolio. Bydd integreiddio dyfnach ac ehangach yn ein helpu i sicrhau gwell gwerth am arian a gwell canlyniadau.

There is no doubt that, since the creation of this Assembly, we have seen major regeneration investment up and down Wales to address both acute needs and key opportunities. This investment has helped to safeguard, protect and enhance some of our most vulnerable communities' prospects. The approach in the seven regeneration areas, which is my responsibility, is relatively new. At its heart is working with local partners to deliver lasting change. The approach started with the Heads of the Valleys in 2005, and by the end of March 2012, we will have invested £125 million in the area. That is well ahead of our target of £140 million by 2020.

Ers creu'r Cynulliad hwn, nid oes amheuaeth nad ydym wedi gweld buddsoddiad adfywio mawr ar hyd a lled Cymru i fynd i'r afael ag anghenion dwys a chyfleoedd allweddol. Mae'r buddsoddiad hwn wedi helpu i ddiogelu, gwarchod a gwella'r rhagolygon ar gyfer rhai o'n cymunedau mwyaf bregus. Mae'r dull a fabwysiadwyd yn y saith ardal adfywio, sef fy nghyfrifoldeb i, yn gymharol newydd. Yr hyn sy'n greiddiol i'r dull hwn yw gweithio gyda phartneriaid lleol i gyflawni newid parhaol. Dechreuodd y gwaith hwn gyda Blaenau'r Cymoedd yn 2005, ac erbyn diwedd mis Mawrth 2012, byddwn wedi buddsoddi £125 miliwn yn yr ardal honno. Mae hynny'n rhagori ar y targed o £140 miliwn erbyn 2020.

Since being appointed, I have focused on delivery. I have been to all of the regeneration areas to see for myself the projects that we are funding, and how communities are benefiting. I have been talking to our local partners, including the unitary authorities, which already play a major role in regeneration programmes. That is why I am happy to support amendment 2 tabled by the Welsh Liberal Democrats. We work with partners to identify and pursue local priorities through our regeneration areas approach. I want those key relationships to continue.

Ers imi gael fy mhenodi, rwyf wedi canolbwyntio ar gyflawni. Rwyf wedi bod ym mhob un o'r ardaloedd adfywio i weld y prosiectau yr ydym yn eu hariannu a'r manteision i'r cymunedau. Rwyf wedi bod yn siarad â'n partneriaid lleol, gan gynnwys yr awdurdodau unedol, sydd eisoes yn chwarae rhan bwysig mewn rhaglenni adfywio. Dyna pam yr wyf yn fodlon cefnogi gwelliant 2 a gyflwynwyd gan Ddemocratiaid Rhyddfrydol Cymru. Rydym yn gweithio gyda phartneriaid i nodi a mynd i'r afael â blaenoriaethau lleol drwy ein dull ardaloedd adfywio. Rwyf am i'r cysylltiadau allweddol hynny barhau.

4.00 p.m.

It has become clear to me that, as well as continuing to deliver on the commitments made to date, we need to think carefully about the future. The world we live in has changed, markedly. For example, the Enterprise and Business Committee's report on town-centre regeneration made it clear for many of us that the way in which we live, how we shop and where we shop has

Mae wedi dod yn amlwg i mi, yn ogystal â pharhau i gyflawni'r ymrwymiadau a wnaed hyd yn hyn, fod angen inni feddwl yn ofalus am y dyfodol. Mae'r byd yr ydym yn byw ynddo wedi newid yn sylweddol. Er enghraifft, mae adroddiad y Pwyllgor Menter a Busnes ar adfywio canol trefi wedi ei gwneud yn glir i lawer ohonom fod y ffordd yr ydym yn byw, sut yr ydym yn siopa a lle

evolved. It has changed. We need to respond to that evolution. I am extremely grateful to the committee for its exhaustive and thoughtful analysis. We will have more time to look at the detail of the report in the Chamber next month. Meanwhile, I am happy to support the third amendment tabled by the Welsh Liberal Democrats in that regard. The report suggests to me that we need to look at things again, from different perspectives. As budgets become more constrained, we need to be even more imaginative and focused about how we invest. I am also, as you would expect, determined to fulfil the commitments that we made in our manifesto to renew seaside towns and town centres in particular.

yr ydym yn siopa wedi esblygu. Mae wedi newid. Mae angen inni ymateb i'r esblygiad hwnnw. Rwy'n hynod o ddiolchgar i'r pwyllgor am ei ddadansoddiad trwyadl a meddylgar. Bydd gennym fwy o amser i edrych ar fanylion yr adroddiad yn y Siambr fis nesaf. Yn y cyfamser, rwy'n fodlon cefnogi'r trydydd gwelliant a gyflwynwyd gan Ddemocratiaid Rhyddfrydol Cymru yn hynny o beth. Mae'r adroddiad yn awgrymu i mi fod angen inni edrych ar bethau eto, o wahanol safbwyntiau. Wrth i gyllidebau fynd yn fwy cyfyngedig, mae angen inni fod yn fwy creadigol byth ynghylch sut yr ydym yn buddsoddi a chanolbwyntio mwy byth ar hynny. Rwyf hefyd, fel y byddech yn disgwyl, yn benderfynol o gyflawni'r ymrwymiadau a wnaethom yn ein maniffesto i adnewyddu trefi glan môr a chanol trefi yn arbennig.

Taking all of that together, I have decided to review our approaches to regeneration. Our existing commitments and the delivery upon them will provide the time to pause and review. That is not time that I intend to waste. I need to determine how best to invest my budget so that it makes the most impact and builds on other planned investment across Government and beyond. Future European funding will be an important piece of this jigsaw. I want to ensure that, as a Government, we are providing the right kind of leadership and co-ordination for other players in the regeneration sector.

Gan gymryd hynny i gyd i ystyriaeth, rwyf wedi penderfynu adolygu ein dulliau o fynd i'r afael ag adfywio. Bydd ein hymrwymiadau presennol a'r broses o'u cyflawni yn cynnig yr amser i oedi ac adolygu. Nid amser y bwriadaf ei wastraffu yw hynny. Mae angen imi benderfynu beth yw'r ffordd orau i fuddsoddi fy nghyllideb fel ei bod yn cael yr effaith fwyaf ac yn adeiladu ar fuddsoddiad arfaethedig arall ar draws y Llywodraeth a thu hwnt. Bydd cyllid Ewropeaidd y dyfodol yn ddarn pwysig o'r jig-so hwn. Rwyf am sicrhau, fel Llywodraeth, ein bod yn darparu'r math cywir o arweinyddiaeth a chyd-drefniant ar gyfer chyfranogwyr eraill yn y sector adfywio.

There is scope for closer integration across Government. Crucially, we need to join up regeneration with our efforts to tackle poverty and our economic development activity. I am, for example, looking at the links between my portfolio and the new enterprise zones, and work on city regions. I want to ensure that we recognise the regeneration potential of all our investment, whether it is a road, a school, a hospital or a Government office. Jane Hutt talked about social procurement earlier, and that is also a vital part of the regeneration picture. I also want to look at partnerships. In regeneration areas, we bring people together to deliver. I want to make the most of that good practice

Mae lle ar gyfer integreiddio agosach ar draws y Llywodraeth. Mae'n hanfodol inni gydgysylltu adfywio â'n hymdrechion i fynd i'r afael â thlodi a'n gweithgareddau datblygu economaidd. Er enghraifft, rwy'n edrych ar y cysylltiadau rhwng fy mhortffolio a'r ardaloedd menter newydd, a gwaith ar ddinas-ranbarthau. Rwyf am sicrhau ein bod yn cydnabod potensial ein holl waith buddsoddi ar gyfer adfywio, boed hynny'n fuddsoddiad mewn ffordd, ysgol, ysbyty neu swyddfa'r Llywodraeth. Siaradodd Jane Hutt am gaffael cymdeithasol yn gynharach, ac mae hynny hefyd yn rhan hanfodol o'r darlun adfywio. Rwyf hefyd am edrych ar bartneriaethau. Mewn ardaloedd adfywio,

in everything that we do. We already work with the third sector—it is a strategic partner, through partnership boards, and also delivers a range of projects across the country. There is scope for even closer working, particularly as voluntary organisations are feeling the effects of economic constraint. However, that is not the same as micromanagement. I am afraid that I cannot support the fourth amendment, tabled by the Welsh Conservatives. We will continue to provide leadership by bringing local partners together.

rydym yn dod â phobl at ei gilydd i gyflawni. Rwyf am wneud y gorau o'r arfer da hwnnw ym mhopeth a wnawn. Rydym eisoes yn gweithio gyda'r trydydd sector—mae'n bartner strategol, drwy fyrddau partneriaeth, ac mae hefyd yn darparu ystod o brosiectau ar draws y wlad. Mae lle i weithio hyd yn oed yn agosach, yn enwedig wrth i sefydliadau gwirfoddol deimlo effeithiau cyfyngiadau economaidd. Fodd bynnag, nid yw hynny yr un peth â microreoli. Mae arnaf ofn na allaf gefnogi'r pedwerydd gwelliant, a gyflwynwyd gan y Ceidwadwyr Cymreig. Byddwn yn parhau i ddarparu arweinyddiaeth drwy ddod â phartneriaid lleol ynghyd.

The importance of regeneration in these challenging economic times cannot be underestimated. I am proud of the difference that we are making and the difference that we have made. I want to ensure that we continue to make that difference. I will be looking to the regeneration community to assist us in this review. I already have the benefit of expertise from the Centre for Regeneration Excellence Wales, and the national regeneration panel, among others. I will be looking at best practice from Wales, the UK and the world. I intend to bring forward investment options for consultation after the summer recess. My officials will use the time before then to gather evidence and evaluate existing programmes. Early in 2013, I will set out my investment priorities for the rest of this Assembly term. We will then work with partners to design projects for delivery over that period. That will enable us to start new programmes of investment as our current programmes reach their conclusions. This is a deliberately considered and consultative approach. I make no apologies for taking the time that I have available to ensure that we get this right. Having said that, it is still a challenging timetable, given the inherent complexities of regeneration and given the issues facing our most disadvantaged communities—some longstanding and others precipitated by the current economic climate.

Ni ellir gorbwysleisio pwysigrwydd adfywio yn y cyfnod economaidd anodd hwn. Rwy'n falch o'r gwahaniaeth yr ydym yn ei wneud a'r gwahaniaeth yr ydym wedi'i wneud. Rwyf am sicrhau ein bod yn parhau i wneud gwahaniaeth. Byddaf yn disgwyl i'r gymuned adfywio ein cynorthwyo yn yr adolygiad hwn. Rwyf eisoes wedi manteisio ar arbenigedd Canolfan Rhagoriaeth Adfywio Cymru, a'r panel adfywio cenedlaethol, ymhlith eraill. Byddaf yn edrych ar enghreifftiau o arferion gorau o Gymru, y DU a'r byd. Rwy'n bwriadu cyflwyno opsiynau buddsoddi ar gyfer ymgynghori ar ôl toriad yr haf. Bydd fy swyddogion yn defnyddio'r amser cyn hynny i gasglu tystiolaeth a gwerthuso rhaglenni sy'n bodoli eisoes. Yn gynnar yn 2013, byddaf yn nodi fy mlaenoriaethau buddsoddi ar gyfer gweddill tymor y Cynulliad hwn. Yna byddwn yn gweithio gyda phartneriaid i lunio prosiectau i'w cyflwyno dros y cyfnod hwnnw. Bydd hynny'n ein galluogi i ddechrau rhaglenni buddsoddi newydd wrth i'n rhaglenni presennol ddirwyn i ben. Mae hyn yn ddull bwriadus ac ymgynghorol. Nid wyf yn ymddiheuro am gymryd yr amser sydd ar gael imi i sicrhau ein bod yn gwneud hyn yn iawn. Wedi dweud hynny, mae'n dal yn amserlen heriol, o ystyried cymhlethdodau cynhenid adfywio ac o ystyried y materion sy'n wynebu ein cymunedau mwyaf difreintiedig—rhai sy'n bod ers tro byd ac eraill wedi'u hachosi gan yr hinsawdd economaidd bresennol.

So, we have a lot of work to do over the coming months. In summary, the review will be led internally, by my officials, supported

Felly, mae gennym lawer o waith i'w wneud dros y misoedd nesaf. I grynhoi, bydd yr adolygiad yn cael ei arwain yn fewnol, gan fy

by CREW and the national regeneration panel. It will consider a broad range of evidence, including, vitally, the recent report by the Enterprise and Business Committee. It will provide, by October, proposals for deciding where and how to invest, based on what works. Following consultation on those outline proposals, I will publish my decisions this time next year.

swyddogion, wedi'u cefnogi gan Ganolfan Rhagoriaeth Adfywio Cymru a'r panel adfywio cenedlaethol. Bydd yn ystyried ystod eang o dystiolaeth, gan gynnwys, yn hanfodol, yr adroddiad diweddar gan y Pwyllgor Menter a Busnes. Erbyn mis Hydref, bydd yn darparu cynigion ar gyfer penderfynu ble a sut i fuddsoddi, yn seiliedig ar yr hyn sy'n gweithio. Yn dilyn ymgynghoriad ar y cynigion amlinellol hynny, byddaf yn cyhoeddi fy mhenderfyniadau yr adeg hon y flwyddyn nesaf.

I invite everyone in the Chamber and beyond to join me in contributing fully, openly and constructively to this process. At stake is the future of our most vulnerable communities.

Rwy'n gwahodd pawb yn y Siambr a thu hwnt i ymuno â mi i gyfrannu yn llawn, yn agored ac yn adeiladol i'r broses hon. Mae dyfodol ein cymunedau mwyaf bregus yn y fantol.

*Gwelliant 1 Peter Black*

*Amendment 1 Peter Black*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Add as new point at end of motion:*

*Yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod Cymunedau yn Gyntaf, un o'i phrif raglenni ar gyfer adfywio cymunedol, yn dangos ei bod yn perfformio'n well drwy sicrhau bod gan y rhaglen dargedau clir, perthnasol a mesuradwy i fynd i'r afael â thlodi a bod cyllid wedi'i gyfeirio at gyrraedd y targedau hyn.*

*Calls on the Welsh Government to ensure that Communities First, one of its key programmes for community regeneration, demonstrates improved performance by ensuring the programme has clear, relevant and measurable targets to tackle poverty and that funding is directed towards meeting these targets.*

*Gwelliant 2 Peter Black*

*Amendment 2 Peter Black*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Add as new point at end of motion:*

*Yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod prosiectau adfywio yn canolbwyntio ar flaenoriaethau lleol sy'n atebol yn ddemocrataidd drwy gynyddu rôl cynghorau lleol yn y broses drwyddi draw.*

*Calls on the Welsh Government to ensure that regeneration projects are focussed on democratically accountable local priorities by increasing the role that local councils play in the whole process.*

*Gwelliant 3 Peter Black*

*Amendment 3 Peter Black*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Add as new point at end of motion:*

*Yn credu y gall canol tref bywiog chwarae rhan bwysig i adfywio economi cymuned.*

*Believes that vibrant town centres can play an important role in regenerating a community's economy.*

**Peter Black:** I move amendments 1, 2 and 3

**Peter Black:** Cynigiaf welliannau 1, 2 a 3 yn

in my name.

I thank the Minister for indicating that he is prepared to support the amendments. We are grateful for that. Although I will try to be equally as charitable towards him, I am concerned that we are in a situation now where, nine months into the new Assembly, we have a debate on approaches to regeneration only to hear an announcement of a review that is not due to reach its final conclusions for another year, meaning that it will be 21 months before anything happens on regeneration. [*Interruption.*] It has been pointed out from behind me that that is quite quick for this Government, but I am concerned that we are drifting in our focus on regeneration and on the key economic challenges that face us here and in communities across Wales.

A holistic approach to regeneration is required, with support from the Welsh Government, buy-in from local business, and the involvement of democratically accountable local authorities regarding regeneration scheme management and decision making. The amendments that we have tabled reflect our concern that the Welsh Government's management of past schemes, such as Communities First, has been poor and has not always taken into account the diverse needs of different communities across Wales. Huw's point about micromanagement in amendment 4 is well made, but the one thing that the Government could not be accused of in relation to Communities First is micromanagement. If that had been the case, we would have been in a much better position than we are now.

**David Rees:** The concerns that you have highlighted have all come from Communities First, but you are trying to label everything in the same way. There are good examples of Communities First projects, particularly in my constituency, and it is unfair to look at everything in the light of the Plas Madoc example.

**Peter Black:** David, you have missed the point and I have the feeling of déjà vu from an intervention during a previous debate, when you made exactly the same point to me.

fy enw i.

Diolch i'r Gweinidog am ddangos ei fod yn barod i gefnogi'r gwelliannau. Rydym yn ddiolchgar am hynny. Er y byddaf yn ceisio bod yr un mor hael tuag ato ef, rwy'n poeni ein bod mewn sefyllfa yn awr, naw mis wedi i'r Cynulliad newydd ddechrau, lle y mae gennym ddadl ar ddulliau o ymdrin ag adfywio, ond yna rydym yn clywed cyhoeddiad am adolygiad na fwriedir iddo ddod i'w gasgliadau terfynol am flwyddyn arall, sy'n golygu y bydd yn 21 mis cyn i unrhyw beth digwydd ar adfywio. [*Torri ar draws*.] Mae'r Aelodau y tu ôl imi wedi tynnu sylw at y ffaith bod hynny'n eithaf cyflym i'r Llywodraeth hon, ond rwy'n poeni ein bod colli'n ffocws ar adfywio a'r heriau economaidd allweddol sy'n ein hwynebu yma ac mewn cymunedau ledled Cymru.

Mae angen ymagwedd gyfannol at adfywio, gyda chymorth gan Lywodraeth Cymru, cefnogaeth gan fusnesau lleol, a thrwy gynnwys awdurdodau lleol sy'n atebol yn ddemocrataidd o ran rheoli cynlluniau adfywio a gwneud penderfyniadau. Mae'r gwelliannau a gyflwynwyd gennym yn adlewyrchu ein pryder bod rheolaeth Llywodraeth Cymru ar gynlluniau yn y gorffennol, megis Cymunedau yn Gyntaf, wedi bod yn wael ac nid yw bob amser wedi cymryd i ystyriaeth anghenion amrywiol cymunedau gwahanol ledled Cymru. Roedd pwynt Huw am ficroreoli yng ngwelliant 4 yn un da, ond yr un peth na ellid cyhuddo'r Llywodraeth ohono mewn perthynas â rhaglen Cymunedau yn Gyntaf yw microreoli. Pe bai hynny'n wir, byddem mewn sefyllfa lawer gwell nag yr ydym yn awr.

**David Rees:** Mae'r pryderon yr ydych wedi amlinellu oll yn ymwneud â rhaglen Cymunedau yn Gyntaf, ond rydych yn ceisio labelu popeth yn yr un ffordd. Ceir enghreifftiau da o brosiectau Cymunedau yn Gyntaf, yn enwedig yn fy etholaeth i, ac mae'n annheg edrych ar bopeth yng ngoleuni enghraifft Plas Madoc.

**Peter Black:** David, rydych wedi methu'r pwynt ac mae gennyf deimlad o *déjà-vu* o ymyriad yn ystod dadl flaenorol, pan wnaethoch yn union yr un pwynt i mi.

I pointed out to you then that, in a number of Communities First areas, in terms of outcomes for those communities, we have actually gone backwards. The point is that we are putting a lot of money into Communities First—£342 million as of March 2011, with no discernible reduction in poverty in the 155 areas supported. More importantly, and this is really important in terms of the Minister's review of Communities First, which he announced not so long ago, we still have no indicators to assess the effectiveness of that spend. You are absolutely right: there are a number of communities where Communities First has made a difference, where people feel empowered and where the projects under way have delivered something for those communities. However, at the same time, in outcomes for those communities and improvements in economic wellbeing, in being better off and in tackling poverty, the measurements do not indicate that that money is being particularly well spent or well delivered. What we need to see from Communities First is better targeting of that money and measurable outcomes by which we can judge whether that money is effective or not. So far, that has not come about, but it is needed if we are to pursue the Communities First approach across Wales.

Dywedais wrthych bryd hynny, mewn nifer o ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf, o ran y canlyniadau i'r cymunedau hynny, ein bod wedi mynd tuag yn ôl mewn gwirionedd. Y pwynt yw ein bod yn rhoi llawer o arian i raglen Cymunedau yn Gyntaf—£342 miliwn o fis Mawrth 2011 ymlaen, heb ddim gostyngiad amlwg mewn tlodi yn y 155 o ardaloedd sy'n cael cymorth. Yn bwysicach fyth, ac mae hyn yn bwysig iawn o ran adolygiad y Gweinidog o raglen Cymunedau yn Gyntaf a gyhoeddwyd ganddo yn gymharol ddiweddar, nid oes gennym ddangosyddion i asesu effeithiolrwydd y gwariant hwnnw o hyd. Rydych yn llygad eich lle: mae nifer o gymunedau lle y mae Cymunedau yn Gyntaf wedi gwneud gwahaniaeth, lle y mae pobl yn teimlo eu bod wedi'u grymuso a lle y mae'r prosiectau sydd ar y gweill wedi cyflawni rhywbeth ar gyfer y cymunedau hynny. Fodd bynnag, ar yr un pryd, yn y canlyniadau ar gyfer y cymunedau hynny a gwelliannau o ran lles economaidd, o ran bod yn well eu byd a mynd i'r afael â thlodi, nid yw'r mesuriadau'n dangos bod yr arian yn cael ei wario yn arbennig o dda nac yn cael ei gyflwyno'n dda. Yr hyn y mae angen inni ei weld gan raglen Cymunedau yn Gyntaf yw'r arian hwnnw'n cael ei dargedu'n well a chanlyniadau mesuradwy y gallwn eu defnyddio i farnu a yw'r arian yn effeithiol ai peidio. Hyd yma, nid yw hynny wedi digwydd, ond mae angen hynny os ydym am ddilyn dull Cymunedau yn Gyntaf ledled Cymru.

Businesses also need a consistent level of support and surety regarding future investment from the Welsh Government. I have a number of examples from my own region of that not having been the case. In the business and enterprise brief, we have seen delay after delay, such as over the announcement on enterprise zones. For example, in Swansea, in my region, the Government has effectively frozen new leases in the digital technium, with the result that one company that I know of has gone elsewhere and taken a couple of hundred jobs with it, because it has not been getting the support that it needs. That is deeply disturbing in terms of the Government's ambition to start to tackle economic deprivation and to regenerate communities. If you really want to regenerate communities,

Mae angen lefel gyson o gefnogaeth a sicrwydd ar fusnesau o ran buddsoddi gan Lywodraeth Cymru yn y dyfodol. Mae gen i nifer o enghreifftiau o fy rhanbarth i lle nad yw hynny'n digwydd. Yn y briff menter a busnes, rydym wedi gweld oedi ar ôl oedi, megis o ran y cyhoeddiad am ardaloedd menter. Er enghraifft, yn Abertawe, yn fy rhanbarth i, mae'r Llywodraeth fwy neu lai wedi rhewi prydlesi newydd yn y technium digidol, gan olygu bod un cwmni y gwn amdano wedi symud i ffwrdd ac wedi mynd ag ychydig gannoedd o swyddi gydag ef, gan nad yw wedi bod yn cael y cymorth y mae ei angen. Mae hynny'n fater o bryder mawr o ran uchelgais y Llywodraeth i ddechrau mynd i'r afael ag amddifadedd economaidd ac adfywio cymunedau. Os ydych o ddifrif eisiau adfywio cymunedau, rhaid ichi gael

you have to have those high-quality jobs and you have to have the policies in place to support them. Review after review and delay after delay does not do that; it means that those jobs slip through our fingers and go elsewhere. That is not the right way for the Government to approach growth and regeneration in those areas.

swyddi o ansawdd uchel ac mae'n rhaid ichi gael y polisïau ar waith i'w cefnogi. Nid yw adolygiad ar ôl adolygiad ac oedi ar ôl oedi yn gwneud hynny; mae'n golygu bod y swyddi hynny'n llithro drwy ein bysedd ac yn mynd i rywle arall. Nid dyna'r ffordd briodol i'r Llywodraeth fynd i'r afael â thwf ac adfywio yn yr ardaloedd hynny.

There is quite a lot to say in relation to Communities First, as this is key. However, in terms of amendment 2 on accountability, we are very concerned that a lot of what the Welsh Government does comes from the top down and does not involve local government enough. Communities First is a good example of that. In fact, the review has centralised that process even more and has given more control to the Minister and taken it away from local government. We believe that local government is better able to reflect the needs of its communities and more able to respond to them. We would rather see the resources available for Communities First being given to local authorities, along with the brief to use that money to regenerate areas. That would be a much more constructive approach. If you have the right outcomes and the outcome indicators, it will be possible to measure how well local government is delivering on that.

Mae cryn dipyn i'w ddweud ynglŷn â Chymunedau yn Gyntaf, gan fod hyn yn allweddol. Fodd bynnag, o ran gwelliant 2 ar atebolrwydd, rydym yn bryderus iawn bod llawer o'r hyn y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud yn dod o'r brig i lawr ac nad yw'n cynnwys llywodraeth leol yn ddigonol. Mae Cymunedau yn Gyntaf yn enghraifft dda o hynny. Yn wir, mae'r adolygiad wedi canoli'r broses honno'n fwy byth ac wedi rhoi mwy o reolaeth i'r Gweinidog a mynd â hi oddi ar lywodraeth leol. Rydym yn credu bod llywodraeth leol mewn gwell sefyllfa i adlewyrchu anghenion ei chymunedau ac yn fwy abl i ymateb iddynt. Byddai'n well gennym weld yr adnoddau sydd ar gael ar gyfer Cymunedau yn Gyntaf yn cael eu rhoi i awdurdodau lleol, ynghyd â'r briff i ddefnyddio'r arian hwnnw i adfywio ardaloedd. Byddai hynny'n ddull llawer mwy adeiladol. Os bydd gennych y canlyniadau cywir a'r dangosyddion canlyniadau, bydd yn bosibl mesur i ba raddau y mae llywodraeth leol yn cyflawni yn y cyswllt hwnnw.

Although the Minister's speech contained a lot of ambition and a willingness to listen, consult and take note of other people's views, which is very laudable, at this point, nine months into the new Assembly, we need some decisive action and delivery. We need to see those targets being set, we need to see that money being invested and we need to see the money that is available for regeneration starting to deliver on the ground. I am afraid that, so far, this debate is not producing that outcome.

Er bod araith y Gweinidog yn cynnwys llawer o uchelgais a pharodrwydd i wrando, ymgynghori a chymryd sylw o farn pobl eraill, sydd yn ganmoladwy iawn, bellach, naw mis wedi i'r Cynulliad newydd ddechrau, mae angen camau pendant ac enghreifftiau o gyflawni. Mae angen inni weld y targedau hynny'n cael eu gosod, mae angen inni weld bod arian yn cael ei fuddsoddi ac mae angen inni weld yr arian sydd ar gael ar gyfer adfywio yn dechrau cyflawni ar lawr gwlad. Mae arnaf ofn, hyd yma, nad yw'r ddadl hon yn arwain at y canlyniad hwnnw.

*Gwelliant 4 William Graham*

*Amendment 4 William Graham*

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

*Add as new point at end of motion:*

*Yn cydnabod nad yw micro-reolaeth*

*Recognises that the Welsh Government's*

*Llywodraeth Cymru o'i hagenda adfywio yn gweithio, ac y bydd rhaid i'r Trydydd Sector a'r Sector Annibynnol fod yn bartneriaid gwirioneddol o ran strategaeth a chyflenwi er mwyn sicrhau adfywio cymunedol.*

*micromanagement of its regeneration agenda is not working and that sustainable regeneration will require the Third and Independent sectors to become real partners in strategy and delivery.*

**Byron Davies:** I move amendment 4 in the name of William Graham.

**Byron Davies:** Cynigiaf welliant 4 yn enw William Graham.

I would like to make five key points early on in this debate. First, it is clear that the Welsh Government's micromanagement of its regeneration agenda is not working. We believe that effective and sustainable regeneration requires the third and independent sectors to become real partners in strategy and development. This means actively engaging with partners early on in the strategy developments and ensuring that they deliver the aspects of projects with which they are comfortable and at which they excel. The third and independent sectors are leaders in the regeneration field and we should harness their enthusiasm and determination to add value and ensure success.

Hoffwn wneud pum pwynt allweddol ar ddechrau'r ddadl hon. Yn gyntaf, mae'n amlwg nad yw microreolaeth Llywodraeth Cymru o'i hagenda adfywio yn gweithio. Rydym yn credu bod adfywio effeithiol a chynaliadwy yn ei gwneud yn ofynnol i'r trydydd sector a'r sector annibynnol ddod yn bartneriaid go iawn mewn strategaeth a datblygu. Mae hyn yn golygu mynd ati i ymgysylltu â phartneriaid yn gynnar yn y datblygiadau strategaeth a sicrhau eu bod yn cyflwyno agweddau ar brosiectau y maent yn gyfforddus â hwy a lle y maent yn rhagori. Mae'r trydydd sector a'r sector annibynnol yn arweinwyr yn y maes adfywio a dylem fanteisio ar eu brwdfrydedd a'u penderfyniad i ychwanegu gwerth a sicrhau llwyddiant.

Secondly, in taking its regeneration agenda forward, the Welsh Government must ensure that it is adopting a co-ordinated and joined-up approach. Ministers must deal with recent accusations that regeneration policies too often pull in different directions, instead ensuring that a robust strategy is in place effectively to regenerate Wales's deprived communities.

Yn ail, wrth symud ei hagenda adfywio ymlaen, rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau ei bod yn mabwysiadu dull cydlynol a chydgysylltiedig. Rhaid i Weinidogion ymdrin â honiadau diweddar bod polisïau adfywio yn rhy aml yn mynd i wahanol gyfeiriadau, gan sicrhau yn hytrach fod strategaeth gadarn ar waith i adfywio cymunedau difreintiedig Cymru yn effeithiol.

Thirdly, the enterprise zones are key to economic and social regeneration in Wales. You will be only too aware of our continued frustration at the slow progress, already mentioned here today, in implementing enterprise zones, which have the potential to revitalise some of Wales's poorest areas. More parochially, I am still disappointed that South Wales West has not had an enterprise zone. I believe that the Government needs to get on with this and needs to get on with the detail. We have plenty of prime sites in South Wales West and I would be happy to discuss these with the Minister.

Yn drydydd, mae'r ardaloedd menter yn allweddol i adfywiad economaidd a chymdeithasol yng Nghymru. Byddwch yn ymwybodol iawn o'n rhwystredigaeth barhaus am y cynnydd araf, a grybwyllwyd eisoes yma heddiw, wrth weithredu ardaloedd menter, sydd â'r potensial i adfywio rhai o ardaloedd tlotaf Cymru. Ar nodyn mwy plwyfol, rwy'n dal yn siomedig nad yw Gorllewin De Cymru wedi cael ardal fenter. Credaf fod angen i'r Llywodraeth fwrw ymlaen â hyn ac mae angen iddi fwrw ymlaen â'r manylion. Mae gennym ddigon o safleoedd addas yng Ngorllewin De Cymru a byddwn yn fodlon trafod y rhain â'r Gweinidog.

My penultimate point relates to the need to

Mae fy mhwynt olaf ond un yn ymwneud â'r

tackle the housing crisis effectively. This is key to regenerating our communities. We have repeatedly called for a robust affordable homes strategy to be implemented. We pledged to build at least 10,000 affordable homes in Wales by 2015, but the Labour Government has yet to set a target.

angen i fynd i'r afael â'r argyfwng tai mewn modd effeithiol. Mae hyn yn allweddol i adfywio ein cymunedau. Rydym wedi galw dro ar ôl tro am weithredu strategaeth dai fforddiadwy gadarn. Rydym wedi addo adeiladu o leiaf 10,000 o gartrefi fforddiadwy yng Nghymru erbyn 2015, ond nid yw'r Llywodraeth Lafur wedi gosod targed eto.

Finally, the Labour Government in Wales must recognise that the flagship Communities First programme has failed to adequately regenerate Wales's deprived communities. A lack of value for money and numerous governance issues has blighted the programme. The updated initiative must adequately alleviate severe poverty, empower local communities and be run by the most professional of people.

Yn olaf, mae'n rhaid i'r Llywodraeth Lafur yng Nghymru gydnabod bod Cymunedau yn Gyntaf, sy'n un o'i phrif raglenni, wedi methu ag adfywio cymunedau difreintiedig Cymru yn ddigonol. Mae diffyg gwerth am arian a phroblemau llywodraethu niferus wedi amharu ar y rhaglen. Rhaid i'r fenter wedi'i diweddaru leddfu tlodi difrifol, rhoi grym i gymunedau lleol a chael ei rhedeg gan y bobl fwyaf proffesiynol.

These are the key points that your Government must wake up to and plan for accordingly; otherwise, sadly, you are destined to fail once again. I very much hope that you will listen, learn and allow cross-party consensus to emerge on regeneration. The national importance cannot be overestimated.

Dyma'r pwyntiau allweddol y mae'n rhaid i'ch Llywodraeth fynd i'r afael â hwy a chynllunio yn unol â hynny; fel arall, yn anffodus, rydych yn sicr o fethu unwaith eto. Gobeithio yn fawr y byddwch yn gwrando, yn dysgu ac yn caniatáu i gonsensws trawsbleidiol ddatblygu mewn perthynas ag adfywio. Ni ellir gorbwysleisio pwysigrwydd cenedlaethol y mater hwn.

4.15 p.m.

Before I finish, I want to look more broadly at regeneration. I speak as a member of the Enterprise and Business Committee, which undertook a recent inquiry into the regeneration of Wales's town centres. It found some worrying trends that must be taken into account in any regeneration strategy. For example, while footfall in our town centres has countered the UK trend, the percentage of vacant premises in Welsh town centres stands at 11.5%, which is above the UK average. We need to look at establishing relevant policies and strategy documents. The Welsh Conservatives would publish a shopkeeper strategy to help the retail sector and shops across Wales. Thriving town centres could offer employment opportunities and enhance community spirit, which can be so important for effective regeneration.

Cyn imi orffen, hoffwn edrych yn fwy cyffredinol ar adfywio. Rwyf yn siarad fel aelod o'r Pwyllgor Menter a Busnes a gynhaliodd ymchwiliad yn ddiweddar i adfywio canol trefi Cymru. Daeth o hyd i rai tueddiadau sy'n peri pryder y mae'n rhaid eu hystyried mewn unrhyw strategaeth adfywio. Er enghraifft, tra bod nifer yr ymwelwyr yng nghanol ein trefi wedi mynd yn groes i'r duedd yn y DU, mae canran yr adeiladau gwag yng nghanol trefi Cymru yn 11.5%, sy'n uwch na chyfartaledd y DU. Mae angen inni edrych ar sefydlu polisïau perthnasol a dogfennau strategaeth. Byddai'r Ceidwadwyr Cymreig yn cyhoeddi strategaeth siopwyr i helpu'r sector manwerthu a siopau ledled Cymru. Gallai canol trefi ffynniannus gynnig cyfleoedd cyflogaeth a gwella ysbryd cymunedol, a all fod mor bwysig ar gyfer adfywio effeithiol.

In closing, I cannot emphasise enough the need for you to put your hands up and say,

Wrth gloi, ni allaf bwysleisio digon ar yr angen ichi roi eich dwylo i fyny a dweud,

‘Look, we understand that Communities First failed, and we will ensure that it does not happen again’. There is no political merit in us celebrating it as a failed policy, or indeed in your Government ignoring, hiding or spinning the failure. Projects work, projects fail; the important issue is to learn the lessons.

‘Edrychwch, rydym yn deall bod Cymunedau yn Gyntaf wedi methu, a byddwn yn sicrhau nad yw’n digwydd eto’. Nid oes dim gwerth yn wleidyddol inni ei ddathlu fel polisi sydd wedi methu, neu’n wir i’ch Llywodraeth anwybyddu neu guddio’r methiant neu roi sbin arno. Mae prosiectau’n gweithio, mae prosiectau’n methu; y peth pwysig yw dysgu’r gwersi.

**Christine Chapman:** I welcome this debate, and I fully endorse the Minister’s commitment to adopting a much more holistic approach to regeneration.

**Christine Chapman:** Croesawaf y ddadl hon, ac rwyf yn llwyr gefnogi ymrwymiad y Gweinidog i fabwysiadu ymagwedd lawer mwy cyfannol at adfywio.

First, we know that regeneration will not happen unless we have well educated and skilled people, and therefore a learning culture in communities is vital. It is unacceptable that 25% of adults have problems with literacy and that 40% of pupils arrive at secondary school with reading ages below their actual age. However, I welcome the strong approach that the Minister for Education and Skills is taking with his drive to improve school standards, and to make quality learning a priority.

Yn gyntaf, rydym yn gwybod na fydd adfywio’n digwydd oni bai fod gennym bobl addysgedig a medrus, ac felly mae sicrhau diwylliant o ddysgu mewn cymunedau yn hanfodol. Mae’n annerbyniol bod 25% o oedolion yn cael problemau gyda llythrennedd a bod 40% o ddisgyblion yn cyrraedd yr ysgol uwchradd gydag oedran darllen sy’n is na’u gwir oedran. Fodd bynnag, croesawaf ymagwedd gref y Gweinidog Addysg a Sgiliau gyda’i ymgyrch i wella safonau ysgolion, ac i wneud dysgu o ansawdd da yn flaenoriaeth.

Much is being done to improve the learning experience of children and to encourage families to get involved, including families who may not have had good experiences of education. I was delighted to visit Glenboi Community Primary School in my constituency yesterday, and I was impressed by the strong leadership provided by the headteacher, staff and the governing body, and the good working relationship that they were forging with the local community. School attendance rates have rocketed and the children are happy, which augurs well for the future regeneration of that community.

Mae llawer yn cael ei wneud i wella profiad dysgu plant ac i annog teuluoedd i gymryd rhan, gan gynnwys teuluoedd nad ydynt efallai wedi cael profiadau da o addysg. Roeddwn wrth fy modd o gael ymweld ag Ysgol Gynradd Gymunedol Glenboi yn fy etholaeth ddoe, ac yr oeddwn yn llawn edmygedd o’r arweinyddiaeth gref a ddarperir gan y pennaeth, y staff a’r corff llywodraethu, a’r berthynas waith dda y maent yn ei meithrin â’r gymuned leol. Mae cyfraddau presenoldeb yr ysgol wedi gwella’n sylweddol ac mae’r plant yn hapus, sy’n argoeli’n dda ar gyfer adfywio’r gymuned honno yn y dyfodol.

Secondly, regeneration will not happen unless we have healthier communities. We know that good health is linked to economic growth. The role of Communities First partnerships in addressing health inequalities, along with education, skills and economic outcomes for disadvantaged communities, is important. I welcome the fact that the new Communities First programme will place a

Yn ail, ni fydd adfywio yn digwydd oni bai fod gennym gymunedau iachach. Rydym yn gwybod bod iechyd da yn gysylltiedig â thwf economaidd. Mae rôl partneriaethau Cymunedau yn Gyntaf o ran mynd i’r afael ag anghydraddoldebau iechyd, ynghyd ag addysg, sgiliau a chanlyniadau economaidd i gymunedau o dan anfantais, yn bwysig. Croesawaf y ffaith y bydd y rhaglen

stronger emphasis on outcomes and community involvement, which are important for regeneration.

Cymunedau yn Gyntaf newydd yn rhoi pwyslais cryfach ar ganlyniadau a chyfranogiad cymunedol, sy'n bwysig ar gyfer adfywio.

For example, the healthy living centre at Bryncynon in my constituency, which recently won the National Lottery award, has created a vibrant community hub that is boosting wellbeing, physical and mental health levels in the local area. It also hosts a scheme that helps to subsidise the local food co-operative project, which produces fresh, affordable food, and teaches the people of the area about the importance of healthy eating.

Er enghraifft, mae'r ganolfan byw'n iach ym Mryncynon yn fy etholaeth, a enillodd y wobr y Loteri Genedlaethol yn ddiweddar, wedi creu canolbwynt cymunedol bywiog sy'n hybu lles a lefelau iechyd corfforol a meddyliol yn yr ardal leol. Mae hefyd yn cynnal cynllun sy'n helpu i dalu am brosiect cydweithredol bwyd lleol sy'n cynhyrchu bwyd ffres, fforddiadwy, ac yn dysgu pobl yr ardal am bwysigrwydd bwyta'n iach.

Thirdly, regeneration will not happen unless small businesses in constituencies such as mine are nurtured. I welcome moves by the Welsh Government to boost town-centre regeneration, helping small businesses to benefit from a significant reduction in business rates. I look forward to the Government's response to any further work done on this. It is also important to strengthen the links between universities and local businesses. High levels of educational attainment favour innovation, as it facilitates the rapid transfer of new ideas and techniques.

Yn drydydd, ni fydd adfywio'n digwydd oni bai fod busnesau bach mewn etholaethau fel fy un i yn cael eu meithrin. Rwyf yn croesawu camau gan Lywodraeth Cymru i roi hwb i adfywio canol trefi, gan helpu busnesau bach i elwa o ostyngiad sylweddol mewn ardrethi busnes. Edrychaf ymlaen at ymateb y Llywodraeth i unrhyw waith pellach a gaiff ei wneud ar hyn. Mae'n bwysig hefyd cryfhau'r cysylltiadau rhwng prifysgolion a busnesau lleol. Mae lefelau uchel o gyrhaeddiad addysgol o blaid arloesi gan ei fod yn hwyluso trosglwyddo syniadau a thechnegau newydd yn gyflym.

In conclusion, we know that there are challenges, particularly in working within tighter budgets as a result of the Tory-led UK Government cuts. However, we must also be aware that economic growth does not always benefit everyone. In the pursuit of economic growth, we must ensure that we do not leave entire communities behind. I ask the Minister for assurance that this approach will be different, and I look forward to the Minister's review.

I gloi, rydym yn gwybod bod heriau, yn arbennig o ran gweithio o fewn cyllidebau tynnach yn sgîl toriadau Llywodraeth y DU sy'n cael ei harwain gan y Torïaid. Fodd bynnag, mae'n rhaid inni hefyd fod yn ymwybodol nad yw twf economaidd bob amser o fudd i bawb. Wrth fynd ar drywydd twf economaidd, mae'n rhaid inni sicrhau nad ydym yn gadael cymunedau cyfan ar ôl. Gofynnaf i'r Gweinidog am sicrwydd y bydd y dull hwn yn wahanol, ac edrychaf ymlaen at adolygiad y Gweinidog.

**Jocelyn Davies:** Regeneration aims to transform areas over time and to improve the quality of life of the people who live and work there. The Welsh Government has a number of programmes across all departments, which the Minister mentioned earlier, and many of them have a regeneration theme: Communities First, the regeneration areas programme, Flying Start, the use of capital spend to stimulate local economies, and the relocation of Welsh Government staff

**Jocelyn Davies:** Mae adfywio yn anelu at weddnewid ardaloedd dros amser a gwella ansawdd bywyd y bobl sy'n byw a gweithio yno. Mae gan Lywodraeth Cymru nifer o raglenni ym mhob adran, fel y soniodd y Gweinidog yn gynharach, ac mae i lawer ohonynt thema adfywio: Cymunedau yn Gyntaf, y rhaglen ardaloedd adfywio, Dechrau'n Deg, y defnydd o wariant cyfalaf i ysgogi economïau lleol, ac adleoli staff a swyddfeydd Llywodraeth Cymru, ymysg

and offices, among others, such as enterprise zones and so on.

eraill, fel parthau menter ac yn y blaen.

However, evaluation has not been a high priority within these programmes. Therefore, it is difficult to see what works well and what does not. It is also difficult to judge what the specific aims are if evaluation is not built into the projects. I heard the Minister mention evaluation earlier, but I think that it was only in passing, and I urge him to use the Centre for Regeneration Excellence Wales during the review to ensure that proper evaluation takes place. It is possible to see how effective the policies here have been over the past 12 years by making a comparison with regeneration outcomes elsewhere, but we have to bear in mind that this will not be a like-for-like comparison. The Minister mentioned that we have had major investment since devolution, but, to be honest, we do not really know what has been achieved.

Fodd bynnag, nid yw gwerthuso wedi bod yn flaenoriaeth uchel o fewn y rhaglenni hyn. Felly, mae’n anodd gweld beth sy’n gweithio’n dda a beth nad yw’n llwyddiannus. Mae hefyd yn anodd barnu beth yw’r nodau penodol os nad yw gwerthuso yn cael ei gynnwys yn y prosiectau. Clywais y Gweinidog yn cyfeirio at werthuso yn gynharach, ond rwyf yn meddwl mai dim ond wrth fynd heibio yr oedd hynny, ac rwyf yn ei annog i ddefnyddio Canolfan Rhagoriaeth Adfywio Cymru yn ystod yr adolygiad er mwyn sicrhau bod gwerthusiad priodol yn digwydd. Mae’n bosibl gweld pa mor effeithiol y bu’r polisïau yn hyn o beth dros y 12 mlynedd diwethaf drwy wneud cymhariaeth â chanlyniadau adfywio mewn mannau eraill, ond mae’n rhaid inni gadw mewn cof na fydd hon yn broses o gymharu tebyg at ei debyg. Soniodd y Gweinidog ein bod wedi cael buddsoddiad sylweddol ers datganoli, ond, a bod yn onest, nid ydym yn gwybod beth yn union a gyflawnwyd.

The Joseph Rowntree Foundation published a report last year and used a set of 16 indicators, comparing Wales with other UK regions and the other devolved countries in relation to devolution’s impact on people on low incomes. Wales did not shine in any of the indicators used and was ranked lowest in two of them. Devolution has perhaps not yet led to significant improvements in areas such as the poverty rate. Perhaps that that is understandable when you realise that many of the levers lie elsewhere. However, I am pleased that there has been a significant reduction in the percentage of adults without qualifications, and that must be due solely to policy initiatives here, and I am sure that, without devolution, poverty and deprivation rates would be worse, even if we have not yet seen the measurable improvements that we would all like to see.

Cyhoeddodd Sefydliad Joseph Rowntree adroddiad y llynedd, a defnyddiodd set o 16 o ddangosyddion, yn cymharu Cymru â rhanbarthau eraill y DU a’r gwledydd datganoledig eraill mewn perthynas ag effaith datganoli ar bobl ar incwm isel. Ni wnaeth Cymru ddisgleirio mewn dim un o’r dangosyddion a ddefnyddiwyd, a hi oedd yr isaf mewn dau ohonynt. Efallai nad yw datganoli wedi arwain eto at welliannau sylweddol mewn meysydd fel cyfradd tlodi. Efallai fod hynny’n ddealladwy pan fyddwch yn sylweddoli bod llawer o’r ysgogiadau mewn mannau eraill. Fodd bynnag, rwyf yn falch bodgostyngiad sylweddol wedi bod yng nghanran yr oedolion sydd heb gymwysterau, a rhaid mai mentrau polisi yma sy’n gyfan gwbl gyfrifol am hynny, ac rwyf yn siŵr, heb ddatganoli, y byddai cyfraddau tlodi ac amddifadedd yn waeth, hyd yn oed os nad ydym wedi gweld eto’r gwelliannau mesuradwy y byddem i gyd yn hoffi eu gweld.

I want to mention the Communities First programme, which emerged many years ago from ‘BetterWales.com’. Its focus has been

Hoffwn sôn am y rhaglen Cymunedau yn Gyntaf, a ddeilliodd o ‘Gwellcymru.com’ flynyddoedd lawer yn ôl. Mae ei ffocws wedi

on capacity building and improvements to the physical surroundings. The regeneration areas programme is also area based, and many of its projects have also focused on buildings, homes and other things. These physical enhancements are there for all to see. The trick, of course, is to be able to make improvements to people’s life chances through physical regeneration, as well as restoring pride in our communities.

bod ar feithrin gallu a gwelliannau i’r amgylchedd ffisegol. Mae’r rhaglen ardaloedd adfywio hefyd yn seiliedig ar ardaloedd, ac mae llawer o’i phrosiectau wedi canolbwyntio hefyd ar adeiladau, cartrefi a phethau eraill. Mae’r gwelliannau ffisegol yno i bawb eu gweld. Y gamp, wrth gwrs, yw gallu gwneud gwelliannau i gyfleoedd bywyd pobl trwy adfywio ffisegol, yn ogystal ag adfer balchder yn ein cymunedau.

The Minister mentioned that £125 million of the £140 million promised to the Heads of the Valleys is already spent. Perhaps he will clarify whether the Heads of the Valleys programme is completed when the £140 million promised is reached. I am sure that your review will indicate that evaluation of the outcomes of regeneration projects while they are still running has not been vigorous. Therefore the true impact of any of them is difficult to quantify.

Soniodd y Gweinidog fod £125 miliwn o’r £140 miliwn a addawyd i Flaenau’r Cymoedd wedi cael ei wario eisoes. Efallai y gwaiff egluro a fydd rhaglen Blaenau’r Cymoedd wedi’i chwblhau pan fydd y £140 miliwn a addawyd yn cael ei gyrraedd. Rwyf yn siŵr y bydd eich adolygiad yn dangos nad yw gwerthuso canlyniadau prosiectau adfywio tra byddant yn dal i weithredu wedi bod yn rymus. Felly mae gwir effaith unrhyw un o’r prosiectau wedi bod yn anodd ei fesur.

It is also often said that regeneration projects and programmes will result in programme bending, but I doubt very much that this occurred very often. In fact, the Wales Audit Office concluded that, without programme bending, projects are unlikely to meet their objectives. Perhaps in your response you can let us know whether programme bending forms part of your review and whether you intend to maintain an area-based approach to regeneration programmes in the future. Perhaps the Minister will also tell us who will be carrying out the review and if it extends across the Welsh Government to include all the regeneration programmes.

Dywedir yn gyson hefyd y bydd prosiectau a rhaglenni adfywio yn arwain at blygu rhaglenni, ond rwyf yn amau’n fawr iawn a yw hyn wedi digwydd yn aml iawn. Yn wir, daeth Swyddfa Archwilio Cymru i’r casgliad bod prosiectau’n annhebygol o gyflawni eu hamcanion oni bai fod rhaglenni’n cael eu plygu. Efallai, yn eich ymateb, y gallwch roi gwybod inni a yw plygu rhaglenni yn rhan o’ch adolygiad ac a ydych yn bwriadu cadw at ddull sy’n seiliedig ar ardaloedd ar gyfer rhaglenni adfywio yn y dyfodol. Efallai y bydd y Gweinidog yn dweud wrthym hefyd pwy fydd yn cynnal yr adolygiad ac a fydd yn ymestyn ar draws Llywodraeth Cymru i gynnwys yr holl raglenni adfywio.

We will also be supporting the Liberal Democrat amendments to the motion, but we cannot support the Tory amendment as it is factually incorrect: micromanagement has not occurred and they have not given us any evidence that it has.

Byddwn hefyd yn cefnogi gwelliannau’r Democratiaid Rhyddfrydol i’r cynnig, ond ni allwn gefnogi gwelliant y Torïaid gan ei fod yn ffeithiol anghywir: nid yw microreoli wedi digwydd ac nid ydynt wedi rhoi dim tystiolaeth ei fod wedi digwydd inni.

We look forward to seeing the outcome of the review, but I urge the Minister to build on the framework that has already been established for regeneration, to open up decision making to others and to establish robust evaluation in every programme.

Rydym yn edrych ymlaen at weld canlyniad yr adolygiad, ond rwyf yn erfyn ar y Gweinidog i adeiladu ar y fframwaith sydd eisoes wedi’i sefydlu ar gyfer adfywio, i agor y broses o wneud penderfyniadau i eraill ac i sefydlu proses werthuso gadarn ym mhob rhaglen.

**Julie James:** I also welcome this debate. I will give some good examples of what I think of as effective regeneration. I am quite surprised at the negativity of Peter Black's contribution to this debate. His amendments were very positive, so that was unexpected. I would like to redress that.

**Julie James:** Rwyf finnau'n croesawu'r ddadl hon. Rhof rai enghreifftiau da o'r hyn sy'n adfywio effeithiol yn fy marn i. Rwyf yn synnu braidd at gyfraniad negyddol Peter Black i'r ddadl hon. Roedd ei welliannau'n gadarnhaol iawn, felly roedd yr agwedd negyddol yn annisgwyl. Hoffwn wneud iawn am hynny.

In Swansea, for example, we have an excellent example of regeneration going ahead at the moment with the Swansea regeneration area, which has a large number of developments under way. Some of them are bricks and mortar, it is true. There is a large city-centre development scheme, which I hope will be even more successful than it is projected to be. However, it also includes innovative schemes that include training programmes, skills transfer and permanent jobs, as well as the temporary jobs that any construction brings. I also have a very successful Communities First programme in my constituency, which is in Peter's region. We know that there have been problems in some Communities First areas, but others have been demonstrably successful. There is certainly one such programme in my constituency. I will be very happy to take Peter there, if he does not know about it, although I would be very surprised at that. I do not want all of those schemes to be put into one basket. Some people have worked very, very hard on those schemes and are justifiably proud of what they have achieved. I think that that we should recognise that.

Yn Abertawe, er enghraifft, mae gennym enghraifft wych o adfywio'n mynd rhagddo ar hyn o bryd gydag ardal adfywio Abertawe, sydd â nifer fawr o ddatblygiadau ar y gweill. Mae'n wir mai datblygiadau adeiladu yw rhai ohonynt. Mae cynllun datblygu mawr ar gyfer canol y ddinas ar y gweill, un yr wyf yn gobeithio y bydd hyd yn oed yn fwy llwyddiannus na'r hyn a amcangyfrifir. Fodd bynnag, mae hefyd yn cynnwys cynlluniau arloesol sy'n cynnwys rhaglenni hyfforddiant, trosglwyddo sgiliau a swyddi parhaol, yn ogystal â'r swyddi dros dro y bydd unrhyw adeiladu yn eu creu. Mae gennyf hefyd raglen Cymunedau yn Gyntaf lwyddiannus iawn yn fy etholaeth, sydd yn rhanbarth Peter. Rydym yn gwybod bod problemau wedi bod mewn rhai ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf, ond mae eraill yn amlwg wedi bod yn llwyddiannus. Yn sicr, mae rhaglen o'r fath yn fy etholaeth. Byddaf yn fodlon iawn mynd â Peter yno, os nad yw'n gwybod amdano, er y byddwn yn synnu'n fawr at hynny. Nid wyf eisiau i bob un o'r cynlluniau hynny gael eu rhoi mewn un fasged. Mae rhai pobl wedi gweithio'n galed iawn iawn ar y cynlluniau hynny ac maent yn haeddiannol falch o'r hyn y maent wedi ei gyflawni. Credaf y dylem gydnabod hynny.

I particularly welcome the Minister's commitment to heritage regeneration. Again, the Minister has been good enough to take an interest in several historic buildings in and around Swansea that are capable of being a regeneration centre, as well as being of interest in their own right. Indeed, the developments at the top of Swansea's High Street are a very good example of that. We are hoping to continue that programme. They are already having a demonstrable effect. Although I take Members' points about hard statistical evidence of success, we also know what success feels like, to be honest. The

Croesawaf yn arbennig ymrwymiad y Gweinidog i adfywio treftadaeth. Unwaith eto, mae'n dda bod y Gweinidog wedi ymddiddori mewn nifer o adeiladau hanesyddol yn Abertawe a'r cyffiniau a allai fod yn ganolfan adfywio, ac sydd o ddiddordeb ynddynt eu hunain yn ogystal. Yn wir, mae'r datblygiadau ar ben Stryd Fawr Abertawe yn enghraifft dda iawn o hynny. Rydym yn gobeithio parhau â'r rhaglen. Maent eisoes yn cael effaith amlwg. Er fy mod yn derbyn pwyntiau Aelodau am dystiolaeth ystadegol galed o lwyddiant, rydym hefyd yn gwybod sut deimlad yw bod

difference between the top end of High Street in Swansea now and a year ago is palpable if you just stand there. My office is right opposite the regeneration work and I can tell you that it feels entirely different already and the programme is nowhere near finished.

yn llwyddiannus, a bod yn onest. Mae'r gwahaniaeth rhwng pen uchaf y Stryd Fawr yn Abertawe yn awr a blwyddyn yn ôl i'w weld yn amlwg dim ond wrth ichi sefyll yno. Mae fy swyddfa gyferbyn â'r gwaith adfywio a gallaf ddweud wrthych ei fod yn teimlo'n hollol wahanol yn barod ac nid yw'r rhaglen wedi cael ei chwblhau o bellffordd.

**Jocelyn Davies:** Building in evaluation is not negative. You might be doing some very good things. If you build in the evaluation you are able to say, 'This has happened, because we did that', and if you need to make changes you are able to do that while the programme is running rather than saying at the end, 'I wish we had done things differently'.

**Jocelyn Davies:** Nid yw cynnwys gwerthuso yn rhywbeth negyddol. Efallai eich bod yn gwneud rhai pethau da iawn. Os ydych yn cynnwys y gwerthusiad gallwch ddweud 'Mae hyn wedi digwydd, oherwydd ein bod wedi gwneud hynny', ac os oes angen ichi wneud newidiadau gallwch wneud hynny tra bod y rhaglen yn mynd yn ei blaen yn hytrach na dweud ar y diwedd 'Hoffwn petaem wedi gwneud pethau'n wahanol'.

**Julie James:** Oh, I completely accept that. I did not mean in any way to suggest that building it in is negative. I am just saying that, just because you did not build it in, does not mean you cannot show that some of it has been successful. I entirely accept your remarks about building it in the first place. That clearly would improve some of the projects. I can think of many examples from my own life where I wish that we had built in evaluation processes in the first place. I entirely take your point.

**Julie James:** O, rwyf yn llwyr dderbyn hynny. Nid oeddwn yn bwriadu awgrymu o gwbl fod ei gynnwys yn negyddol. Dim ond dweud yr wyf, oherwydd na wnaethoch ei gynnwys, nad yw hynny'n golygu na allwch ddangos bod rhywfaint ohono wedi bod yn llwyddiannus. Rwyf yn llwyr dderbyn eich sylwadau am ei gynnwys yn y lle cyntaf. Byddai hynny'n amlwg yn gwella rhai o'r prosiectau. Gallaf feddwl am lawer o enghreifftiau o fy mywyd fy hun lle yr hoffwn petaem wedi cynnwys prosesau gwerthuso yn y lle cyntaf. Rwyf yn llwyr dderbyn eich pwynt.

I want to mention two other things. The first is the business improvement district process. Again, the evaluation of it is evident in the fact that its members have voted for it again, so they clearly felt that their money went to a good cause. It has done some very good works. I have a list of things that I would also like to see it do, but that is not to say that it has not done some good things already. I would like to see that process spread across Wales. Indeed, our town-centre regeneration report took cognizance of that and I was very grateful for that.

Hoffwn sôn am ddau beth arall. Y cyntaf yw proses yr ardal gwella busnes. Unwaith eto, mae ei gwerthuso yn amlwg yn y ffaith bod ei haelodau wedi pleidleisio o'i phlaid eto, felly roeddent yn amlwg yn teimlo bod eu harian yn mynd at achos da. Mae wedi gwneud rhywfaint o waith da iawn. Mae gennyf restr o bethau y byddwn yn hoffi ei gweld yn eu gwneud hefyd, ond nid yw hynny'n golygu nad yw wedi gwneud rhai pethau da eisoes. Hoffwn weld y broses honno'n ymledu ledled Cymru. Yn wir, cymerodd ein hadroddiad ar adfywio canol trefi sylw o hynny ac roeddwn yn ddiolchgar iawn am hynny.

My last point is to reiterate something I said in response to the earlier statement on procurement, which is that we must not forget the power of public procurement in

Fy mhwynt olaf yw ailadrodd rhywbeth a ddywedais wrth ymateb i'r datganiad cynharach ar gaffael, sef bod rhaid inni beidio ag anghofio pŵer caffael cyhoeddus

regeneration. I would very much like to see all public sector bodies having to look at whether they can achieve some sort of regeneration in putting that spend into effect, in terms of business growth, supply chains, infrastructure, skills and training. There is a whole series of measures where we can match the regeneration agenda, the procurement agenda and, indeed, the planning process, when the planning Bill comes before us, together to make much better use of our money in future and take that forward optimistically.

yn y broses adfywio. Byddwn yn awyddus iawn i weld holl gyrff y sector cyhoeddus yn gorfod ystyried a allant gyflawni rhyw fath o adfywio wrth roi'r gwariant hwnnw ar waith, o ran twf busnes, cadwyni cyflenwi, seilwaith, sgiliau a hyfforddiant. Mae amryw byd o fesurau lle y gallwn gyfuno'r agenda adfywio, yr agenda caffael ac, yn wir, y broses gynllunio, pan fydd y Mesur cynllunio yn dod ger ein bron, i wneud gwell defnydd o lawer o'n harian yn y dyfodol a bwrw ymlaen â hynny'n optimistaidd.

**Mark Isherwood:** Instead of regeneration, Wales, since devolution, has suffered from 13 years of missed opportunities as a result of dogma, with worsening levels of child poverty, youth unemployment and economic activity years before the credit crunch, recession and the change of UK Government, with the Welsh Labour Government subsidising rather than tackling the deep-rooted causes of worklessness and dependency and with Wales left at the bottom of the UK pile.

**Mark Isherwood:** Yn hytrach nag adfywio, mae Cymru, ers datganoli, wedi dioddef 13 blynedd o golli cyfleoedd o ganlyniad i ddogma, gyda lefelau tlodi plant, diweithdra ymhlith pobl ifanc a gweithgarwch economaidd a oedd yn gwaethygu flynyddoedd cyn y wasgfa gredyd, y dirwasgiad a'r newid yn Llywodraeth y DU, gyda Llywodraeth Lafur Cymru yn sybsideiddio'r rhesymau dwfn dros ddiweithdra a dibyniaeth yng Nghymru yn hytrach na mynd i'r afael â hwy, a Chymru wedi'i gadael ar y gwaelod unyn y DU.

Communities First was implemented in 2001, when Edwina Hart was Minister for Finance, Local Government and Communities. Mrs Hart was also the responsible Minister when the Welsh housing quality standard was launched in 2002. However, a Wales Audit Office report published in July 2009 on Communities First identified serious weaknesses in financial planning and the processes of funding the programme, an absence of basic human resource and financial planning, that monitoring was weak and that there was no evidence that anything was done with the feedback. A recent Wales Audit Office report on the Welsh housing quality standard stated that there is no clear framework for measuring success.

Cafodd cynllun Cymunedau yn Gyntaf ei gyflwyno yn 2001, pan oedd Edwina Hart yn Weinidog Cyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau. Mrs Hart oedd y Gweinidog cyfrifol hefyd pan lansiwyd safon ansawdd tai Cymru yn 2002. Fodd bynnag, nododd adroddiad a gyhoeddwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru ar Cymunedau yn Gyntaf ym mis Gorffennaf 2009 wendidau difrifol mewn cynllunio ariannol a'r prosesau o ariannu'r rhaglen, diffyg cynllunio adnoddau dynol ac ariannol sylfaenol, fod monitro yn wan ac nad oedd dim tystiolaeth bod unrhyw beth yn cael ei wneud â'r adborth. Dywedodd adroddiad diweddar gan Swyddfa Archwilio Cymru ar y safon ansawdd tai nad oes fframwaith clir i fesur llwyddiant.

4.30 p.m.

The joint paper published by the Wales Council for Voluntary Action and Community Development Cymru, 'Communities First: A Way Forward', detailed proposals for an achievable future vision for communities that would be more effectivethat would be more effective at

Gwnaeth y papur a gyhoeddwyd gan Gyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru ar y cyd â Datblygu Cymunedol Cymru, 'Cymunedau yn Gyntaf: Y Ffordd Ymlaen', gynigion manwl ar gyfer gweledigaeth gyraeddadwy i gymunedau yn y dyfodol a fyddai'n fwy effeithiol wrth fynd i'r afael ag amddifadedd,

tackling deprivation, building stronger communities with less bureaucracy and cost, and more community ownership. It found that the original design of the programme was flawed and did not have clear aims but, nevertheless, created overambitious expectations. It said that the missing link in achieving community ownership was the lack of a longer-term vision.

adeiladu cymunedau cryfach gyda llai o fiwrocratiaeth a chost, a mwy o berchnogaeth gymunedol. Canfu fod cynllun gwreiddiol y rhaglen yn ddiffygiol gan nad oedd ganddo nodau clir ond, serch hynny, roedd wedi creu disgwyliadau rhy uchelgeisiol. Dywedodd mai'r elfen goll er mwyn meithrin perchnogaeth gymunedol oedd diffyg gweledigaeth tymor hwy.

**Jocelyn Davies:** Thank you for taking the intervention. You mention the beginning of the Communities First programme and the setting up of the Welsh housing quality standard. You say that Mrs Hart was responsible, but this place, at that time, was a corporate body and we all bought into that.

**Jocelyn Davies:** Diolch i chi am gymryd yr ymyriad. Rydych yn sôn am gychwyn y rhaglen Cymunedau yn Gyntaf a sefydlu safon ansawdd tai Cymru. Rydych yn dweud mai Mrs Hart oedd yn gyfrifol, ond corff corfforaethol oedd y lle hwn ar y pryd, a gwnaethom i gyd gydsynio i hynny.

**Mark Isherwood:** This identified ministerial responsibility at that time. They may have not been called Ministers, but they had ministerial roles. You are quite right: it was before the 2006 separation of power, which formalised the arrangements that, in practice, already existed.

**Mark Isherwood:** Roedd hwn yn nodi'r cyfrifoldeb gweinidogol ar y pryd. Efallai nad oeddynt yn cael eu galw'n Weinidogion, ond roedd ganddynt rolau gweinidogol. Rydych yn llygad eich lle: digwyddodd cyn y broses o wahanu pŵer yn 2006, a ffurfiolodd y trefniadau a oedd, mewn gwirionedd, eisoes yn bodoli.

The WCVA proposed that one way forward to fill the missing link was the community anchor, where community organisations in an area would be a focus for services and activities to meet local need. As it said, it would move beyond programme and Government dependency and provide the community-owned dimension that is so often sought but seldom achieved in creating a better Wales. However, this Welsh Government is proposing to develop and consolidate programme and Government dependency. Yes, there are improvements with regard to clustering and more flexible borders and, yes, there are some excellent programmes on the ground, but it could do much more if regeneration was liberated.

Awgrymodd Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru mai un ffordd ymlaen i lenwi'r bwlch oedd yr angor cymuned, lle byddai sefydliadau cymunedol mewn ardal yn ffocws i wasanaethau a gweithgareddau o ran bodloni angen lleol. Fel y dywedodd, byddai'n symud y tu hwnt i ddibyniaeth ar raglenni a'r Llywodraeth ac yn darparu'r dimensiwn cymunedol sy'n aml yn nod ond prin yn cael ei wireddu yn y gwaith o greu Cymru well. Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu datblygu ac atgyfnerthu dibyniaeth ar raglenni a'r Llywodraeth. Oes, mae gwelliannau wedi bod o ran clystyru a ffiniau mwy hyblyg ac, oes, mae ambell i raglen ragorol ar lawr gwlad, ond gallai wneud llawer mwy pe bai adfywio'n cael ei ryddhau.

In order to maintain command and control, local Labour politicians are using scaremongering and misinformation to frighten Flintshire's council house tenants into voting against stock transfer. They are threatening to condemn them to unfit housing and to deny them for years to come the wider regeneration potential that stock transfer to a not-for-profit community housing mutual can

Er mwyn cynnal y system o orchymyn a rheoli, mae gwleidyddion Llafur lleol yn codi bwganod a chamarwain tenantiaid tai cyngor Sir y Fflint i bleidleisio yn erbyn trosglwyddo stoc. Maent yn bygwth eu condemnio i dai anaddas a gwrthod iddynt y potensial o adfywio ehangach am flynyddoedd i ddod y gall trosglwyddo stoc i gymdeithas tai cymunedol cydfuddiannol nid-er-elw ei

bring through local accountability and control, which includes the creation of local jobs and training opportunities, and support for local businesses to grow and thrive. They are not telling tenants that the ballot is in accordance with Welsh Labour Government policy, funded by the Welsh Labour Government, to achieve the Welsh Labour Government's Welsh housing quality standard, which is supported across the Chamber. Housing is the key vehicle to sustainable community regeneration. The last 12 years of a Conservative Government delivered 28,000 new social housing units in Wales, but the figure fell to 12,000 during the first 12 years of Labour-led Welsh Government. The social housing grant is now facing further cuts.

chynnig drwy atebolrwydd a rheolaeth leol, sy'n cynnwys creu swyddi lleol a chyfleoedd hyfforddi, a chymorth i fusnesau lleol dyfu a ffynnu. Nid ydynt yn dweud wrth denantiaid fod y bleidlais yn cyd-fynd â pholisi Llywodraeth Lafur Cymru, ei bod yn cael ei hariannu gan Lywodraeth Lafur Cymru, er mwyn cyflawni safon ansawdd tai Cymru Llywodraeth Lafur Cymru, a gefnogir ar draws y Siambr. Tai yw'r prif gyfrwng i adfywio cymunedau'n gynaliadwy. Darparodd y Lywodraeth Geidwadol 28,000 o unedau tai cymdeithasol newydd yn ystod 12 mlynedd diwethaf ei theyrnasiad, ond mae'r ffigur wedi gostwng i 12,000 yn ystod 12 mlynedd cyntaf Llywodraeth Cymru o dan arweinyddiaeth Llafur. Mae'r grant tai cymdeithasol bellach yn wynebu toriadau pellach.

The Minister for Housing, Regeneration and Heritage talks of filling the gap via a whole-sector approach, and quite rightly. However, at a construction meeting with leading north Wales housebuilders on 27 January, we heard that, compared with England and other European countries, Wales seems to gold plate procurement directives, making the burden unnecessarily hard and costly for both the public and private sectors alike. We heard about the total absence of a coherent procurement strategy in north Wales, resulting in costs amounting to millions of pounds annually for both the construction industry and the public sector in unnecessary procurement exercises.

Mae'r Gweinidog Tai, Adfywio a Threftadaeth yn sôn am lenwi bwlch drwy fabwysiadu ymagwedd sector cyfan, sy'n hollol briodol. Fodd bynnag, mewn cyfarfod adeiladu gydag adeiladwyr tai blaenllaw'r gogledd ar 27 Ionawr, clywsom, o gymharu â Lloegr a gwledydd eraill yn Ewrop, fod Cymru fel pe bai'n gwneud y cyfarwyddebau caffael yn rhy ddyrys, gan wneud y baich yn ddiangen o anodd a chostus i'r sectorau cyhoeddus a phreifat fel ei gilydd. Clywsom am y diffyg llwyr o ran meddu ar strategaeth gaffael gydlynol yn y gogledd, gan arwain at gostau o filiynau o bunnoedd bob blwyddyn i'r diwydiant adeiladu a'r sector cyhoeddus mewn ymarferion caffael diangen.

We heard about the proactive way in which the UK Government is helping the English housebuilding industry with the First Buy scheme, mortgage guarantee scheme for first-time buyers with small deposits, and the Kickstart initiative. Mortgage lenders and housebuilders are up for this in Wales but are having to look on enviously as England and Scotland move ahead.

Clywsom am y ffordd ragweithiol y mae Llywodraeth y DU yn helpu'r diwydiant adeiladu tai yn Lloegr gyda'r cynllun cymorth First Buy, cynllun gwarant morgais i brynwyr tro cyntaf â blaendaliadau bach, a menter Kickstart. Mae benthycwyr morgeisi ac adeiladwyr tai yn awyddus i wneud hyn yng Nghymru, ond maent yn gorfod edrych gydag eiddigedd ar Loegr a'r Alban wrth iddynt achub y blaen.

With regard to wider economic regeneration, a north Wales company, which also operates in Scotland, told me last week that the Scottish Government has a very different approach to that of the Welsh Government, despite similar demographics. Scottish Ministers ask how they can help and grow

O ran adfywio economaidd ehangach, dywedodd cwmni yn y gogledd, sydd hefyd yn gweithredu yn yr Alban, wrthyf yr wythnos diwethaf fod gan Lywodraeth yr Alban ffordd wahanol iawn o fynd ati i Lywodraeth Cymru, er fod y demograffeg yn debyg. Mae Gweinidogion yr Alban yn gofyn

their businesses and, thereby, the wealth and jobs of Scotland. The company asked why we cannot have this in Wales. The Welsh Government's micromanagement of its regeneration agenda is not working. We can only achieve this if we drive through improvement by liberating the third, voluntary and independent sectors as real partners in strategy and delivery.

sut y gallant helpu a thyfu eu busnesau a, thrwy hynny, helpu a thyfu cyfoeth a swyddi'r Alban. Gofynnodd y cwmni pam na all hyn ddigwydd yng Nghymru. Nid yw'r ffordd mae Llywodraeth Cymru yn microreoli ei hagenda adfywio yn gweithio. Dim ond drwy hybu gwelliant drwy ryddhau'r trydydd sector, y sector gwirfoddol a'r sector annibynnol fel partneriaid gwirioneddol o ran strategaeth a chyflwyno, y gallwn wireddu hyn.

**David Rees:** I start by expressing my support for Christine Chapman's comments, because it is an important development in terms of individuals and schools supporting communities. I also want to indicate my huge disappointment with opposition Members who continually try to indicate that the Communities First initiative is failing. It is not failing. I do not deny that there are examples of where we have had difficulties, but I invite you to come to my constituency to see how people are getting back into work. I invite you to come to see how professionals working on the ground are getting people into work. To say that it is not run by professionals is disgusting. I cannot help but think that the work they do should be commended and praised, not demeaned.

**David Rees:** Hoffwn ddechrau drwy fynegi fy nghefnogaeth i sylwadau Christine Chapman, gan ei fod yn ddatblygiad pwysig o ran unigolion ac ysgolion yn cefnogi cymunedau. Rwyf hefyd am fynegi fy siom enfawr gydag Aelodau'r gwrthbleidiau sy'n ceisio dweud drwy'r adeg bod y fenter Cymunedau yn Gyntaf yn methu. Nid yw'n methu. Nid wyf yn gwadu bod enghreifftiau lle rydym wedi cael anawsterau, ond rwyf yn eich gwahodd i ddod i fy etholaeth i weld sut mae pobl yn mynd yn ôl i waith. Rwyf yn eich gwahodd i ddod i weld sut mae gweithwyr proffesiynol ar lawr gwlad yn cael pobl i waith. Mae dweud nad yw'n cael ei redeg gan weithwyr proffesiynol yn sarhad. Dylai'r gwaith a wnânt gael ei ganmol, nid ei sarhau.

However, I want to talk about Wales's town centres. As members of the Business and Enterprise Committee, we looked at town centre regeneration as a major issue; I know that the Minister has already highlighted the fact that the topic will come back to Plenary for discussion in a month's time. We often forget that a town centre is not just a set of shops; it is the heartbeat of many communities. It is more than just buildings; it is where we live, where we exercise, where we eat and where we go on a daily basis. The role of small towns in Wales, the UK and even Europe is very important. Between a quarter and a third of all residents in Europe live in towns with populations of 50,000 or less. Therefore, it is important that we look at them. We must recognise that, across Europe, many are in a state of decline. We have to look at how we can tackle that. It has already been highlighted that a number of retail premises are empty and, sadly, with the prospect of retail moving out of the centres, that will get worse. Therefore, the nature of

Fodd bynnag, rwyf am siarad am ganol trefi Cymru. Fel aelodau o'r Pwyllgor Busnes a Menter, buom yn edrych ar adfywio canol trefi fel mater o bwys; gwn fod y Gweinidog wedi tynnu sylw eisoes at y ffaith y bydd y pwnc yn dod yn ôl i'r Cyfarfod Llawn i'w drafod ymhen mis. Rydym yn aml yn anghofio nad siopau yn unig yw canol y dref; mae'n guriad calon llawer o gymunedau. Mae'n fwy na dim ond adeiladau; dyma lle rydym yn byw, lle'r ydym yn ymarfer corff, lle rydym yn bwyta a lle rydym yn mynd iddo bob dydd. Mae rôl trefi bach Cymru, y DU ac hyd yn oed Ewrop yn bwysig iawn. Mae rhwng chwarter a thraean o holl drigolion Ewrop yn byw mewn trefi sydd â phoblogaeth o 50,000 neu lai. Felly, mae'n bwysig ein bod yn edrych arnynt. Rhaid inni gydnabod bod cyflwr llawer ohonynt yn dirywio ar draws Ewrop. Mae'n rhaid inni edrych ar sut y gallwn fynd i'r afael â hynny. Amlygwyd eisoes bod nifer o eiddo manwerthu yn wag ac, yn anffodus, gyda'r posibilrwydd o fanwerthu yn symud allan o

town centres must change; that is crucial.

ganol trefi, bydd hynny'n gwaethygu. Felly, mae'n rhaid i natur canol trefi newid; mae hynny'n hanfodol.

For the future health and wellbeing of Wales, we need to review these areas and renew them. I fundamentally believe that we need to invest in and create social capital in the heart of our communities; the economic capital will follow. I suppose that that is part of the responsible capitalism agenda that we need to reflect. Fortunately, our town centres are not homogeneous, but that means that there is no single solution to every problem. Every successful regeneration scheme should be made up of three components: social aspects, environmental aspects and economic aspects. These must be led by a central vision that has to come and radiate from the communities themselves.

Ar gyfer iechyd a lles Cymru yn y dyfodol, mae angen inni adolygu'r ardaloedd hyn a'u hadnewyddu. Rwy'n credu'n greiddiol bod angen inni greu a buddsoddi mewn cyfalaf gymdeithasol yng nghalon ein cymunedau; bydd y cyfalaf economaidd yn dilyn. Mae'n debyg bod hynny'n rhan o'r agenda cyfalafiaeth gyfrifol mae angen inni ei hadlewyrchu. Yn ffodus, nid yw canol ein trefi yn unffurf, ond mae hynny'n golygu nad oes un ateb i bob problem. Dylai pob cynllun adfywio llwyddiannus gynnwys tair elfen: agweddau cymdeithasol, amgylcheddol ac economaidd. Mae'n rhaid i'r rhain gael eu harwain gan weledigaeth ganolog sy'n dod ac yn tyfu o'r cymunedau eu hunain.

First, on social aspects, a key component of a town is that people need to have pride in their civic areas. It is part of the investment in people, which is where Communities First comes into this. It is about providing that investment and encouragement for people to take ownership of their areas, their town centres and their communities. We know of the knowledge and expertise that exists among local residents, so we need to build upon those. Effective engagement and a sense of ownership can follow. It is about being people centred, and I believe that the Government's Communities First programme plays a huge role in progressing this approach.

Yn gyntaf, ar agweddau cymdeithasol, rhan allweddol o dref yw bod angen i bobl feithrin balchder yn eu hardaloedd dinesig. Mae'n rhan o'r buddsoddiad mewn pobl, a dyna lle mae Cymunedau yn Gyntaf yn chwarae rhan. Mae'n ymwneud â darparu'r buddsoddiad a'r anogaeth hwnnw i bobl gymryd perchnogaeth o'u hardaloedd, eu canol trefi a'u cymunedau. Gwyddom am y wybodaeth a'r arbenigedd sy'n bodoli ymhlith trigolion lleol, felly mae angen inni ei ddefnyddio. Gall ymgysylltu effeithiol ac ymdeimlad o berchnogaeth ddilyn. Mae'n golygu canolbwyntio ar bobl, a chredaf fod rhaglen Cymunedau yn Gyntaf y Llywodraeth yn chwarae rhan fawr o ran symud yr ymagwedd hon ymlaen.

On environmental aspects, we have to look back at where our towns came from and how they have developed organically over the years, and perhaps centuries. They are locations of geographical and historical significance. Take my town as an example, where industry developed the town. People want to ensure that regeneration contributes to the keeping of character. We must look at how regeneration incorporates that into the new vibrant life of a town. We need to ensure that Cadw does not simply bypass the concerns of residents, and I raise the question of Customs House in Port Talbot, of which the Minister is already aware.

O ran agweddau amgylcheddol, mae'n rhaid inni edrych yn ôl ar hanes ein trefi a sut maent wedi datblygu'n organig dros y blynyddoedd, dros ganrifoedd o bosibl. Maent yn lleoliadau sydd ag arwyddocâd hanesyddol a daearyddol. Cymerwch fy nhref i fel enghraifft, lle datblygodd diwydiant y dref. Mae pobl am sicrhau bod adfywio yn cyfrannu at gadw ei chymeriad. Mae'n rhaid edrych ar sut mae adfywio'n adlewyrchu hynny ym mywyd bywiog newydd tref. Mae angen sicrhau nad yw Cadw yn anwybyddu pryderon trigolion, ac yr wyf yn nodi enghraifft Customs House ym Mhort Talbot, y gŵyr y Gweinidog amdano'n barod.

Finally, on the economic aspects, we have to acknowledge that we have suffered a global recession, which has hit everywhere. People tend to forget that it is a global recession and keep blaming Labour all the time for these global issues.

Yn olaf, ar yr agweddau economaidd, mae'n rhaid inni gydnabod ein bod wedi dioddef dirwasgiad byd-eang, sydd wedi taro pob man. Mae pobl yn tueddu i anghofio ei fod yn dirwasgiad byd-eang ac yn cadw beio Llafur drwy'r amser am y materion byd-eang hyn.

**Byron Davies:** For its handling.

**Byron Davies:** Am ei ymdriniaeth.

**David Rees:** If you want to talk about tackling the issues, let us look at the current UK Government and the mess it is making of growth.

**David Rees:** Os rydych am siarad am fynd i'r afael â'r materion hyn, gadewch inni edrych ar y llanast mae Llywodraeth y DU yn ei wneud o ran twf ar hyn o bryd.

We have to look at how we change that landscape, and we know that the retail trade is changing, due to online retail. We need to help towns to establish niche markets and work with local communities to keep as much of an economic base as possible. It will therefore become a self-reinforcing factor leading to further increases in the development of and investment in jobs. I applaud the Welsh Government for what it is doing; it has invested over £400 million in recent years, with over 24 town-centre regeneration projects approved by WEFO—£270 million is going into our town centres. It has already acknowledged the need for a mix in town centres. I will conclude by saying that we should remember that towns are where we shop, work, eat and play. They are the heartbeat of our communities, so let us keep them working.

Mae'n rhaid inni edrych ar sut y byddwn yn newid y tirlun, a gwyddom bod y byd manwerthu yn newid, oherwydd manwerthu ar-lein. Mae angen helpu trefi i sefydlu marchnadoedd arbenigol a gweithio â chymunedau lleol i gadw cymaint o sylfaen economaidd ag y bo modd. Felly, bydd yn dod yn ffactor hunan-atgyfnerthu a fydd yn arwain at gynnydd pellach yn y broses o ddatblygu swyddi a buddsoddi ynddynt. Cymeradwyaf Lywodraeth Cymru am yr hyn mae'n ei wneud; buddsoddodd dros £400 miliwn yn y blynyddoedd diwethaf, gyda WEFO yn cymeradwyo dros 24 o brosiectau adfywio canol trefi—mae £270 miliwn yn mynd i ganol ein trefi. Mae eisoes wedi cydnabod fod angen cymysgedd yng nghanol trefi. Rwyf am gloi trwy ddweud y dylem gofio bod trefi yn rhywle lle rydym yn siopa, gweithio, bwyta a chwarae ynddynt. Maent yn guriad calon ein cymunedau, felly gadewch inni eu cadw'n gweithio.

**Janet Finch-Saunders:** In contributing to this debate, I wish to endorse amendment 4 in the name of William Graham AM, calling for sustainable regeneration to include

**Janet Finch-Saunders:** Wrth gyfrannu at y ddadl hon, hoffwn gymeradwyo gwelliant 4 yn enw William Graham AC, sy'n dweud y dylai adfywio cynaliadwy gynnwys

'the Third and Independent sectors to become real partners in strategy and delivery.'

'y Trydydd Sector a'r Sector Annibynnol… yn bartneriaid gwirioneddol o ran strategaeth a chyflenwi.'

Even the most cursory look at current regeneration schemes, funds, policies and action plans that the current Government uses to try to engender change in Wales will tell you that the system is unresponsive to the needs of business, baffling to individuals and byzantine in its make-up. For example, in Wales, we have strategic regeneration areas, spatial plan areas, convergence and

Bydd hyd yn oed y golwg mwyaf arwynebol ar y cynlluniau adfywio, y cronfeydd, y polisïau a'r cynlluniau gweithredu y mae'r Llywodraeth bresennol yn eu defnyddio i geisio creu newid yng Nghymru yn dweud wrthych nad yw'r system yn ymateb i anghenion busnes, ei bod yn drysu unigolion a'u bod yn gymhleth eu gwead. Er enghraifft, yng Nghymru, mae gennym ardaloedd

competitiveness areas, Communities First areas, rural development plan areas, city strategy areas and deprived area fund areas, to name but a few.

adfywio strategol, ardaloedd y cynllun gofodol, ardaloedd cydgyfeirio a chystadleurwydd, ardaloedd Cymunedau yn Gyntaf, ardaloedd y cynllun datblygu gwledig, ardaloedd strategaeth dinas ac ardaloedd cronfa ardal ddifreintiedig, i enwi ond rhai.

The different funds and structures designed to finance this system are, in turn, at variance and certainly fragmented. The numerous pots of money coming from Europe, central Government, the Welsh Government, local authorities and so on each have their own associated administrative costs. At each stage, money is siphoned off to pay for these costs rather than to pay for real change and economic growth for individuals and communities on the ground. Sir Roger Jones, former head of the Welsh Development Agency, demonstrated the point when he said that expenditure is in excess of £100 million per annum, and yet this has produced next to nothing in the form of outcomes. We have truly lost the plot if we in this Chamber believe that the current arrangement is the best way to boost regeneration in communities across Wales.

Mae'r gwahanol gronfeydd a strwythurau a gynlluniwyd i ariannu'r system hon, yn eu tro, yn groes i'w gilydd ac yn sicr yn dameidiog. Mae gan y cronfeydd niferus sy'n dod o Ewrop, Llywodraeth ganolog, Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol, ac yn y blaen, i gyd gostau gweinyddol cysylltiedig. Ar bob cam, mae arian yn cael ei dynnu ffwrdd i dalu am y costau hyn yn hytrach na thalu am newid gwirioneddol a thwf economaidd i unigolion a chymunedau ar lawr gwlad. Gwnaethpwyd y pwynt gan Syr Roger Jones, cyn bennaeth Awdurdod Datblygu Cymru, pan ddywedodd bod gwariant yn fwy na £100 miliwn y flwyddyn, ac eto nid yw hyn wedi cynhyrchu fawr ddim o ganlyniadau. Rydym wedi colli'n ffordd yn llwyr os yr ydym yn credu yn y Siambr hon mai'r trefniadau presennol yw'r ffordd orau i hybu'r gwaith o adfywio cymunedau ledled Cymru.

Between 2001 and 2010, the Confederation of British Industry estimates that £5 billion in public money was spent on economic development. During that time, and since, we have had 30 years of Labour Government in Wales, and where are we now? It is often mentioned, but it is a message worth reiterating, that we are the worst performers among the UK's regions and nations in terms of GVA, at 74% of the UK average. We have fallen from being one of the best-performing UK areas for inward investment in 2003 to being second from bottom. During this period, the vacuum left by a weak private sector has been filled to a large extent by the public sector, which now accounts for more than 60% of the Welsh economy. That is a higher figure than the figures seen in many parts of the former Soviet-controlled eastern Europe. It is clear that the Welsh Government's management of the regeneration agenda simply is not working. The most effective way of fuelling regeneration is by fuelling economic growth—growth that must be led by the

Rhwng 2001 a 2010, amcangyfrifodd Cydffederasiwn Diwydiant Prydain bod £5 biliwn o arian cyhoeddus wedi ei wario ar ddatblygu economaidd. Yn ystod y cyfnod hwnnw, ac ers hynny, rydym wedi cael 30 mlynedd o Lywodraeth Lafur yng Nghymru, a lle rydym ni nawr? Mae'n cael ei grybwyll yn aml, ond mae'n werth ailadrodd y neges, mai ni yw'r perfformwyr gwaethaf ymhlith rhanbarthau a gwledydd y DU yn nhermau gwerth ychwanegol crynswth, sef 74% o gyfartaledd y DU. Rydym wedi llithro o fod yn un o'r ardaloedd a oedd yn perfformio orau o ran mewnfuddsoddiad yn y DU yn 2003 i fod yr ail o'r gwaelod. Yn ystod y cyfnod hwn, mae'r gwacter a adawyd gan sector preifat gwan wedi ei lenwi i raddau helaeth gan y sector cyhoeddus, sydd bellach yn cyfrif am fwy na 60% o economi Cymru. Mae hwnnw'n ffigur uwch na'r ffigurau a welir mewn sawl rhan o'r hen ddwyrain Ewrop Sofietaidd. Mae'n amlwg nad yw rheolaeth Llywodraeth Cymru o'r agenda adfywio yn gweithio. Y ffordd fwyaf effeithiol o sbarduno'r broses adfywio yw

small and medium-sized enterprises of the private sector.

trwy dwf economaidd—twf y mae'n rhaid iddo gael ei arwain gan fusnesau bach a chanolig y sector preifat.

The current system has been described by the Federation of Small Businesses as a patchwork quilt of policies that needs to be streamlined and simplified in a way that delivers value for money and tangible benefits for businesses on the ground. This should include addressing the governance issues that have blighted schemes mentioned by my colleagues, such as the Communities First programme, and reducing the administrative costs associated with running so many programmes in parallel. We need better targeted investment in key areas like housing, transport and broadband. On housing, the Welsh Government is running out of time to improve upon its paltry performance of making available only 4,500 affordable homes on a net basis in the last Assembly term, particularly seeing as we are still awaiting confirmation from the Welsh Government on the number of affordable housing units it intends to build in this Assembly.

Mae'r system bresennol wedi cael ei disgrifio gan y Ffederasiwn Busnesau Bach fel clytwaith tameidiog o bolisïau sydd angen ei symleiddio mewn ffordd sy'n rhoi gwerth am arian a manteision pendant i fusnesau ar lawr gwlad. Dylai hyn gynnwys mynd i'r afael â'r materion llywodraethu sydd wedi amharu ar y cynlluniau a grybwyllwyd gan fy nghydweithwyr, megis y rhaglen Cymunedau yn Gyntaf, a lleihau'r costau gweinyddol sy'n gysylltiedig â rhedeg cymaint o raglenni ochr yn ochr â'u gilydd. Mae angen buddsoddiad wedi ei dargedu'n well mewn meysydd allweddol megis tai, trafnidiaeth a band eang. O ran tai, mae Llywodraeth Cymru yn rhedeg allan o amser i wella ar ei pherfformiad pitw o ran darparu dim ond 4,500 o dai fforddiadwy ar sail net yn nhymor diwethaf y Cynulliad, yn enwedig gan ein bod yn dal i aros am gadarnhad gan Lywodraeth Cymru am y nifer o unedau tai fforddiadwy y mae'n bwriadu eu hadeiladu yn ystod y Cynulliad hwn.

On transport, the Welsh Conservatives have already highlighted the benefits that a south Wales metro could have. However, the Welsh Government has yet to commit to such a plan. On broadband, despite outlining the intention to roll out next-generation broadband by 2016 in the programme for government, the contracts are yet to be awarded. Above all, we need to support business. In business, expectations are critical. Businesses need as much information as possible, as quickly as possible, so that they may plan for one month, six months and 12 months down the line, at the very least. This Government is failing in its duty to provide prompt information, which is a key source of certainty. I fully endorse the amendment that William Graham has put forward.

O ran trafnidiaeth, mae'r Ceidwadwyr Cymreig eisoes wedi tynnu sylw at y manteision a allai ddod yn sgîl metro yn ne Cymru. Fodd bynnag, nid yw Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i gynllun o'r fath hyd yma. O ran band eang, er gwaethaf amlinellu'r bwriad i gyflwyno band eang y genhedlaeth nesaf erbyn 2016 yn y rhaglen lywodraethu, nid yw'r contractau wedi eu dyfarnu hyd yma. Yn anad dim, mae angen inni gefnogi busnes. Mewn busnes, mae disgwyliadau yn hanfodol. Mae angen cymaint o wybodaeth ar funesau ag y bo modd, cyn gynted â phosibl, fel y gallant gynllunio ar gyfer mis, chwe mis a 12 mis yn ddiweddarach, o leiaf. Mae'r Llywodraeth hon yn methu yn ei dyletswydd i ddarparu gwybodaeth brydlon, sy'n ffynhonnell allweddol o sicrwydd. Rwyf yn llwyr gefnogi'r gwelliant a gyflwynwyd gan William Graham.

**Suzy Davies:** Just to kick off, I thought that it would be fair and reasonable, given that a good half of my region is included in two of these seven regeneration areas, to acknowledge the millions of pounds that have

**Suzy Davies:** I gychwyn, tybiais y byddai'n deg a rhesymol, o gofio bod dros hanner fy rhanbarth wedi ei gynnwys yn nau o'r saith maes adfywio hyn, i gydnabod y miliynau o bunnoedd a gyfeiriwyd at Orllewin De

been directed towards South Wales West as a result. That decision, apparently fortuitous for my constituents, came with a commitment to consider creating more regeneration areas in the future. Rural mid Wales is still waiting to be considered. One of my worries is that a persistent failure to face up to the needs of rural Wales will result in increasing migration of young people from rural areas into the kind of urban settings that I primarily represent: towns and villages that are seen attracting millions of pounds and euros but that are—despite all that money—in truth, struggling with their own version of isolation and limited horizons.

Cymru o ganlyniad. Roedd y penderfyniad hwnnw, a oedd, yn ôl pob tebyg, yn un ffodus i fy etholwyr, yn cynnwys ymrwymiad i ystyried creu mwy o ardaloedd adfywio yn y dyfodol. Mae canolbarth gwledig Cymru yn dal i aros i gael ei ystyried. Un o'm pryderon yw y bydd methiant parhaus i wynebu anghenion cefn gwlad Cymru yn arwain at gynnydd mewn ymfudiad pobl ifanc o ardaloedd gwledig i'r math o leoliadau trefol rwyf yn eu cynrychioli yn bennaf: trefi a phentrefi yr ystyrir eu bod yn denu miliynau o bunnoedd a ewros, ond sydd mewn gwirionedd—er gwaethaf yr holl arian hwnnw—yn cael trafferth gyda'u fersiwn eu hun o fod yn ynysig a gorwelion cyfyng.

4.45 p.m.

The key driver for regeneration that I would like to talk about is heritage, because it is relevant across the whole of Wales. I agree with the Minister that heritage is a key driver, and I thank him for his recent investment in the castle, the Hafod Copperworks and the Glynn Vivian Art Gallery in Swansea. I now look forward to seeing how that work can be used to sell the city and its hinterland, and to create confidence in economic growth for both local and inward investors. Julie James is right: there has been a lot of regeneration activity in Swansea, but we remain acutely aware that the communities in the east of the city, after many years, are still right up there on the index of multiple deprivation.

Y prif sbardun ar gyfer adfywio yr hoffwn siarad amdano yw treftadaeth, gan ei fod yn berthnasol ledled Cymru. Rwy'n cytuno â'r Gweinidog fod treftadaeth yn brif sbardun, a hoffwn ddiolch iddo am ei fuddsoddiad diweddar yn y castell, Gweithfeydd Copr yr Hafod ac Oriel Gelf Glynn Vivian yn Abertawe. Rwyf yn awr yn edrych ymlaen at weld sut y gall y gwaith hwnnw gael ei ddefnyddio i werthu'r ddinas a'i chyffiniau, ac i greu hyder mewn twf economaidd ymhlith buddsoddwyr lleol a rhai o'r tu allan. Mae Julie James yn iawn: bu llawer o weithgarwch adfywio yn Abertawe, ond rydym yn parhau i fod yn ymwybodol iawn bod y cymunedau yn nwyrain y ddinas, ar ôl blynyddoedd lawer, yn dal yn uchel ar y mynegai amddifadedd lluosog.

Regeneration needs to be strategic, holistic and long term, as the former Minister said in 2008. That is not the same as being overly complex and overly dependent on Communities First. It needs a different balance in the partnerships between the public, private and third sectors, as both Byron Davies and Janet Finch-Saunders have said, with action, energy and leadership from within, and evidence of good results to attract capital from outside. We can have as many high-street toolkits as we like, but with chain store companies leaving the high street at a rate of 14 a day, we need reasons for investors' interest to be converted into lasting commercial commitment. So, while we obviously welcome the 250 Virgin call centre

Mae angen i adfywio fod yn strategol, yn gyfannol ac yn hirdymor, fel y dywedodd y cyn Weinidog yn 2008. Nid yw hynny yr un peth â bod yn rhy gymhleth ac yn rhy ddibynnol ar raglen Cymunedau yn Gyntaf. Mae angen cydbwysedd gwahanol yn y partneriaethau rhwng y sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector, fel y dywedodd Byron Davies a Janet Finch-Saunders, gyda gweithredu, egni ac arweinyddiaeth o'r tu mewn, a thystiolaeth o ganlyniadau da i ddenu cyfalaf o'r tu allan. Gallwn gael cymaint o becynnau cymorth y stryd fawr ag y mynnwn, ond gyda chwmnïau siopau cadwyn yn gadael y stryd fawr ar gyfradd o 14 y dydd, mae angen rhesymau dros drawsnewid diddordeb buddsoddwyr yn

jobs to Swansea, we should also have been using the city's higher education leverage to chase MasterCard's new technology development jobs that ended up going to Dublin. Those are the kinds of jobs that Peter Black was talking about that end up bringing quality private sector jobs with them in the longer term.

ymrwymiad masnachol parhaol. Felly, er ein bod yn amlwg yn croesawu'r 250 o swyddi newydd yng nghanolfan alwadau Virgin yn Abertawe, dylem hefyd wedi bod yn defnyddio dylanwad addysg uwch y ddinas i fynd ar drywydd swyddi datblygu technoleg newydd MasterCard a aeth i Ddulyn yn y pen draw. Dyna'r math o swyddi yr oedd Peter Black yn dweud a fyddai'n dod â swyddi sector preifat o safon gyda hwy yn y tymor hwy.

We will not see any meaningful progress made on regeneration if we have to wait another five years for an American company to invest in Wales, for example. To persuade business to come to help us to regenerate Wales, we need to see how the University of Wales's Global Academy office in Silicon Valley is reaching venture capitalists, rather than tying ourselves in in knots about a shop window in London.

Ni fyddwn yn gweld unrhyw gynnydd ystyrlon mewn perthynas ag adfywio os bydd yn rhaid inni aros am bum mlynedd arall cyn y bydd cwmni Americanaidd yn buddsoddi yng Nghymru, er enghraifft. Er mwyn darbwyllo busnesau i ddod i'n helpu i adfywio Cymru, mae angen inni weld sut y mae swyddfa Academi Fyd-eang Prifysgol Cymru yn Silicon Valley yn cyrraedd cyfalafwyr menter, yn hytrach na mynd i drafferthion mawr mewn perthynas â ffenest siop yn Llundain.

At the other end of the scale of heritage opportunities, we have community-led tourism, with all its social benefits as well as the economic ones. The relevant framework document does not talk much about monitoring spending or how outcomes are to be assessed—Jocelyn Davies made a wider and more general point about that—but there are some good ideas in the document. Some of the best of them tie in with the work that encourages young people to embrace entrepreneurship. This should help the growth of social enterprise and help communities to assume responsibility for assets.

Ar ben arall y raddfa o gyfleoedd treftadaeth, mae gennym dwristiaeth a arweinir gan gymunedau, gyda'i holl fanteision cymdeithasol yn ogystal â'r rhai economaidd. Nid yw'r ddogfen fframwaith perthnasol yn siarad llawer am fonitro gwariant na sut i asesu canlyniadau—gwnaeth Jocelyn Davies bwynt ehangach a mwy cyffredinol am hynny—ond mae rhai syniadau da yn y ddogfen. Mae rhai o'r goreuon yn eu plith yn cyd-fynd â'r gwaith sy'n annog pobl ifanc i fanteisio ar entrepreneuriaeth. Dylai hyn helpu twf mentrau cymdeithasol a helpu cymunedau i gymryd cyfrifoldeb am asedau.

There is little point, however, in digging our entrepreneurs out of the amber if you then drag them down. Business rates hit emerging social enterprises especially. Transport links feature in all regeneration plans, but the future of buses and community transport is uncertain. Then, when it comes to heritage tourism, there is the problem of one particular competing Government priority. Through the WECAN project, the Valleys partnership has been tasked with exploring the development of sustainable community enterprises based on unlocking the economic potential of the natural landscape. The landscape of my

Nid oes mawr o bwynt, fodd bynnag, mewn chwilio am entrepreneuriaid, yna eu llusgo i lawr. Mae trethi busnes yn ergyd ar fentrau cymdeithasol sy'n datblygu yn enwedig. Mae cysylltiadau trafnidiaeth yn ymddangos yn yr holl gynlluniau adfywio, ond mae dyfodol bysiau a thrafnidiaeth gymunedol yn ansicr. Yna, pan ddaw i dwristiaeth treftadaeth, mae yna broblem lle mae un o flaenoriaethau penodol y Llywodraeth yn gwrthdaro. Drwy'r prosiect WECAN, mae partneriaeth y Cymoedd wedi cael y dasg o archwilio datblygiad mentrau cymunedol cynaliadwy sy'n seiliedig ar ddatgloi potensial

region is just as much of an attraction as the history that has grown out of it. Yet how can this proceed when some of the most obvious areas for landscape tourism development are touted as sites for windfarm development as a result of TAN 8? Work has already begun on Mynydd y Gwair, even as the status of the ancient stones remains unresolved. Over 70 large turbines are planned for the Afan valley, which could mean moving one of the famous mountain bike routes to another valley. These windfarm developments provide no sustainable jobs. How does this regenerate a community?

economaidd y dirwedd naturiol. Mae tirwedd fy rhanbarth yr un faint o atyniad â'r hanes sydd wedi tyfu allan ohoni. Eto, sut y gall hyn symud ymlaen pan fo rhai o'r ardaloedd mwyaf amlwg ar gyfer datblygu twristiaeth tirwedd yn cael eu hawgrymu fel safleoedd ar gyfer datblygu ffermydd gwynt o ganlyniad i TAN 8? Mae gwaith wedi dechrau eisoes ar Fynydd y Gwair, er nad oes penderfyniad wedi'i wneud o hyd ar statws y cerrig hynafol. Bwriedir gosod dros 70 o dyrbinau mawr yng nghwm Afan, a gallai hyn olygu symud un o'r llwybrau beicio mynydd enwog i ddyffryn arall. Nid yw'r datblygiadau ffermydd gwynt hyn yn darparu unrhyw swyddi cynaliadwy. Sut y mae hyn yn adfywio cymuned?

The low-carbon part of the western Valleys regeneration strategy is about community microgeneration, solar panels and fuel efficiency. It firmly envisages the landscape as a vehicle for tourism and sustainable economic enterprise. It is not useless land that may as well be turned over to excessive onshore development. Minister, your review and your heritage Bill cannot come quickly enough. It is too late to avoid the loss of the Port Talbot Custom House, and it may be too late to stop the loss of the Palace Theatre in Swansea, which is crumbling to nothing. It might come just in time to save the Albert Hall, and certainly in time to stop our heritage landscape, the source of so many regeneration possibilities, being lost to decades of economic sterility and human abandonment.

Mae'r rhan garbon isel o strategaeth adfywio'r Cymoedd gorllewinol yn ymwneud â microgynhyrchu cymunedol, paneli solar ac effeithlonrwydd tanwydd. Mae'n gweld y dirwedd fel cyfrwng ar gyfer twristiaeth a menter economaidd gynaliadwy. Nid tir diwerth ydyw y gellir ei ddefnyddio ar gyfer datblygiad gormodol ar y tir. Weinidog, ni all eich adolygiad a'ch Bil treftadaeth gael eu cyflwyno'n ddigon cyflym. Mae'n rhy hwyr i osgoi colli tollty Port Talbot, ac efallai ei bod yn rhy hwyr i atal Theatr y Palas yn Abertawe rhag cael ei golli, sy'n dadfeilio i ddim. Efallai y bydd yn dod mewn digon o bryd i achub Neuadd Albert, ac yn sicr mewn pryd i atal ein tirwedd treftadaeth, sy'n ffynhonnell cymaint o bosibiliadau adfywio, rhag cael ei cholli i ddegawdau o anffrwythlondeb economaidd ac esgeulustod dynol.

**The Minister for Housing, Regeneration and Heritage (Huw Lewis):** I welcome the input from Members on this very important subject area. However, I want to spend a minute or two responding to Peter Black's less-than-constructive comments in the debate. I do not want to prejudge anything that might happen during this review period, but it is clear to me that we are in search of a step change in our approach to the regeneration of our communities.

**Y Gweinidog Tai, Adfywio a Threftadaeth (Huw Lewis):** Rwy'n croesawu'r mewnbwn gan Aelodau ar y maes pwnc pwysig iawn hwn. Fodd bynnag, rwyf am dreulio munud neu ddau yn ymateb i sylwadau Peter Black yn ystod y ddadl, nad oed yn rhai adeiladol iawn. Nid wyf am ragfarnu unrhyw beth a allai ddigwydd yn ystod y cyfnod adolygu, ond mae'n amlwg i mi ein bod yn chwilio am newid sylweddol yn ein hymagwedd tuag at adfywio ein cymunedau.

I began my term of office by committing myself to ensuring that all existing commitments in the regeneration areas would be honoured. That has been done, and I

Dechreuais fy nghyfnod yn y swydd drwy ymrwymo fy hun i sicrhau y byddai'r holl ymrwymiadau sydd eisoes yn bodoli yn yr ardaloedd adfywio yn cael eu hanrhydeddu.

believe that that was the right thing to do. Anyone who understands the working cycles of those regeneration areas and has been looking at how things are working out in each of the seven areas will know that 2013, for many of the regeneration areas, marks a watershed by when those existing commitments will have been honoured. So, there is a natural point in time, it seems to me, when things need to be reviewed. Add to that the fact that the Liberal Democrats' colleagues in Westminster are intent upon choking off every conceivable avenue of resource from reaching us here in Cardiff bay and you come to the inevitable conclusion that a rethink is required. This does not mean that it will take 21 months until something happens. Peter Black is well aware of the slew of announcements in his home town of Swansea that have been referred to several times here this afternoon, and which his colleagues and political bedfellows at the City and County of Swansea Council have been more than keen to embrace as they have been announced and come along. This does not mean that nothing is happening; it means that we are reaching a point in time when we have to step back and think.

Mae hynny wedi digwydd, a chredaf mai dyna oedd y peth iawn i'w wneud. Bydd unrhyw un sy'n deall cylchoedd gweithredu'r ardaloedd adfywio hynny ac sydd wedi bod yn edrych ar sut y mae pethau'n gweithio ym mhob un o'r saith maes yn gwybod bod 2013, ar gyfer llawer o'r ardaloedd adfywio, yn drobwynt ac y bydd yr ymrwymiadau sydd eisoes yn bodoli wedi cael eu hanrhydeddu erbyn hynny. Felly, mae pwynt naturiol mewn amser, mae'n ymddangos i mi, pan fydd angen adolygu pethau. Ychwanegwch at hynny'r ffaith bod cydweithwyr y Democratiaid Rhyddfrydol yn San Steffan yn benderfynol o atal pob adnodd rhag ein cyrraedd ym mae Caerdydd a byddwch yn dod i'r casgliad anochel bod angen ailfeddwl ynghylch hyn. Nid yw hyn yn golygu y bydd yn cymryd 21 mis nes y bydd rhywbeth yn digwydd. Mae Peter Black yn ymwybodol iawn o'r llwyth o gyhoeddiadau yn ei dref enedigol o Abertawe y cyfeiriwyd atynt sawl gwaith y prynhawn yma, ac y mae ei gydweithwyr a'i gywelyau gwleidyddol yng Nghyngor Dinas a Sir Abertawe wedi bod yn fwy nag awyddus i'w croesawu wrth iddynt gael eu cyhoeddi. Nid yw hyn yn golygu nad oes dim yn digwydd; mae'n golygu ein bod yn cyrraedd pwynt mewn amser pan fo'n rhaid inni gymryd cam yn ôl a meddwl.

**Peter Black:** I am grateful to the Minister for giving way. I am also aware that we did not get an enterprise zone in Swansea, despite the fact that we made a bid for one, and in terms of the techniums in Swansea, we are actively losing jobs because the leases are being frozen and companies are being put off investing in Swansea. The inaction of the Welsh Government is having a direct impact on Swansea's economy.

**Peter Black:** Rwy'n ddiolchgar i'r Gweinidog am ildio. Rwyf hefyd yn ymwybodol na chawsom ardal fenter yn Abertawe, er gwaethaf y ffaith ein bod yn gwneud cais am un, ac o ran y canolfannau technium yn Abertatwe, rydym yn colli swyddi oherwydd bod y prydlesi yn cael eu rhewi a chwmnïau yn cael eu hanghymell rhag buddsoddi yn Abertawe. Mae diffyg gweithredu Llywodraeth Cymru yn effeithio'n uniongyrchol ar economi Abertawe.

**Huw Lewis:** As I say, I have made a slew of announcements investing in the prospects of Swansea, fulfilling this Government's commitment in particular to town and city centre regeneration. Those efforts will continue.

**Huw Lewis:** Fel y dywedais, rwyf wedi gwneud llwyth o gyhoeddiadau ynghylch buddsoddi yn nyfodol Abertawe, gan gyflawni ymrwymiad y Llywodraeth hon mewn perthynas ag adfywio trefi a chanol dinasoedd yn arbennig. Bydd yr ymdrechion hynny'n parhau.

I want to refer to the constructive contribution that was made by Jocelyn Davies on behalf of Plaid Cymru. Jocelyn

Rwyf am gyfeirio at y cyfraniad adeiladol a wnaed gan Jocelyn Davies ar ran Plaid Cymru. Gofynnodd Jocelyn rai cwestiynau y

asked some questions that must be answered during the course of that review, and she made some insightful points. I hope that I can put right any misunderstanding that may have been transmitted during my opening remarks: evaluation will be critical. It is at the centre of this review and the way that it is being undertaken. We must—and I think that I said this in my opening remarks—have at the forefront of our minds what works when it comes to regenerative intervention in our communities.

bydd yn rhaid eu hateb yn ystod yr adolygiad hwnnw, a gwnaeth rai pwyntiau craff. Gobeithiaf y gallaf unioni unrhyw gamddealltwriaeth a allai fod wedi codi yn ystod fy sylwadau agoriadol: bydd gwerthuso yn hanfodol. Mae wrth galon yr adolygiad hwn a'r ffordd y mae'n cael ei wneud. Rhaid inni—ac rwy'n credu imi ddweud hyn yn fy sylwadau agoriadol—gadw golwg ar yr hyn sy'n gweithio wrth ystyried ymyrraeth atgynhyrchiol yn ein cymunedau.

I do not want to prejudge any of the findings but it is clear to me that we will have to review the nature of the interventions that we make in Wales, particularly when it comes to taking a long, hard look at just how many communities we can be active in at any given time. We have some tough choices here. It is perhaps the easiest choice of all to take the existing regeneration budget and spread it that much more thinly across Wales and attempt to please everyone in the coming Assembly term. I would rather consider how we can make a difference that is visible and tangible in each place where we do intervene in a regenerative sense—in other words, that we make a real difference to people's lives and prospects within those communities wherever we are active. It is that formula for which I am searching in this review, and I welcome the input of all parties and colleagues within this Chamber and beyond to that process.

Nid wyf am ragfarnu unrhyw un o'r canfyddiadau ond mae'n amlwg imi y bydd yn rhaid inni adolygu natur yr ymyriadau a wnawn yng Nghymru, yn enwedig pan fo'n fater o edrych yn fanwl ar faint o gymunedau y gallwn fod yn weithgar ynddynt ar unrhyw adeg benodol. Mae gennym rai dewisiadau anodd yma. Efallai mai'r dewis hawsaf oll yw cymryd y gyllideb adfywio bresennol a'i rhannu rhwng mwy o gymunedau ar draws Cymru a cheisio plesio pawb yn nhymor y Cynulliad sydd i ddod. Byddai'n well gennyf ystyried sut y gallwn wneud gwahaniaeth sy'n weladwy a phendant ym mhob man lle rydym yn gwneyd ymyrraeth yng nghyd-destun adfywio—hynny yw, ein bod yn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i fywydau a rhagolygon pobl yn y cymunedau hynny ble bynnag rydym yn weithgar. Dyna'r fformiwla yr wyf yn chwilio amdani yn yr adolygiad hwn, ac rwy'n croesawu mewnbwn yn y broses honno o bob plaid a phob cydweithiwr o fewn y Siambr hon a thu hwnt.

**The Deputy Presiding Officer:** The proposal is to agree amendment 1. Does any Member object? I see that no-one does. Amendment 1 is therefore agreed in accordance with Standing Order 12.36.

**Y Dirprwy Lywydd:** Y cynnig yw derbyn gwelliant 1. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Gwelaf nad oes. Felly, cafodd gwelliant 1 ei dderbyn yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

*Derbyniwyd gwelliant 1.*
*Amendment 1 agreed.*

**The Deputy Presiding Officer:** The proposal is to agree amendment 2. Does any Member object? I see that no-one does. Amendment 2 is therefore agreed in accordance with Standing Order 12.36.

**Y Dirprwy Lywydd:** Y cynnig yw derbyn gwelliant 2. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Gwelaf nad oes. Felly, cafodd gwelliant 2 ei dderbyn yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

*Derbyniwyd gwelliant 2.*
*Amendment 2 agreed.*

**The Deputy Presiding Officer:** The proposal is to agree amendment 3. Does any Member object? I see that no-one does. Amendment 3 is therefore agreed in accordance with Standing Order 12.36.

**Y Dirprwy Lywydd:** Y cynnig yw derbyn gwelliant 3. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Gwelaf nad oes. Felly, cafodd gwelliant 3 ei dderbyn yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.

*Derbyniwyd gwelliant 3.*
*Amendment 3 agreed.*

**The Deputy Presiding Officer:** The proposal is to agree amendment 4. Does any Member object? I see that there are objections, and therefore I defer all further voting under this item to voting time.

**Y Dirprwy Lywydd:** Y cynnig yw derbyn gwelliant 4. A oes unrhyw Aelod yn gwrthwynebu? Gwelaf fod gwrthwynebiadau, ac felly byddaf yn gohirio pob pleidlais arall o dan yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.

*Gohiriwyd y pleidleisio tan y cyfnod pleidleisio.*
*Voting deferred until voting time.*

## Setliad yr Heddlu
## The Police Settlement

*Cynnig NDM4916 Jane Hutt*

*Motion NDM4916 Jane Hutt*

*Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol ag Adran 84H o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988, yn cymeradwyo Adroddiad Cyllid Llywodraeth Leol (Rhif 2) 2012-2013 (Setliad Terfynol—Awdurdodau Heddlu) a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 14 Chwefror 2012.*

*To propose that the National Assembly for Wales, under Section 84H of the Local Government Finance Act 1988, approves the Local Government Finance Report (No. 2) 2012-13 (Final Settlement—Police Authorities), which was laid in the Table Office on 14th February 2012.*

**The Minister for Local Government and Communities (Carl Sargeant):** I move the motion.

**Y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau (Carl Sargeant):** Cynigiaf y cynnig.

Today I present to the Assembly for its approval the details of the Welsh Government's component of the funding settlement for 2012-13 for the police authorities in Wales. The next few years will be extremely challenging for the police forces in Wales as they seek to maintain their services against a backdrop of unprecedented financial constraints. They have already been drawing up and testing efficiency plans and will need to deliver these in times of tightening resources and growing expectations.

Heddiw, rwyf yn cyflwyno manylion elfen Llywodraeth Cymru o'r setliad ariannol i awdurdodau heddlu yng Nghymru ar gyfer 2012-13 i'r Cynulliad eu cymeradwyo. Bydd y blynyddoedd nesaf yn heriol iawn i'r heddluoedd yng Nghymru wrth iddynt geisio cynnal eu gwasanaethau o fewn cyd-destun o gyfyngiadau ariannol na welwyd eu tebyg o'r blaen. Maent eisoes wedi bod yn llunio a phrofi cynlluniau effeithlonrwydd a bydd angen eu rhoi ar waith yn ystod y cyfnod hwn o dynhau adnoddau a disgwyliadau cynyddol.

As I have made clear on many occasions, policing is a non-devolved function, but the commitment, support and delivery of effective policing is crucial to our agenda of improving community safety in Wales.

Fel rwyf wedi'i wneud yn glir ar sawl achlysur, mae plismona yn swyddogaeth sydd heb ei datganoli, ond mae ymrwymiad, cefnogaeth a darparu plismona effeithiol yn hanfodol i'n hagenda o wella diogelwch

Although policing remains non-devolved, a substantial part of the funding is provided by the Welsh Government's revenue support grant, which is what you are being asked to approve today.

cymunedol yng Nghymru. Er bod plismona yn parhau heb ei ddatganoli, mae rhan helaeth o'r cyllid yn cael ei ddarparu gan grant cynnal refeniw Llywodraeth Cymru, sef yr hyn y gofynnir i chi ei gymeradwyo heddiw.

The 2012-13 settlement is the second year of a two-year settlement for policing announced by the Home Office in January 2011, and this announcement confirms the figures announced then. In addition to the RSG, the Home Office has committed to provide the police grant and other support, so that no Welsh police authority will receive a decrease of more than 6.7% next year when compared with this year. The cash reductions would be even greater were it not for the Home Office supplying floor funding to limit the level of reduction. The result of the floor mechanism is that every police authority in England and Wales has the same level of reduction in central support for 2012-13.

Setliad 2012-13 yw'r ail flwyddyn o setliad dwy flynedd ar gyfer plismona a gyhoeddwyd gan y Swyddfa Gartref ym mis Ionawr 2011, ac mae'r cyhoeddiad hwn yn cadarnhau'r ffigurau a gyhoeddwyd bryd hynny. Yn ogystal â'r grant cynnal refeniw, mae'r Swyddfa Gartref wedi ymrwymo i ddarparu grant yr heddlu a chefnogaeth arall, fel na fydd yr un awdurdod heddlu yng Nghymru yn derbyn gostyngiad o fwy na 6.7% y flwyddyn nesaf o'i gymharu ag eleni. Byddai'r gostyngiadau arian parod yn fwy byth oni bai bod y Swyddfa Gartref wedi pennu'r ganran hon er mwyn cyfyngu lefel y gostyngiad. Canlyniad y dull gwaelodol yw bod gan bob awdurdod heddlu yng Nghymru a Lloegr yr un lefel o ostyngiad mewn cymorth canolog ar gyfer 2012-13.

Overall, the four Welsh forces will receive core funding from the Home Office and the Welsh Government, totalling £380 million in 2012-13. The resources are distributed between police authorities in accordance with a needs-based formula, which is determined and administered by the Home Office and applied across England and Wales. The formulation also determines the level of resources that the Welsh Government contributes to the settlement. In 2012-13, the Welsh Government will contribute £151 million in revenue support grant and for redistributed national and non-domestic rates, there will be a decrease of around 6.2% on 2011-12.

At ei gilydd, bydd y pedwar o heddluoedd yng Nghymru yn derbyn cyllid craidd gan y Swyddfa Gartref a Llywodraeth Cymru, sef cyfanswm o £380 miliwn yn 2012-13. Mae'r adnoddau yn cael eu dosbarthu rhwng awdurdodau heddlu yn unol â fformiwla sy'n seiliedig ar anghenion a gaiff ei phennu a'i gweinyddu gan y Swyddfa Gartref a'i chymhwyso ar draws Cymru a Lloegr. Mae'r fformiwla hefyd yn pennu lefel yr adnoddau y mae Llywodraeth Cymru yn cyfrannu at y setliad. Yn 2012-13, bydd Llywodraeth Cymru yn cyfrannu £151 miliwn mewn grant cymorth refeniw ac, o ran trethi cenedlaethol ac annomestig wedi'u hailddosbarthu, bydd gostyngiad o tua 6.2% o'i gymharu â 2011-12.

Funding beyond 2012-13 is not yet agreed. In England, the local government resource review proposes options for allowing local authorities to retain business rates. This may have implications for how funding is allocated to police authorities in England and Wales. We have no plans at present to change the non-domestic rating system in Wales along the same lines as in England. However, I am monitoring the developments closely to ensure that the budgets in Wales are not

Nid yw cyllid y tu hwnt i 2012-13 wedi cael ei gytuno arno eto. Yn Lloegr, mae'r adolygiad o adnoddau llywodraeth leol yn cynnig opsiynau ar gyfer caniatáu i awdurdodau lleol gadw trethi busnes. Gallai hyn fod â goblygiadau ar gyfer sut y dyrennir cyllid i awdurdodau'r heddlu yng Nghymru a Lloegr. Nid oes gennym unrhyw gynlluniau ar hyn o bryd i newid y system trethi annomestig yng Nghymru yr un fath ag a wnaed yn Lloegr. Fodd bynnag, rwy'n

disadvantaged by any of these reforms.

monitro’r datblygiadau’n agos i sicrhau nad yw’r cyllidebau yng Nghymru dan anfantais o ganlyniad i unrhyw un o’r diwygiadau hyn.

**Simon Thomas:** The Minister mentioned the formula and, looking forward after this present two-year settlement, he will know that the police authorities in England and Wales have been looking at reforming the formula and at how rural areas are reflected within that formula. This is a perennial issue for local authorities and police authorities. What steps is he taking to look at that, particularly as to whether, going forward, we might need some kind of floor to even out any changes as a result of the changes in England?

**Simon Thomas:** Soniodd y Gweinidog am y fformiwla ac, o edrych y tu hwnt i’r setliad dwy flynedd presennol, bydd yn gwybod bod awdurdodau’r heddlu yng Nghymru a Lloegr wedi bod yn edrych ar ddiwygio’r fformiwla ac ar sut y caiff ardaloedd gwledig eu hadlewyrchu o fewn y fformiwla. Mae hwn yn fater cyson i awdurdodau lleol ac awdurdodau’r heddlu. Pa gamau y mae’n eu cymryd i edrych ar hynny, yn enwedig o ran, wrth symud ymlaen, a allai fod angen rhyw fath o lawr ariannol i gydraddoli unrhyw newidiadau o ganlyniad i’r newidiadau yn Lloegr?

**Carl Sargeant:** The Member is right to raise the issue of the floor mechanism. I have written to the Home Office on several occasions, recognising the need for the Welsh element of the funding to be considered regarding the formula and the funding floor that is in place. Removing that would have a detrimental effect on rural police authorities, particularly in Wales.

**Carl Sargeant:** Mae’r Aelod yn iawn i godi’r mater o’r mecanwaith gwaelodol. Rwyf wedi ysgrifennu at y Swyddfa Gartref ar sawl achlysur, gan gydnabod yr angen i ystyried elfen Cymru o’r arian o ran y fformiwla a’r llawr cyllid sydd ar waith. Byddai dileu hynny’n cael effaith andwyol ar awdurdodau heddlu gwledig, yn enwedig yng Nghymru.

With the settlement, police authorities now have the information that they need to set their budgets and precepts for next year. These budgets must be set by the end of February, and it is clear that some hard choices will have to be made. I am clear that it is the responsibility of each police authority to set the level of the precept in its area. I trust that the police authorities will continue to adopt a reasonable approach to budgeting and council tax, and, from my discussions with them, I am confident that they will.

Gyda’r setliad, mae awdurdodau’r heddlu bellach yn cael y wybodaeth y mae ei hangen arnynt i bennu eu cyllidebau a’u praeseptau ar gyfer y flwyddyn nesaf. Mae’n rhaid i’r cyllidebau hyn gael eu pennu erbyn diwedd mis Chwefror, ac mae’n amlwg y bydd rhaid gwneud rhai dewisiadau anodd. Rwy’n bendant mai cyfrifoldeb awdurdodau’r heddlu yw gosod lefel y praesept yn eu hardaloedd. Hyderaf y bydd awdurdodau’r heddlu yn parhau i fabwysiadu dull rhesymol o gyllidebu a phennu treth y cyngor, ac, yn sgîl fy nhrafodaethau gyda nhw, rwyf yn hyderus y byddant yn gwneud hynny.

Sound financial management and strong collaborative working will deliver real benefits for citizens and the safety of communities, despite the difficult financial circumstances in which they find themselves.

Bydd rheolaeth ariannol gadarn a chydweithio cadarn yn sicrhau manteision gwirioneddol i ddinasyddion a diogelwch cymunedau, er gwaethaf yr amgylchiadau ariannol anodd y maent yn eu hwynebu.

**Mark Isherwood:** As the Minister said in his December 2011 written statement:

**Mark Isherwood:** Fel y dywedodd y Gweinidog yn ei ddatganiad ysgrifenedig ym mis Rhagfyr 2011:

‘This is without doubt a very challenging

‘Yn ddiamau, mae hwn yn setliad heriol iawn

settlement for the Police Service that will require hard choices in order to protect front-line policing.’

i Wasanaeth yr Heddlu. Bydd gofyn gwneud dewisiadau anodd a chymryd golwg sylfaenol ar sut caiff busnes ei drefnu er mwyn amddiffyn plismona rheng flaen.’

5.00 p.m.

UK police funding in England and Wales is set to fall by £1 billion by 2014. However, Labour’s March 2010 UK budget included police funding reductions of £545 million by 2014. Since becoming Labour leader, Ed Miliband has already made deficit reduction and spending commitments that mean that Labour cuts or tax rises would be of a similar amount to those announced by the UK coalition Government. In a televised debate, shortly before the 2010 general election, Alan Johnson, the then Labour Home Secretary, was asked whether he could promise that police numbers would not fall if Labour won the election and he replied, ‘No’. Shadow Chancellor, Ed Balls, said last month that Labour would have to make cuts in policing and that he could say, unequivocally, that Labour could make no commitment to reverse any of the Government’s tax rises or spending cuts.

Disgwylir i gyllid yr heddlu yng Nghymru a Lloegr ostwng £1 biliwn erbyn 2014. Fodd bynnag, roedd cyllideb y Blaid Lafur ar gyfer y DU ym mis Mawrth 2010 yn cynnwys gostyngiadau o £545 miliwn yng nghyllid yr heddlu erbyn 2014. Ers dod yn arweinydd y Blaid Lafur, mae Ed Miliband wedi gwneud ymrwymiadau yn barod i ostwng y diffyg ariannol ac o ran gwario sy’n golygu y byddai toriadau neu gynnydd mewn trethi a roddwyd ar waith gan y Blaid Lafur yn debyg i’r rhai a gyhoeddwyd gan Lywodraeth glymbleidiol y DU. Mewn dadl ar y teledu yn fuan cyn etholiad cyffredinol 2010, gofynnwyd i Alan Johnson, Ysgrifennydd Cartref y Blaid Lafur ar y pryd, a allai addo na fyddai niferoedd yr heddlu yn gostwng os byddai Llafur yn ennill yr etholiad, ac atebodd yntau, ‘Na’. Fis diwethaf, dywedodd Ed Balls, Canghellor yr wrthblaid, y byddai’n rhaid i’r Blaid Lafur wneud toriadau ym maes plismona ac y gallai ddweud, yn ddiamwys, na allai’r Blaid Lafur wneud unrhyw ymrwymiad i wrthdroi unrhyw un o godiadau treth neu doriadau gwariant y Llywodraeth.

The central support figure for the four police authorities in Wales for 2012-13, comprising revenue support grant, non-domestic rates, police grant and floor funding, comes to a total of £397,481,000, which is a 6.7% reduction. The Home Office has met its responsibility for providing the funding necessary to ensure that no UK police authority has to take cuts over 6.7%. Police authorities in Wales must use all measures at their disposal to keep precepts down to acceptable levels. For example, despite a £38 million cut over four years, West Mercia Police Authority has agreed to freeze its portion of council tax in 2012-13 through efficiency savings, strategic alliances with neighbouring forces and utilising reserves. In so doing, it can take advantage of a one-off grant from the UK Government, made available to help police authorities in England deliver a freeze of their portion of council

Mae’r ffigur cymorth canolog ar gyfer y pedwar awdurdod heddlu yng Nghymru yn 2012-13, sy’n cynnwys y grant cynnal refeniw, ardrethi annomestig, grant yr heddlu ac ariannu gwaelodol, yn dod i gyfanswm o £397,481,000, sef gostyngiad o 6.7%. Mae’r Swyddfa Gartref wedi cyflawni ei chyfrifoldeb am ddarparu’r cyllid angenrheidiol i sicrhau nad oes unrhyw awdurdod heddlu yn y DU yn gorfod wynebu toriadau o dros 6.7%. Rhaid i awdurdodau heddlu yng Nghymru ddefnyddio’r holl fesurau sydd ar gael iddynt i gadw praeseptau ar lefelau derbyniol. Er enghraifft, er gwaethaf toriad o £38 miliwn dros bedair blynedd, mae Awdurdod Heddlu Gorllewin Mersia wedi cytuno i rewi ei gyfran o’r dreth gyngor yn 2012-13 drwy arbedion effeithlonrwydd, ffurfio cynghreiriau strategol gyda heddluoedd cyfagos a defnyddio cronfeydd wrth gefn. Wrth wneud

tax. However, those arrangements do not apply in devolved Wales.

hynny, gall yr awdurdod hwnnw fanteisio ar grant un-tro gan Lywodraeth y DU, sydd ar gael i helpu awdurdodau heddlu yn Lloegr i rewi eu cyfran o'r dreth gyngor. Fodd bynnag, nid yw'r trefniadau hyn yn gymwys yn y Gymru ddatganoledig.

Last October, during the Communities, Equality and Local Government Committee's inquiry into community safety in Wales, I referred to two committee inquiries during the second Assembly into the proposed police merger, in which I took part. They found that a merger of Welsh police forces would have generated deficits of between £78 million and £120 million by 2012, but also that there would have had to be an equalisation of police precepts, meaning higher increases in south Wales and lower increases elsewhere—in percentages if not in absolute terms. The Association of Chief Police Officers Cymru replied that the funding differences are still there. The chair of the Welsh police authorities said that there was still a will to equalise, but that this had been prevented by Welsh Government in the past.

Fis Hydref diwethaf, yn ystod ymchwiliad y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol i ddiogelwch cymunedol yng Nghymru, cyfeiriais at ddau ymchwiliad pwyllgor yr oeddwn yn rhan ohonynt yn ystod yr ail Gynulliad i uno arfaethedig yr heddlu. Canfu'r ymchwiliadau hyn y byddai uno heddluoedd Cymru wedi creu diffygion ariannol o rhwng £78 miliwn a £120 miliwn erbyn 2012, ond hefyd y byddai praeseptau'r heddlu wedi gorfod cael eu cyfartalu, a fyddai'n golygu cynnydd uwch yn y de a chynnydd is mewn mannau eraill—yn nhermau canrannau os nad mewn termau absoliwt. Atebodd Cymdeithas Prif Swyddogion Heddlu Cymru bod y gwahaniaethau cyllidol yn dal i fodoli. Dywedodd cadeirydd awdurdodau heddlu Cymru bod yr ewyllys i gyfartalu yn parhau, ond bod hynny wedi cael ei rwystro gan Lywodraeth Cymru yn y gorffennol.

It is in this context that I note the 5% increase in the south Wales precept for the average Band D property, the 5% approved by Dyfed-Powys Police Authority, the 2.66% approved by Gwent Police Authority and the 2.5% approved by North Wales Police Authority. It is noted that 4% was initially proposed for north Wales and that an independent authority member, Chris Drew, proposed a freeze, because north Wales police has over £26 million in reserves. The chief constable has said that 2.5% means that the force now needs to cut an additional £900,000 from its budget each year, although it is understood that the anticipated reserves at the end of this financial year are £2 million more than forecast this time last year. That is roughly the amount required to freeze the precept. It is also noted that the North Wales Police Authority strategy agreed in principle last year was for annual increases of 4% based on the lower estimates at that time.

Yn y cyd-destun hwn, rwy'n nodi'r cynnydd o 5% ym mhraesept de Cymru ar gyfer eiddo Band D cyfartalog, y 5% a gymeradwywyd gan Awdurdod Heddlu Dyfed-Powys, y 2.66% a gymeradwywyd gan Awdurdod Heddlu Gwent a'r 2.5% a gymeradwywyd gan Awdurdod Heddlu Gogledd Cymru. Nodir mai 4% a gynigiwyd ar gyfer gogledd Cymru ar y dechrau a bod Chris Drew, aelod annibynnol o'r awdurdod, wedi cynnig rhewi'r praesept, oherwydd mae gan heddlu gogledd Cymru dros £26 miliwn mewn cronfeydd wrth gefn. Mae'r prif gwnstabl wedi dweud bod 2.5% yn golygu bod angen yn awr i'r heddlu dorri swm ychwanegol o £900,000 o'i gyllideb bob blwyddyn, er y deellir bod y cronfeydd wrth gefn a ragwelwyd ar ddiwedd y flwyddyn ariannol £2 filiwn yn fwy na'r swm a ragwelwyd yr adeg hon y llynedd. Yn fras, dyna'r swm sydd ei angen er mwyn rhewi'r praesept. Nodir hefyd fod y strategaeth ar gyfer Awdurdod Heddlu Gogledd Cymru a gytunwyd mewn egwyddor y llynedd yn sôn am gynnydd blynyddol o 4% yn seiliedig ar yr amcangyfrifon is ar y pryd.

**David Rees:** Do you agree that it was also discussed that the reserves were allocated for various capital projects? Therefore, quoting the figures distorts what will be available as reserves, because some of it is pre-allocated for projects.

**David Rees:** A ydych yn cytuno y trafodwyd hefyd fod y cronfeydd wrth gefn yn cael eu dyrannu i brosiectau cyfalaf amrywiol? Felly, mae dyfynnu'r ffigurau yn rhoi argraff gamarweiniol o'r hyn fydd ar gael fel cronfeydd wrth gefn, gan fod cyfran wedi'i dyrannu i brosiectau yn barod.

**Mark Isherwood:** Forward planning also applied 12 months ago. It forecast 4% 12 months ago, and since then we have found that there is £2 million more in reserves than was forecast. It has said that the money is allocated to capital projects in Wrexham, for example, but it still has the extra £2 million, at a time of financial stringency when households across Wales are feeling the pinch, to put it lightly. Along with council tax, that should have been a priority.

**Mark Isherwood:** Cafodd gwaith blaengynllunio ei wneud 12 mis yn ôl hefyd. Rhagwelwyd cynnydd o 4% 12 mis yn ôl, ac ers hynny rydym wedi darganfod bod £2 filiwn yn fwy mewn cronfeydd wrth gefn na'r swm a ragwelwyd. Dywedodd yr awdurdod fod yr arian yn cael ei ddyrannu i brosiectau cyfalaf yn Wrecsam, er enghraifft, ond mae ganddo'r £2 filiwn ychwanegol o hyd, ar adeg pan fo arian yn dynn a phan fo cartrefi ledled Cymru o dan bwysau, a dweud y lleiaf. Dylai hynny fod wedi bod yn flaenoriaeth, yn ogystal â'r dreth gyngor.

The previous UK Labour Government spent record sums on policing, but despite that spending and record police numbers just 14% of police officers' time was spent on patrol, compared with 22% of their time on paperwork, according to Hansard, 21 April 2009. We must focus police resources on the front line and encourage efficiencies within those front-line services. In their joint report, 'Sustaining value for money in the police service', the Audit Commission, Her Majesty's Inspectorate of Constabulary and the Wales Audit Office found that the police in England and Wales could save up to £1 billion without reducing police availability. The October 2010 HMIC report, 'Police Governance in Austerity'—

Gwariodd Llywodraeth Lafur flaenorol y DU y symiau uchaf erioed ar blismona, ond er gwaethaf y gwariant hwnnw a'r niferoedd uchaf o heddweision erioed, nid oedd swyddogion yr heddlu ond yn gwario 14% o'u hamser ar batrôl, o'i gymharu â'r ffaith eu bod yn gwario 22% o'u hamser yn gwneud gwaith papur, yn ôl Hansard 21 Ebrill 2009. Mae'n rhaid inni ganolbwyntio adnoddau'r heddlu ar y rheng flaen ac annog effeithlonrwydd o fewn y gwasanaethau rheng flaen hynny. Yn eu hadroddiad ar y cyd, 'Cynnal gwerth am arian yng ngwasanaeth yr heddlu', canfu'r Comisiwn Archwilio, Arolygiaeth Cwnstabliaeth Ei Mawrhydi a Swyddfa Archwilio Cymru y gallai'r heddlu yng Nghymru a Lloegr arbed hyd at £1 biliwn heb leihau argaeledd yr heddlu. Mae adroddiad Arolygiaeth Cwnstabliaeth Ei Mawrhydi ym mis Hydref 2010 ar lywodraethu'r heddlu yn ystod cyfnod o galedi ariannol—

**The Deputy Presiding Officer:** Order. Conclude now, please, Mark.

**Y Dirprwy Lywydd:** Trefn. Gorffennwch, os gwelwch yn dda, Mark.

**Mark Isherwood:** The report stated that, until abolition, police authorities should focus on setting an affordable direction for policing, on probing costs and on alternatives to offer better value for money for the public.

**Mark Isherwood:** Dywedodd yr adroddiad y dylai awdurdodau heddlu, hyd nes y diddymu, ganolbwyntio ar bennu cyfeiriad fforddiadwy i blismona, ar ymchwilio i gostau ac ar ddewisiadau amgen i gynnig gwell gwerth am arian i'r cyhoedd.

**Mike Hedges:** I support the resolution before us today. One of the first duties of a Government is to keep its people safe. That is what policing is about: keeping us and our property safe and secure. The police face a challenging settlement. The Conservative Government implemented policing cuts of 20%, or around £2 billion, which—as I say every time that we talk about the cuts that it has been implementing—are too far, too fast. These Tory-driven cuts make this the worst budget settlement for the police in decades—since the 1930s, I think, although I am willing to be corrected on that. The steepest cuts come in the first two years, making it even harder to make longer term efficiencies and putting more pressure on police to cut police numbers. Before somebody says, 'It's all Labour's fault; you would have done the same', remember this: the last Labour UK Government's equivalent plan was to find savings of around 12%, or around £1 billion. Her Majesty's Inspectorate of Constabulary said that Labour's plans could be achieved without impacting on the front line. That is the difference. Labour did not say that there should never have been cuts, but these are too far, too fast. The Welsh Labour Government is doing all that it can within its powers and budget to invest in keeping our communities safe. Five hundred new police community support officer posts will be created in Wales during this Assembly term, and the Welsh Labour Government is protecting the community safety budget. However, as has been pointed out, policing is not devolved.

**Mike Hedges:** Rwy'n cefnogi'r cynnig sydd ger ein bron heddiw. Un o'r dyletswyddau cyntaf sydd gan Lywodraeth yw cadw ei phobl yn ddiogel. Dyna bwrpas plismona: cadw ni a'n heiddo yn ddiogel. Mae'r heddlu yn wynebu setliad heriol. Gwnaeth y Llywodraeth Geidwadol doriadau o 20% i blismona, neu tua £2 biliwn, sydd—fel rwy'n ei ddweud bob tro rydym yn sôn am doriadau'r Llywodraeth honno—yn mynd yn rhy bell yn rhy gyflym. Mae'r toriadau hyn sy'n cael eu gyrru yn eu blaen gan y Torïaid yn golygu mai hwn yw'r setliad cyllideb gwaethaf i'r heddlu ers degawdau—ers y 1930au, rwy'n credu, er fy mod yn fodlon cael fy nghywiro ar hynny. Daw'r toriadau mwyaf yn ystod y ddwy flynedd gyntaf, sy'n golygu ei bod hyd yn oed yn anos gwneud arbedion effeithlonrwydd ar gyfer y tymor hwy a bod mwy o bwysau ar yr heddlu i leihau nifer yr heddweision. Cyn i rywun ddweud, 'Bai Llafur yw'r cyfan; byddech chi wedi gwneud yr un peth', cofiwch hyn: cynllun cyfatebol Llywodraeth Lafur ddiwethaf y DU oedd dod o hyd i arbedion o tua 12%, neu tua £1 biliwn. Dywedodd Arolygiaeth Cwnstabliaeth Ei Mawrhydi y gallai cynlluniau Llafur gael eu gweithredu heb effeithio ar y rheng flaen. Dyna'r gwahaniaeth. Nid yw Llafur yn dweud na ddylid byth fod wedi gwneud toriadau, ond mae'r toriadau hyn yn mynd yn rhy bell yn rhy gyflym. Mae Llywodraeth Lafur Cymru yn gwneud popeth y gall ei wneud o fewn ei phwerau a'i chyllideb i fuddsoddi er mwyn cadw ein cymunedau'n ddiogel. Bydd 500 o swyddi swyddogion cymorth cymunedol newydd yn cael eu creu yng Nghymru yn ystod tymor y Cynulliad hwn, ac mae Llywodraeth Lafur Cymru'n diogelu'r gyllideb diogelwch cymunedol. Fodd bynnag, fel y nodwyd, nid yw plismona wedi ei ddatganoli.

Looking at south Wales, an area that I know, the aggregate external funding is dropping from £83 million in 2010-11, to £81,857,000 in 2011-12 and to £77,583,000 in 2012-13. Despite the 5% police precept increase, we will see the number of police officers falling from 3,148 in 2010 to 2,753 in 2015. That is a loss of 395 police officers; one in eight police officers or police posts will disappear. There are also stresses on the forensic service

O ran y de, sef rhanbarth sy'n gyfarwydd imi, bydd y cyllid cyfanredol allanol yn gostwng o £83 miliwn yn 2010-11, i £81,857,000 yn 2011-12 ac i £77,583,000 yn 2012-13. Er gwaethaf cynnydd o 5% ym mhraesept yr heddlu, byddwn yn gweld nifer swyddogion yr heddlu yn gostwng o 3,148 yn 2010 i 2,753 yn 2015. Mae hynny'n golled o 395 o swyddogion heddlu; bydd un o bob wyth swyddog heddlu neu swydd yn yr heddlu yn

and to investigative techniques.

diflannu. Mae pwysau hefyd ar y gwasanaeth fforensig ac ar dechnegau ymchwil.

**Antoinette Sandbach:** How would you pay for all these services? You tell us.

**Antoinette Sandbach:** Sut y byddech chi'n talu am yr holl wasanaethau hyn? Dywedwch wrthym.

**Mike Hedges:** The answer is growth. You can either grow your economy out of recession— [*Interruption*.]

**Mike Hedges:** Yr ateb yw twf. Gallwch naill ai dyfu eich economi i ddod allan o ddirwasgiad—[*Torri ar draws*.]

**The Deputy Presiding Officer:** Order. When Members make an intervention, it is polite to hear the reply, whether you agree with it or not. I want to hear Mike Hedges's speech.

**Y Dirprwy Lywydd:** Trefn. Pan fydd Aelodau'n gwneud ymyriad, mae'n gwrtais gwrando ar yr ateb, ni waeth a ydych yn cytuno ag ef ai peidio. Hoffwn glywed araith Mike Hedges.

**Mike Hedges:** You grow your way out of a recession. You cannot cut your way out of it, as Greece has discovered. That is why things such as the Jobs Growth Wales fund are so important.

**Mike Hedges:** Drwy dwf y dewch allan o ddirwasgiad. Nid drwy dorri y dewch allan ohono, fel y mae Gwlad Groeg wedi darganfod. Dyna pam mae pethau fel cronfa Twf Swyddi Cymru mor bwysig.

What is the Conservative solution? Police commissioners. They are expensive and I am yet to meet people who are keen on having them. The Lib Dems promised 3,000 more police officers for the UK. Nick Clegg said that he would, quite simply, have more police on our streets. That is another of Nick Clegg's promises that seems to have disappeared. I support this resolution, but urge the Tories and Lib Dems at Westminster to think again. It is the safety of our people and their property that is at risk. What we need to make sure is that—

Beth yw ateb y Ceidwadwyr? Comisiynwyr yr heddlu. Maent yn ddrud ac nid wyf eto wedi cwrdd â phobl sy'n awyddus i'w cael. Addawodd y Democratiaid Rhyddfrydol 3,000 o swyddogion heddlu ychwanegol ar gyfer y DU. Yn syml iawn, dywedodd Nick Clegg y byddai'n rhoi mwy o heddweision ar ein strydoedd. Dyna un arall o addewidion Nick Clegg na chafodd ei wireddu, yn ôl pob golwg. Rwy'n cefnogi'r cynnig hwn, ond rwyf yn annog y Torïaid a'r Democratiaid Rhyddfrydol yn San Steffan i ailfeddwl. Mae diogelwch ein pobl a'u heiddo mewn perygl. Yr hyn sydd angen i ni ei wneud yw sicrhau bod—

**Nick Ramsay:** Thank you for giving way. A minute or so ago you mentioned the loss of forensic services. Do you regret that it was because of the policies of the last Labour UK Government that Chepstow, in my constituency, lost its forensic laboratory, which meant that Wales was the only part of the United Kingdom not to have that service? That was a direct result of your party's policies in Westminster.

**Nick Ramsay:** Diolch am ildio. Ryw funud yn ôl sonioch am golli gwasanaethau fforensig. A ydych yn gresynu mai oherwydd polisïau Llywodraeth Lafur ddiwethaf y DU y collodd Cas-gwent, yn fy etholaeth i, ei labordy fforensig, gan olygu mai Cymru oedd yr unig ran o'r Deyrnas Unedig nad oedd â'r gwasanaeth hwnnw? Roedd hynny'n ganlyniad uniongyrchol i bolisïau eich plaid yn San Steffan.

**Mike Hedges:** My understanding is that nearly everywhere is going to lose the forensic service under the current level of cuts. However, you raise an important point about forensic services. We will see them

**Mike Hedges:** Yn ôl a ddeallaf, bydd bron iawn pob man yn colli gwasanaethau fforensig o ganlyniad i lefel bresennol y toriadau. Fodd bynnag, rydych yn codi pwynt pwysig am wasanaethau fforensig. Byddwn

being more and more centralised. Whatever would have happened, it is getting more and more complicated, which means that there will be a greater degree of centralisation. It is about making sure that we keep people safe on the streets. It is not about playing party politics— [*Interruption*.] I would never do that. The key thing is to keep our people safe and to keep their property safe. That is why I hope that they will reconsider this at Westminster and provide more money for policing in Wales in future years.

yn eu gweld yn cael eu canoli yn gynyddol. Ni waeth beth fyddai wedi digwydd, mae'r sefyllfa'n mynd yn fwyfwy cymhleth, sy'n golygu y bydd mwy o ganoli'n digwydd. Mae'n ymwneud â sicrhau ein bod yn cadw pobl yn ddiogel ar y strydoedd. Nid yw'n ymwneud â chwarae gwleidyddiaeth—[*Torri ar draws*.] Ni fyddwn byth yn gwneud hynny. Yr hyn sy'n bwysig yw cadw ein pobl yn ddiogel a chadw eu heiddo yn ddiogel. Dyna pam rwy'n gobeithio y byddant yn ailystyried hyn yn San Steffan ac yn darparu mwy o arian ar gyfer plismona yng Nghymru yn y dyfodol.

**Rhodri Glyn Thomas:** Tua diwedd cyfraniad Mike Hedges, daethom at beth ddylai fod yn destun y ddadl hon, sef y math o wasanaethau sy'n cael eu cynnig gan heddluoedd ledled Cymru a'r math o gefnogaeth ariannol sydd ei angen arnynt er mwyn sicrhau'r gwasanaethau hynny. Nid wyf yn deall y ddadl ynglŷn â gwasanaethau sylfaenol a gwasanaethau rheng flaen, oherwydd os ydych yn ceisio creu toriadau drwy gael gwared â'r bobl sy'n cyflwyno'r gwasanaethau wrth gefn, bydd yn rhaid, yn y pen draw, symud heddweision o'r rheng flaen er mwyn cyflawni'r gwasanaethau hynny. Mae hynny wedi digwydd yn y gorffennol mewn gwahanol rannau o Gymru, ac nid ydym am weld ei ailadrodd. Rydym am weld gwasanaethau cynhwysfawr yr heddlu yn cael eu diogelu yn y setliad hwn. Er ein bod yn croesawu, wrth gwrs, benodiad swyddogion cymorth cymunedol yr heddlu, nid ydym am weld y swyddogion hynny'n cael eu penodi i gymryd lle heddweision; nid dyna'r pwrpas. Y pwrpas yw cynnal ein cymunedau ochr yn ochr â gwasanaethau plismona sylfaenol.

**Rhodri Glyn Thomas:** Towards the end of Mike Hedges's contribution, we came to what should be the topic of this debate, namely the type of service being offered by police forces across Wales and the sort of financial support that they need to safeguard that service. I do not understand the argument about basic services and front-line services, because if you try to make savings by cutting back on the people doing back-office functions, you will ultimately have to move police officers from the front line to do that work. That has happened in the past in different parts of Wales, and we do not want to see it repeated. We want to see comprehensive police services safeguarded in this settlement. Although we welcome, of course, the appointment of police community support officers, we do not want to see them being appointed to replace police officers; that is not the intention. The intention is for them to support our communities alongside basic police services.

Mae'r Gweinidog wedi dweud, yn gwbl gywir, mai mater heb ei ddatganoli yw plismona yng Nghymru. Yn y gorffennol, rwyf wedi codi'r pwynt hwn gydag ef ac mae wedi dweud ei fod, mewn egwyddor, yn cytuno â datganoli plismona, ond ei fod yn poeni am y goblygiadau ariannol—a fyddai'n cael y cyllid i gyd o San Steffan i sicrhau bod modd cynnal y gwasanaeth hwnnw ar y lefel bresennol? Byddai'n ddiddorol gwybod a yw'r Gweinidog wedi cynnal trafodaethau gyda'r Swyddfa Gartref yn Llundain ar faint o arian a fyddai ar gael pe bai plismona yn

The Minister has rightly said that policing has not been devolved to Wales. In the past, I have raised this issue with him and he has said that he agrees, in principle, with the devolution of policing, but that he is worried about the financial consequences—would he receive the full funding from Westminster to ensure that the service could be supported at its current level? It would be interesting to know whether the Minister has discussed with the Home Office in London how much money would be available for policing if it was to be devolved. You will know, Minister,

cael ei ddatganoli. Byddwch yn gwybod, Weinidog, fod prif gwnstabliaid Cymru wedi datgan y byddent yn llawer hapusach i fod yn atebol i Lywodraeth Cymru a Chynulliad Cenedlaethol Cymru. Maent yn teimlo y byddai’r trefniant hwnnw yn fwy ffafriol iddynt na bod yn atebol i San Steffan. Felly, byddai’n ddiddorol gwybod, Weinidog, ar ba lefel rydych wedi cynnal trafodaethau.

that Welsh chief constables have said that they would much rather report to the Welsh Government and to the National Assembly for Wales. They feel that such an arrangement would be much more beneficial to them than it is to report to Westminster. Therefore, it would be interesting to know, Minister, at which level you have held discussions.

Derbyniaf eich bod yn gweithio o fewn cyllideb gyfyngedig, ac y gallem i gyd ofyn am fwy o arian. Rwy’n derbyn hefyd, ar y cyfan, eich bod wedi ceisio gwneud yr hyn a allwch o fewn eich cyllideb i gynnal safon plismona yng Nghymru. Fodd bynnag, byddwch yn derbyn, rwy’n siŵr, fod pob prif gwnstabl wedi dweud y byddant yn wynebu toriadau—hyd yn oed os oes cynnydd yn y praesept. Mae’n rhaid iddynt edrych ar eu gwasanaethau a cheisio cwtogi heb effeithio’n ormodol ar lefel y gwasanaethau hynny yn ein cymunedau. A allwch gadarnhau y byddwch yn cefnogi awdurdodau heddlu Cymru wrth iddynt geisio codi’r praesept? Er enghraifft, fel y byddwch yn gwybod, mae Awdurdod Heddlu Dyfed-Powys wedi gwneud cais, ar ran y prif gwnstabl, am gynnydd o 5%. Deallaf fod hynny’n uwch na’r trothwy sydd wedi ei osod, ac y bydd yn rhaid cael eich cytundeb chi. A allwn gael ymrwymiad gennych y prynhawn yma y byddwch, yn yr achos hwnnw—ac yn achos awdurdodau heddlu eraill Cymru—yn ei gefnogi? Mae’n rhaid inni sicrhau’r cydweithrediad hwnnw er mwyn ceisio diogelu’r lefel blismona sydd gennym ar hyn o bryd yng Nghymru.

I accept that you are working to a limited budget, and that we could all ask for more money. I also accept that, on the whole, you have tried to do all that you can within your budget to maintain policing standards in Wales. However, I am sure that you will accept that all the chief constables have said that they are facing having to make cuts—even if there is an increase in the precept. They have to look at the services that they provide and try to cut back without impacting too adversely on the level of services in our communities. Can you confirm that you will support Welsh police authorities as they try to increase the precept? For example, Dyfed-Powys Police Authority has asked, on behalf of the chief constable, for an increase of 5%. I understand that that is above the threshold set, and that you will have to agree to it. Can you give a commitment this afternoon that you will support that increase—along with that for Wales’s other police authorities? We must secure that co-operation in order to safeguard the policing levels that we currently enjoy in Wales.

Rydym yn hynod o ffodus gyda lefelau troseddu yng Nghymru. Deallaf fod natur cymunedau Cymru yn wahanol i rannau eraill o’r Deyrnas Unedig, ond mae lefelau troseddu yn gymharol isel yma, ac mae’n rhaid inni sicrhau ein bod yn rhoi pob cefnogaeth i heddluoedd ledled Cymru i sicrhau bod hynny’n parhau. Os cawn y sicrwydd hwnnw gennych y prynhawn yma, rydym yn derbyn eich bod yn gweithio mewn amodau digon anodd a chaled, ac rydym yn barod i gefnogi’r cynnig os bydd pleidlais.

In Wales, we are very lucky with crime levels. I understand that the nature of Welsh communities is different to that of other parts of the United Kingdom, but crime levels are relatively low here, and we must ensure that we give Welsh police forces every assistance to ensure that that continues. If we can get that assurance from you this afternoon, we accept that you are working in quite difficult conditions and we are willing to support the motion if there is a vote.

5.15 p.m.

**Joyce Watson:** I am sure that no-one is

**Joyce Watson:** Rwy’n siŵr nad oes yr un

under any illusion about the sheer scale of cuts imposed by the Westminster Government, which are hitting our police forces really hard. The steepest cuts have come in the first two years, making it even harder to make long-term savings and putting more pressure on police forces to cut their numbers of staff and officers. Figures show that we are seeing the biggest fall in the numbers of police in decades at the same time as we are seeing the biggest increase in crimes such as sexual assault and robbery. The chief constable of Dyfed-Powys Police, Ian Arundale, has described the funding crisis as a watershed moment for policing in Mid and West Wales. He said that he is genuinely concerned about how he will be able to protect his communities and bring criminals to justice if his force has to reduce its strength by any more than it already has.

ohonom wedi'n twyllo ynghylch dyfnder toriadau Llywodraeth San Steffan, sy'n cael effaith enbyd ar ein heddluoedd. Mae'r toriadau mwyaf wedi dod yn ystod y ddwy flynedd gyntaf, gan ei gwneud hyd yn oed yn anoddach i wneud arbedion tymor hir, sy'n rhoi mwy o bwysau ar heddluoedd i leihau nifer eu staff a'u swyddogion. Mae ffigurau'n dangos ein bod yn gweld y gostyngiad mwyaf yn nifer yr heddlu ers degawdau ar yr un pryd â'r cynnydd mwyaf mewn troseddau fel ymosodiad rhywiol a lladrata. Mae Ian Arundale, prif gwnstabl Heddlu Dyfed-Powys, wedi disgrifio'r argyfwng ariannu fel trobwynt i blismona yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru. Dywedodd ei fod yn poeni'n arw am sut y bydd yn gallu diogelu ei gymunedau a dod â throseddwyr o flaen eu gwell os bydd ei heddlu'n cael ei wanhau'n fwy nag sydd wedi digwydd yn barod.

Dyfed-Powys Police has already taken some very tough decisions. Between March 2010 and last September alone, 50 police officer posts were cut and 165 staff were let go. We have also seen police stations close. However, keeping our streets safe remains a top priority for people in Mid and West Wales. That is why the Welsh Government's commitment to invest in 500 new police community support officers in this Assembly is crucial. We are doing what we can in Wales within our budget and powers to support our police and to keep our communities safe. In the Dyfed-Powys Police area, the first wave of recruits is already in training, and they will be a visible, reassuring presence in our communities, tackling anti-social behaviour and crimes such as domestic abuse.

Mae Heddlu Dyfed-Powys eisoes wedi gwneud rhai penderfyniadau anodd iawn. Rhwng mis Mawrth 2010 a mis Medi diwethaf, collwyd 50 o swyddi heddweision a chollodd 165 o staff eu swyddi. Rydym hefyd wedi gweld gorsafoedd heddlu yn cau. Fodd bynnag, mae diogelu ein strydoedd yn parhau i fod yn flaenoriaeth i bobl yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru. Dyna pam mae ymrwymiad Llywodraeth Cymru i fuddsoddi mewn 500 o swyddogion cymorth cymunedol yr heddlu yn ystod tymor y Cynulliad hwn yn hanfodol. Rydym yn gwneud yr hyn y gallwn yng Nghymru o fewn ein cyllideb a'n pwerau i gefnogi ein heddlu ac i gadw ein cymunedau'n ddiogel. Yn ardal Heddlu Dyfed-Powys, mae'r don gyntaf o recriwtiaid eisoes yn cael ei hyfforddi, a byddant yn bresenoldeb gweledol a chalonogol yn ein cymunedau, ac yn mynd i'r afael ag ymddygiad gwrthgymdeithasol a throseddau megis cam-drin domestig.

What worries me and many people is that the Tories and Lib Dems in Westminster are concerned only with cutting costs, and not with cutting crime. The Westminster Government has turned its back on the police. Individual police forces have had to come up with plans for dealing with the financial realities. They have adopted different approaches and ways of driving down costs. There has been talk of using regulation A19 to retire officers with 30 years of service,

Yr hyn sy'n fy mhoeni i a llawer o bobl eraill yw bod y Torïaid a'r Democratiaid Rhyddfrydol yn San Steffan ond yn poeni am dorri costau, yn hytrach na chanolbwyntio ar dorri cyfraddau troseddu hefyd. Mae Llywodraeth San Steffan wedi troi ei chefn ar yr heddlu. Mae heddluoedd unigol wedi gorfod creu cynlluniau i ddygymod â'r realiti ariannol. Maent wedi mabwysiadu dulliau gwahanol a ffyrdd o leihau costau. Bu sôn am ddefnyddio rheoliad A19 i sicrhau bod

including some of the forces' most experienced officers. There are a range of options on the table with regard to compulsory redundancies for police staff, taking police officers from front-line duties to backfill their roles, police station closures and the critical mass of back-office support staff. We must monitor and evaluate the impact that these decisions have on crime in our communities to ensure that we can mitigate the worst effects of these cuts.

swyddogion yn ymddeol ar ôl 30 mlynedd o wasanaeth, gan gynnwys rhai o swyddogion mwyaf profiadol yr heddluoedd. Mae ystod o opsiynau yn cael ei hystyried o ran diswyddo staff yr heddlu yn orfodol, cymryd swyddogion yr heddlu o ddyletswyddau rheng flaen i adlenwi'r rolau hyn, cau gorsafoedd heddlu a'r màs critigol o staff cymorth mewn swyddfeydd cefn. Mae'n rhaid inni fonitro a gwerthuso effaith y penderfyniadau hyn ar droseddau yn ein cymunedau i sicrhau y gallwn liniaru effeithiau gwaethaf y toriadau.

**Peter Black:** It has been quite instructive to watch some of the Labour Members opposite enjoying the luxury of opposition while still being in Government. We all recognise the difficult circumstances that the country and the police forces, in particular, face as a result of what has had to take place at Westminster. The point has already been made, in relation to police force cuts, that Ed Miliband himself has recognised that it needed to be done and has said that he would have done the same. If we follow the history of debates about police funding in this Chamber—and I have been a Member for as long as anyone here, I think—in previous years, South Wales Police has come to Assembly Members to say that it needed more resources, particularly when its funding was capped at a Welsh level rather than an England level, so it was not able to increase council tax to get the resources that it needed. In the last year of the previous Labour UK Government, funding for police forces was also cut.

**Peter Black:** Mae wedi bod yn eithaf addysgiadol gwylio rhai o'r Aelodau Llafur yn mwynhau bod yn wrthblaid wrth barhau i fod mewn Llywodraeth. Rydym oll yn cydnabod yr amgylchiadau anodd y mae'r wlad a'r heddlu, yn arbennig, yn eu hwynebu o ganlyniad i'r hyn sydd wedi gorfod digwydd yn San Steffan. Mae'r pwynt eisoes wedi'i wneud, mewn perthynas â thoriadau i'r heddlu, bod Ed Miliband ei hun wedi cydnabod bod angen gwneud y toriadau hyn, ac wedi dweud y byddai wedi gwneud yr un peth. Os byddwn yn dilyn hanes y dadleuon ar gyllid yr heddlu yn y Siambr hon—credaf fy mod wedi bod yn Aelod cyhyd ag unrhyw un arall—mewn blynyddoedd blaenorol, mae Heddlu De Cymru wedi dweud wrth Aelodau'r Cynulliad bod angen mwy o adnoddau arnynt, yn enwedig pan gafodd ei gyllid ei gapio ar lefel Cymru yn hytrach nag ar lefel Lloegr, felly nid oedd yn gallu cynyddu'r dreth gyngor i gael yr adnoddau yr oedd eu hangen arno. Yn ystod blwyddyn olaf Llywodraeth Lafur flaenorol y DU, cafodd y cyllid ar gyfer heddluoedd ei dorri hefyd.

Therefore, the financial situation that police forces face today has not appeared overnight, but is the result of a gradual reduction in the resources available to the police, so that they have had to cut their cloth according to their means. I am not pretending that that is not going to make life difficult for police forces in terms of front-line policing. However, I think that when Mike Hedges argues that this is the worst settlement in decades that is a slight exaggeration to say the least.

Felly, nid yw'r sefyllfa ariannol y mae heddluoedd yn ei hwynebu wedi ymddangos dros nos; yn hytrach, mae'n ganlyniad i ostyngiad graddol yn yr adnoddau sydd ar gael i'r heddlu, fel eu bod wedi gorfod torri'r got yn ôl y brethyn. Nid wyf yn esgus nad yw hynny'n mynd i wneud bywyd yn anodd i heddluoedd o ran plismona rheng flaen. Fodd bynnag, credaf fod Mike Hedges yn gor-ddweud pethau ychydig, i ddweud y lleiaf, pan mae'n dadlau mai dyma'r setliad gwaethaf ers degawdau.

**Mike Hedges:** I did not say that it is the

**Mike Hedges:** Ni ddywedais mai dyma'r

worst settlement in decades, but that it is the worst that I can think of since the 1930s. I am quite happy for Peter Black to put me right on that: can he name a worse settlement since the 1930s?

setliad gwaethaf ers degawdau, ond mai dyma'r setliad gwaethaf y gallaf feddwl amdano ers y 1930au. Rwy'n ddigon hapus i Peter Black fy nghywiro am hynny: a all enwi setliad gwaeth ers y 1930au?

**Peter Black:** The point that I am making, Mike, is that not only would Labour, had it won the election, have done the same, but it is the cumulative impact of the cuts that has led to this situation. On the impact on the front line, we are all aware of the Wales Audit Office report, 'Sustaining value for money in the police service in Wales', and that the police forces are looking at how they deliver policing, but I am also aware that a number of police forces have put more officers on the beat and are improving front-line policing by making their back-office services more efficient and effective and saving money in that way. That is the right way to go about it. Certainly, partnership is now more important than ever, where the police forces are able to work with the Welsh Government—and I acknowledge the Government's commitment to 500 PCSOs—and with local government and other partners to deliver an effective response to crime and disorder in our communities. There was an example in Swansea yesterday in relation to closed-circuit television. Swansea council has invested huge amounts of money in CCTV in the city. At the moment, the police force contributes nothing to that, but benefits from that provision, which makes the policing of the city centre, in particular, much easier.

**Peter Black:** Y pwynt rwy'n ei wneud, Mike, yw y byddai'r Blaid Lafur, petai wedi ennill yr etholiad, wedi gwneud yr un peth, ac mai effaith gronnus y toriadau sydd wedi arwain at y sefyllfa hon. O ran yr effaith ar y rheng flaen, rydym oll yn ymwybodol o adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru, 'Cynnal gwerth am arian yng ngwasanaeth yr heddlu yng Nghymru', a bod yr heddluoedd yn edrych ar sut y maent yn plismona, ond rwyf hefyd yn ymwybodol bod nifer o heddluoedd wedi rhoi mwy o swyddogion ar y strydoedd ac maent yn gwella plismona ar y rheng flaen drwy wneud eu gwasanaethau cefn swyddfa yn fwy effeithlon ac effeithiol a'u bod yn arbed arian yn y ffordd honno. Dyna'r ffordd gywir i fynd ati. Yn sicr, mae partneriaeth yn bwysicach yn awr nag erioed, lle mae'r heddluoedd yn gallu cydweithio â Llywodraeth Cymru—ac rwy'n cydnabod ymrwymiad y Llywodraeth i'r 500 o swyddogion cymorth cymunedol yr heddlu—ac â llywodraeth leol a phartneriaid eraill i lunio ymateb effeithiol i drosedd ac anhrefn yn ein cymunedau. Cafwyd enghraifft yn Abertawe ddoe mewn perthynas â theledu cylch cyfyng. Mae Cyngor Abertawe wedi buddsoddi symiau enfawr o arian mewn teledu cylch cyfyng yn y ddinas. Ar hyn o bryd, nid yw'r heddlu'n cyfrannu dim i hynny, ond mae'n elwa o'r ddarpariaeth, sy'n gwneud plismona canol y ddinas, yn arbennig, llawer yn haws.

Mike Hedges referred to Nick Clegg's pledge to 3,000 additional police officers. As Mike should know, although he was not a Member when we had a coalition Government here, any coalition Government's programme is, basically, the coalition document. Had the Liberal Democrats won a majority in the election and been able to implement their programme, it may well have been that Nick Clegg could have delivered those additional 3,000 police officers. However, we did not have—[*Interruption.*]

Cyfeiriodd Mike Hedges at addewid Nick Clegg i gyflogi 3,000 o heddweision ychwanegol. Fel y dylai Mike wybod, er nad oedd yn Aelod pan oedd gennym Lywodraeth glymbleidiol yma, yn y bôn, rhaglen unrhyw Lywodraeth glymblaid yw'r ddogfen glymbleidiol. Pe bai'r Democratiaid Rhyddfrydol wedi ennill mwyafrif yn yr etholiad ac wedi gallu gweithredu eu rhaglen, mae'n bosibl iawn y byddai Nick Clegg wedi gallu cyflogi'r 3,000 o heddweision ychwanegol hynny. Fodd bynnag, nid oedd gennym—[*Torri ar draws*.]

**The Deputy Presiding Officer:** Order. This

**Y Dirprwy Lywydd:** Trefn. Rydym yn

is important constitutional stuff. The Member is outlining an important principle and we should listen to him.

trafod materion cyfansoddiadol pwysig. Mae'r Aelod yn amlinellu egwyddor bwysig a dylem wrando arno.

**Peter Black:** I do like to dig my own hole, so please leave me to it. [*Laughter*.]

**Peter Black:** Rwy'n mwynhau palu twll i mi fy hun, felly rhowch lonydd i mi barhau. [*Chwerthin*.]

Had we achieved a majority, we could well have implemented that promise. However, we did not, we are working in coalition, and the programme for government is the coalition document. I will not go back over the history, but the resources that we have provided are what we are able to deliver, and we are doing the best that we can, given the very difficult economic situation, to fund the police forces and to give them the resources that they need for front-line policing.

Pe baem wedi sicrhau mwyafrif, gallem fod wedi gweithredu'r addewid hwnnw. Fodd bynnag, ni wnaethom hynny, rydym yn gweithio mewn clymblaid, a'r rhaglen lywodraethu yw dogfen y glymblaid. Nid wyf am ailadrodd yr hanes, ond yr adnoddau rydym wedi eu darparu yw'r rhai roeddem yn gallu eu darparu, ac rydym yn gwneud y gorau y gallwn, o ystyried y sefyllfa economaidd anodd iawn, i ariannu'r heddluoedd ac i roi'r adnoddau sydd eu hangen arnynt ar gyfer plismona rheng flaen.

We can always use more money, and every police force will say that it needs more money. However, in this situation, I am hopeful that we can deliver the front-line policing needed for our communities with the resources that have been announced as a result of this settlement.

Mae rhagor o arian bob tro'n ddefnyddiol, a bydd pob un o'r heddluoedd yn dweud bod angen mwy o arian arnynt. Fodd bynnag, yn y sefyllfa hon, rwy'n gobeithio y gallwn ddarparu'r plismona rheng flaen sydd ei angen ar ein cymunedau gyda'r adnoddau sydd wedi'u cyhoeddi o ganlyniad i'r setliad hwn.

**Byron Davies:** Ever since Sir Richard Mayne, the Home Secretary in 1829, launched the Metropolitan Police in London it has been one of the biggest political footballs that there has ever been. In those days it was unsophisticated, but today it is a very expensive part of our infrastructure. Therefore, it goes without saying that as elected representatives, taxpayers and residents of Wales we expect our police authorities in Wales to use all measures at their disposal to keep costs and precepts down to acceptable levels, making efficiencies and working in a collaborative effort with neighbouring forces. England's West Mercia Police Authority is an excellent example of this ethos in action. Mark Isherwood may have paid tribute to it already, but it deserves much praise. The authority has shown what can be done if police authorities make efficiency savings, use their reserves and work more closely with neighbouring forces. The force has been able to keep the precept down while protecting front-line services, which is a model that we

**Byron Davies:** Ers i Syr Richard Mayne, yr Ysgrifennydd Cartref yn 1829, lansio'r Heddlu Metropolitan yn Llundain, mae wedi bod yn un o'r peli troed gwleidyddol mwyaf dadleuol erioed. Yn y dyddiau hynny roedd yn ansoffistigedig, ond erbyn heddiw mae'n rhan ddrud iawn o'n hisadeiledd. Felly, mae'n amlwg ein bod ni, fel cynrychiolwyr etholedig, trethdalwyr a thrigolion Cymru yn disgwyl i'r awdurdodau heddlu yng Nghymru ddefnyddio'r holl fesurau sydd ar gael iddynt i gadw costau i lawr, cadw praeseptau at lefelau derbyniol, gwneud arbedion effeithlonrwydd a chydweithio gydag awdurdodau heddlu cyfagos. Mae Awdurdod Heddlu Gorllewin Mersia yn Lloegr yn enghraifft ardderchog o'r ethos hwn ar waith. Efallai bod Mark Isherwood wedi talu teyrnged iddo yn barod, ond mae'n haeddu canmoliaeth fawr. Mae'r awdurdod wedi dangos beth ellir ei wneud os yw awdurdodau'r heddlu yn gwneud arbedion effeithlonrwydd, yn defnyddio eu cronfeydd wrth gefn ac yn gweithio'n agosach â heddluoedd cyfagos. Mae'r heddlu hwnnw

should all aspire to, not just the police.

wedi gallu cadw'r praesept i lawr wrth ddiogelu gwasanaethau rheng flaen, sy'n fodel y dylai fod yn ddymuniad gennym oll.

I will not reiterate the percentage increases for all the forces, as other Members have covered the facts in great detail. However, I want to quickly talk about the need for our police authorities, and, shortly, police commissioners, to set the direction of policing. We are a nation that polices by consent and we should never forget that. We need policing that delivers value for money, like every other public service, as well as maintains the thin blue line. As a former police officer and manager responsible for the police budget, I know how difficult and unpredictable the job can be. Protecting spend for overtime for major inquiries is, of course, nigh on impossible, but it has to be managed.

Nid wyf am ailadrodd y cynnydd canrannol ar gyfer yr holl heddluoedd, oherwydd mae Aelodau eraill wedi nodi'r ffeithiau'n fanwl iawn. Fodd bynnag, rwyf am siarad yn gyflym am yr angen i awdurdodau'r heddlu, a chomisiynwyr yr heddlu cyn bo hir, bennu cyfeiriad plismona. Rydym yn genedl sy'n plismona drwy gydsyniad ac ni ddylem fyth anghofio hynny. Mae angen plismona sy'n sicrhau gwerth am arian, fel pob gwasanaeth cyhoeddus arall, yn ogystal â chynnal y llinell las denau. Fel cyn-swyddog yr heddlu a rheolwr a oedd yn gyfrifol am gyllideb yr heddlu, rwy'n gwybod pa mor anodd ac anrhagweladwy y gall y swydd fod. Mae diogelu gwariant goramser ar gyfer ymchwiliadau mawr, wrth gwrs, bron yn amhosibl, ond mae'n rhaid ei reoli.

Experience has taught me that the police service is very slow to encompass change. It has employed Victorian practices in officer deployment and, indeed, more so in its management structures. That said, areas such as outsourcing and sharing procurement have improved with regard to fleet vehicle purchases, standardised firearms and public order equipment so that officers from differing forces can work together. Here in Wales, we have an excellent example in Gwent Police. The force was mentioned in the HMIC report of July 2011, 'Adapting to Austerity'. It faces a huge funding gap of, I think, £24 million by 2014-15 and has identified plans to save more than this, so it can be achieved. Gwent Police has a track record in realising efficiencies. Its preferred options to achieve savings include collaboration and systems improvement. It is to be congratulated.

Mae profiad wedi dysgu i mi fod gwasanaeth yr heddlu yn araf iawn i gofleidio newid. Mae wedi rhoi arferion Fictoraidd ar waith wrth drefnu swyddogion ac, yn wir, mae hynny hyd yn oed yn fwy gwir am ei strwythurau rheoli. Wedi dweud hynny, mae meysydd fel contractau allanol a rhannu caffael wedi gwella o ran prynu cerbydau fflyd, drylliau safonol a chyfarpar y drefn gyhoeddus fel y gall swyddogion o heddluoedd gwahanol weithio gyda'i gilydd. Yma yng Nghymru, mae gennym enghraifft ardderchog yn Heddlu Gwent. Caiff yr heddlu hwnnw ei grybwyll yn adroddiad Arolygiaeth Cwnstabliaeth Ei Mawrhydi ym mis Gorffennaf 2011, 'Adapting to Austerity'. Mae'n wynebu bwlch ariannu enfawr o £24 miliwn erbyn 2014-15, rwy'n meddwl, ac mae wedi nodi cynlluniau i arbed mwy na hyn, fel y gellir eu cyflawni. Mae gan Heddlu Gwent enw da am wireddu arbedion effeithlonrwydd. Mae'r opsiynau a ffafrir ganddo i gyflawni arbedion yn cynnwys cydweithredu a gwella systemau. Dylid ei longyfarch am hynny.

For my part, I would like to see clear evidence of Welsh forces collaborating in order to reduce costs and provide value for money. Quite how far we take this collaboration is perhaps a matter for a future debate—a debate about efficiency savings,

O fy safbwynt i, hoffwn weld tystiolaeth glir bod heddluoedd Cymru yn cydweithio er mwyn lleihau costau ac yn cynnig gwerth am arian. Mater ar gyfer dadl yn y dyfodol, efallai, yw pa mor bell rydym yn mynd â'r cydweithio hwn—dadl ar arbedion

which must seek to reduce the enormous management structures that we have here in Wales and the bureaucracy for serving just 3 million people. It is not just about cutting the front line, but the top. It is about delivering a service that not only maintains the thin blue line but, above all, delivers value for money at an affordable cost.

effeithlonrwydd, sy'n gorfod ceisio lleihau'r strwythurau rheoli enfawr sydd gennym yng Nghymru a'r fiwrocratiaeth sy'n gysylltiedig â gwasanaethu ond 3 miliwn o bobl. Nid mater o dorri'r rheng flaen yn unig yw hwn, ond toriadau ar y brig. Mae'n ymwneud â darparu gwasanaeth sydd nid yn unig yn cynnal y llinell las denau ond, uwchlaw pob peth arall, yn sicrhau gwerth am arian am gost fforddiadwy.

**Rhodri Glyn Thomas:** You talk about cuts at the top. Do you think that a good start would be to do away with police commissioners in order to save money?

**Rhodri Glyn Thomas:** Rydych yn sôn am doriadau ar y brig. A ydych yn credu y byddai diddymu swydd comisiynwyr yr heddlu yn ddechrau da er mwyn arbed arian?

**Byron Davies:** That is not a cut at the top. I am talking about—

**Byron Davies:** Nid toriad ar y brig fyddai hynny. Rwy'n sôn am—

**Rhodri Glyn Thomas:** How much further up can you go than the commissioner?

**Rhodri Glyn Thomas:** Faint yn uwch na chomisiynydd gallwch fynd?

**Byron Davies:** As you would know, had you read the documents, police commissioners are about a bottom-up approach. It is about representing the people at chief constable level. So that is not about cuts at the top.

**Byron Davies:** Fel y byddech yn gwybod, os fyddech wedi darllen y dogfennau, mae comisiynwyr yr heddlu yn rhan o ddull o'r gwaelod i fyny. Eu diben yw cynrychioli pobl ar lefel y prif gwnstabl. Nid toriadau ar y brig fyddai cael gwared arnynt.

This is about delivering a service that not only maintains the thin blue line but, above all, delivers value for money at an affordable cost to the most important people in this equation: the public, the taxpayers.

Mae hyn yn ymwneud â darparu gwasanaeth sydd nid yn unig yn cynnal y llinell las denau ond, uwchlaw pob peth arall, yn sicrhau gwerth am arian am gost fforddiadwy i'r bobl bwysicaf yn yr hafaliad hwn: y cyhoedd, y trethdalwyr.

**The Minister for Local Government and Communities (Carl Sargeant):** This is the second year of a two-year settlement announced by the Home Office in January 2011. The figures confirm the announcement made at that time. The use of a fixed settlement provides stability for authorities, assisting them with their budget planning. The funding floor has been set at -6.7% in 2012-13 so that every police authority in England and Wales will receive the same reduction in core funding. Total central funding for Welsh authorities in 2012-13 is £379.4 million, of which the Welsh Government is providing £151 million as revenue support grant and non-domestic rates. Funding for 2012-13, as I mentioned earlier, is not yet agreed.

**Y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau (Carl Sargeant):** Dyma'r ail flwyddyn o setliad dwy flynedd a gyhoeddwyd gan y Swyddfa Gartref ym mis Ionawr 2011. Mae'r ffigurau hyn yn cadarnhau'r cyhoeddiad a wnaed ar yr adeg honno. Mae defnyddio setliad sefydlog yn sicrhau sefydlogrwydd i awdurdodau, gan eu cynorthwyo i gynllunio eu cyllidebau. Mae canran o -6.7% wedi'i bennu ar gyfer yr arian gwaelodol yn 2012-13 fel bod pob awdurdod heddlu yng Nghymru a Lloegr gael yr un gostyngiad mewn cyllid craidd. Cyfanswm yr arian canolog ar gyfer awdurdodau Cymru yn 2012-13 yw £379.4 miliwn, a bydd Llywodraeth Cymru yn darparu £151 miliwn o'r cyfanswm hwnnw fel grant cynnal refeniw ac ardrethi annomestig. Nid yw'r cyllid ar gyfer 2012-13, fel y soniais yn

gynharach, wedi cael ei gytuno arno eto.

I will address some of the points that Members have made in this interesting debate today. I thank Mike Hedges and Joyce Watson for their contributions. Mike Hedges was quite right in referencing the HMIC report, saying that, with regard to the lessons of history, the decision by Labour, should it have been in Government in Westminster, to make a reduction in the budget would not have had an impact on front-line policing services, in contrast to the devastating and dire financial consequences that police forces right across England and Wales face today under the coalition Government of Westminster. I also thank the Member for recognising the Welsh Labour contribution in terms of the 500 PCSOs that will be rolled out across all our communities in the 22 local authorities in Wales.

Byddaf yn ymdrin â rhai o'r pwyntiau a wnaethpwyd gan Aelodau yn ystod y ddadl ddiddorol hon. Diolch i Mike Hedges a Joyce Watson am eu cyfraniadau. Roedd Mike Hedges yn hollol iawn wrth nodi adroddiad Arolygiaeth Cwnstabliaeth Ei Mawrhydi, ac wrth ddweud, o ran dysgu gwersi o'r gorffennol, na fyddai penderfyniad Llafur, pe byddai wedi ffurfio Llywodraeth yn San Steffan, i ostwng y gyllideb wedi effeithio ar wasanaethau plismona rheng flaen, yn wahanol i'r canlyniadau ariannol trychinebus ac enbyd y mae heddluoedd ledled Cymru a Lloegr yn eu hwynebu heddiw o dan Lywodraeth glymblaid San Steffan. Hefyd, diolchaf i'r Aelod am gydnabod cyfraniad Llafur Cymru o ran y 500 o swyddogion cymorth cymunedol yr heddlu a fydd yn cael eu cyflwyno ar draws ein holl gymunedau yn y 22 awdurdod lleol yng Nghymru.

Rhodri Glyn Thomas posed some interesting questions with regard to the devolution of policing. I think that he is aware of my support for this in principle. However, as I have said in the past, at the moment, the financial risk is too great. I have not had any detailed discussions with the Home Office about this matter, but I will consider that in the near future.

Gofynnodd Rhodri Glyn Thomas rai cwestiynau diddorol ynghylch datganoli plismona. Rwy'n meddwl ei fod yn ymwybodol fy mod yn cefnogi hyn mewn egwyddor. Fodd bynnag, fel y dywedais yn y gorffennol, ar hyn o bryd, mae'r risg ariannol yn rhy fawr. Nid wyf wedi cael trafodaethau manwl â'r Swyddfa Gartref ar y mater hwn, ond byddaf yn ystyried hynny yn y dyfodol agos.

5.30 p.m.

However, we cannot take policing in isolation to the judicial system in Wales. As the Member is aware, that is also an England and Wales function and I do believe that if you take one, you need the whole package to be compatible with the Welsh judiciary. The Member will also be aware that the Home Office has received a hatchet job of a reduction of 20% in its funding this year. There are huge consequences to such a reduction in the broad funding for policing.

Fodd bynnag, ni allwn ystyried plismona ar wahân i'r system farnwrol yng Nghymru. Fel y mae'r Aelod yn ymwybodol, mae honno hefyd yn swyddogaeth Cymru a Lloegr ac nid wyf yn credu, os ydych yn cymryd un, bod angen i'r pecyn cyfan fod yn gydnaws â barnwriaeth Cymru. Bydd yr Aelod hefyd yn ymwybodol bod y Swyddfa Gartref wedi derbyn gostyngiad sylweddol o 20% yn ei gyllid eleni. Mae canlyniadau difrifol i'r fath ostyngiad yn y cyllid cyffredinol ar gyfer plismona.

I was interested in Peter Black's contribution, and I am glad that he is a politician and not a police officer on a bike, because he is always back peddling, so the fact of the matter is that he will never get there. [*Laughter.*] The reality is that his party in Westminster is

Roedd cyfraniad Peter Black yn ddiddorol, ac rwy'n falch ei fod yn wleidydd ac nid yn heddwas ar gefn beic, oherwydd ei fod bob amser yn pedlo'n ôl, felly'r ffaith amdani yw na fydd byth yn cyrraedd. [*Chwerthin.*] Y realiti yw bod ei blaid yn San Steffan yn

supporting the Conservative-led Government and they are partly responsible for the 20% reduction in the Home Office budget. You cannot get away from that fact. The reality is that the Home Secretary has sharpened her stilettos and is pushing them through the heart of policing right across the UK.

cefnogi'r Llywodraeth dan arweiniad y Ceidwadwyr ac maent yn rhannol gyfrifol am y gostyngiad o 20% yng nghyllideb y Swyddfa Gartref. Ni allwch ddianc rhag y ffaith honno. Y gwir amdani yw bod yr Ysgrifennydd Cartref wedi miniogi ei sodlau pigfain ac yn eu gwthio drwy galon plismona ar draws y DU.

**Peter Black:** You must also acknowledge, Minister, that Ed Miliband said that he, too, would have made cuts in policing. The cuts that have been delivered by the Westminster Government are roughly equivalent to those planned by Alistair Darling before the last general election.

**Peter Black:** Rhaid i chi hefyd gydnabod, Weinidog, y dywedodd Ed Miliband y byddai ef, hefyd, wedi gwneud toriadau mewn plismona. Mae toriadau Llywodraeth San Steffan yn cyfateb yn fras i'r rhai a gynlluniwyd gan Alistair Darling cyn yr etholiad cyffredinol diwethaf.

**Carl Sargeant:** The Member clearly did not listen to a word that I said earlier. I talked about Her Majesty's Inspectorate of Constabulary's report. The recommendations that came from the then-Labour administration said that the reductions that were going to be introduced by the Labour Government would not have an impact on front-line policing. You have clearly not listened to that and have demonstrated it quite clearly.

**Carl Sargeant:** Mae'n amlwg nad oedd yr Aelod wedi gwrando ar yr un gair a ddywedais yn gynharach. Soniais am adroddiad Arolygiaeth Cwnstabliaeth Ei Mawrhydi. Dywedodd yr argymhellion a ddaeth o'r weinyddiaeth Lafur ar y pryd na fyddai'r gostyngiadau a oedd yn mynd i gael eu cyflwyno gan Lywodraeth Lafur yn cael effaith ar blismona rheng-flaen. Mae'n amlwg nad ydych wedi gwrando ar hynny ac rydych wedi dangos hynny yn gwbl glir.

**Mark Isherwood** *rose—*

**Mark Isherwood** *a gododd*—

**Carl Sargeant:** I will come on to the Member shortly and he can have a little go in a second. [*Laughter*.]

**Carl Sargeant:** Byddaf yn symud ymlaen i'r Aelod yn fuan a bydd cyfle iddo roi cynnig bach arni mewn eiliad. [*Chwerthin*.]

Contributions by Members have been interesting today, and, obviously, the Conservative group has been interested in its contribution too. If they had had a conference, we may have heard the police federation at their conference telling us exactly how many police officers we would be losing in Wales. Let me remind Members: on the basis of the funding that has been issued from Westminster, we will lose the equivalent of a whole Welsh police force—Mark Isherwood may want to contribute in a second—and that equates to the whole of North Wales Police being wiped off the map. That is not by chance; that is as a result of decisions made by the Home Secretary in Westminster having an effect on the people of Wales.

Mae cyfraniadau'r Aelodau wedi bod yn ddiddorol heddiw, ac, yn amlwg, roedd gan aelodau grŵp y Ceidwadwyr diddordeb yn eu cyfraniadau hwythau hefyd. Petaent wedi cynnal eu cynhadledd, efallai y byddem wedi clywed ffederasiwn yr heddlu yn dweud wrthym, yn eu cynhadledd, yn union faint o swyddogion yr heddlu y buasem yn eu colli yng Nghymru. Gadewch i mi atgoffa Aelodau: ar sail y cyllid a gyhoeddwyd gan San Steffan, byddwn yn colli cyfwerth ag un o heddluoedd Cymru yn ei gyfanrwydd—efallai y bydd Mark Isherwood am gyfrannu mewn eiliad—ac mae hynny'n cyfateb i Heddlu Gogledd Cymru yn diflannu'n llwyr. Nid yw hynny'n digwydd ar hap, mae'n ganlyniad i effeithiau penderfyniadau a wnaed gan yr Ysgrifennydd Cartref yn San Steffan ar bobl Cymru.

**Mark Isherwood:** You have now referred twice to the HMIC report and said that this was during the Labour Government's period. In fact, there were two HMIC reports: 'Sustaining value for money in the police service' in July 2010 and 'Police governance effectiveness: Police governance in austerity' in October 2010, both of which were after the UK general election. They said that the police force in England and Wales could save up to £1 billion without reducing police availability. They were talking about the UK Conservative and Liberal Democrat coalition Government, not about the Labour Government, which had left police funding cuts as its legacy.

**Mark Isherwood:** Rydych wedi cyfeirio ddwywaith at adroddiad yr arolygiaeth a dweud bod hyn yn ystod cyfnod y Llywodraeth Llafur. Y ffaith amdani yw y cafwyd dau adroddiad gan Arolygiaeth Cwnstabliaeth Ei Mawrhydi: 'Cynnal gwerth am arian yng ngwasanaeth yr heddlu' ym mis Gorffennaf 2010 a 'Police governance effectiveness: Police governance in austerity' ym mis Hydref 2010, y naill a'r llall ar ôl etholiad cyffredinol y DU. Roeddent yn sôn y gallai'r heddlu yng Nghymru a Lloegr arbed hyd at £1 biliwn heb leihau argaeledd yr heddlu. Sôn am Lywodraeth glymblaid y Ceidwadwyr a'r Rhyddfrydwyr Democratiaid yn y DU oeddynt, nid am y Llywodraeth Lafur, a oedd wedi gadael etifeddiaeth o doriadau yng nghyllideb yr heddlu.

**Carl Sargeant:** The stats man is up on his feet again, and he has made some interesting comments. If he wants some real facts and figures, he may want to cast his mind back to the time when he and his colleagues voted for an increase in the precept in north Wales and, instead of capping it at 5%, he increased it to 6.75% with his backbench colleagues over on the other side of the Chamber. The gearing effect in north Wales alone, the area that he supposedly represents, has a huge consequence in terms of funding across that area. You were a police authority member, Mr Millar, and I will gladly take an intervention.

**Carl Sargeant:** Mae'r dyn ystadegau ar ei draed eto, ac mae wedi gwneud rhai sylwadau diddorol. Os hoffai rai ffeithiau a ffigurau go iawn, efallai yr hoffai fwrw golwg yn ôl ar yr amser pan bleidleisiodd ef a'i gyd-Aelodau dros gynnydd yn y praesept yn y gogledd ac, yn lle ei gapio ar 5%, bu iddo ei gynyddu i 6.75% gyda'i gydweithwyr ar y meinciau cefn ar ochr arall y Siambr. Mae'r effaith gerio yng ngogledd Cymru, yr ardal y mae ef i fod yn ei chynrychioli, wedi cael effaith enfawr o ran cyllid ar draws yr ardal honno. Roeddech yn aelod o awdurdod yr heddlu, Mr Millar, a byddaf yn falch i adael i chi dorri ar draws.

**Darren Millar:** I was the Conservative police authority member at that time and, as you know, I did not support any such increase in the precept.

**Darren Millar:** Fi oedd aelod Ceidwadol yr awdurdod heddlu ar y pryd ac, fel y gwyddoch, nid oeddwn yn cefnogi unrhyw gynnydd o'r fath yn y praesept.

**Carl Sargeant:** I love it: it is a 'not me, guv' scenario. It was not him, but it was all his brothers on the other side. [*Laughter.*]

**Carl Sargeant:** Rwyf wrth fy modd: mae'n sefyllfa 'nid y fi, syr'. Nid ef oedd ar fai, ond ei frodyr ar yr ochr draw. [*Chwerthin.*]

The effects of the Home Office Liberal Democrat and Conservative budget on policing in Wales will be devastating. We will try to do our best to mitigate the situation with Welsh Government support.

Bydd effaith cyllideb Swyddfa Gartref y Democratiaid Rhyddfrydol a'r Ceidwadwyr ar blismona yng Nghymru yn ddinistriol. Byddwn yn ceisio gwneud ein gorau i liniaru'r sefyllfa gyda chefnogaeth Llywodraeth Cymru.

**Y Dirprwy Lywydd:** Y cwestiwn yw a ddylid derbyn y cynnig. A oes unrhyw wrthwynebiad? Gwelaf fod, felly, gohiriaf y bleidlais tan y cyfnod pleidleisio.

**The Deputy Presiding Officer:** The proposal is to agree the motion. Is there any objection? I see that there is, therefore, I will defer the vote until voting time.

Os nad oes tri Aelod yn dymuno imi ganu'r gloch, symudaf yn syth i'r cyfnod pleidleiso. Gwelaf nad oes.

If three Members do not wish for the bell to be rung, I will move straight to voting time. I see that no-one does.

*Gohiriwyd y pleidleisio tan y cyfnod pleidleisio.*
*Voting deferred until voting time.*

## Cyfnod Pleidleisio
## Voting Time

*Gwelliant 4 i NDM4915: O blaid 16, Ymatal 7, Yn erbyn 29.*
*Amendment 4 to NDM4915: For 16, Abstain 7, Against 29.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Black, Peter
Ramsay, Nick
Millar, Darren
Graham, William
Davies, Andrew R.T.
Davies, Paul
Roberts, Aled
Parrott, Eluned
Powell, William
Isherwood, Mark
Asghar, Mohammad
Sandbach, Antoinette
George, Russell
Davies, Byron
Finch-Saunders, Janet
Davies, Suzy

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:
The following Members voted against:

Andrews, Leighton
Antoniw, Mick
Chapman, Christine
Cuthbert, Jeff
Davies, Alun
Davies, Keith
Drakeford, Mark
Evans, Rebecca
Gething, Vaughan
Gregory, Janice
Griffiths, John
Griffiths, Lesley
Hart, Edwina
Hedges, Mike
Hutt, Jane
James, Julie
Jones, Ann
Jones, Carwyn
Lewis, Huw
Mewies, Sandy
Morgan, Julie
Neagle, Lynne
Price, Gwyn R.
Rathbone, Jenny
Rees, David
Sargeant, Carl
Skates, Kenneth
Thomas, Gwenda
Watson, Joyce

Ymataliodd yr Aelodau canlynol:
The following Members abstained:

Davies, Jocelyn
Elis-Thomas, Yr Arglwydd/Lord
Jones, Alun Ffred
Jones, Ieuan Wyn
Thomas, Rhodri Glyn
Thomas, Simon
Whittle, Lindsay

*Gwrthodwyd y gwelliant.*
*Amendment not agreed.*

Cynnig NDM4915 fel y'i diwygiwyd:

Motion NDM4915 as amended:

*Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:*

*Yn nodi bod y Llywodraeth yn bwriadu adolygu ei dulliau o ymdrin ag adfywio yn unol ag agenda'r Llywodraeth gyfan o fynd i'r afael â thlodi a chefnogi twf economaidd.*

*Yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod Cymunedau yn Gyntaf, un o'i phrif raglenni ar gyfer adfywio cymunedol, yn dangos ei bod yn perfformio'n well drwy sicrhau bod gan y rhaglen dargedau clir, perthnasol a mesuradwy i fynd i'r afael â thlodi a bod cyllid wedi'i gyfeirio at gyrraedd y targedau hyn.*

*Yn galw ar Lywodraeth Cymru i sicrhau bod prosiectau adfywio yn canolbwyntio ar flaenoriaethau lleol sy'n atebol yn ddemocrataidd drwy gynyddu rôl cynghorau lleol yn y broses drwyddi draw.*

*Yn credu y gall canol tref bywiog chwarae rhan bwysig i adfywio economi cymuned.*

*To propose that the National Assembly for Wales:*

*Notes the Government's intention to review its approaches to regeneration in line with the whole Government agenda of tackling poverty and supporting economic growth.*

*Calls on the Welsh Government to ensure that Communities First, one of its key programmes for community regeneration, demonstrates improved performance by ensuring the programme has clear, relevant and measurable targets to tackle poverty and that funding is directed towards meeting these targets.*

*Calls on the Welsh Government to ensure that regeneration projects are focussed on democratically accountable local priorities by increasing the role that local councils play in the whole process.*

*Believes that vibrant town centres can play an important role in regenerating a community's economy.*

*Cynnig NDM4915 wedi'i ddiwygio: O blaid 40, Ymatal 0, Yn erbyn 12.*
*Motion NDM4915 as amended: For 40, Abstain 0, Against 12.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Andrews, Leighton
Sargeant, Carl
Gregory, Janice
Hutt, Jane
Jones, Carwyn
Hart, Edwina
Lewis, Huw
Griffiths, Lesley
Griffiths, John
Black, Peter
Davies, Jocelyn
Jones, Ieuan Wyn
Jones, Alun Ffred
Thomas, Gwenda
Davies, Alun
Cuthbert, Jeff
Mewies, Sandy
Hedges, Mike
Chapman, Christine
Davies, Keith
James, Julie
Roberts, Aled
Parrott, Eluned
Powell, William
Thomas, Rhodri Glyn
Thomas, Simon
Whittle, Lindsay

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:
The following Members voted against:

Asghar, Mohammad
Davies, Andrew R.T.
Davies, Byron
Davies, Paul
Davies, Suzy
Finch-Saunders, Janet
George, Russell
Graham, William
Isherwood, Mark
Millar, Darren
Ramsay, Nick
Sandbach, Antoinette

Elis-Thomas, Yr Arglwydd/Lord
Rees, David
Morgan, Julie
Skates, Kenneth
Antoniw, Mick
Gething, Vaughan
Watson, Joyce
Jones, Ann
Evans, Rebecca
Neagle, Lynne
Rathbone, Jenny
Drakeford, Mark
Price, Gwyn R.

*Derbyniwyd cynnig NDM4915 fel y'i diwygiwyd.*
*Motion NDM4915 as amended agreed.*

*Cynnig NDM4916: O blaid 40, Ymatal 0, Yn erbyn 12.*
*Motion NDM4916: For 40, Abstain 0, Against 12.*

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol o blaid:
The following Members voted for:

Andrews, Leighton
Antoniw, Mick
Black, Peter
Chapman, Christine
Cuthbert, Jeff
Davies, Alun
Davies, Jocelyn
Davies, Keith
Drakeford, Mark
Elis-Thomas, Yr Arglwydd/Lord
Evans, Rebecca
Gething, Vaughan
Gregory, Janice
Griffiths, John
Griffiths, Lesley
Hart, Edwina
Hedges, Mike
Hutt, Jane
James, Julie
Jones, Alun Ffred
Jones, Ann
Jones, Carwyn
Jones, Ieuan Wyn
Lewis, Huw
Mewies, Sandy
Morgan, Julie
Neagle, Lynne
Parrott, Eluned
Powell, William
Price, Gwyn R.
Rathbone, Jenny
Rees, David
Roberts, Aled
Sargeant, Carl
Skates, Kenneth
Thomas, Gwenda
Thomas, Rhodri Glyn
Thomas, Simon
Watson, Joyce
Whittle, Lindsay

Pleidleisiodd yr Aelodau canlynol yn erbyn:
The following Members voted against:

Asghar, Mohammad
Davies, Andrew R.T.
Davies, Byron
Davies, Paul
Davies, Suzy
Finch-Saunders, Janet
George, Russell
Graham, William
Isherwood, Mark
Millar, Darren
Ramsay, Nick
Sandbach, Antoinette

*Derbyniwyd y cynnig.*

*Motion agreed.*

**Y Dirprwy Lywydd:** Daw hynny â thrafodion heddiw i ben.

**The Deputy Presiding Officer:** That brings today’s proceedings to a close.

*Daeth y cyfarfod i ben am 5.36 p.m.*
*The meeting ended at 5.36 p.m.*

**Aelodau a’u Pleidiau**
**Members and their Parties**

Andrews, Leighton (Llafur – Labour)
Antoniw, Mick (Llafur – Labour)
Asghar, Mohammad (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Black, Peter (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
Burns, Angela (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Butler, Rosemary (Llafur – Labour)
Chapman, Christine (Llafur – Labour)
Cuthbert, Jeff (Llafur – Labour)
Davies, Alun (Llafur – Labour)
Davies, Andrew R.T. (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Davies, Byron (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Davies, Jocelyn (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Davies, Keith (Llafur – Labour)
Davies, Paul (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Davies, Suzy (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Drakeford, Mark (Llafur – Labour)
Elis-Thomas, Yr Arglwydd/Lord (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Evans, Rebecca (Llafur – Labour)
Finch-Saunders, Janet (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
George, Russell (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Gething, Vaughan (Llafur – Labour)
Graham, William (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Gregory, Janice (Llafur – Labour)
Griffiths, John (Llafur – Labour)
Griffiths, Lesley (Llafur – Labour)
Gruffydd, Llyr Huws (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Hart, Edwina (Llafur – Labour)
Hedges, Mike (Llafur – Labour)
Hutt, Jane (Llafur – Labour)
Isherwood, Mark (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
James, Julie (Llafur – Labour)
Jenkins, Bethan (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Jones, Alun Ffred (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Jones, Ann (Llafur – Labour)
Jones, Carwyn (Llafur – Labour)
Jones, Elin (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Jones, Ieuan Wyn (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Lewis, Huw (Llafur – Labour)
Melding, David (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Mewies, Sandy (Llafur – Labour)
Millar, Darren (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Morgan, Julie (Llafur – Labour)
Neagle, Lynne (Llafur – Labour)
Parrott, Eluned (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
Powell, William (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
Price, Gwyn R. (Llafur – Labour)
Ramsay, Nick (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Rathbone, Jenny (Llafur – Labour)
Rees, David (Llafur – Labour)
Roberts, Aled (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
Sandbach, Antoinette (Ceidwadwyr Cymreig – Welsh Conservatives)
Sargeant, Carl (Llafur – Labour)
Skates, Kenneth (Llafur – Labour)
Thomas, Gwenda (Llafur – Labour)

Thomas, Rhodri Glyn (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Thomas, Simon (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Watson, Joyce (Llafur – Labour)
Whittle, Lindsay (Plaid Cymru – The Party of Wales)
Williams, Kirsty (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru – Welsh Liberal Democrats)
Wood, Leanne (Plaid Cymru – The Party of Wales)